



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru

Ionawr 2016

Rhagair

Mae Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn dibynnu ar arian y trethdalwr ac mae'r trethdalwr, yn gywir ddigon, yn disgwyl i ni ei wario'n ddoeth. Mae'n bwysig iawn y gall pobl yng Nghymru ymddiried yn eu gwasanaethau cyhoeddus, yn arbennig mewn cyfnod o galedi pan fydd pobl yn dibynnu ar y gwasanaethau hyn.

Mae *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* yn nodi'r prif egwyddorion ar gyfer rheoli adnoddau ac mae'r ddogfen wedi'i hanelu at sefydliadau a gwmpesir gan gyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru, ond dylai'r egwyddorion fod yn gymwys i bob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Nod y ddogfen hon yw esbonio sut i ymdrin ag arian cyhoeddus gyda chywirdeb ac er budd y cyhoedd a dylid ei darllen ar y cyd â *Managing Public Money* (a gyhoeddwyd gan Drysorlys ei Mawrhydi) er mwyn deall y darlun ehangach o brosesau ariannu a rheolaeth ariannol ar lefel y Deyrnas Unedig.

Mae *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* yn seiliedig, yn rhannol, ar *Managing Public Money*, ond mae'n ymgorffori'r agweddau penodol ar reolaeth ariannol sy'n deillio o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a'r setliad Datganoli sy'n esblygu. Mae'r un egwyddorion sylfaenol yn gymwys, ar y cyfan, ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig, wedi'u haddasu yn ôl y cyd-destun fel y bo angen. Dylai pawb sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig fod yn ymwybodol o'r angen i reoli a defnyddio adnoddau cyhoeddus yn gyfrifol, gan ystyried uniondeb, tryloywder a gwerth am arian.

Bydd adegau pan fydd y cyngor a geir yn y ddogfen hon yn newid dros amser. Mae'r gyfraith yn symud yn ei blaen; mae'r safonau a defnyddir ym myd busnes ac mewn bywyd cyhoeddus yn datblygu; mae technegau newydd yn ymddangos; mae disgwyliadau'r cyhoedd yn newid; a gall yr hinsawdd economaidd gael effaith sylweddol. Drwy bob un o'r newidiadau hyn, mae Senedd y Deyrnas Unedig a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn disgwyl, yn gywir ddigon, y caiff arian cyhoeddus, p'un a gaiff ei godi drwy drethi neu daliadau'r sector cyhoeddus, ei ddefnyddio'n briodol. Maent yn disgwyl i'r Trysorlys a Llywodraeth Cymru helpu gweision cyhoeddus i fodloni'r disgwyliadau hyn mewn modd tryloyw, cyfrifol a chyson. Mae cynnal safonau gweinyddiaeth gyhoeddus yn un o gyfrifoldebau mwyaf sylfaenol unrhyw un sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus.

Gall sefydliadau yn y sector cyhoeddus arloesi wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, gan ddefnyddio technoleg newydd a manteisio ar arfer da o ran effeithlonrwydd busnes, a dylent wneud hynny. Gallai hyn olygu mathau newydd o sefydliadau, trefniadau sefydliadol newydd neu ddulliau cyflawni newydd. Bydd angen gwerthuso pob un a'i roi ar waith yn ofalus er mwyn diogelu hawliau Senedd y Deyrnas Unedig a Chynulliad Cenedlaethol Cymru i awdurdodi a goruchwyllo'r modd y defnyddir adnoddau cyhoeddus. Fodd bynnag, ni ddylai *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* atal pobl rhag defnyddio eu synnwyr cyffredin.

Felly, os ydych yn gweithio gydag arian cyhoeddus mae'n hanfodol eich bod yn darllen y ddogfen hon. I gael rhagor o wybodaeth am y ddogfen *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* neu unrhyw wybodaeth a geir ynddi, cysylltwch â Blwch Post Uned Llywodraethu Cymru (CGU@cymru.gsi.gov.uk).

Cynnwys

Rhagair

1	Egwyddorion Llywodraethu Da	1
1.1	Egwyddorion	1
2	Defnyddio Arian Cyhoeddus	3
2.1	Amodau ar gyfer Defnyddio Arian Cyhoeddus	3
2.2	Rheoleidd-dra a Phriodoldeb	4
2.3	Sichrau Awdurdod Cyfreithiol Digonol	4
2.4	Gwasanaethau Newydd	4
2.5	Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru	5
3	Swyddogion Cyfrifyddu	6
3.1	Rôl y Swyddog Cyfrifyddu	6
3.2	Penodi Swyddogion Cyfrifyddu	6
3.3	Cyfrifoldebau Arbennig Swyddogion Cyfrifyddu	7
3.4	Cyngor i Weinidogion Cymru	9
3.5	Pwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru	9
3.6	Os Nad yw'r Swyddog Cyfrifyddu ar Gael	10
3.7	Gwrthdaro Buddiannau	10
3.8	Cyrff Cyhoeddus	11
3.9	Yn Gyffredinol	12
4	Llywodraethu a Rheoli	13
4.1	Strwythur Llywodraethu	13
4.2	Dulliau o Weithio	14
4.3	Cyfle a Risg	15
4.4	Yswiriant	16
4.5	Rheoli Gwariant Cyhoeddus	16
4.6	Derbyniadau	17
4.7	Trafodion Ariannol Ansafonol	18
4.8	Amgylchiadau Anarferol	19
4.9	Staff	19
4.10	Asedau	20
4.11	Safonau Gwasanaeth	20
4.12	Cwynion	21
4.13	Tryloywder	21
4.14	Ymdrin â Mentrau	22
5.	Ariannu	25
5.1	Y Fframwaith ar gyfer Rheoli Gwariant Cyhoeddus	25
5.2	Amcangyfrifon Seneddol a Sut Maent yn Berthnasol i Gymru	26
5.3	Pennu Cyllideb Llywodraeth Cymru	27
5.4	Cyllidebau Atodol	28

5.5	Ymrwymïadau	29
5.6	Treth	29
5.7	Cyfalaf Difidend Cyhoeddus	29
5.8	Benthyca gan Sefydliadau yn y Sector Cyhoeddus	29
5.9	Benthyca o Ffynonellau Allanol	30
5.10	Ffynonellau Lluosog o Arian	30
5.11	Rheoli Arian Parod	30
5.12	Technegau Ariannu Eraill	31
6	Ffioedd, Taliadau ac Ardollau	32
6.1	Pam Mae Taliadau yn Bwysig	32
6.2	Egwyddor Sylfaenol	32
6.3	Pennu Tâl: Arfer Safonol	33
6.4	Pennu Tâl: Dulliau Ansafonol	35
6.5	Ardollau	36
6.6	Gwasanaethau Masnachol	36
6.7	Datgelu	37
6.8	Pwyso a Mesur	37
7	Gweithio Gydag Eraill	39
7.1	Yr Achos dros Weithio mewn Partneriaeth	39
7.2	Sefydlu Cyrff Cyhoeddus Newydd	40
7.3	Beth y Dylid Cael Eglurdeb yn ei Gylch mewn Cytundebau Partneriaeth	41
7.4	Asiantaethau	43
7.5	Cydweithio	43
7.6	Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru	44
7.7	Corfforaethau Cyhoeddus	45
7.8	Cronfeydd Masnachu	46
7.9	Adrannau Anweinidogol	47
7.10	Llywodraeth Leol	47
7.11	Strwythurau Arloesol	48
7.12	Darparu drwy Gontract Allanol	48
7.13	Cyllid Preifat	49
7.14	Gweithgarwch Masnachol	49
7.15	Gweithio gyda Chyrff y Trydydd Sector	50
7.16	Gweithio gyda Chomisiynwyr	51
	Geirfa	52
	Atodiad 2.1 Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru	63
	Atodiad 3.1 Datganiad Llywodraethu	65
	Diben	65
	Paratoi'r Datganiad Llywodraethu	65
	Cynnwys y Datganiad Llywodraethu	66
	Lleoliaeth	68
	Archwiliad Allanol	68

Atodiad 3.2	Gwrthdaro Buddiannau	69
	Canlyniadau	69
	Rheoli Gwrthdaro	69
Atodiad 4.1	Cyfarwyddwyr Cyllid	71
	Y Swyddogaeth Gyllid	71
	Arweiniad Ariannol	71
	Disgyblaeth Ariannol Fewnol	73
Atodiad 4.2	Risg	74
	Yr Achos dros Reoli Risg	74
	Rheoli Risg yn Ymarferol	74
	Nodi Risgiau	75
	Ymateb i Risg	76
	Y Bwrdd	77
	Grwpiau Adrannol	78
Atodiad 4.3	Yswiriant	79
	Arfarnu'r Opsiynau	80
	Pennu Ffioedd a Thaliadau	80
	Gweinyddu Hawliadau	80
	Ymdrin â Cholledion	80
	Hawliadau rhwng Sefydliadau Sector Cyhoeddus	81
	Cerbydau	82
	Benthyciadau	82
	Atebolwydd Cyflogwyr	82
Atodiad 4.4	Unallocated	
Atodiad 4.5	Caffael	84
	Gwerth am Arian	86
	Fframwaith Cyfreithiol	87
	Y Broses Gaffael a Chyflenwyr	87
	Caffael Cydweithredol	88
	Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol	89
	Trethi	89
	Canllawiau pellach	90
Atodiad 4.6	Cymorth Gwladwriaethol	91
Atodiad 4.7	Gwariant a Thaliadau	94
	Taliadau y Tu Allan i'r Patrwm Arferol	94

Atodiad 4.8	Twyll	96
	Asesu Pa Mor Agored i Dwyll yw Sefydliad	96
	Gwerthuso Graddau'r Risg o Dwyll	96
	Ymateb i'r Risg o Dwyll	97
	Rhoi Gwybod am Achosion o Dwyll	97
Atodiad 4.9	Colledion a Symiau a Ddilëwyd	98
	Lefelau o Ddirprwyaeth	98
	Ffactorau i'w Hystyried	99
	Hysbysu Cynulliad Cenedlaethol Cymru	99
	Cofnodion o Golledion a Hawliadau	100
	Cyfrif am Golledion Arian Parod	100
	Colledion Storfeydd	101
	Taliadau Ofer	101
	Colledion Adeiladol	102
	Hawliadau a Ildiwyd neu y Rhoddwyd y Gorau Iddynt	102
Atodiad 4.10	Gordaliadau	104
	Taliadau a Wneir Gyda Chaniatâd Cynulliad Cenedlaethol Cymru	105
	Didwylledd	105
	Twyll	106
	Costeffeithiolrwydd	106
	Amddiffyniadau Rhag Adennill Symiau a Ordalwyd	106
	Treigl Amser	106
	Newid yn y Sefyllfa	107
	Estopel	107
	Cydnabyddiaeth Dda	107
	Caledi	107
	Gordaliadau Cyfunol	108
Atodiad 4.11	Rhoddion	109
	Rhoi Rhoddion	109
	Rhoddion a Dderbyniwyd	110
Atodiad 4.12	Taliadau Arbennig	111
	Ymdrin â Thaliadau Arbennig	111
	Taliadau Diswyddo Arbennig	113
	Taliadau Cadw	114
	Cofnodi	115
Atodiad 4.13	Rhwymedi	116
	Ymdrin â Chwynion	116
	Rhwymediau	116
	Y Rhwymediau Sydd ar Gael	117
	Llunio Rhwymediau	117
	Ymgynghoriad	119
	Cofnodi Taliadau Ex Gratia	119

Atodiad 4.14 Rheoli Asedau	120
Cofrestr o Asedau	120
Strategaethau Rheoli Asedau	121
Gwelliannau Effeithlonrwydd	122
Trosglwyddo Eiddo	123
Gwaredu Asedau Eiddo a Thir	123
Atodiad 5.1 Grantiau	125
Cymorth Ariannol i Gyrrff Allanol	125
Talu	125
Rheolaeth	126
Diogelu Asedau Cyhoeddus	126
Gwaddolion	126
Atodiad 5.2 Diogelu Buddsoddiadau Cyhoeddus	128
Adfachu	128
Llunio Amodau Adfachu	129
Hyd Arwystl	130
Gorfodi Hawliad ar Ased a Ariannwyd	131
Atodiad 6.1 Sut i Gyfrifo Taliadau	132
Cyflwyno Gwasanaeth Newydd neu Wasanaeth Wedi'i	
Ddiweddarau Lle Codir Tâl Amdano	132
Mesur Cost Lawn Gwasanaeth	132
Amcanion Ariannol	134
Gwargedau a Diffygion Damweiniol	134
Atodiad 6.2 Codi Tâl am Wybodaeth	135
Hawliau Mynediad	135
Gwybodaeth y Codir Tâl Amdani	135
Atodiad 6.3 Cyfraith Cystadleuaeth	137
Prisio mewn Marchnadoedd Cystadleuol	137
Cyflawni Amcanion Ariannol	138
Cymryd Pethau Ymhellach	138
Atodiad 7.1 Ffurio a Diwygio Cyrff Cyhoeddus	139
Rhesymeg Cyrff Cyhoeddus	139
Sefydlu Corff Cyhoeddus Newydd	139
Diwygio Cyrff Cyhoeddus	141
Atodiad 7.2 Llunio Dogfennau Fframwaith	143
Diben y Corff Cyhoeddus	143
Llywodraethu ac Atebolrwydd	143
Rheolwyr a Chyfrifoldebau Ariannol	145

Atodiad 7.3	Cronfeydd Masnachu	146
	Cynigion am Statws Cronfa Fasnachu	146
	Cyfalaf Difidend Dyhoeddus	146
	Monitro a Rheoli	146
Atodiad 7.4	Gweithio Gyda'r Trydydd Sector	148
	Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector	148
	Cod Ymarfer ar gyfer Cyllid	149

Rhestr o'r blychau gwybodaeth

Blwch 2.1	Rheoleidd-dra a Phriodoldeb	4
Blwch 3.1	Safonau a ddisgwyllir gan sefydliad y swyddog cyfrifyddu	7
Blwch 4.1	Arfer gorau i fyrddau	13
Blwch 4.2	Penderfyniadau allweddol i fyrddau	14
Blwch 4.3	Hanfodion prosesau gwneud penderfyniadau mewnol effeithiol	14
Blwch 4.4	Hanfodion systemau ar gyfer neilltuo a thalu arian	17
Blwch 4.5	Hanfodion systemau ar gyfer casglu symiau sy'n ddyledus	18
Blwch 4.6	Enghreifftiau o gynlluniau pragmataidd untro	19
Blwch 4.7	Sefydliadau yn y sector cyhoeddus fel cyflogwyr da	20
Blwch 4.8	Ffactorau i'w hystyried wrth gynllunio polisïau neu brosiectau	23
Blwch 5.1	Elfennau cyllidebau adnoddau	25
Blwch 6.1	Sut y gellir codi taliadau gwahanol am gategoriâu gwahanol o wasanaeth	34
Blwch 6.2	Cydwasaethau	35
Blwch 6.3	Adolygu gwasanaeth cyhoeddus y codir tâl amdano	38
Blwch 7.1	Materion i bartneriaethau ag aelodau o'r sector cyhoeddus	39
Blwch 7.2	Telerau fframwaith ar gyfer cytundebau partneriaeth	41
Blwch 7.3	Enghreifftiau o weithgareddau cydgysylltiedig	44
Blwch 7.4	Ffynonellau cyllid ar gyfer Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru	45
Blwch 7.5	Telerau amlinellol ar gyfer perthynas â chorfforaeth gyhoeddus	46
Blwch 7.6	Ffynonellau cyfalaf ar gyfer cronfeydd masnachu	47
Blwch 7.7	Cynllunio ar gyfer elwa'n fasnachol ar asedau presennol	50
Blwch A3.1A	Nodweddion hanfodol y datganiad llywodraethu	67
Blwch A3.1B	Penderfynu beth i'w gynnwys yn y datganiad llywodraethu	68
Blwch A3.2A	Enghreifftiau o wrthdaro buddiannau	69
Blwch A4.1A	Rôl y cyfarwyddwr cyllid	72
Blwch A4.1B	Arweiniad rheolaeth ariannol	73
Blwch A4.1C	Rheolaeth ariannol	73
Blwch A4.2A	Nodi'r cylch rheoli risg	75
Blwch A4.2B	Enghreifftiau o risg y mae'n hawdd peidio â'u gweld	75
Blwch A4.2C	Rhai ymatebion safonol i risg	76
Blwch A4.2D	Rheolaethau cyffredin	77
Blwch A4.3A	Lle y gellir cyfiawnhau yswiriant masnachol	79
Blwch A4.3B	Costau a buddiannau y gellid eu cynnwys mewn asesiadau	80
Blwch A4.3C	Ymdrin â hawliadau rhwng sefydliadau sector cyhoeddus	81
Blwch A4.5A	Rhestr wirio o gyfrifoldebau prynu allweddol	85
Blwch A4.5B	Sicrhau gwerth am arian	86
Blwch A4.5C	Y fframwaith cyfreithiol ar gyfer caffael cyhoeddus	87

Blwch A4.5D	Cyberthnasau â chyflenwyr	88
Blwch A4.6A	Nodweddion cymorth gwladwriaethol	91
Blwch A4.6B	Canllawiau pellach	93
Blwch A4.9A	Enghreifftiau o golledion	98
Blwch A4.9B	Enghreifftiau o daliadau ofer	101
Blwch A4.9C	Enghreifftiau o hawliadau a ildwyd neu y rhoddwyd y gorau iddynt	102
Blwch A4.10A	Rhesymau posibl dros ordaliadau	104
Blwch A4.11A	Diffiniad o roddion	109
Blwch A4.12A	Taliadau arbennig	112
Blwch A4.12B	Ffactorau i'w hystyried mewn achosion sy'n cynnwys taliadau diswyddo arbennig	114
Blwch A4.13A	Ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu a yw iawndal ariannol yn briodol	117
Blwch A4.13B	Materion i'w hystyried wrth lunio cynlluniau iawndal	118
Blwch A4.14A	Prif gategoriâu o asedau sector cyhoeddus	121
Blwch A4.14B	Camau i ddatblygu cynlluniau rheoli asedau	122
Blwch A4.14C	Protocol ar gyfer trosglwyddo asedau	123
Blwch A4.14D	Protocol ar gyfer gwaredu tir, eiddo ac asedau eraill	124
Blwch A5.2A	Pryd i ystyried adfachu	128
Blwch A5.2B	Ffactorau i'w hystyried wrth lunio telerau adfachu	129
Blwch A5.2C	Opsiynau ar gyfer hyd hawl adfachu neu asedau fel sicrwydd cyfochrog	130
Blwch A6.1A	Elfennau cost wrth fesur ffioedd	133
Blwch A6.3A	Canllawiau Pellach	138
Blwch A7.1A	Cymhariaeth o'r tri phrif fath o gyrff cyhoeddus mewn llywodraeth ganolog	140
Blwch A7.2A	Manylebau fframwaith	143
Blwch A7.3A	Y prif gamau wrth brosesu ceisiadau ar gyfer statws cronfa fasnachu	147

Pennod 1

Egwyddorion Llywodraethu Da

1.1 Egwyddorion

1.1.1 Mae pawb sy'n gweithio yn y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru yn rhannu cyfrifoldeb personol am warchod arian y trethdalwyr, boed hynny drwy reoli cyllidebau, asedau neu eu hamser eu hunain. Mae *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* yn nodi'r fframwaith a'r egwyddorion y mae'n rhaid eu cymhwyso yn Llywodraeth Cymru, y Cyrff a Noddir ganddi, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru, ei Chomisiynwyr, Cyngor y Gweithlu Addysg, Estyn ac is-gyrff Llywodraeth Cymru. Dylai pawb sy'n gweithio yn y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru fod yn ymwybodol o'r angen i reoli a defnyddio adnoddau cyhoeddus yn gyfrifol ac er budd y cyhoedd.

1.1.2 Mae a wnelo hyn â chyflawni canlyniadau i ddinasyddion Cymru. Mae gofalu am arian trethdalwyr yn briodol yn golygu gwneud dau beth yn iawn ar yr un pryd; cyflawni'r canlyniadau a geisir gan y Gweinidogion ar ran pobl Cymru a chyflawni'r gwerthoedd a fynnir o fewn y gwasanaeth cyhoeddus.

1.1.3 Rhaid i sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus a ariennir gan Lywodraeth Cymru¹ fod â fframwaith llywodraethu sy'n eu galluogi i gyflawni eu canlyniadau a byw yn ôl gwerthoedd gwasanaeth cyhoeddus. Mae fframwaith llywodraethu Cymru yn seiliedig ar saith egwyddor a phan gânt eu cymhwyso i sefydliad, y bwriad yw creu 'tebygrwydd teuluol' rhwng sefydliadau a ariennir gan arian cyhoeddus yng Nghymru. Dylai pob sefydliad gynnwys yr egwyddorion canlynol yn eu fframwaith llywodraethu:

- **Rhoi'r dinesydd yn gyntaf** – rhoi'r dinesydd wrth wraidd popeth.
- **Gwybod pwy sy'n gwneud beth a pham** – sicrhau bod pawb sy'n rhan o'r gadwyn ddarparu yn deall rolau a chyfrifoldebau ei gilydd a sut y gallant, gyda'i gilydd, gyflawni'r canlyniadau gorau posibl.
- **Ymgysylltu ag eraill** – gweithio mewn partneriaethau adeiladol er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau i'r dinesydd.
- **Gwerthoedd gwasanaethau cyhoeddus byw** – bod yn sefydliad ac iddo werthoedd, sy'n coleddu egwyddorion Nolan a safonau uchel o ran bywyd cyhoeddus ac ymddygiad, gan gynnwys bod yn agored, cynnig safonau gwasanaeth i gwsmeriaid, amrywiaeth ac arweinyddiaeth sy'n ymgysylltu.
- **Meithrin dulliau cyflawni arloesol** – bod yn greadigol ac yn arloesol wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus – gweithio ar sail tystiolaeth, a chymryd risgiau wedi'u rheoli er mwyn sicrhau gwell canlyniadau.
- **Bod yn sefydliad sy'n dysgu** – yn dysgu drwy'r amser ac yn gwella'r ffordd y darperir gwasanaethau bob amser.
- **Sicrhau gwerth am arian** – gofalu am adnoddau trethdalwyr yn briodol, a'u defnyddio'n ofalus i ddarparu gwasanaethau effeithlon o safon uchel.

¹ Mae Llywodraeth Cymru'n cynnwys y Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru a benodwyd dan adran 48 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, y Cwnsler Cyffredinol a'r Dirprwy Weinidogion. Bydd y rhan fwyaf o'r swyddogaethau gweithredol wedi'u rhoi i Weinidogion Cymru felly mae'r adran hon yn canolbwyntio ar Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, dylid nodi mewn rhai achosion y gall swyddogaethau gael eu rhoi i'r Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol yn unig (ond byth i'r Dirprwy Weinidogion).

1.1.4 Mae dulliau arloesol o lunio a chyflawni polisiâu yn golygu y dylai gweision cyhoeddus fod yn barod i gymryd risgiau doeth, wedi'u rheoli'n dda. Wrth gwrs, bydd adegau lle na ddylid mentro, megis sicrhau nad yw'r sefydliad yn agored i'r risg o dwyll. Nid yw cymryd risgiau yn golygu bod gennych hawl i anwybyddu'r drefn briodol neu geisio ffordd o'i hosgoi – nid rheoli risg yw hynny, ond anwybyddu'n fwriadol y system a'r cyfrifoldebau corfforaethol y mae angen i bawb gadw atynt, ni waeth beth fo'u safle yn y sefydliad. Ond mae sawl maes arall wrth reoli arian cyhoeddus lle mae derbyn rhywfaint o risg yn hollol briodol a derbyniol – ar yr amod yr ymglymerir â'r risg gyda llygaid agored, ar ôl ystyried y gwersi a ddysgwyd o raglenni eraill, ar ôl ystyried natur y risgiau yn ofalus a'r canlyniadau tebygol pe baent yn dod yn wir, ac ar ôl gwneud popeth posibl i'w rheoli ymlaen llaw ac ar ôl nodi'n ofalus y meddylfryd a'r broses sydd wedi arwain at y cam hwn fel bod penderfyniad diamwys i fwrw ati wedi'i wneud.

1.1.5 Ynghyd â'r nodau corfforaethol hyn, mae gan bob unigolyn sy'n gweithio i'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru gyfrifoldeb i ymddwyn bob amser yn unol â Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus – *Egwyddorion Nolan*², sef:

- **Anhunanoldeb** – Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu er lles y cyhoedd yn unig. Ni ddylent wneud hynny er mwyn iddynt hwy, eu teulu neu eu ffrindiau, elwa'n ariannol neu elwa mewn ffordd arall.
- **Uniondeb** – Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus osod eu hunain mewn sefyllfa o ddyled ariannol neu unrhyw ddyled arall i sefydliadau neu unigolion allanol a allai geisio dylanwadu ar y ffordd y maent yn perfformio'u dyletswyddau swyddogol.
- **Gwrthrychedd** – Wrth gyflawni busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau, neu argymhell unigolion ar gyfer gwobrwyon neu fuddiannau, dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud penderfyniadau yn ôl haeddiant.
- **Atebolrwydd** – Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd a rhaid iddynt wneud eu hunain yn destun pa bynnag archwiliad sy'n addas i'w swydd.
- **Bod yn agored** – Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod mor agored â phosibl ynghylch yr holl benderfyniadau a gweithrediadau a wneir ganddynt. Dylent roi rhesymau am eu penderfyniadau a pheidio â chyfyngu ar yr wybodaeth onid oes angen am hynny er budd ehangach y cyhoedd.
- **Gonestrwydd** – Mae'n ddyletswydd ar ddeiliaid swyddi cyhoeddus i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus a dylent gymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro a allai godi mewn modd sy'n diogelu buddiannau cyhoeddus.
- **Arweinyddiaeth** – Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus hyrwyddo ac ategu'r egwyddorion hyn drwy arweinyddiaeth ac esiampl.

1.1.6 Mae gan bawb sy'n weithredol ym mywyd cyhoeddus Cymru gyfrifoldeb i weithredu yn unol â'r egwyddorion hyn.

² www.gov.uk/government/publications/the-7-principles-of-public-life

Pennod 2

Defnyddio Arian Cyhoeddus

Mae'r bennod hon yn esbonio'r broses o awdurdodi adnoddau cyhoeddus gan y Senedd y Deyrnas Unedig a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae hefyd yn esbonio'r cysyniadau allweddol o reoleidd-dra a phriodoldeb.

2.1 Amodau ar gyfer Defnyddio Arian Cyhoeddus

2.1.1 Mae gan Weinidogion Cymru bwerau eang i gyfarwyddo busnes Llywodraeth Cymru. Yn gyffredinol, gallant wneud unrhyw beth a awdurdodir o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, unrhyw un o Ddeddfau neu Fesurau'r Cynulliad neu unrhyw ddeddfwriaeth alluogi arall.

2.1.2 Mae'r Trysorlys yn rheoli gwariant cyhoeddus drwy Derfynau Gwariant Adrannol (DEL), y mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ddarostyngedig iddynt. Mae rheolau penodol gan y Trysorlys ynghylch pa eitemau sy'n "sgorio" yn erbyn y terfynau hyn. Ceir manylion y rheolau hyn a materion eraill yn ymwneud â gosod cyllideb Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mhennod 5 Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

2.1.3 O dan Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'n rhaid i gynnig cyllidebol blynyddol gael ei gyflwyno gan Brif Weinidog Cymru neu un o Weinidogion Cymru er mwyn awdurdodi:

- Faint o adnoddau y gellir eu defnyddio yn y flwyddyn ariannol ar gyfer y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y cynnig.
- Faint o adnoddau y gellir eu cadw i'w defnyddio ar gyfer y gwasanaethau a'r dibenion hynny.
- Faint o arian y gellir ei dalu o Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer y gwasanaethau a'r dibenion a nodwyd.

2.1.4 Mae angen i swyddogion o fewn Llywodraeth Cymru gael caniatâd Gweinidogion Cymru cyn gwario unrhyw symiau o arian neu ymrwymo i ddefnyddio adnoddau eraill. Yn ymarferol, bydd Gweinidogion yn amrywio faint o arian y maent yn ei ddirprwyo i swyddogion gan ddibynnu ar faint a natur eu Grwpiau.

2.1.5 Dylai pob corff cyhoeddus yng Nghymru hefyd gynnal fframwaith dirprwyaethau mewnlol sy'n rhoi awdurdod i ymrwymo adnoddau a phennu'r categorïau a'r achosion lle dylid ceisio cymeradwyaeth bellach. Bydd hyn yn cynnwys trafodion sy'n gosod cyneiliau, sy'n newydd, a allai fod yn ddadleuol, neu a allai gael sgil-ffeithiau rywle arall yn y sector cyhoeddus. Bydd gan gyrff a noddor gan Lywodraeth Cymru hefyd fframwaith dirprwyaethau y cytunwyd arno rhyngddynt hwy a'r Gangen berthnasol yn Llywodraeth Cymru sy'n eu noddi.

2.1.6 Mae rhai darnau o ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi caniatâd penodol ar gyfer ymrwymadau ariannol, ee ar gyfer rhai prosiectau mawr. Yn y fath achosion mae bwrw ymlaen heb ganiatâd Gweinidogion Cymru yn anghyfreithlon. Mewn achosion eraill mae defnyddio adnoddau heb gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru yn afreolaidd.

2.1.7 Os yw gwariant yn afreolaidd, gan gynnwys unrhyw wariant sy'n fwy na'r adnoddau a ddyfarnwyd yn y Cynnig Cyllidebol Blynyddol, mae'n rhaid dangos hyn yng nghyfrifon adnoddau blynyddol Llywodraeth Cymru ac mae'n rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru amodi ei farn ar y cyfrifon hynny ar sail rheoleidd-dra. Gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru gymeradwyo cynnig cyllidebol atodol i reoleiddio gwariant ar yr amod nad oedd yn anghyfreithlon.

2.2 Rheoleidd-dra a Phriodoldeb

2.2.1 Nodir y cysyniadau o reoleidd-dra a phriodoldeb, sy'n hanfodol i'r defnydd priodol o arian cyhoeddus, ym mlwch 2.1. Defnyddir y term *rheoleidd-dra a phriodoldeb* yn aml i gyfleu'r syniad o gywirdeb a moeseg wrth ddefnyddio arian cyhoeddus – hynny yw, cyflawni gwerthoedd y sector cyhoeddus yn gyffredinol, gan gwmpasu'r nodweddion a nodir yn Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus – *Egwyddorion Nolan*³ (gweler Pennod 1, paragraff 1.1.5).

Blwch 2.1: Rheoleidd-dra a Phriodoldeb

- Rheoleidd-dra: yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol (gan gynnwys deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd), yr awdurdodau dirprwyedig perthnasol ac yn dilyn y canllawiau yn y ddogfen hon.
- Priodoldeb: yn cyrraedd safonau uchel o ran ymddygiad cyhoeddus, gan gynnwys trefniadau llywodraethu cadarn a'r disgwyliadau seneddol perthnasol, yn arbennig tryloywder.

2.3 Sicrhau Awdurdod Cyfreithiol Digonol

2.3.1 Dylai Grwpiau o fewn Llywodraeth Cymru sicrhau bod ganddynt hwy a'u cyrff cyhoeddus y pwerau cyfreithiol ar gyfer unrhyw gamau penodol a gymerir ganddynt, gan gymryd cyngor cyfreithiol yn ôl yr angen.

2.3.2 Nid yw defnyddio'r Ddeddf Neilltuo Arian fel awdurdod ar gyfer neilltuo gwariant cyhoeddus fel y disgrifir yn Adran 2.5.4 o *Managing Public Money* Trysorlys Ei Mawrhydi yn gymwys i Lywodraeth Cymru na chyrff cyhoeddus yng Nghymru.

2.4 Gwasanaethau Newydd

2.4.1 Pan fydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu ar weithgaredd newydd, dylid ystyried y cwmpas yng nghynnig cyllidebol Cynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn sicrhau ei fod wedi'i gynnwys. Dylid ceisio cael cynnig cyllidebol atodol os nad yw'n amlwg bod y gweithgaredd newydd yn dod o fewn cwmpas yr arian a ddyrannwyd i'r gweithgaredd. Dylid cael cyngor cyfreithiol er mwyn sicrhau na fydd unrhyw ddiwygiadau arfaethedig i gwmpasau'r cynnig cyllidebol yn cynnwys gweithgaredd sydd y tu hwnt i bwerau Llywodraeth Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 neu ddeddfwriaeth ddilynol.

2.4.2 Mae Adran 128 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu ar gyfer gwariant i gwmpasu digwyddiadau annisgwyl ac argyfyngau.

³ www.gov.uk/government/publications/the-7-principles-of-public-life

2.5 Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru

2.5.1 Gyda chymorth Swyddfa Archwilio Cymru, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn helpu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i graffu ar y ffordd y defnyddiwyd arian cyhoeddus yn ymarferol. Yn annibynnol ar lywodraeth, Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol y mwyafrif o gyrff cyhoeddus yng Nghymru. I'w helpu i ymgymryd â'r rôl bwysig hon, mae ganddo bwerau sylweddol a phellgyrhaeddol. Mae rhagor o wybodaeth am rôl Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gael ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru⁴ ac yn Atodiad 2.1.

2.5.2 Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ymgymryd â dau fath o archwiliad ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

- Archwiliad ariannol o gyfrifon, gan gynnwys:
 - Sicrwydd bod y cyfrifon wedi cael eu paratoi'n briodol ac nad oes ynddynt gamddatganiadau perthnasol.
 - Yn achos Llywodraeth Cymru, cadarnhad bod y trafodion sylfaenol wedi cael eu hawdurdodi'n briodol o dan gynnig cyllidebol Cynulliad Cenedlaethol Cymru (ceir barn fwy cyffredinol ar reoleidd-dra ar gyfer y rhan fwyaf o sefydliadau yn y sector cyhoeddus).
- Adroddiadau gwerth am arian yn asesu darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y ffordd y defnyddiwyd arian cyhoeddus, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwneud gwelliannau. Mae rhaglen o'r adolygiadau hyn yn cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau dros gyfnod, gan ystyried y risgiau o ran sicrhau gwerth am arian a buddiannau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

2.5.3 Mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru hawl gyffredinol i archwilio llyfrau amrywiaeth eang o sefydliadau cyhoeddus er mwyn datblygu gwaith archwilio. Pan fydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn archwilio unrhyw sefydliad yn y sector cyhoeddus, dylai gael cydweithrediad llawn y sefydliad hwnnw o ran darparu papurau a gwybodaeth arall. Mae'n arfer da tynnu sylw Archwilydd Cyffredinol Cymru at gyfrinachedd dogfennau sensitif a ddarperir yn ystod y broses hon. Wedyn, mater i Archwilydd Cyffredinol annibynnol Cymru yw penderfynu pa ddeunydd y gellir ei gyhoeddi er budd y cyhoedd.

2.5.4 Hefyd, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi nifer o adroddiadau annibynnol eraill. Gall Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru (gweler adran 3.5) gynnal gwrandawriadau i ystyried tystiolaeth ar unrhyw un o'r adroddiadau hyn ac ar ddeunyddiau cysylltiedig eraill.

2.5.5 Mae'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, a gefnogir gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, yn ymgymryd â rôl debyg i helpu Senedd y Deyrnas Unedig i graffu ar y defnydd o arian cyhoeddus. Gall Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Senedd y Deyrnas Unedig gynnal gwrandawriadau i ystyried tystiolaeth ar unrhyw un o'i adroddiadau. Mae hyn yn berthnasol i Gymru gan fod rhai adroddiadau ar lefel y Deyrnas Unedig (megis Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan) yn cynnwys cyfraniadau gan gyrff yng Nghymru, a archwilir gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran y Swyddfa Archwilio Genedlaethol fel arfer. Os mai Cymru oedd y rheswm sylfaenol dros farn amodol gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, byddai'n debyg o fod o ddiddordeb i'r ddau bwyllgor.

⁴ www.wao.gov.uk/

Pennod 3

Swyddogion Cyfrifyddu

Mae'r bennod hon yn nodi cyfrifoldebau personol pob Swyddog Cyfrifyddu yn Llywodraeth Cymru ac mewn cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru. Yn y bôn, mae'n rhaid i Swyddogion Cyfrifyddu allu rhoi sicrwydd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd y Deyrnas Unedig a'r cyhoedd bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli i safon uchel o gywirdeb. Mae'r egwyddorion a nodir yn y bennod hon wedi'u hymgorffori mewn memorandwm i Swyddogion Cyfrifyddu a roddir i bob Swyddog Cyfrifyddu pan gaiff ei benodi.

3.1 Rôl y Swyddog Cyfrifyddu

3.1.1 Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru – Llywodraeth Cymru, ei hasiantaethau, Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, cyrff y GIG a Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru – gael Swyddog Cyfrifyddu. Yr unigolyn hwn fel arfer yw uwch swyddog gweithredol y sefydliad.

3.1.2 Yn ffurfiol, y Swyddog Cyfrifyddu mewn sefydliad yn y sector cyhoeddus yw'r unigolyn y gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei ddwyn i gyfrif am stiwardio adnoddau. Crynhoir y safonau y disgwylir i'r Swyddog Cyfrifyddu eu cyrraedd yn y sefydliad ym mlwch 3.1.

3.2 Penodi Swyddogion Cyfrifyddu

3.2.1 Yn rhinwedd Adran 129(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â rôl Prif Swyddog Cyfrifyddu ar ran Gweinidogion Cymru. Mae Trysorlys Ei Mawrhydi yn pennu cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu, a nodir mewn Memorandwm o dan Adran 133 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

3.2.2 Mae gan Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru bwerau o dan Adran 133(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i ddynodi aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol. Nodir cyfrifoldebau Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol yn y Memorandwm a fydd yn cyd-fynd â'u llythyr dynodi. Penodir Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol o fewn Llywodraeth Cymru i fod yn atebol ar ran Grŵp Llywodraeth Cymru neu i fod yn atebol am swyddogaeth, rhaglen neu weithgaredd benodol (a all gael ei chyflawni o fewn un o'r Grwpiau).

3.2.3 Yn ei dro, mae Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol priodol pob Grŵp (neu'r Ysgrifennydd Parhaol os nad oes Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol perthnasol) fel arfer yn penodi penaethiaid parhaol:

- Ei hasiantaethau gweithredol yn Swyddogion Cyfrifyddu dros eu hasiantaethau.
- Pob un o'i Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru⁵, yn Swyddogion Cyfrifyddu dros y cyrff hyn.
- Ei holl gyrff GIG yn Swyddogion Cyfrifyddu dros y sefydliadau hyn.

3.3 Cyfrifoldebau Arbennig Swyddogion Cyfrifyddu

3.3.1 Bydd pob Swyddog Cyfrifyddu yn cymryd cyfrifoldeb personol am sicrhau bod y sefydliad neu'r Grŵp neu weithgaredd y mae'n ei reoli/rheoli yn cyrraedd y safonau ym mlwch 3.1. Yn benodol, mae'n rhaid i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu a'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol i'r GIG yng Nghymru lofnodi'n bersonol:

- Y cyfrifon (a chyfrifon cryno cyrff y GIG).
- Yr adroddiad blynyddol.
- Datganiad llywodraethu y maent yn gyfrifol amdano (gweler Atodiad 3.1).

Blwch 3.1: Safonau a ddisgwylir gan sefydliad y swyddog cyfrifyddu

Gan weithredu o fewn awdurdod Gweinidog(ion) Cymru y mae'n atebol iddo (iddynt), dylai'r Swyddog Cyfrifyddu sicrhau bod y sefydliad neu'r Grŵp neu weithgaredd, ac unrhyw gyrff cyhoeddus a noddir ganddynt, yn gweithredu'n effeithiol ac i safon uchel o gywirdeb. Dylai'r sefydliad neu'r Grŵp neu weithgaredd wneud y canlynol:

Llywodraethu

- Rhoi strwythur llywodraethu ar waith sy'n trosglwyddo, yn dirprwyo, yn gweithredu ac yn gorfodi penderfyniadau.
- Rhoi ar waith reolaethau mewnol y gellir ymddiried ynddynt i ddiogelu, sianelu a chofnodi adnoddau yn ôl y bwriad.
- Cydweithredu â phartneriaid er budd y cyhoedd.
- Gweithredu mewn modd priodol a rheolaidd ym mhob un o'i drafodion.
- Trin ei gwsmeriaid a'i wrthbartion busnes yn deg, yn onest a gydag uniondeb.
- Cynnig unioni, mewn modd priodol, unrhyw fethiant i gyrraedd safonau i gwsmeriaid y cytunwyd arnynt.
- Rhoi cyfrif amserol, tryloyw a realistig am ei fusnes, gan sicrhau hyder y cyhoedd.

⁵ Mewn rhai Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru â chyllidebau bach, gall Swyddog Cyfrifyddu yn Llywodraeth Cymru gael ei benodi fel y Swyddog Cyfrifyddu ar eu cyfer. Dyma'r drefn arferol ar gyfer cyrff cynghori a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

Gwneud penderfyniadau

- Cynorthwyo ei Weinidogion gyda chynghor clir, rhesymegol, amserol a diduedd.
- Gwneud ei holl benderfyniadau yn unol â strategaeth, nodau ac amcanion y sefydliad a bennir gan Weinidogion a/neu mewn deddfwriaeth.
- Llunio barn gytbwys ynglŷn â dull o reoli cyfle a risg.
- Sicrhau bod y beichiau a osodir ar fusnesau yn gymesur ac yn amddiffynadwy.

Rheolaeth ariannol

- Defnyddio ei adnoddau yn effeithlon, yn ddarbodus ac yn effeithiol, gan osgoi gwastraff a gormodedd.
- Cynllunio i ddefnyddio ei adnoddau ar sail fforddiadwy a chynaliadwy, o fewn terfynau y cytunwyd arnynt.
- Ymgymryd â phrosesau caffael ac arfarnu prosiectau yn wrthrychol ac yn deg, gan ddefnyddio dadansoddiad cost a budd a cheisio gwerth da i'r sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd.
- Defnyddio systemau gwybodaeth reoli i gael sicrwydd ynglŷn â gwerth am arian ac ansawdd darparu ac felly gwneud addasiadau amserol.
- Osgoi gorfanylu a gosod costau cydymffurfiaeth amhriodol, naill ai'n fewnol neu ar ei gwsmeriaid a'i randdeiliaid.
- Rhoi ar waith drefniadau ymarferol wedi'u dogfennu ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, fel y bo'n briodol.
- Defnyddio archwiliad mewnol ac allanol i wella ei reolaethau mewnol a'i berfformiad.

3.3.2 Dylai Swyddog Cyfrifyddu corff cyhoeddus drefnu i aelod o'r bwrdd lofnodi'r cyfrifon yn ogystal â'u llofnodi ei hun, os nad yw'n aelod o'r bwrdd (sy'n anarferol).

3.3.3 Mae sawl maes arall lle y dylai Swyddogion Cyfrifyddu gymryd cyfrifoldeb personol:

- **Rheoleidd-dra a phriodoldeb** (gweler Pennod 2) gan gynnwys ceisio cymeradwyaeth am unrhyw wariant y tu allan i ddirprwyaethau arferol neu o bosibl y tu allan i'r cwmpas perthnasol, a gweithredu gyda'r datgeliadau priodol yn y cyfrifon blynyddol.
- **Fforddiadwyedd a chynaliadwyedd**, parchu cyllidebau y cytunwyd arnynt ac osgoi ymrwymadau tymor hwy na ellir eu fforddio, gan lunio barn gymesur ynglŷn â galwadau eraill am adnoddau.
- **Gwerth am arian**, gan sicrhau y caiff caffael, prosiectau a phrosesau'r sefydliad eu gwerthuso a'u hasesu'n systematig i roi hyder ynglŷn ag addasrwydd, effeithiolrwydd, darbodusrwydd, ansawdd, gwerth da sy'n cael ei farnu o ran y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd, nid dim ond sefydliad y Swyddog Cyfrifyddu (ee gan ddefnyddio'r Llyfr Gwyrdd Trysorlys Ei Mawrhydi⁶ i werthuso dewisiadau amgen).
- **Rheoli cyfle a risg** i gael y cydbwysedd cywir sy'n gymesur â busnes y sefydliad a'i awydd i fentro.

⁶ www.gov.uk/government/publications/the-green-book-appraisal-and-evaluation-in-central-government

- **Dysgu o brofiad**, gan ddefnyddio adborth mewnol a gwersi sy'n dod i'r amlwg mewn manau eraill.
- **Cyfrifo'n gywir** am *sefyllfa ariannol a thrafodion* y sefydliad: er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ariannol a gyhoeddir ganddo yn dryloyw ac yn gyfoes; ac y caiff effeithlonrwydd y sefydliad o ran y defnydd o adnoddau ei olrhain a'i gofnodi.

3.3.4 Yn achos y Prif Swyddog Cyfrifyddu, mae'r cyfrifoldebau hyn yn gymwys i fusnes pob un o Grwpiau Llywodraeth Cymru a'u cyrff hyd-braich. Mae Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol yn cyflawni eu cyfrifoldebau o fewn y fframwaith cyffredinol ynghyd â'r gofynion a nodir gan y Prif Swyddog Cyfrifyddu (gweler paragraff 3.2.2).

3.4 Cyngor i Weinidogion Cymru

3.4.1 Mae pob Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl gyngor a roddir i Weinidogion y mae'n gweithio iddynt yn cynnwys cyngor priodol ar y defnydd cywir o arian cyhoeddus, yn unol â chyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu. Dylai'r Swyddog Cyfrifyddu ddwyn sylw'r Gweinidog at unrhyw wrthdaro canfyddedig rhwng bwriadau'r Gweinidog a dyletswyddau'r Swyddog Cyfrifyddu. Ni all y Swyddog Cyfrifyddu dderbyn nodau na pholisi'r Gweinidog heb eu harchwilio. Y prawf yw a allai'r Swyddog Cyfrifyddu gyfiawnhau'r gweithgarwch arfaethedig os gofynnir iddo ei amddiffyn.

3.4.2 Os bydd Gweinidog yn penderfynu cymryd camau y mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cynghori yn eu herbyn gan nad ydynt yn gydnaws â'i gyfrifoldebau, yna dylai'r Swyddog Cyfrifyddu hysbysu'r Prif Swyddog Cyfrifyddu ond dylai hefyd geisio datrys y sefyllfa drwy drafod ymhellach â'r Gweinidog. Os na ellir datrys y sefyllfa, dylai'r Prif Swyddog Cyfrifyddu, yn y pen draw, geisio Cyfarwyddyd gan y Prif Weinidog i barhau fel y'i cyfarwyddir, fel y nodir ym Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu. Eto i gyd, dylid cymryd pob cam posibl cyn hynny er mwyn datrys y broblem gyda'r Gweinidog.

3.4.3 Fodd bynnag, pan gaiff Cyfarwyddyd ei wneud, dylai'r Prif Swyddog Cyfrifyddu:

- Anfon copi o'r papurau perthnasol at Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Uned Llywodraethu Corfforaethol yn brydlon. Fel arfer, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn dwyn y mater at sylw Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd yr Uned Llywodraethu Corfforaethol yn trefnu bod bodolaeth y cyfarwyddyd yn cael ei chyhoeddi yn y datganiad llywodraethu oni bai bod yn rhaid cadw'r mater yn gyfrinachol.
- Dilyn cyfarwyddyd y gweinidog yn ddiymdroi.
- Esbonio gweithred y Gweinidog, os gofynnir iddo wneud hynny. Mae hyn yn parchu hawliau Gweinidogion i gael cyngor gonest, ond gan ddiogelu safon trafodaethau mewnol.

3.5 Pwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

3.5.1 Gall y pwyllgor priodol gynnal gwrandawiadau cyhoeddus ar gyfrifon Gweinidogion Cymru a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru (gweler adran 2.1.7) a chynnal archwiliadau o ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y ffordd y mae Gweinidogion Cymru wedi defnyddio eu hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau. Yn ymarferol, mae Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn arwain yn hyn o beth ac mae'r rhan fwyaf o wrandawiadau'r pwyllgor yn canolbwyntio

ar astudiaethau gwerth am arian Archwilydd Cyffredinol Cymru (gweler adran 2.5.4). Bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ceisio cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiadau hyn gyda Swyddog(ion) Cyfrifyddu'r sefydliad neu'r Grŵp neu weithgaredd dan sylw fel bod sail dystiolaeth glir nad oes anghydfod yn ei chylch ar gyfer gwaith craffu.

3.5.2 Pan drefnir gwrandawriad, mae'r Pwyllgor fel arfer yn gwahodd y Swyddog Cyfrifyddu priodol i ddod gerbron fel tyst. Gall Swyddog Cyfrifyddu ddod â swyddogion priodol gydag ef. Lle y bo'n briodol, a lle mae'r Pwyllgor yn cytuno, gall y Swyddog Cyfrifyddu anfon eilydd. Gall y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus hefyd wahodd tystion eraill nad ydynt, o bosibl, yn weision cyhoeddus i esbonio cefndir y pwnc dan sylw.

3.5.3 Wrth ateb cwestiynau, dylai'r Swyddog Cyfrifyddu ysgwyddo'r cyfrifoldeb am fusnes y sefydliad neu'r Grŵp neu weithgaredd, hyd yn oed os cafodd ei ddirprwyo neu os oedd y digwyddiadau dan sylw wedi digwydd cyn iddo gael ei benodi'n Swyddog Cyfrifyddu. Mewn ymateb i geisiadau penodol gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, gellir disgwyl hefyd i Swyddogion Cyfrifyddu blaenorol fod yn bresennol yng ngwrandawriadau perthnasol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

3.5.4 Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i dystion roi tystiolaeth glir, gywir a chyflawn. Os bydd tystiolaeth yn sensitif, gall tystion ofyn am ei rhoi'n breifat. Gall tystion gynnig nodiadau atodol os nad yw'r wybodaeth a geisir wrth law yn y gwrandawriad. Fel arfer, dylai unrhyw nodiadau o'r fath gael eu darparu o fewn wythnos oni bai bod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn fodlon rhoi estyniad.

3.6 Os Nad yw'r Swyddog Cyfrifyddu ar Gael

3.6.1 Dylai fod gan bob sefydliad yn y sector cyhoeddus Swyddog Cyfrifyddu ar gael i roi cyngor neu i wneud penderfyniad ar fyr rybudd fel y bo angen.

3.6.2 Pan fydd y Swyddog Cyfrifyddu yn absennol ac na ellir cysylltu ag ef yn hawdd, dylai uwch swyddog arall ddirprwyo drosto. Os yw'r Swyddog Cyfrifyddu yn bwriadu bod yn absennol am gyfnod sylweddol, dylid penodi Swyddog Cyfrifyddu dros dro.

3.7 Gwrthdaro Buddiannau

3.7.1 Weithiau mae Swyddog Cyfrifyddu yn wynebu achos gwirioneddol neu achos posibl o wrthdaro buddiannau. Ni ddylai fod unrhyw amheuaeth nad yw'r Swyddog Cyfrifyddu yn cyrraedd y safonau a ddisgrifir ym mlwch 3.1 heb deyrngarwch rhanedig. Ymhlith y ffyrdd o reoli'r mater hwn mae:

- O ran mân achos o wrthdaro buddiannau, datgan bod gwrthdaro buddiannau a threfnu i rywun arall heblaw am y Swyddog Cyfrifyddu benderfynu ar y mater(ion) dan sylw.
- O ran gwrthdaro sylweddol ond dros dro, penodi Swyddog Cyfrifyddu dros dro am y cyfnod lle mae gwrthdaro buddiannau.
- O ran achosion difrifol a hirdymor o wrthdaro buddiannau, ymddiswyddiad (gweler Atodiad 3.2).

3.8 Cyrff Cyhoeddus

3.8.1 Mae cyfrifoldebau Swyddogion Cyfrifyddu ar gyfer Grwpiau neu weithgareddau o fewn Llywodraeth Cymru ac mewn cyrff cyhoeddus, i bob pwrpas, yn debyg. Mae'n rhaid i Swyddogion Cyfrifyddu mewn cyrff cyhoeddus hefyd ystyried eu cyfrifoldebau a'u pwerau arbennig. Yn benodol, mae'n rhaid iddynt barchu'r ddeddfwriaeth (neu'r hyn sy'n cyfateb iddi) sy'n creu'r sefydliad a thelerau'r ddogfen fframwaith y cytunwyd arni gyda'r Gangen sy'n noddi.

3.8.2 Mae'r ddogfen fframwaith (neu'r hyn sy'n cyfateb iddi) y cytunwyd arni rhwng corff cyhoeddus a'i noddwr bob amser yn darparu bod y Gangen sy'n noddi yn goruchwyllo, mewn modd ystyrlon, strategaeth a pherfformiad, trefniadau talu a/neu drafodion ariannol mawr y corff cyhoeddus, ee drwy ffurflenni misol, dirprwyo safonol, adroddiadau ar eithriadau. Dylai cyrff cyhoeddus gyfeirio unrhyw faterion yr ymddengys eu bod yn anarferol, yn ddadleuol neu'n adleisiol at yr Gangen sy'n eu noddi.

3.8.3 Yn gyffredinol, dylai Swyddog Cyfrifyddu Grŵp sy'n noddi wneud trefniadau i'w fodloni ei hun bod gan y corff cyhoeddus systemau priodol sy'n cyrraedd y safonau ym mlwch 3.1. Yn yr un modd, dylai Swyddog Cyfrifyddu corff cyhoeddus a chanddo is-gorff gael goruchwyliaeth ystyrlon dros yr is-gwmni. Nid yw'n dderbyniol sefydlu cyrff cyhoeddus, nac is-gyrff cyrff cyhoeddus, er mwyn osgoi neu wanhau gwaith craffu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

3.8.4 O dan amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd angen i Swyddog Cyfrifyddu Grŵp sy'n noddi ymyrryd os bydd corff cyhoeddus yn gwyro gryn dipyn oddi ar y trywydd cywir, ee os bydd risg i'w gyllideb, os bydd ei systemau yn ddiffygiol iawn neu os bydd yn colli ei enw da. Gall hyn gynnwys penodi unigolion newydd yn lle rhai neu bob un o arweinwyr y corff cyhoeddus, hyd yn oed ei Swyddog Cyfrifyddu o bosibl.

3.8.5 Cyfyd rhai materion sensitif ynglŷn â rôl y Swyddog Cyfrifyddu mewn corff cyhoeddus a reolir gan fwrdd annibynnol, ee elusen neu gwmni. Mae'n rhaid i'r Swyddog Cyfrifyddu, a fydd fel arfer yn aelod o'r bwrdd, sicrhau nad yw ei gyfrifoldebau personol yn gwrthdaro â'i ddyletswyddau fel aelod o'r bwrdd. Yn benodol, dylai'r Swyddog Cyfrifyddu bleidleisio yn erbyn unrhyw gynnig yr ymddengys ei fod yn achosi gwrthdaro o'r fath; nid yw ymatal rhag pleidleisio yn ddigon.

3.8.6 At hynny, os bydd cadeirydd neu fwrdd corff cyhoeddus o'r fath yn ystyried cyfarwyddo'r Swyddog Cyfrifyddu i weithredu mewn modd sy'n anghyson â'r safonau ym mlwch 3.1, yna dylai'r Swyddog Cyfrifyddu wneud ei amheuan yn glir, a hynny'n ysgrifenedig os oes modd. Os yw'r bwrdd yn penderfynu gweithredu er gwaethaf hynny, dylai'r Swyddog Cyfrifyddu wedyn:

- Ofyn i Swyddog Cyfrifyddu'r Grŵp noddi ystyried ymyrryd i ddatrys y gwahaniaeth barn, yn ysgrifenedig os oes modd.
- Os bydd penderfyniad y bwrdd yn sefyll, gofyn am ei gyfarwyddyd i weithredu yn ysgrifenedig, a hysbysu'r Gangen noddi.
- Bwrw ymlaen â'r weithred yn ddi-oed.
- Dilyn y drefn ym mharagraff 3.4.2.

3.8.7 Mae'r drefn hon yn debyg i'r hyn sy'n digwydd o fewn Llywodraeth Cymru, ac yn darparu ar gyfer sefyllfa arbennig bwrdd y sefydliad, a benodir y aml drwy statud.

3.9 Yn Gyffredinol

3.9.1 Nid yw'n realistig pennu rheolau cadarn am bob agwedd ar y busnes y bydd Swyddog Cyfrifyddu yn ymdrin ag ef. Weithiau efallai y bydd angen i'r Swyddog Cyfrifyddu wneud penderfyniad egwyddorol ar sail y ffeithiau o dan amgylchiadau nad oes unrhyw gynseiliau iddynt. Pe bai hynny'n digwydd, dylai'r Swyddog Cyfrifyddu gael ei arwain gan y safonau ym mlwch 3.1, gan asesu a oes achos dros ofyn am gyfarwyddyd ar sail unrhyw un o'r ffactorau a amlinellir yno neu yn adran 3.3. Mae'n hanfodol bod Swyddogion Cyfrifyddu yn ceisio sicrhau canlyniadau da i'r sector cyhoeddus yn gyffredinol, gan barchu egwyddorion allweddol tryloywder a chymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y modd y rheolir adnoddau cyhoeddus.

Pennod 4

Llywodraethu a Rheoli

Dylai fod gan sefydliadau yn y sector cyhoeddus drefniadau llywodraethu mewnol o safon dda a systemau rheolaeth ariannol cadarn. Dylai dirprwyo cyfrifoldebau yn briodol a systemau adrodd mewnol effeithiol sicrhau y caiff perfformiad ei gadw ar y trywydd cywir. Dylid dilyn arfer da wrth gaffael a rheoli adnoddau ac asedau; cyflogi a rheoli staff; ac atal gwastraff, twyll a mathau eraill o gamymddygiad. Mae gan Adrannau Llywodraeth Ganolog gyfrifoldebau penodol o ran cyflwyno adroddiadau.

4.1 Strwythur Llywodraethu

4.1.1 Dylai pob sefydliad yn y sector cyhoeddus sefydlu trefniadau llywodraethu sy'n briodol i'w fusnes, ei faint a'i ddiwylliant. Dylai'r strwythur gyfuno prosesau gwneud penderfyniadau effeithlon ag atebolrwydd a thryloywder. Mae angen arweinyddiaeth glir ar bob sefydliad yn y sector cyhoeddus, a ddarperir fel arfer gan fwrdd. Mae blwch 4.1 yn nodi arfer gorau i fyrddau.

Blwch 4.1: Arfer gorau i fyrddau

- Caiff ei gadeirio gan swyddog uchaf y sefydliad.
- Mae ganddo nifer o aelodau anweithredol a chyfarwyddwr cyllid â chymwysterau proffesiynol (gweler Atodiad 4.1).
- Mae'n cyfarfod o leiaf bob chwarter.
- Mae'n nodi strategaeth y sefydliad i roi penderfyniadau polisi ar waith.
- Mae'n arwain busnes y sefydliad ac yn pennu ei ddiwylliant.
- Mae'n sicrhau y caiff adnoddau'r sefydliad – adnoddau ariannol, asedau, pobl – eu rheoli'n dda.
- Mae'n penderfynu ar awydd y sefydliad i fentro ac yn monitro bygythiadau a chyfleoedd sy'n codi.
- Mae'n llywio perfformiad er mwyn ei gadw ar y trywydd cywir gan ddefnyddio gwybodaeth am gynnydd a gaiff ei diweddarau'n rheolaidd.
- Mae'n goruchwyllo gweithgareddau ei gyrff cyhoeddus a noddir.

4.1.2 Mae'n arfer da i gyrff cyhoeddus ddefnyddio egwyddorion cyson. Mewn llawer o gyrff cyhoeddus mae rhai nodweddion strwythurol, megis cyfansoddiad y bwrdd, yn deillio o statud ond gall fod cryn dipyn o ddisgresiwn o hyd. Mewn rhai sefydliadau mae'n arferol, neu ystyrir ei bod yn werthfawr, i'r bwrdd gynnwys aelodau â chyfrifoldeb neu arbenigedd dynodedig, ee ar gyfer sgiliau proffesiynol arbenigol.

4.1.3 Er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau mae angen i bob bwrdd benderfynu, a chofnodi, sut y bydd yn gweithredu. Mae blwch 4.2 yn amlinellu'r penderfyniadau allweddol. Nid yw'r

rhestr hon yn gynhwysfawr. Ar ôl cytuno arnynt, dylid adolygu'r rheolau gwaith er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol. Dylai byrddau herio eu hunain i wella eu dulliau o weithio, fel y gall eu prosesau gyflawni a chynnal arfer busnes modern ardderchog.

Blwch 4.2: Penderfyniadau allweddol i fyrddau

- Cenhadaeth ac amcanion.
- Dirprwyaethau a threfniadau ar gyfer adrodd ar berfformiad.
- Gweithdrefnau a phrosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau busnes.
- Craffu ar bolisiau, mentrau a phrosiectau pwysig, eu herio a'u rheoli.
- Gweithdrefnau awydd i fentro a rheoli risg, ee cynnal ac adolygu cofrestr risg.
- Rheoli cyrff cyhoeddus cysylltiedig a phartneriaethau eraill.
- Trefniadau ar gyfer diweddarau'r bwrdd.
- Trefniadau ar gyfer adolygu perfformiad y bwrdd ei hun.
- Atebolrwydd – i'r cyhoedd, staff a rhanddeiliaid eraill (gweler adran 4.13).
- Sut y gellir manteisio ar brofiadau aelodau anweithredol o'r bwrdd.
- Pa mor aml y caiff rheolau gwaith y bwrdd eu hadolygu.

4.2 Dulliau o Weithio

4.2.1 Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y Deyrnas Unedig am safon y weinyddiaeth a arweinir ganddo, gan ystyried y safonau a bennir yn y ddogfen hon yn ogystal â gofynion *Cod y Gwasanaeth Sifil*.

4.2.2 Gan weithio gyda'r Prif Swyddog Cyfrifyddu, mae gan Gyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru gyfrifoldeb arbennig am sicrhau y caiff y safonau a ddisgrifir yn y bennod hon eu parchu. Mae Atodiad 4.1. yn nodi'r cyfrifoldeb hwn yn fanylach.

Blwch 4.3: Hanfodion prosesau gwneud penderfyniadau mewnol effeithiol

Dewis

- Rheoli'r portffolio o risgiau a chyfleoedd mewn modd gweithredol.
- Arfarnu camau gweithredu amgen gan ddefnyddio'r technegau yn y *Llyfr Gwyrdd*, Trysorlys Ei Mawrhydi a chan gynnwys asesu dichonoldeb sicrhau gwerth am arian.
- Lle y bo'n briodol, defnyddio astudiaethau peilot i ddarparu tystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau ymhlith dewisiadau rhwng polisiau neu brosiectau.
- Llywio mentrau mewn modd gweithredol, ee adolygiadau i bwysu a mesur ar adegau hanfodol yn ystod prosiectau.
- Gwaith monitro risg rheolaidd, er mwyn olrhain newidiadau a gwneud addasiadau mewn ymateb iddynt.

Gweithrediad

- Dirprwyaethau mewnol priodol, gydag un uwch-swyddog cyfrifol ar gyfer pob prosiect neu fenter bwysig ac un uwch-swyddog yn arwain pob proses o'r dechrau i'r diwedd.
- Gwybodaeth reoli brydlon, rheolaidd ac ystyrlon am gostau (gan gynnwys costau uned), effeithlonrwydd, ansawdd a pherfformiad yn erbyn targedau er mwyn olrhain cynnydd a gwerth am arian.
- Systemau gweinyddu a gorfodi cymesur, heb gymhlethdod diangen.
- Defnyddio adborth o archwiliadau mewnol ac allanol a ffynonellau eraill i wella perfformiad.
- Gwaith monitro risg rheolaidd, er mwyn olrhain newidiadau a gwneud addasiadau mewn ymateb iddynt.

Wedyn

- Systemau i werthuso allbynnau a chanlyniadau polisiâu, prosiectau a rhaglenni, gan gynnwys p'un a ddylid parhau, addasu neu derfynu unrhyw weithgareddau parhaus.
- Trefniadau ar gyfer nodi gwersi a ddysgwyd o brofiad a'u lledaenu.

4.3 Cyfle a Risg

4.3.1 Dylai systemau mewnol pob sefydliad yn y sector cyhoeddus gynnwys trefniadau ar gyfer cydnabod, olrhain a rheoli ei gyfleoedd a'i risgiau. Dylai corff llywodraethu pob sefydliad wneud dewis ystyriol ynghylch pa mor awyddus ydyw i fentro, gan ystyried ei rwymedigaethau cyfreithiol, penderfyniadau polisi Gweinidogion, ei amcanion busnes a disgwyliadau'r cyhoedd o ran yr hyn y dylai ei gyflawni. Gall hyn olygu bod sefydliadau gwahanol yn mabwysiadu ymagweddau gwahanol iawn at yr un cyfleoedd neu risgiau.

4.3.2 Dylai fod disgyblaeth reolaidd o ail-arfarnu'r cyfleoedd a'r risgiau sy'n wynebu'r sefydliad gan fod y ddau yn newid gydag amser ac yn ôl yr amgylchiadau, yn ogystal â'r ymatebion a ddewiswyd. Ni ddylid bod yn rhy ofalus wrth gyflawni'r broses arfarnu, gan y gall hynny fod yr un mor niweidiol â chymryd risgiau anaddas. Fel arfer, dylai'r asesiad gynnwys y canlynol:

- Cynnal cofrestr risg, sy'n cynnwys risgiau o'r gwaelod i fyny a risgiau amodol a nodir gan waith chwilio'r gorwel.
- Risgiau i enw da, gan y gallai perfformiad gwael danseilio hygyrdd ac, yn y pen draw, deilyngdod credyd y sector cyhoeddus yn gyffredinol.
- Ystyried y peryglon sy'n gysylltiedig â chynnal y sefyllfa bresennol.
- Cynlluniau ar gyfer adfer ar ôl trychineb.
- Arfarnu risgiau o'r dechrau i'r diwedd mewn prosesau hanfodol a gweithgareddau pwysig eraill.

4.3.3 Wrth wneud penderfyniadau ynghylch sut i reoli cyfleoedd a risgiau, gall tystiolaeth o waith archwilio a systemau sicrwydd eraill eich helpu i wneud dewisiadau cytbwys. Gall gwaith archwilio, gan gynnwys gwaith archwilio mewnol, roi sicrwydd a dealltwriaeth benodol, gwrthrychol a chytbwys er mwyn helpu sefydliad i werthuso pa mor effeithiol ydyw o ran cyflawni ei amcanion. Mae'n arfer da i'r pwyllgor archwilio roi cyngor i corff

llywodraethu sefydliad yn y sector cyhoeddus ar ei benderfyniadau allweddol ynghylch llywodraethu a rheoli cyfleoedd a risgiau. Mae hefyd yn ddisgyblaeth dda i'r broses hon gynnwys gwerthuso'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu argymhellion Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru, lle maent wedi'u derbyn.

4.3.4 Yn ei dro, dylai'r bwrdd helpu'r Swyddog Cyfrifyddu i lunio'r datganiad llywodraethu, sy'n rhan o gyfrifon blynyddol pob sefydliad, gweler Atodiad 3.1. Ceir rhagor o ganllawiau ar reoli risgiau yn Atodiad 4.2 a'r *Llyfr Oren* Trysorlys Ei Mawrhydi.

4.4 Yswiriant

4.4.1 Yn y sector preifat rheolir risg yn aml drwy drefnu yswiriant. Mewn Llywodraeth Ganolog nid yw gwneud hynny yn sicrhau gwerth da am arian fel arfer. Y rheswm dros hyn yw bod gan y sector cyhoeddus bortffolio asedau eang ac amrywiol; incwm dibynadwy am ei bod yn gallu codi refeniw drwy drethi; ac, ar yr ymylon, bod modd benthyca arian yn rhatach nag yn y sector preifat. At hynny, mae'n rhaid i ddarparwyr yswiriant masnachol dalu am gostau a chynhyrchu eu helw eu hunain hefyd. Felly, mae pwrs y wlad yn unigryw am y gall ariannu'r broses o adfer asedau a ddifrodwyd neu ymdrin â risgiau eraill, hyd yn oed risgiau mawr iawn. Pe bai'r llywodraeth yn yswirio risg, byddai'n costio mwy.

4.4.2 Fodd bynnag, mae nifer gyfyngedig o amgylchiadau lle mae'n briodol i sefydliadau yn y sector cyhoeddus drefnu yswiriant. Maent yn cynnwys rhwymedigaethau cyfreithiol⁷, ac adegau lle y byddai yswiriant masnachol yn sicrhau gwerth am arian⁸. Ceir rhagor o wybodaeth am yswiriant yn gyffredinol yn Atodiad 4.3.

4.5 Rheoli Gwariant Cyhoeddus

4.5.1 Mae'r Trysorlys Ei Mawrhydi yn cydgysylltu system a ddefnyddir i ddyrannu cyfansymiau rheoli cyllideb i adrannau a Gweinyddiaethau Datganoledig ar gyfer eu gwariant cyhoeddus. Mae dyraniad Llywodraeth Cymru yn darparu ar gyfer ei gwariant ei hun a gwariant sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a ariennir ganddi drwy gymorth grant. O fewn y cyfansymiau y cytunwyd arnynt, mae ganddi gryn dipyn o ddisgresiwn o ran pennu blaenoriaethau i ddarparu'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru y mae'n gyfrifol amdanynt.

4.5.2 Dylai pob sefydliad yn y sector cyhoeddus weithredu systemau effeithlon ar gyfer rheoli taliadau (gweler blwch 4.4). Dylai hefyd sicrhau bod ei ddefnydd o adnoddau cyhoeddus o fewn y cyllidebau y cytunwyd arnynt, ystyried y terfynau wrth wneud ymrwymadau ac, yn gyffredinol, sicrhau bod ei broffil gwario yn gynaliadwy.

4.5.3 Dylai unrhyw brosiect, rhaglen neu fenter fawr gael ei (h)arwain gan uwch-swyddog cyfrifol. Mae'n arfer da anelu at sicrhau parhad o ran penodiadau o'r fath.

⁷ ee dylai pob sefydliad yn y sector cyhoeddus yswirio cerbydau lle mae'r Ddeddf Traffig Ffyrdd yn gofyn amdano.

⁸ ee lle mae contractwyr o'r sector preifat yn trefnu un polisi yswiriant i safle am ei bod yn rhatach na phob parti unigol yn yswirio ei hun ar wahân.

Blwch 4.4: Hanfodion systemau ar gyfer neilltuo a thalu arian

- Dewis prosiectau ar ôl arfarnu'r dewisiadau amgen (gweler y *Llyfr Gwyrdd* Trysorlys Ei Mawrhydi).
- Cystadleuaeth agored i ddewis cyflenwyr o amrywiaeth eang o opsiynau, gan nodi, os oes modd, ganlyniadau yn hytrach na chynhyrchion penodol, er mwyn sicrhau gwerth am arian (gweler Atodiadau 4.5 a 4.6).
- Lle y bo'n ymarferol, caffael gwasanaethau a rennir a/neu gontractau safonol drwy drefniadau amlbrynwr i leihau prisiau.
- Rheolaethau mewnol effeithiol i awdurdodi caffael nwyddau neu wasanaethau (gan gynnwys fetio cyflenwyr newydd), o fewn unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol.
- Gwahanu prosesau awdurdodi a thalu, gyda rheolaethau priodol, gan gynnwys dilysu a chofnodi, ar bob cam er mwyn darparu llwybr archwilio clir.
- Gwirio bod y nwyddau neu'r gwasanaethau a gaffaelwyd wedi'u cyflenwi yn unol â'r contract(au) neu gytundeb(au) perthnasol cyn talu amdanynt.
- Caiff telerau talu eu dewis neu eu negodi er mwyn sicrhau gwerth da am arian.
- Talu anfonebau yn gywir: unwaith ac yn brydlon, gan osgoi cosbau am dalu'n hwyr (gweler Atodiad 4.7).
- Cydbwysedd rhwng rheolaethau ataliol ac olrheiniol er mwyn mynd i'r afael â thwyll, llygredd a mathau eraill o gamymddygiad a'u hatal (gweler Atodiad 4.8).
- Systemau integredig i gynhyrchu llwybrau archwilio awtomatig y gellir eu defnyddio i gynhyrchu cyfrifon ac y gall archwilwyr mewnol ac allanol eu gwirio'n hawdd.
- Adolygiadau cyfnodol i fanteisio ar brofiad, sicrhau gwell gwerth am arian neu roi datblygiadau o ran arfer da ar waith.

4.6 Derbyniadau

4.6.1 Dylai fod gan sefydliadau yn y sector cyhoeddus drefniadau ar gyfer nodi, casglu a chofnodi pob swm sy'n ddyledus iddynt yn brydlon ac yn llawn. Dylid mynd ar drywydd symiau sy'n ddyledus yn ddiwyd. Awgrymir nodweddion allweddol systemau rheoli mewnol ym mlwch 4.5.

4.6.2 Dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus sicrhau eu bod yn olrhain ac yn gorfodi dyledion yn brydlon. Dylai'r rhagdybiaeth fod o blaid adennill dyledion oni bai bod gwneud hynny yn aneconomaidd.

Blwch 4.5: Hanfodion systemau ar gyfer casglu symiau sy'n ddyledus

- Cofnodion digonol fel y gellir gwneud hawliadau ac adennill dyledion yn llawn.
- Gweithdrefnau i atal dileadau a diwygiadau anawdurdodedig i hawliadau.
- Systemau rheoli credyd i reoli symiau sy'n ddyledus a cheisio eu hadennill.
- Rheolaethau i atal arian rhag cael ei ddargyfeirio a mathau eraill o dwyll.
- Llinellau cyfrifoldeb clir am wneud penderfyniadau ynghylch gwthio hawliadau yn fwyfwy cadarn, ac ynghylch cynigion i leihau hawliadau neu roi'r gorau i hawliadau y gall fod cyfiawnhad drostynt.
- Trefniadau ar gyfer penderfynu a ddylid dileu dyledion a chofnodi unrhyw ddyledion a ddilëwyd (gweler Atodiad 4.9). Llwybrau archwilio y gellir eu gwirio'n hawdd a chyflwyno adroddiadau arnynt yn fewnol ac yn allanol.

4.7 Trafodion Ariannol Ansafonol

4.7.1 O bryd i'w gilydd, efallai y bydd yn gwneud synnwyr i sefydliadau yn y sector cyhoeddus gyflawni trafodion y tu allan i'r ystod arferol a gynlluniwyd, ee:

- Dileu dyledion neu ordaliadau na ellir eu hadennill.
- Cydnabod bod stociau neu asedau eraill wedi'u colli.
- Benthyciadau hirdymor neu roddion ar ffurf asedau.

4.7.2 Ym mhob achos mae'n bwysig ymdrin â'r mater er budd y cyhoedd, gan roi sylw dyledus i gywirdeb a sicrhau gwerth am arian. Mae Atodiadau 4.9 i 4.11 yn nodi'r hyn a ddisgwylir pan fydd trafodion o'r fath yn digwydd mewn Llywodraeth Ganolog.

4.7.3 Os bydd sefydliad yn canfod tandaliad, dylid talu'r swm sy'n ddyledus yn llawn cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Os bydd cyfnod o amser wedi mynd heibio ers y trafodyn, a achoswyd er enghraifft gan gamau cyfreithiol a gymerwyd i nodi'r sefyllfa gywir, gall fod yn briodol ystyried talu llog, gan ddibynnu ar natur yr ymrwymiad i'r talai a chan ystyried enw da'r sefydliad a'r angen i sicrhau gwerth am arian i'r sector cyhoeddus yn gyffredinol (gweler hefyd adran 4.11).

4.7.4 Yn yr un modd, efallai y bydd gan sefydliadau yn y sector cyhoeddus reswm dros gyflawni trafodion cyfredol na fyddent wedi cynllunio ar eu cyfer fel arfer. Gallai'r rhain gynnwys:

- Taliadau allgytundebol ychwanegol i ddarparwyr gwasanaethau.
- Taliadau allstatudol ychwanegol i hawlwyd (lle y ceir cynllun statudol tebyg).
- Taliadau ex gratia i gwsmeriaid (lle na cheir unrhyw gynllun sefydledig).
- Taliadau diswyddo i gyflogeion sy'n gadael cyn ymddeol neu cyn diwedd eu contract ac sy'n cynnwys taliadau sy'n fwy na'r hyn a ganiateir gan y cynllun pensiwn perthnasol.

4.7.5 Unwaith eto, mae'n bwysig bod y taliadau hyn yn cael eu gwneud er budd y cyhoedd, yn wrthrychol a heb ffafriaeth. Nodir y disgyblaethau y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y Deyrnas Unedig yn eu disgwyl gan endidau Llywodraeth Ganolog yn Atodiad 4.12,

sy'n esbonio'r gweithdrefnau hysbysu sydd i'w dilyn ar gyfer trafodion untro mwy o faint o'r math hwn. Trafodir y camau y dylid eu hystyried wrth sefydlu cynlluniau iawndal statudol neu allstatudol yn Atodiad 4.13.

4.8 Amgylchiadau Anarferol

4.8.1 Weithiau mae sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn wynebu cyfyng-gyngor o ran cyflawni eu hymrwymiaadau. Mae'n bosibl bod ganddynt rwymedigaeth gyfreithiol neu rwymedigaeth fusnes y byddai'n aneconomaidd neu'n amhriodol ei chyflawni'n ddiwyd i'r llythren. Mewn achosion o'r fath gall fod cyfiawnhad dros fabwysiadu dull amgen o weithredu sy'n bragmataidd, yn gyfiawn ac yn dryloyw, yr hysbysir Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y Deyrnas Unedig ohono yn briodol yng nghyfrifon blynyddol y sefydliad. Mae cynlluniau untro o'r math hwn bob amser yn rhai newydd ac felly maent yn gofyn am gyngor cyfreithiol a chymeradwyaeth ariannol. Mae blwch 4.6 yn awgrymu enghreifftiau â chynsail.

Blwch 4.6: Enghreifftiau o gynlluniau pragmataidd untro

- Gallai dyfarniad llys olygu bod swm bach iawn o arian yn ddyledus gan sefydliad yn y sector cyhoeddus i nifer fawr o unigolion. Gallai cost sefydlu a gweithredu cynllun talu cywir fod yn fwy na'r cyfanswm sy'n ddyledus. Yn lle hynny, gallai'r sefydliad wneud un taliad cyfwerth i elusen sy'n cynrychioli'r grŵp sy'n derbyn y taliad.
- Gallai anghydfod â contractwr ddod i'r casgliad bod swm yn ddyledus gan y contractwr i sefydliad yn y sector cyhoeddus sy'n rhy fawr i'r contractwr allu ei dalu mewn un flwyddyn tra'n parhau'n solfent. Yn lle hynny, gallai'r cwsmer gytuno ar delerau talu mwy ffafriol, gyda mesurau diogelu priodol, os bydd y trefniant hwn yn cynnig gwell gwerth am arian.

4.9 Staff

4.9.1 Dylai fod gan bob sefydliad yn y sector cyhoeddus ddigon o staff â'r sgiliau a'r arbenigedd i reoli ei fusnes yn effeithlon ac yn effeithiol. Dylai'r ystod o sgiliau sydd eu hangen gyd-fynd ag amcanion, cyfrifoldebau ac adnoddau'r sefydliad, gan gydbwysu sgiliau proffesiynol, ymarferol neu weithredol a llunwyr polisi a chan gydnabod gwerth pob disgyblaeth. Dylai gwaith cynllunio ar gyfer olyniaeth a thrychinebau sicrhau y gall y sefydliad ymdopi'n gadarn â newidiadau yn yr adnoddau sydd ar gael, gan gynnwys ymyrraeth nas rhagwelwyd.

4.9.2 Dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus geisio bod yn gyflogwyr teg, gonest ac ystyriol. Awgrymir rhai nodweddion dymunol ym mlwch 4.7.

4.9.3 Yn yr un modd, mae gan gyflogwyr yn y sector cyhoeddus hawl i ddisgwyl safonau ymddygiad da gan eu cyflogeion. Nodir y nodweddion a'r safonau a ddisgwylir gan weision sifil yn *Cod y Gwasanaeth Sifil*. Dylai cyflogwyr eraill yn y sector cyhoeddus geisio cyrraedd safonau tebyg, sy'n briodol i'w cyd-destun.

Blwch 4.7: Sefydliadau yn y sector cyhoeddus fel cyflogwyr da

- Proses ddewis y bwriedir iddi roi gwerth ar dalent a photensial o bob math a gwneud defnydd da ohonynt.
- Tegwch, uniondeb, gonestrwydd, didueddrwydd a gwrthrychedd.
- Proffesiynoldeb yn y disgyblaethau perthnasol, a fydd bob amser yn cynnwys cyllid.
- Trefniadau i sicrhau bod staff yn cael eu llwytho mewn modd costeffeithiol.
- Technegau rheoli sy'n cydbwysu mentrau i wella a disgyblu perfformiad gwael.
- Rhoddir gwerth ar amrywiaeth a pherchir preifatrwydd personol.
- Systemau i gefnogi arferion gwaith effeithlon, mewn amgylchiadau arferol ac o dan bwysau.
- Trefniadau i alluogi'r rheini sy'n chwythu'r chwiban i nodi problemau yn breifat heb ôl-ffeithiau.

4.10 Asedau

4.10.1 Mae pob sefydliad yn y sector cyhoeddus yn berchen ar amrywiaeth o asedau neu maent yn defnyddio amrywiaeth o asedau. Mae angen i bob sefydliad lunio strategaeth rheoli asedau briodol er mwyn diffinio sut mae'n caffael, yn cynnal, yn olrhain, yn defnyddio ac yn gwaredu'r gwahanol fathau o asedau a ddefnyddir ganddo. Mae Atodiad 4.14 yn trafod sut i lunio a defnyddio'r fath strategaeth.

4.10.2 Mae'n arfer da i sefydliadau yn y sector cyhoeddus fwrw golwg dros eu hasedau o bryd i'w gilydd ac ystyried o'r newydd a ydynt yn cael eu defnyddio'n effeithlon ac a ydynt yn cynnig gwerth am arian cyhoeddus. Os oes capasiti dros ben na ellir ei leihau efallai y bydd modd defnyddio rhan ohono ar gyfer gweithgareddau eraill y llywodraeth neu fanteisio'n fasnachol arno ar gyfer busnes anstatudol.

4.11 Safonau Gwasanaeth

4.11.1 Nid yw gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd gwael yn dderbyniol. Dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus ddiffinio'r hyn y gall eu cwsmeriaid, gwrthbartion busnes a rhanddeiliaid eraill ei ddisgwyl ganddynt.

4.11.2 Gellir mynegi safonau mewn nifer o ffyrdd. Mae enghreifftiau yn cynnwys canllawiau (ee amseroedd ymateb), targedau (ee nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau) neu gasgliad o hawliau cwsmeriaid mewn siarter. Hyd yn oed os nad yw safonau wedi'u pennu'n benodol, gellir eu dyfalu weithiau o'r ffordd y mae'r sefydliad sy'n darparu'r gwasanaeth yn cyflawni ei gyfrifoldebau. Felly, fel arfer, mae'n well eu mynegi'n uniongyrchol.

4.11.3 Pa safonau bynnag a bennir, dylid eu diffinio mewn ffordd fesuradwy, gyda chynlluniau ar gyfer cofnodi perfformiad, fel y gellir mesur y ddarpariaeth yn hawdd. Mae'n arfer da defnyddio adborth cwsmeriaid, gan gynnwys adborth o gwynion, i ailasesu, o bryd i'w gilydd, a yw'r safonau neu eu procsis (cerrig milltir, targedau, canlyniadau) yn dal i fod yn briodol ac yn ystyrlon.

4.11.4 Os bydd sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn methu â chyrraedd eu safonau, neu os na fyddant yn ymddwyn mewn ffordd resymol, efallai y bydd yn briodol ystyried cynnig

rhwymediau. Ceir gwahanol fathau o rwymediau, gan gynnwys ymddiheuriadau, adfer (ee cyflenwi trwydded sydd ar goll) neu, mewn achosion mwy difrifol, daliadau ariannol. Dylai penderfyniadau ynghylch rhwymediau ariannol – na ddylid eu cynnig fel mater o drefn – gynnwys ystyried hawliau cyfreithiol y parti arall neu'r partion eraill a'r effaith ar fusnes y sefydliad yn y dyfodol.

4.11.5 Dylai unrhyw daliadau o'r fath, p'un a ydynt yn rhai statudol neu ex gratia, ddilyn arfer da (gweler adran 4.12). Gan fod cynlluniau iawndal ariannol yn aml yn gosod cynseiliau neu'n cael effaith rywle arall, dylid eu clirio â chydweithwyr yn yr adran gyllid cyn gwneud ymrwymadau, fel y gwneir yn achos unrhyw wariant cyhoeddus arall y tu allan i'r patrwm arferol (gweler adrannau 2.1 i 2.2).

4.12 Cwynion

4.12.1 Dylai'r sefydliadau hynny yn y sector cyhoeddus sy'n ymdrin â chwsmeriaid yn uniongyrchol geisio cyrraedd safonau clir, manwl gywir a dibynadwy o ran y cynhyrchion a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Mae'n arfer da trefnu i gwynion ynghylch perfformiad gael eu hadolygu gan sefydliad annibynnol megis ombwdsmon.

4.12.2 Mae prosesau adolygu o'r fath yn aml yn rhai statudol. Gall Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru⁹ ymchwilio i gwynion yn erbyn amrywiaeth eang o gyrff cyhoeddus yng Nghymru nad ydynt wedi gweithredu'n briodol nac yn deg neu sydd wedi darparu gwasanaeth gwael. Yn sgil ymchwilio i achos, mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn penderfynu a yw'r rhai sy'n cwyno wedi cael cam neu wedi dioddef caledi o ganlyniad i gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth ac a gafodd, neu a gaiff, unrhyw gam neu galedi ei unioni. Mae penderfyniad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn derfynol (er nad yw'n gyfrwymol fel y byddai gorchymyn llys yn gyfrwymol), yn ddarostyngedig i adolygiad barnwrol gan y llysoedd.

4.12.3 Lle y canfyddir achos o gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth, gall Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru argymhell y dylai'r sefydliad cyhoeddus dan sylw dalu iawndal i'r rhai sy'n cwyno; ac i unrhyw unigolion eraill a all fod wedi dioddef yn yr un ffordd. Ceir rhagor o ganllawiau ar iawndal yn Atodiad 4.13.

4.13 Tryloywder

4.13.1 Dylai pob sefydliad yn y sector cyhoeddus weithredu mewn modd mor agored ag sy'n cyd-fynd â gofynion ei fusnes. Yn unol â'r hawliau cyhoeddus statudol, dylai ddarparu gwybodaeth amserol am ei wasanaethau, ei safonau a'i berfformiad. Dylai'r deunydd hwn daro cydbwysedd gofalus rhwng diogelu cyfrinachedd a phroses ddatgelu agored er budd y cyhoedd.

4.13.2 Dylai pob sefydliad yn y sector cyhoeddus fabwysiadu cynllun cyhoeddi sy'n cynnig gwybodaeth am weithgareddau'r sefydliad fel mater o drefn. Dylai hefyd gyhoeddi gwybodaeth reolaidd am ei gynlluniau, ei berfformiad a'i ddefnydd o adnoddau cyhoeddus.

4.13.3 Dylai'r wybodaeth gyhoeddedig fod yn ddigon manwl, ac yn ddigon rheolaidd, er mwyn galluogi defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill i ddwyn y sefydliad a'i Weinidogion i gyfrif. Gall meincnodau helpu defnyddwyr lleol i werthuso perfformiad lleol yn haws.

⁹ ee Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus 2005.

4.13.4 Y brif ddogfen gofnodi ar gyfer adrannau Llywodraeth Ganolog yw'r adroddiad a'r cyfrifon. Dylai gynnwys datganiad llywodraethu (gweler Atodiad 3.1) sy'n trafod trefniadaeth yr adran a sut y caiff ei rheoli; sut mae'n ymdrin â'i sefydliadau lleol cysylltiedig megis awdurdodau lleol a'r GIG; ac asesiad o'r risgiau sy'n ei wynebu ynghyd â thrafodaeth ynghylch y ffordd yr ymdrinnir â hwy.

4.13.5 At hynny, mae Trysorlys Ei Mawrhydi yn gyfrifol am gyhoeddi gwybodaeth gyfunol benodol am y defnydd a wneir o adnoddau cyhoeddus, er enghraifft Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan sy'n cyfuno cyfrifon holl sefydliadau llywodraeth ganolog a llywodraeth leol a chymariaethau o alldro â chyllidebau. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd yn defnyddio mewnbwn o ddata a gasglwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi i gyhoeddi'r cyfrifon cenedlaethol.

4.13.6 Mewn meysydd penodol o fusnes cyhoeddus mae hefyd yn bwysig neu'n ddymunol darparu mynediad cyhoeddus digonol i asedau ffisegol. Dylid osgoi cyfyngiadau diangen neu anghymesur. O'i reoli'n gywir, gall hwn fod yn ddull gwerthfawr o hyrwyddo cynhwysiant a gwella atebolrwydd cyhoeddus.

4.14 Ymdrin â Mentrau

4.14.1 Mae angen i sefydliadau yn y sector cyhoeddus integreiddio'r holl gyngor yn y llawlyfr hwn wrth gyflwyno polisiau newydd neu gynllunio prosiectau. Mae pob un yn unigryw a bydd angen triniaeth bwrpasol arno. Mae'r rhestr wirio ym mlwch 4.8 yn dod â'r gwahanol ffactorau ynghyd. Mae'n uniongyrchol berthnasol i sefydliadau Llywodraeth Ganolog ond bydd yr egwyddorion o werth mewn meysydd eraill.

Blwch 4.8: Ffactorau i'w hystyried wrth gynllunio polisiau neu brosiectau

Dylunio

- A yw'r cynnig wedi'i werthuso yn erbyn opsiynau amgen, gan gynnwys gwneud dim?
- A ddylid ei dreialu cyn ei gyflwyno?
- A gytunwyd ar y rheolaethau ac a ydynt wedi'u cofnodi'n glir?
- A yw'r risgiau a'r cyfleoedd wedi'u hystyried yn systematig? Beth yw'r peryglon sy'n gysylltiedig â gwneud dim?
- A all y broses newid wrthsefyll ergydion? Pa hapddigwyddiadau a allai godi?
- A yw'r ymyriad arfaethedig yn gymesur â'r angen a nodwyd?
- Pa safonau y dylid eu cyrraedd? Sut y caiff perfformiad ei olrhain a'i asesu? A ellid symleiddio'r cynnig heb golli gweithrediad?
- Os oes partner(iaid) yn cymryd rhan yn y gwaith, a yw cyfrifoldebau wedi'u dyrannu mewn modd priodol?
- A fydd y cynnig yn effeithlon ac yn effeithiol ac a fydd yn cynnig gwerth da am arian?
- A yw'r polisi yn gynaliadwy yn yr ystyr ehangaf? A ddylai gynnwys cymal machlud?
- A yw'r gweithgaredd arfaethedig yn cyrraedd safonau uchel o ran cywirdeb, uniondeb a gonestrwydd?
- A fydd y cynnig yn cyflawni'r canlyniad dymunol yn brydlon ac o fewn y gyllideb?

Rheolaeth

- Sut y bydd trefniadau llywodraethu a dirprwyo mewnol yn gweithio? A fyddant yn effeithiol? A ydynt yn dryloyw? A ddylai fod uwch-swyddog cyfrifol?
- A oes deddfwriaeth briodol? Os nad oes, beth sydd ei angen i sicrhau bod y cam gweithredu yn gyfreithlon?
- A oes unrhyw wrthdaro â chyfraith Ewrop, gan gynnwys terfynau ar gymorth gwladwriaethol?
- Sut y caiff y cynnig ei ariannu? A oes sicrwydd ynghylch cyllidebau ac amcangyfrifon? A yw'n briodol codi tâl er mwyn helpu i ariannu'r gwasanaeth? A gaiff taliadau eu pennu o fewn y gyfraith?
- A yw'r cam gweithredu arfaethedig yn dod o dan awdurdodau dirprwyedig yr adran?
- Pa dechnegau ariannol a gaiff eu defnyddio i reoli'r broses o gyflwyno'r cynnig, ei roi ar waith a'i weithredu?
- A yw technegau rheoli prosiectau a rhaglenni yn debygol o fod yn ddefnyddiol?
- Sut y caiff y trefniadau newydd a fwriadwyd eu monitro a sut y caiff effeithlonrwydd ei fesur?
- Sut y caiff adborth ei ddefnyddio i wella canlyniadau?
- A yw'r cynllun yn atal camddefnydd a thwyll? Pa fesurau diogelu sydd eu hangen?
- Sut y caiff y risgiau cysylltiedig eu holrhain a sut y caiff yr ymatebion eu haddasu?
- Pa ymyrraeth fydd yn bosibl os bydd pethau yn gwyro oddi ar y trywydd cywir?
- A fyddai'n bosibl adfer ar ôl trychineb yn brydlon?

Atebolrwydd

- Sut y dylid hysbysu Cynulliad Cenedlaethol Cymru am y cynnig a sut y dylid rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo am y cynnig?
- Pa dargedau a ddefnyddir? A ydynt yn ddigon ymestynnol?
- A oes angen darparu mynediad i'r cyhoedd? Sut?
- A yw'r polisi neu'r gwasanaeth yn deg ac yn ddiuedd?
- A fydd y broses o'i weinyddu yn agored, yn dryloyw ac yn hawdd ei deall?
- A ddylai fod safonau cwsmeriaid? Sut y defnyddir cwynion i wella perfformiad?
- A ddylid fod trefniadau ar gyfer talu iawndal ar ôl darparu gwasanaeth gwael?
- A oes angen camau gorfodi? Os felly, a ydynt yn gymesur?
- A oes angen system apelio?
- A oes angen rheoliadau?

Dysgu gwersi

- Pa drefniadau archwilio (mewnol ac allanol) y bwriedir eu sefydlu?
- Pa wybodaeth am y gweithgaredd a gaiff ei chyhoeddi? Sut a pha mor aml?
- Pryd a sut y caiff y polisi neu'r prosiect ei werthuso er mwyn asesu ei gost a'i fanteision a phenderfynu a ddylai barhau, cael ei addasu, cael ei ddisodli gan bolisi neu brosiect arall neu ddod i ben?

Pennod 5

Ariannu

Mae'r bennod hon yn ystyried y ffyrdd y gall sefydliadau Llywodraeth Cymru gael arian fel y gallant neilltuo a defnyddio adnoddau.

5.1 Y Fframwaith ar gyfer Rheoli Gwariant Cyhoeddus

5.1.1 Caiff cyllidebau adnoddau ar gyfer gwariant cyhoeddus eu dyrannu ymhlith adrannau Llywodraeth Ganolog y Deyrnas Unedig drwy broses ganolog o adolygiadau o wariant (a gynhelir bob dwy neu dair blynedd) a weithredir gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Gellir addasu'r cyllidebau hyn wedyn yng Nghyllidebau'r y Deyrnas Unedig a Datganiadau Hydref y Deyrnas Unedig. Y cyfanswm rheoli ar gyfer pob Adran Llywodraeth Ganolog yw ei chyfran o gyfanswm y gwariant a reolir, sy'n cynnwys terfyn gwariant adrannol a gwariant a reolir yn flynyddol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn derbyn cyfansymiau rheoli gan Drysorlys Ei Mawrhydi yn yr un ffordd ag Adrannau Llywodraeth Ganolog. Caiff terfyn gwariant adrannol Llywodraeth Cymru ei addasu gan ddefnyddio Fformiwla Barnett (gweler Blwch 5.1).

Blwch 5.1: Elfennau cyllidebau adnoddau

Terfynau gwariant adrannol: darpariaeth a gynllunnir ac a reolir dros dair blynedd, lle y gellir (yn amodol ar derfynau y cytunwyd arnynt gan Drysorlys Ei Mawrhydi) gario darpariaeth nas gwariwyd drosodd o un flwyddyn i'r llall drwy'r system Cyfnewid Cyllidebau. Mae hyn yn darparu rhywfaint o hyblygrwydd, er mwyn annog adrannau i bennu blaenoriaethau ac atal gwariant rhag cynyddu'n sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn. Fel arfer, mae'r terfynau gwariant adrannol yn cynnwys y rhan fwyaf o gyllideb pob Grŵp.

Gwariant a reolir yn flynyddol: gwariant nad yw mor hawdd ei reoli â terfynau gwariant adrannol, ond y mae'n rhaid cyllidebu ar ei gyfer bob blwyddyn, gan gynnwys gwariant nawdd cymdeithasol sy'n seiliedig ar alw a gwariant awdurdodau lleol a ariennir o drethi lleol.

Mae'r terfynau gwariant adrannol a'r gwariant a reolir yn flynyddol yn cynnwys cyfyngiadau ar wahân ar refeniw a gwariant cyfalaf gydag eitemau megis taliadau dibrisio a lleihad yn cael eu neilltuo gyda chyllidebau refeniw.

Fformiwla Barnett: defnyddir y fformiwla hon i addasu dyraniadau terfynau gwariant adrannol y Gweinyddiaethau Datganoledig. O'i symleiddio ychydig, mae tair elfen i'r fformiwla, sef:

- Cynnydd terfynau gwariant adrannol yr Adran yn Whitehall.
- Cyfran poblogaeth Cymru o'i chymharu â Lloegr.
- Ffactor cymharedd, sef y graddau y mae'r Weinyddiaeth Ddatganoledig yn gyfrifol am swyddogaethau adrannol penodol, ee mae gan y Gweinyddiaethau Ddatganoledig gymharedd o 0% ar gyfer Amddiffyn tra bod lechyd bron yn 100%.

Isod, ceir enghraifft o'r ffordd y mae'r fformiwla yn gweithio:

Mae'r Adran lechyd yn cael £10 miliwn ychwanegol. Ar gyfer Cymru mae hyn yn cyfateb i £10m x 5.759% (cyfran y boblogaeth) x 99.1% (cymharedd). Felly, bydd Cymru yn cael £570k.

5.1.2 Mae gwahaniaethau rhwng yr hyn sy'n sgorio yn erbyn terfynau gwariant adrannol a'r hyn sy'n sgorio'n erbyn y cwmpas yng nghynnig cyllidebol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac mae'r rhain i'w gweld ym mhob cynnig cyllidebol fel cymod rhwng Cyllideb Weinyddol a Dyranid Adnoddau (fel y cymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru).

5.1.3 Ar yr amod y caiff ei chymeradwyo gan gynnig cyllidebol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu ei chyllideb ar draws ei chyfrifoldebau, gan raeadru darpariaeth i'r rhai sy'n cael grantiau ganddi. Mae'r rhain yn cynnwys Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a derbynwyr mewn llywodraeth leol. Mae Atodiad 5.1 yn trafod yr egwyddorion y dylid seilio grantiau (at ddibenion penodol) a chymorth grant (cymorth amhenodol) arnynt. Yn gyffredinol, mae'n synhwyrol ystyried trefniadau ar gyfer diogelu buddiant Llywodraeth Cymru drwy adfachu grantiau penodol os na chaiff y dibenion y'u darparwyd ar eu cyfer eu cyflawni (gweler Atodiad 5.2).

5.1.4 O fewn y fframwaith cyllidebu adnoddau, defnyddir amrywiaeth o ddulliau o annog defnyddio gwariant cyhoeddus yn ddoeth ac yn effeithiol er mwyn cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru, gan gynnwys:

- Cyllidebau gweinyddu: prosesau ar wahân ar gyfer nodi a monitro faint o'r ddarpariaeth terfynau gwariant adrannol a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau cymorth sylfaenol megis cyflogau.
- Strategaethau rheoli asedau: cynlluniau i gynyddu a rheoli stoc cyfalaf drwy fuddsoddi.
- Amcanion strategol grwpiau: targedau perfformiad ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, megis amseroedd aros, cyfraddau troseddu neu safonau addysgol.

5.1.5 Nid yw cyllidebau adnoddau yn cael eu pennu mewn arian parod. Maent yn deillio o gyllidebau Grwpiau ac yn defnyddio'r dull cronïadau y mae cyfrifon adnoddau yn seiliedig arno. Felly, maent yn cynnwys elfennau i fesur y defnydd o adnoddau megis dibrisiant, a thaliadau am nwyddau/gwasanaethau a ddefnyddiwyd hyd yn oed os nad yw'r bil wedi'i dalu eto (cronïadau).

5.2 Amcangyfrifon Seneddol a Sut Maent yn Berthnasol i Gymru

5.2.1 Nid yw cyllidebau adnoddau cytûn Gweinyddiaethau Datganoledig ohonynt eu hunain yn rhoi awdurdod i wario na neilltuo adnoddau. Mae hynny yn gofyn am gytundeb Senedd y Deyrnas Unedig drwy'r broses Amcangyfrifon o Gyflenwadau. Gosodir Amcangyfrifon Adrannol sy'n cynnwys un neu fwy o Geisiadau am Adnoddau a disgrifiadau o Gwmpas gerbron Senedd y Deyrnas Unedig sy'n cwmpasu un flwyddyn ariannol ar y tro. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynnwys darpariaeth i Gymru. Ariennir Swyddfa Cymru drwy'r broses Ceisiadau am Adnoddau hon ac mae gweddill y bloc hwnnw (y rhan fwyaf ohono) yn mynd i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru, yr ariennir y canlynol drwyddi yn rhannol neu'n llwyr:

- Llywodraeth Cymru
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Comisiwn y Cynulliad
- Swyddfa Archwilio Cymru.

5.2.2 Gweinyddir Cronfa Gyfunol Cymru gan Lywodraeth Cymru, y mae'n rhaid iddi gael caniatâd Archwilydd Cyffredinol Cymru i wneud taliadau o Gronfa Gyfunol Cymru i'r cyrff uchod. At hynny, mae'n rhaid iddi lunio cyfrifon ar gyfer Cronfa Gyfunol Cymru bob blwyddyn, a gaiff eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

5.2.3 Mae'r Cwmpas Seneddol sy'n gymwys i Gymru (sy'n disgrifio'r hyn y gellir gwario'r arian a ddyrennir gan Senedd y Deyrnas Unedig arno) yn eang iawn ac mae'n cynnwys llawer llai o fanylion na Chwmpasau adrannol eraill.

5.2.4 Ni ellir cario darpariaeth Amcangyfrifon cytûn a gymeradwywyd gan Senedd y Deyrnas Unedig ar gyfer un flwyddyn drosodd i'r flwyddyn nesaf. Os oes angen i'r adran wario adnoddau nas defnyddiwyd ganddi mewn blwyddyn flaenorol, ac ar yr amod y bydd y gyllideb yn gallu darparu ar ei gyfer, mae'n rhaid gofyn am ganiatâd i wario mewn blwyddyn ddilynol o'r newydd.

5.2.5 Mae gan Swyddogion Cyfrifyddu'r Gweinyddiaethau Datganoledig rôl bwysig i'w chwarae o ran goruchwyllo cywirdeb cyffredinol y symiau a gyflwynir yn yr Amcangyfrifon. Yn benodol, mae Swyddogion Cyfrifyddu yn gyfrifol am sicrhau bod gwariant gwirioneddol yn rheolaidd ac yn briodol, ei fod yn cynnig gwerth am arian (gweler blwch 2.1) ac nad yw'n fwy na swm y ddarpariaeth Amcangyfrifon. Mae'r Trysorlys Ei Mawrhydi yn cyflwyno Datganiad o Daliadau Dros Ben i Senedd y Deyrnas Unedig bob blwyddyn er mwyn gofyn am ganiatâd ôl-weithredol i ddefnyddio'r adnoddau (neu arian parod) anawdurdodedig a ddefnyddiwyd uwchlaw'r terfynau perthnasol.

5.2.6 Dylid osgoi gwariant sy'n fwy na'r ddarpariaeth gan fod angen cael awdurdod Deddf Neilltuo Arian. Gyda chytundeb Trysorlys Ei Mawrhydi, mae'n bosibl diwygio'r terfynau o fewn Amcangyfrif yn ystod y flwyddyn drwy'r broses Amcangyfrifon Atodol. Mae newidiadau i Amcangyfrifon yn cynnwys trosglwyddiadau o Gronfa wrth Gefn y Trysorlys Ei Mawrhydi neu rhwng Adrannau'r Llywodraeth neu drwy gario cyllidebau drosodd drwy'r System Cyfnewid Cyllidebau. Fodd bynnag, gellid ystyried bod ceisiadau heb eu cynllunio gan Weinyddiaeth Ddatganoledig i Drysorlys Ei Mawrhydi i hawlio arian o'r Gronfa wrth Gefn yn fethiant o ran rheolaeth ariannol oni fydd amgylchiadau eithriadol.

5.2.7 Mae'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol yn rhoi gwybod am wariant gormodol ar bleidlais i Senedd y Deyrnas Unedig. Efallai y bydd eu Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ceisio croesholi'r Swyddogion Cyfrifyddu cyfrifol i weld a oes tystiolaeth o ryw wendid sylfaenol mewn prosesau rheoli. Mae'r arfer hwn yn parhau o hyd yn achos y Gweinyddiaethau Datganoledig (gweler Adran 136 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a'i gwrthgyferbynnu ag Adran 143).

5.3 Pennu Cyllideb Llywodraeth Cymru

5.3.1 Mae pob un o'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn gweithredu o dan eu gweithdrefnau eu hunain ar gyfer dyrannu'r adnoddau a ddyfarnwyd iddynt gan Senedd y Deyrnas Unedig. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 20 yn nodi'r gofynion sy'n ymwneud â Chymru. Nid yw strwythur Cyllideb Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r un strwythur a weithredir gan broses Amcangyfrifon Senedd y Deyrnas Unedig ond mae'n defnyddio system o Gwmpasau (adnoddau a ddyrennir i feysydd penodol o weithgarwch a chyrrff penodol a ariennir drwy Gronfa Gyfunol Cymru) ers gweithredu Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

5.3.2 Bob blwyddyn, bydd Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad yn gosod Cyllideb Ddrafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n nodi'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol (a dwy flynedd ddilynol lle y bo'n briodol). Bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru/Swyddfa Archwilio Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru hefyd yn cyflwyno amcangyfrif o'u gofynion o ran adnoddau ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol. Y Pwyllgor Cyllid a fydd yn craffu ar y cyllidebau hyn. Wedyn, fel arfer, ceir dadl ar y Gyllideb Ddrafft yn ystod un o gyfarfodydd llawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

5.3.3 Wedyn, bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Cynnig Cyllidebol Blynyddol sy'n cynnwys Cyllidebau Terfynol Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad ac amcangyfrifon cyllidebol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru/Swyddfa Archwilio Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Bydd y Cynnig Cyllidebol Blynyddol yn cynnwys y Cwmpasau y caiff incwm a gwariant eu hawdurdodi o'u mewn ac yn rhoi manylion y terfynau o ran adnoddau ac arian parod.

5.3.4 Mae'n bwysig bod y disgrifiadau o Gwmpasau ar gyfer pob Prif Grŵp Gwariant yn rhoi sylw digonol i'r gwasanaethau a'r dibenion y caiff adnoddau eu neilltuo ar eu cyfer. Os yw Archwilydd Cyffredinol Cymru o'r farn nad yw gweithgarwch penodol yn cael ei gynrychioli'n deg yn y Cwmpas gall Archwilydd Cyffredinol Cymru amodi cyfrifon blynyddol Llywodraeth Cymru ar y sail bod Gweinidogion Cymru wedi mynd i wariant nas awdurdodwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Hefyd, dylid osgoi gwario mwy na'r adnoddau a ddyrannwyd i Gwmpas cyffredinol Llywodraeth Cymru neu bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn amodi ei farn archwilio ar "reoleidd-dra" ar y sail bod arian wedi'i wario heb awdurdod. Cofnodir yr alldro yn erbyn pob Prif Grŵp Gwariant yn y cyfrifon blynyddol hefyd, ac o dan drefniadau'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol a weithredir gan Lywodraeth Cymru gellir galw ar y priod Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol i esbonio unrhyw wariant sy'n fwy na therfynau adnoddau Prif Grwpiau Gwariant unigol neu fethiant i ddyrannu adnoddau digonol i Gwmpasau i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

5.3.5 O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae rheolaethau tebyg a ddisgrifiwyd uchod yn berthnasol i incwm. Mae pob Cwmpas yn disgrifio ffynhonnell yr incwm (y cyfeirir ato fel cronni adnoddau) a'r gwasanaethau a'r dibenion y gellir ei ddefnyddio ar eu cyfer. Dylid dychwelyd unrhyw incwm dros ben i Gronfa Gyfunol Cymru oni cheir cymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy gynnig Cyllidebol atodol. Fel gyda gwariant, dylai pob Cwmpas incwm sicrhau bod cynrychiolaeth deg o'r gweithgareddau sy'n cynhyrchu'r incwm a'r gwasanaethau a'r dibenion y bwriedir ei ddefnyddio ar eu cyfer.

5.4 Cyllidebau Atodol

5.4.1 Ar unrhyw adeg ar ôl y Cynnig Cyllidebol Blynyddol gall Gweinidogion Cymru gyflwyno Cyllideb Atodol. Os caiff ei derbyn, bydd y Gyllideb Atodol yn disodli'r gyllideb flaenorol y pleidleisiwyd arni gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae angen Cyllideb Atodol o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Pan fydd unrhyw ddyraniadau yn cael eu gwneud drwy'r System Cyfnewid Cyllidebau neu Gronfeydd Wrth Gefn Heb eu Dyrannu.
- Pan fydd angen trosglwyddo arian rhwng Cwmpasau.
- Pan fydd unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud mewn incwm rhagweledig y mae angen i Grwpiau ei gadw.
- Pan fydd unrhyw newidiadau i ddisgrifiadau o Gwmpasau neu Derfynau Adnoddau yn cael eu gwneud, er enghraifft trosglwyddo swyddogaeth newydd i Gymru ynghyd ag unrhyw adnoddau cysylltiedig, neu pan fydd angen gwneud unrhyw newidiadau i ofynion arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru.

5.5 Ymrwmiadau

5.5.1 Fel arfer, mae ymrwmiadau gwleidyddol gan Weinidogion yn golygu bod angen defnyddio adnoddau. Felly, dylid craffu ar bob ymrwymiad gwleidyddol a'i arfarnu yr un mor drylwyr ag y gwneir yn achos cynigion penodol ar gyfer defnyddio adnoddau.

5.6 Treth

5.6.1 Ni ddylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus efnegu trethi, osgoi trethi na chynllunio trethi na chydgyllwynio i wneud hynny. Pe bai sefydliad yn y sector cyhoeddus yn cael mantais ariannol drwy gymedroli'r dreth a delir gan gontractwr, cyflenwr neu wrthbarti arall, byddai'n golygu, fel arfer, y byddai'r sector cyhoeddus yn gyffredinol ar ei golled, gan wrthdaro â dyletswyddau'r Swyddog Cyfrifyddu (gweler adran 3.3). Felly, fel arfer, dylid gwrthod cynlluniau osgoi treth artiffisial. Dylai fod yn arfer safonol ymgynghori â Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ynghylch trafodion sy'n cynnwys dulliau ansafonol o ymdrin â threth cyn mynd ymlaen.

5.6.2 Wrth gwrs, nid oes unrhyw broblem yn gysylltiedig â defnyddio cynghorwyr treth i helpu i fodloni gofynion dilys arferol cynnal busnes cyhoeddus. Mae'r rhain yn cynnwys gweinyddu Treth ar Werth, Talu Wrth Ennill a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol, lle y gall cymorth arbenigol fod yn ddefnyddiol ac yn effeithlon.

5.7 Cyfalaf Difidend Cyhoeddus

5.7.1 Caiff busnesau sector cyhoeddus penodol, yn arbennig cronfeydd masnachu, eu sefydlu gan ddefnyddio cyfalaf difidend cyhoeddus yn lle ecwiti. Yn debyg i ecwiti, dylid talu llog ar gyfalaf difidend cyhoeddus, er nad o reidrwydd ar gyfradd gyson.

5.7.2 Nid yw cyfalaf difidend cyhoeddus yn opsiwn meddal: oherwydd y risg sy'n gysylltiedig ag ef, dylai sicrhau cyfradd enillion sy'n hafal i fenthyciadau cyfatebol gan y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol neu sy'n fwy na hynny. Gall yr elw a gynhyrchir amrywio, ee er mwyn adlewyrchu amodau'r farchnad a phatrymau buddsoddi; ond ni ddylid goddef tanberfformiad parhaus yn erbyn y gyfradd enillion y cytunwyd arni.

5.7.3 Mae angen i Lywodraeth Cymru gael caniatâd Trysorlys Ei Mawrhydi i fuddsoddi cyfalaf difidend cyhoeddus mewn corff sector cyhoeddus hyd braich, a all gyflwyno adroddiadau arno i Senedd y Deyrnas Unedig. Weithiau, yn lle mater penodol sy'n ymwneud â chyfalaf difidend cyhoeddus, mae'r ddeddfwriaeth sy'n sefydlu busnes sector cyhoeddus (neu sy'n ei ail-lunio'n ariannol) yn ystyried bod mater sy'n ymwneud â chyfalaf difidend cyhoeddus yn gymwys i'r busnes newydd. Telir difidendau ar gyfalaf difidend cyhoeddus, ac unrhyw ad-daliadau cyfalaf difidend cyhoeddus, i noddwr y busnes.

5.8 Benthycia gan Sefydliadau yn y Sector Cyhoeddus

5.8.1 Caiff rhai sefydliadau yn y sector cyhoeddus, ee cronfeydd masnachu penodol, eu hariannu'n rhannol drwy fenthyciadau a ddarperir drwy'r Grŵp noddi o fewn Llywodraeth Cymru, neu o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol. Mae angen caniatâd Trysorlys Ei Mawrhydi a phwerau cyfreithiol penodol bob amser. Mae terfynau ac amodau eraill yn gyffredin. Prin yw'r defnydd a wneir o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol yng Nghymru, ond os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, gweler Adran 5.8 ac Atodiad 5.5 i *Managing Public Money* Trysorlys Ei Mawrhydi.

5.8.2 Dylai pob benthyciad gael ei roi gyda'r amod y telir llog arno ac y caiff ei ad-dalu yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni. Mae Grwpiau a sefydliadau eraill yn gyfrifol am graffu ar statws credyd benthycwyr ac ni ddylent ddibynnu ar eu record yn unig. Pe bai Grŵp noddi yn dod yn ymwybodol o bryderon ynghylch sicrwydd benthyciadau heb eu talu, dylai rybuddio'r Cyfarwyddwr Cyllid yn ddi-oed ac ystyried pa gamau y gall eu cymryd er mwyn lleihau unrhyw golled bosibl neu ei lliniaru mewn rhyw ffordd arall.

5.9 Benthycia o Ffynonellau Allanol

5.9.1 Mae gan Weinidogion Cymru bwerau benthycia cyfyngedig ar gyfer buddsoddiad cyfalaf sy'n destun rheolaethau llym. Mabwysiedir ymagwedd strategol at fenthycia o fewn Llywodraeth Cymru (gan gynnwys cyrff hyd braich) a chytunir ar bob ymrwymiad benthycia gan Weinidogion Cymru.

5.10 Ffynonellau Lluosog o Arian

5.10.1 Weithiau, mae sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn cael arian o fwy nag un ffynhonnell. Mae enghreifftiau o arian heblaw am arian a ddyfarnwyd yn cynnwys arian y loteri ac arian elusennol ac fel arfer mae amodau penodol ynghlwm wrth y dewisiadau amgen hyn.

5.10.2 Dylai sefydliadau yn y sefyllfa hon wahanu'r ffrydiau ariannu gwahanol a rhoi cyfrif amdanynt ar wahân fel y gallant gymhwyso'r telerau ac amodau perthnasol i bob un. Yn benodol, lle mae ffynhonnell o arian wedi'i neilltuo ar gyfer diben penodol, anaml iawn y mae'n briodol defnyddio ffynhonnell arall yn ei lle. Os oes amheuaeth ynghylch sut i ymdrin â ffrydiau ariannu lluosog, mae'n arfer da ymgynghori â chydweithwyr yn yr adran gyllid.

5.11 Rheoli Arian Parod

5.11.1 Mae'r gwahanol sefydliadau o fewn Llywodraeth Ganolog y Deyrnas Unedig, gyda'i gilydd, yn ymdrin â llifau mawr iawn o arian cyhoeddus bob diwrnod gwaith. Ar ddiwedd pob diwrnod gwaith, mae'n rhaid i Drysorlys Ei Mawrhydi naill ai fenthycia gan y farchnad arian neu adneuo arian gyda'r farchnad arian, gan ddibynnu ar y sefyllfa net a gyrhaeddir ar ôl cydbwysu all-lifau i gyllid a wariwyd â mewnlifau o drethi a derbyniadau eraill.

5.11.2 Felly, bydd lleihau'r sefyllfa net hon yn dod â manteision sylweddol i'r sector cyhoeddus yn gyffredinol. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu casglu balansau ynghyd ar ddiwedd pob diwrnod gwaith. Gyda'i gilydd mae'r holl gyfrifon hyn yn ffurfio Pyramid y Trysorlys a reolir gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Delir y rhan fwyaf ohonynt gan Wasanaeth Bancio'r Llywodraeth.

5.11.3 Mae'n hanfodol bod sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn lleihau'r balansau yn eu cyfrifon eu hunain gyda banciau masnachol. Pe bai pob un yn cadw swm sylweddol yn ei gyfrif ei hun gyda banciau o'r fath, byddai cyfanswm gwerth benthyciadau net y Llywodraeth a oedd heb eu talu ar unrhyw ddiwrnod penodol gryn dipyn yn uwch, gan ychwanegu at gostau llog a gwaethygu'r cydbwysedd cyllidol o ganlyniad i hynny.

5.11.4 Dylai pob sefydliad o fewn Llywodraeth Cymru lunio polisi ar ei ddefnydd o wasanaethau bancio.

5.12 Technegau Ariannu Eraill

5.12.1 Gan ddibynnu ar ei amgylchiadau, ei bwerau, ei ddibenion a'i broffil risg, gall sefydliad yn y sector cyhoeddus ystyried defnyddio offerynnau ariannol a ddarperir gan y marchnadoedd masnachol. Ymhlith y technegau hyn mae trafodion arian cyfred tramor a gwahanol offerynnau rhagfantoli y bwriedir iddynt reoli risgiau busnes neu gyfyngu arnynt, er enghraifft y rhai sy'n deillio o ofynion hysbys ar gyfer prynu nwyddau penodol sydd wedi'u prasio gan y farchnad yn y dyfodol. Neu gellid caniatáu taliadau drwy wahanol ddulliau electronig, gan gynnwys cardiau credyd.

5.12.2 Fel gyda phenderfyniadau ynghylch polisïau a phrosiectau eraill, dylai sefydliad sy'n ystyried defnyddio technegau ariannu anghyfarwydd eu gwerthuso'n ofalus. Mae Adran 5.12 o *Managing Public Money* Trysorlys Ei Mawrhydi yn cynnwys rhagor o ganllawiau ar y mater hwn.

Pennod 6

Ffioedd, Taliadau ac Ardollau

Fel arfer mae taliadau am wasanaethau a ddarperir gan sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn pasio ymlaen y gost lawn o ddarparu'r gwasanaethau hynny. Gellir codi mwy neu lai na'r gost lawn ar yr amod y ceir cymeradwyaeth gan y Gweinidog perthnasol ac y ceir datgeliad llawn. Gall sefydliadau yn y sector cyhoeddus hefyd gyflenwi gwasanaethau masnachol ar delerau masnachol y bwriedir iddynt weithio gan gystadlu'n deg â darparwyr yn y sector preifat. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl rheolaethau priodol dros sut, pryd ac ar ba lefel y gellir codi taliadau.

6.1 Pam Mae Taliadau yn Bwysig

6.1.1 Caiff nwyddau a gwasanaethau penodol eu hariannu gan daliadau yn hytrach nag o drethi yn gyffredinol. Gall hyn fod yn ffordd resymegol o ddyrannu adnoddau gan ei bod yn cyfleu'r neges i ddefnyddwyr bod costau economaidd gwirioneddol yn gysylltiedig â gwasanaethau cyhoeddus. Felly, gall codi tâl helpu i atal gwastraff sy'n deillio o ddefnydd wedi'i dargedu'n wael. Gall hefyd hwyluso'r broses o wneud cymariaethau â gwasanaethau yn y sector preifat, hyrwyddo cystadleuaeth, datblygu marchnadoedd a hyrwyddo ymddygiad ariannol gadarn yn y sector cyhoeddus.

6.1.2 Mae rhesymau na ellir eu hosgoi pam mae polisi ar godi tâl yn bwysig:

- Defnyddir taliadau yn lle trethi (neu, yn y bydymor, fenthycy) fel dull o gyllido'r Llywodraeth. Felly, dylai penderfyniadau ynghylch polisi codi tâl gael eu gwneud mewn ffordd yr un mor ofalus â phenderfyniadau ynghylch trethi, ac i safonau tebyg.
- Am y rheswm hwn, efallai y bydd angen ystyried deddfwriaeth ynghylch a ddylid codi taliadau, sut y dylid eu strwythuro a lefelau taliadau.
- Mae safonau rhyngwladol yn nodi sut y caiff incwm o daliadau ei ddosbarthu yn y cyfrifon cenedlaethol.

6.1.3 Fel gydag agweddau eraill ar y gwaith o reoli arian cyhoeddus, mae Senedd y Deyrnas Unedig a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn disgwyl i Lywodraeth Cymru sicrhau y caiff ei buddiannau eu parchu, gan gynnwys ceisio sicrhau effeithlonrwydd ac osgoi gwastraff neu ormodedd. Gan fod cyllidebau yn cael eu dangos net o incwm, mae angen ymdrech arbennig i roi gwybodaeth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am gostau gros a net ac am y ffynonellau a'r symiau o incwm.

6.2 Egwyddor Sylfaenol

6.2.1 Y dull safonol yw pennu taliadau i adennill costau llawn. Dylid cyfrifo'r gost ar sail cronadau, gan gynnwys gorbenion, dibrisiant (ee costau cychwyn neu wella) a chost cyfalaf. Mae Atodiad 6.1 yn nodi sut i wneud hyn.

6.2.2 Bwriedir i'r dull gweithredu hwn sicrhau na fydd sefydliadau cyhoeddus yn elwa ar draul defnyddwyr nac yn gwneud colled i drethdalwyr ei chymorthdal. Mae'n gofyn am onestrwydd ynghylch yr amcanion polisi a thryloywder llwyr er budd y cyhoedd.

6.2.3 Fel mewn mannau eraill, dylai sefydliadau sy'n cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus bob amser geisio rheoli eu costau er mwyn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol. Fel arfer, dylai effaith costau is gael eu pasio ymlaen i ddefnyddwyr ar ffurf taliadau is. Nid yw llwyddo i leihau costau yn esgus i osgoi'r egwyddorion yn y canllawiau hyn.

6.2.4 Mae'r bennod hon yn berthnasol i unrhyw ffioedd a thaliadau a bennir gan Weinidogion Cymru a chan amrywiaeth eang o gyrff cyhoeddus yng Nghymru: Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, y GIG ac is-gwmnïau. Dylai'r noddwyr allu bodloni eu hunain y gall eu cyrff cyhoeddus gyflawni'r amcanion ariannol ar gyfer y gwasanaethau y maent yn codi tâl amdanynt. Mae'r bennod hon hefyd yn berthnasol pan fydd un sefydliad cyhoeddus yn cyflenwi nwyddau neu wasanaethau i sefydliad cyhoeddus arall; ac i daliadau statudol penodol awdurdodau lleol a bennir gan Weinidogion Cymru.

6.3 Pennu Tâl: Arfer Safonol

6.3.1 Mae angen pŵer mewn deddfwriaeth ar Lywodraeth Cymru er mwyn pennu ffi am wasanaeth y gall ei ddarparu. Y rheswm dros hyn yw mai dim ond y pŵer cyfreithiol i wneud yr hyn y mae deddfwriaeth yn eu galluogi i'w wneud sydd gan Weinidogion Cymru, p'un a yw pŵer o'r fath yn cael ei nodi'n benodol ar wyneb y ddeddfwriaeth neu'n cael ei ymlygu o reidrwydd. Os oes unrhyw amheuaeth, dylid ymgynghori â'r Gwasanaethau Cyfreithiol.

6.3.2 Gellir cael pŵer o'r fath yn y ffyrdd canlynol:

- Mewn neu o dan¹⁰ un o Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru.
- Drwy Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau o dan Adran 58 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n trosglwyddo i Weinidogion Cymru un o swyddogaethau Gweinidogion y Goron a/neu'r Trysorlys sy'n arferadwy mewn perthynas â Chymru.
- Mewn neu o dan un o Fesurau'r Cynulliad neu un o Ddeddfau'r Cynulliad.
- Mewn neu o dan offerynnau uchelfreiniol megis Siarteri Brenhinol neu Warantau Brenhinol.
- Mewn neu o dan is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan Adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.
- Mewn is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan Adran 56 o Ddeddf Cyllid 1973.¹¹

6.3.3 Efallai y bydd angen cael caniatâd Trysorlys Ei Mawrhydi i arfer y pŵer i godi tâl, gan ddibynnu ar sut y rhoddwyd y pŵer i Weinidogion Cymru. I gael cyngor ar y pŵer i godi tâl dylech gysylltu â'r Gwasanaethau Cyfreithiol.

6.3.4 Wrth benderfynu faint o dâl a godir, mae'n bwysig diffinio'r canlynol:

- Ystod(au) y gwasanaethau y bwriedir codi tâl amdanynt.
- Sut y bwriedir gwahaniaethu rhwng unrhyw gategorïau o wasanaeth, os o gwbl, wrth bennu taliadau.

¹⁰ Gellir rhoi pŵer o'r fath "o dan" Ddeddf os yw'r Ddeddf ei hun yn rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth a bod y pŵer hwnnw yn ddigon eang fel y gellir rhoi pŵer o'r fath i Weinidogion Cymru.

¹¹ Yn rhinwedd Adran 59(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

6.3.5 Yr egwyddor safonol yw y dylid codi'r un tâl ar holl ddefnyddwyr categori penodol o wasanaeth, gan adennill y costau llawn ar gyfer y categori hwnnw o wasanaeth. Gellir pennu taliadau gwahanol am gategorïau o wasanaeth sy'n wahanol o ran eu hamcanion ac sy'n costio symiau gwahanol i'w darparu. Dengys blwch 6.1 sut y gall hyn weithio.

Blwch 6.1: Sut y gellir codi taliadau gwahanol am gategorïau gwahanol o wasanaeth

Gellid cydnabod categorïau gwahanol drwy:

- Gwahaniaethau rhwng gwahanol ddulliau cyflenwi, ee yn bersonol, drwy'r post neu ar-lein.
- Blaenoriaethau, ee lle mae gwasanaeth cyflymach yn costio mwy.
- Ansawdd, ee codi mwy am wasanaeth premiwm â mwy o nodweddion.
- Cydnabod gwahaniaethau strwythurol, lle mae'n costio mwy i gyflenwi rhai defnyddwyr.

6.3.6 Fodd bynnag, ni ddylid codi symiau gwahanol ar grwpiau gwahanol o gwsmeriaid am wasanaeth sy'n costio'r un faint, ee codi mwy ar gwmnïau nag ar unigolion. Yn yr un modd, nid yw croes-gymorthdaliadau yn arfer safonol, ee codi mwy ar fusnesau mawr nag ar rai bach lle mae'n costio'r un faint i gyflenwi gwasanaethau.

6.3.7 Mae'n aml yn ddefnyddiol ymgynghori â Llywodraeth Cymru wrth i'r categorïau a fydd yn agored i wahanol lefelau o daliadau gael eu datblygu. Mae hyn yn hanfodol os yw'r trefniadau arfaethedig yn cynnwys unrhyw nodweddion a allai effeithio ar rannau eraill o Lywodraeth Cymru neu osod cynseiliau ar ei chyfer. Mae hyn yn berthnasol i staff o fewn Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill.

6.3.8 Mae Atodiad 6.1 yn cynnwys canllawiau ar sut y dylid mesur y gost lawn er mwyn pennu taliadau. Mae rheolau arbennig yn gymwys i daliadau am wasanaethau gwybodaeth: gweler Atodiad 6.2 ac Adran 69 o Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Gellir darparu gwybodaeth am ddim neu am ffi fach er budd y cyhoedd. Mae'r dull gweithredu hwn yn cydnabod gwerth helpu'r cyhoedd i gael gafael ar y data sydd eu hangen arnynt.

6.3.9 Os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu ar darged ariannol sy'n llai nag adennill y gost lawn, dylai fod cynllun i sicrhau bod y gost lawn yn cael ei hadennill o fewn cyfnod rhesymol. Os na fwriedir adennill y gost lawn, mae'n bwysig penderfynu (a chofnodi) yn glir pam a pha mor hir y dylai unrhyw gymhorthdal cyhoeddus bwriadol bara. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am roi cyngor i Weinidogion Cymru er mwyn diogelu arian cyhoeddus a dylid ystyried rheolau cymorth gwladwriaethol hefyd.

6.3.10 Dylai taliadau o fewn ac ymhlith sefydliadau yn y sector cyhoeddus fel arfer gael eu codi ar sail y gost lawn hefyd, gan gynnwys cost safonol cyfalaf. Byddai unrhyw ddull gweithredu gwahanol yn achosi i un parti wneud elw neu golled nas cynlluniwyd mewn cyllidebau y cytunwyd arnynt; tra byddai sefydliad(au) sy'n gwsmer yn wynebu taliadau uwch neu is na'r costau llawn. Gallai nifer o ganlyniadau annerbyniol ddeillio o hyn. Er enghraifft, gallai mater cymorth gwladwriaethol godi; neu gellid codi ffioedd ystumiedig ar ddefnyddwyr sector cyhoeddus y sefydliad sy'n gwsmer.

6.3.11 Mae cydwasanaethau (gweler blwch 6.2) yn achos arbennig o godi tâl o fewn y sector cyhoeddus.

Blwch 6.2: Cydwasanaethau

Yn aml, mae modd sicrhau arbedion maint drwy drefnu i sawl sefydliad yn y sector cyhoeddus ymuno i ddarparu gwasanaethau yn rhatach, ee drwy ddefnyddio eu pŵer prynu ar y cyd. Mae'r naill sefydliad yn cyflenwi'r llall(lleill). Gan y dylai pob un o'r partïon leihau eu costau, ni ddylai Swyddog Cyfrifyddu pob sefydliad ei chael hi'n anodd nodi gwell gwerth am arian ac felly gyfiawnhau mynd ymlaen.

Dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus sy'n cyflenwi (neu'n gwella) cydwasanaethau ymgynghori â Llywodraeth Cymru yn gynnar yn y broses gynllunio. Fel arfer, mae sefydliadau cyflenwi yn wynebu cost sefydlu darpariaeth ar raddfa fwy nag sydd ei hangen arnynt at eu defnydd eu hunain. Fel sy'n digwydd pan sefydlir unrhyw wasanaeth newydd, dylai cynlluniau mewn cyllidebau amorteiddio costau cychwynnol fel y gellir eu hadennill dros gyfnod priodol o ddechrau'r gwasanaeth. Ceir rhagor o fanylion am gydwasanaethau yn Adran 7.5.

Nid yw'n dderbyniol i sefydliadau cyflenwi gynllunio i elwa o gyflenwi sefydliadau sy'n gwsmeriaid yn y sector cyhoeddus na chymorthdalur ddarpariaeth honno. Ac nid yw'n dderbyniol i swyddogion cyfrifyddu wrthwynebu cydwasanaethau am y rheswm syml nad ystyriar bod yr effaith ar eu sefydliad nhw yn un ffafriol.

6.4 Pennu Tâl: Dulliau Ansafonol

6.4.1 Efallai na fydd amcanion polisi Gweinidogion Cymru ar gyfer gwasanaeth lle y codir tâl yn cyd-fynd â'r model safonol yn Adran 6.3. Mewn achosion o'r fath efallai y bydd modd cyflawni'r amcan polisi mewn ffordd arall. Disgrifir rhai ffyrdd o wneud hyn isod. Mae angen cael caniatâd penodol yr Awdurdod Perthnasol, ac yn aml awdurdod cyfreithiol ffurfiol, ar gyfer y fath amrywiadau bob amser. Mae'n ddymunol ymgynghori â Llywodraeth Cymru yn gynnar er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r strategaeth arfaethedig.

Codi tâl sy'n llai na'r gost

6.4.2 Os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu codi tâl sy'n llai na'r gost lawn, dylai fod cynllun y cytunwyd arno i sicrhau bod y gost lawn yn cael ei hadennill o fewn cyfnod rhesymol. Mae angen gwerthuso pob achos yn ôl ei deilyngdod a chael cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru. Os bwriedir i'r cymhorthdal barhau, dylid dogfennu'r penderfyniad hwn a'i ailystyried yn rheolaidd.

Codi tâl sy'n fwy na'r gost

6.4.3 Fel arfer mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dosbarthu taliadau sy'n fwy na chost darpariaeth, neu nad ydynt yn amlwg gysylltiedig â gwasanaeth a ddarperir i'r sawl sy'n talu'r tâl, fel trethi. Mae taliadau o'r fath bob amser yn gofyn am benderfyniad penodol gan y Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth Cymru yn ogystal ag awdurdod statudol penodol. Nid yw Llywodraeth Cymru yn caniatáu cyllidebau yn awtomatig ar gyfer gwariant net sy'n gysylltiedig â thaliadau sy'n fwy na'r gost. Gellir cytuno i fantoli, neu fantoli hyd at y costau llawn, o dan rai amgylchiadau, gan ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod.

6.4.4 Weithiau, pan ddosberthir tâl o'r fath fel treth, ceir cynnig i neilltuo ei refeniw. Trinnir pob cynnig o'r fath yn ofalus a dylid ei gyfeirio at Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.

Croes-gymorthdaliadau

6.4.5 Mae croes-gymorthdaliadau bob amser yn cynnwys cymysgedd o godi taliadau rhy uchel a thaliadau rhy isel, hyd yn oed os mai'r effaith net yw adennill costau llawn ar gyfer y gwasanaeth yn gyffredinol. Felly, fel arfer dosberthir taliadau a groes-gymorthdelir fel trethi. Maent bob amser yn gofyn am ddeddfwriaeth briodol ac awdurdod penodol gan Weinidogion Cymru.

Gwasanaethau gwybodaeth

6.4.6 Er budd y cyhoedd, gellir darparu gwybodaeth am ddim neu am ffi fach. Mae'r dull gweithredu hwn yn cydnabod gwerth helpu'r cyhoedd i gael gafael ar y data sydd eu hangen arnynt er mwyn gweithredu yn y byd sydd ohoni. Ceir rhai eithriadau – gweler Atodiad 6.2.

6.5 Ardollau

6.5.1 Gellir cyfiawnhau ardollau er budd y cyhoedd, nid am eu bod yn darparu gwasanaeth buddiol uniongyrchol i'r rhai sy'n eu talu. Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, gall Llywodraeth Cymru ganiatáu i reoleiddwyr gadw'r ffioedd a godir os yw'r dull gweithredu hwn yn effeithlon ac er budd y cyhoedd.

6.5.2 Fel gyda ffioedd a thaliadau eraill, dylai ardollau gael eu pennu i adennill y costau llawn. Os bydd y ddeddfwriaeth yn caniatáu, gall y swm a godir dalu costau'r corff statudol ee gallai Rheoleiddiwr adennill cost cofrestru i ddarparu trwydded a goruchwyliaeth gysylltiedig. Gall fod yn briodol codi ardollau gwahanol am fathau gwahanol o drwyddedau, gan ddibynnu ar gost darparu mathau gwahanol o drwyddedau (gweler blwch 6.1).

6.6 Gwasanaethau Masnachol

6.6.1 Mae rhai gwasanaethau sector cyhoeddus yn ddewisol, h.y. nid ydynt yn seiliedig ar unrhyw statud. Mae gwasanaethau o'r fath yn aml yn cael eu cyflenwi mewn marchnadoedd cystadleuol, er bod gan y cyflenwr sector cyhoeddus fonopoli neu fantais naturiol arall weithiau.

6.6.2 Dylid pennu taliadau am y gwasanaethau hyn ar gyfradd fasnachol. Dylai'r gyfradd sicrhau elw masnachol ar y defnydd o'r adnoddau cyhoeddus a ddefnyddiwyd i gyflenwi'r gwasanaeth. Felly, dylai'r targed ariannol gyd-fynd ag arfer y farchnad, gan ddefnyddio cyfradd enillion ar gyfalaf, wedi'i phwysoli ar sail risg, sy'n berthnasol i'r sector dan sylw. Dylai'r gyfradd enillion a ddefnyddir mewn cyfrifiadau prisio ar gyfer gwerthiannau mewn marchnadoedd masnachol fod fel a ganlyn:

- Ar gyfer gwerthiannau mewn marchnadoedd masnachol, dylent gyd-fynd ag asesiad cystadleuwyr o'r risg i'w busnes, gan godi i gyfraddau uwch ar gyfer gweithgareddau y mae mwy o risg yn gysylltiedig â hwy.
- Lle mae corff sector cyhoeddus yn cyflenwi un arall, neu'n gweithredu mewn marchnad heb gystadleuwyr, dylent gyfateb i'r gyfradd safonol ar gyfer cost cyfalaf (gweler Atodiad 6.1).

6.6.3 Os na fydd gwasanaeth masnachol a ddarperir gan wasanaeth sector cyhoeddus yn cyflawni ei gyfradd enillion darged, dylid adennill diffygion ariannol heb eu clirio, ee drwy addasu taliadau. Mae angen cael caniatâd Gweinidogion Cymru i bennu unrhyw amcan sy'n methu â chyflawni'r gyfradd enillion darged, a dylid ei glirio â Llywodraeth Cymru. Ond ni ddylai gwasanaethau dewisol byth danseilio dyletswyddau cyhoeddus y sefydliad cyflenwi, gan gynnwys ei amcan(ion) ariannol.

6.6.4 Mae'n bwysig bod cyflenwyr cyhoeddus gwasanaethau masnachol yn parchu cyfraith cystadleuaeth. Fel arall, gallai gwasanaethau cyhoeddus sy'n defnyddio adnoddau a gaffaelwyd ag arian cyhoeddus amharu ar weithrediad teg y farchnad neu ei ystumio, yn arbennig lle y gallai'r darparwr sector cyhoeddus fod mewn safle dominyddol; gweler Atodiad 6.3.

6.7 Datgelu

6.7.1 Mae'n bwysig bod Senedd y Deyrnas Unedig a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael eu hysbysu'n llawn am y defnydd o daliadau. Bob blwyddyn dylai adroddiad blynyddol y sefydliad sy'n codi tâl nodi'r canlynol:

- Y symiau a godwyd.
- Costau llawn a chostau uned.
- Cyfanswm yr incwm a gafwyd.
- Natur a maint unrhyw gymorthdaliadau a/neu ordaliadau.
- Yr amcanion ariannol ac i ba raddau y'u cyflawnwyd.

6.7.2 Er mwyn sicrhau bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael gwybodaeth briodol, dylai'r cynnig cyllidebol ddangos manylion yr incwm a ddisgwyllir o daliadau.

6.7.3 Mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol a gyhoeddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi yn nodi'r wybodaeth y dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus ei chyhoeddi yn eu cyfrifon. Dylai'r wybodaeth hon gynnwys dadansoddiad o incwm.

6.8 Pwysu a Mesur

6.8.1 Fel gydag unrhyw ddefnydd arall o adnoddau cyhoeddus, mae'n bwysig monitro perfformiad fel y gellir addasu'r ymrwymiad yn ôl yr angen er mwyn aros ar y trywydd cywir. Mae'n arfer da adolygu'r gwasanaeth yn rheolaidd o leiaf unwaith y flwyddyn, er mwyn monitro, ac os yw'n briodol diwygio, lefel y tâl a godir. O bryd i'w gilydd, mae'n briodol cynnal adolygiad mwy sylfaenol fel arfer, ee yn ôl amserlen sy'n cyd-fynd â dymmeg y gwasanaeth. Mae blwch 6.3 yn awgrymu rhai materion i'w hystyried.

Blwch 6.3: Adolygu gwasanaeth cyhoeddus y codir tâl amdano

- A yw'n briodol o hyd i gorff yn y sector cyhoeddus ddefnyddio adnoddau cyhoeddus i ddarparu'r gwasanaeth?
- A oes unrhyw wasanaethau cysylltiedig y gallai fod achos dros godi tâl amdanynt?
- A yw'r strwythur busnes yn gwneud synnwyr o hyd? A yw'r asedau a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaeth yn ddigonol?
- Sut y gellir gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd fel y gellir lleihau taliadau neu gynnig gwell gwerth am arian?
- A yw'r amcan ariannol yn briodol?
- Ar gyfer gwasanaeth statudol (neu wasanaeth sector cyhoeddus arall), os nad yw costau llawn yn cael eu hadennill, pam ddim?
- Ar gyfer gwasanaeth masnachol, a yw'r gyfradd enillion darged yn dal i adlewyrchu cyfraddau'r farchnad?
- A yw'n dal i fod yn briodol mantoli unrhyw daliadau y cytunwyd arnynt sy'n fwy na'r gost a chostau?
- A oes modd sicrhau arbedion maint drwy ddatblygu cydwasanaeth?
- Pa ddatblygiadau a allai newid yr hinsawdd fusnes?
- Yn achos unrhyw wasanaethau dewisol, a ydynt yn dal i gyd-fynd yn dda â'r model busnes a'r amcanion ehangach?
- A ddylai unrhyw asedau nas defnyddir ddigon gael eu hadleoli, eu defnyddio i gynhyrchu elw masnachol neu eu gwerthu?
- A fyddai unrhyw fodel busnes arall (ee trwyddedu, contractio allan, preifateiddio) yn well?

Pennod 7

Gweithio Gydag Eraill

Mae'n aml yn gwneud synnwyr i sefydliadau yn y sector cyhoeddus weithio gyda phartneriaid er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r Bennod hon yn nodi sut y dylai Canghennau sy'n noddi fonitro perfformiad eu partneriaid a, lle y bo angen, reoli eu gweithgareddau. Mae'n bwysig rhoi blaenoriaeth i fudd y cyhoedd a'r angen i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wrth sefydlu a gweithredu'r cydberthnasau hyn.

7.1 Yr Achos dros Weithio mewn Partneriaeth

7.1.1 Mae ymgysylltu ag eraill a gweithio mewn partneriaeth yn rhan hanfodol o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Gellir cyflawni llawer mwy, a gellir defnyddio adnoddau cyhoeddus i'r eithaf, drwy gydweithio. Efallai y bydd yn fanteisiol i Lywodraeth Cymru ddirprwyo swyddogaethau penodol i gorff yn y sector cyhoeddus a all fod yn rhydd i ganolbwyntio ar y swyddogaethau hynny heb wrthdaro buddiannau. Neu gall fod yn fuddiol defnyddio arbenigedd sefydliad masnachol neu sefydliad yn y trydydd sector megis elusennau a grwpiau gwirfoddol sydd â sgiliau a dylanwad nad ydynt ar gael i'r sector cyhoeddus.

7.1.2 Mae'n anochel bod unrhyw berthynas o'r fath yn creu tensiynau yn ogystal â chyfleoedd. Mae angen atgyfnerthu annibyniaeth pob sefydliad drwy sicrhau atebolrwydd digonol er mwyn rhoi hyder i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'r cyhoedd fod adnoddau cyhoeddus yn cael eu defnyddio'n ddoeth.

7.1.3 Gall fod yn bwysig i gorff yn y sector cyhoeddus gael ei weld yn gwbl annibynnol. Nid yw hyn ynddo'i hun yn pennu ffurf na strwythur y corff. Sicrheir annibyniaeth drwy nodi sut y bydd y corff yn gweithredu. Mae annibyniaeth weithredol yn gydnaws â goruchwyliaeth ariannol gan y Gangen sy'n noddi'r corff, ac ag atebolrwydd.

7.1.4 Mae'n hanfodol ymdrin yn uniongyrchol ag unrhyw wrthdaro posibl drwy benderfynu ar y cychwyn sut y dylai'r berthynas/perthnasoedd rhwng y partïon weithio. Nodir y materion allweddol y mae angen mynd i'r afael â hwy ym mlwch 7.1.

Blwch 7.1: Materion i bartneriaethau ag aelodau o'r sector cyhoeddus

- Dylai fod sail resymegol ac achos busnes clir (a aseswyd yn erbyn nifer o ddewisiadau amgen) dros lunio cytundeb partneriaeth, sy'n ystyried pwerau a materion o ran rhannu gwybodaeth ac sy'n gwerthuso opsiynau eraill. Gall hyn ystyried y budd ehangach i'r cyhoedd sy'n deillio o'r bartneriaeth, yn ogystal â'r manteision i bob corff sy'n cymryd rhan.
- Dylai partneriaethau fod yn seiliedig ar berthynas o ymddiriedaeth a chydweithredu. Dylai achosion posibl o wrthdaro buddiannau neu anghydfod gael eu nodi ar y cychwyn a'u rheoli'n briodol.
- Dylai fod cytundeb clir ar yr allbynnau a'r canlyniadau y mae'r partneriaid yn ceisio eu cyflawni drwy eu partneriaeth.

- Dylai fod dogfen yn ei lle sy'n amlinellu fframwaith partneriaeth y mae pob partner yn ei goleddu ac sy'n nodi ym mha fodd y dylai'r bartneriaeth weithredu ac sy'n ystyried unrhyw gyfyngiadau statudol eraill neu gyfyngiadau ar gyrff sy'n cymryd rhan.
- Dylai fod trefniadau clir a diamwys ar gyfer y ffordd y bydd y bartneriaeth yn gwneud penderfyniadau a sut y bydd yn datrys anghydfodau.
- Dylai atebolrwydd a threfniadau adrodd fod yn glir ac yn ddiamwys.
- Os bydd y bartneriaeth yn cynnwys elfen o gydariannu dylai'r trefniadau ar gyfer atebolrwydd a rheolaeth ariannol gael eu dogfennu mewn modd cynhwysfawr.
- Os bydd y bartneriaeth yn cynnwys staff a reolir ar y cyd dylai'r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad ac atebolrwydd fod yn glir ac yn ddiamwys.

7.2 Sefydlu Cyrff Cyhoeddus Newydd

7.2.1 Pan gaiff corff cyhoeddus newydd ei greu mae'n rhaid gwneud penderfyniadau ar y math o gorff y dylai fod, a chaiff hyn ei lywio gan natur y busnes, ei swyddogaethau, safbwyntiau gwleidyddol a chyfyngiadau cyfreithiol, gan ystyried y profiad a'r cyngor proffesiynol perthnasol sydd ar gael yn eang. Mae Atodiad 7.1 yn cynnig cyngor ar sefydlu corff cyhoeddus newydd ac yn cymharu nodweddion asiantaethau, Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac Adrannau Anweinidogol.

7.2.2 Yn gyffredinol, dylai fod gan bob corff newydd ddiben penodol sy'n wahanol i un Llywodraeth Cymru. Dylai fod mantais ganfyddedig, glir yn gysylltiedig â sefydlu corff newydd, megis gwahanu prosesau gweithredu oddi wrth brosesau gwneud penderfyniadau; dangos uniondeb gwaith asesu annibynnol; sefydlu hunaniaeth arbenigol ar gyfer sgil broffesiynol; neu gyflwyno elfen o ddisgyblaeth fasnachol. Mae'n synhwyrol bod yn amheus ynghylch sefydlu corff cyhoeddus newydd gan y bydd yn aml yn ychwanegu at gostau.

7.2.3 Ni ellir rhoi awdurdod i gyrff wneud penderfyniadau sy'n briodol i Weinidogion Cymru, na chyflawni swyddogaethau sy'n briodol i Lywodraeth Cymru. Anaml y ceir mai Adran Anweinidogol yw'r dewis cywir gan mai atebolrwydd cyfyngedig sydd ganddynt i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Nid yw'n dderbyniol defnyddio Siarter Frenhinol i sefydlu corff sector cyhoeddus chwaith gan fod trefniadau o'r fath yn golygu na fyddai gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru reolaeth nac atebolrwydd.

7.2.4 Ni all Llywodraeth Cymru roi'r gorau i'w holl gyfrifoldeb am fusnes ei gyrff cyhoeddus. Dylai weithredu trefniadau goruchwyllo sy'n briodol i bwysigrwydd, ansawdd a chwmpas busnes y corff. Fel arfer, mae angen rhoi mwy o sylw i gyrff arbrofol neu arloesol, newydd, mawr nag i gyrff sefydledig neu fach sy'n ymgymryd â busnes cyfarwydd neu risg isel. Ac mae bob amser angen i'r Gangen noddi gadw digon o bwerau wrth gefn er mwyn iddi allu ailgyfansoddi tîm rheoli pob corff os bydd angen (gweler Adran 3.8).

7.2.5 Dylai'r Gangen noddi gynllunio'n ofalus er mwyn sicrhau bod ei threfniadau goruchwyllo a threfniadau llywodraethu mewnol unrhyw gorff newydd yn cydweithio'n gytûn heb ymyrraeth ddiangen. Mae'n bwysig sicrhau y bydd y trefniant newydd yn cyflawni'r canlyniad arfaethedig heb gymhlethdod diangen. Y Gangen noddi sy'n gyfrifol am sicrhau bod rheolaeth gyllidebol a disgyblaethau mewnol corff cyhoeddus newydd yn foddhaol fel y gall weithredu o fewn y gyllideb a ddyrannwyd iddo a chyflawni ei amcanion.

7.2.6 Ceir cryn dipyn o hyblygrwydd o ran ffurf a strwythur. Efallai y bydd yn gyfleus, ee, i sefydlu corff a gaiff ei werthu yn y pen draw fel cwmni sy'n dod o dan y Ddeddf Cwmnïau. Neu efallai y bydd Cyrff penodol a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn gweithredu yn fwyaf effeithiol pan fyddant wedi'u sefydlu fel elusennau. Gall strwythurau cydfuddiannol hefyd fod yn ddeniadol. Mae arloesi yn aml yn gwneud synnwyr. Gellir addasu cryn dipyn ar bob un o'r modelau safonol.

7.2.7 Os yw noddwyr yn bwriadu arloesi fel hyn, fel arfer mae angen ystyried a oes angen deddfwriaeth sylfaenol a sicrhau bod cyllideb briodol ar gael i dalu amdano.

7.2.8 Os bydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn penderfynu ymchwilio i gorff cyhoeddus, dylai Swyddogion Cyfrifyddu'r corff a'r Gangen noddi ddisgwyl cael eu galw fel tystion. Bydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ceisio bodloni ei hun bod gwaith goruchwyllo'r noddwr yn foddhaol.

7.3 Beth y Dylid Cael Eglurdeb yn ei Gylch mewn Cytundebau Partneriaeth

7.3.1 Wrth ddogfennu trefniant gyda phartner, dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus ddadansoddi'r berthynas ac ystyried sut y gallai ddatblygu. Mae'n rhaid nodi telerau'r trefniant mewn dogfen fframwaith (neu ddogfen gyfatebol) ac mae'n rhaid sicrhau bod pob parti yn eu deall yn glir er mwyn osgoi amryfusedd wrth i'r bartneriaeth ddatblygu. Dylid ei diweddarw wedyn wrth i'r bartneriaeth ddatblygu. Mae blwch 7.2 yn cynnwys telerau y dylid bob amser ystyried eu cynnwys. Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr.

7.3.2 Wrth lunio dogfennaeth sefydlu, dylai'r partneriaid weithredu'n gymesur â maint a risg y busnes dan sylw. Dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus ddadansoddi'r berthynas a sut y gallai ddatblygu. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn disgwyl i arian cyhoeddus gael ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n rhoi sicrwydd rhesymol y caiff adnoddau cyhoeddus eu defnyddio i gyflawni'r amcanion arfaethedig. Mae'n arfer da datblygu trefniadau strwythuredig ar gyfer deialog reolaidd rhwng y partiön er mwyn osgoi camddealltwriaeth a phethau annisgwyl.

Blwch 7.2: Telerau fframwaith ar gyfer cytundebau partneriaeth

Diben

Nodau'r berthynas a'i chylch gwaith.

Ei safonau, ei hamcanion allweddol a'i thargedau.

Llywodraethu ac atebolrwydd

- Y berthynas gyfreithiol, gan gynnwys unrhyw derfynau ariannol neu derfynau eraill.
- Unrhyw ofynion statudol sy'n ymwneud â swyddogaethau'r bartneriaeth.
- Trefniadau llywodraethu'r corff: strwythur ei Fwrdd, sut y caiff ei aelodau eu penodi (a'u diswyddo). Sut y dylai'r bartneriaeth weithio, ee cyfarfodydd rheolaidd o uwch swyddogion.
- I ba raddau y mae Gweinidogion Cymru yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am ymddygiad partner.
- Unrhyw nodweddion pwysig eraill o rôl noddi partner yn y sector cyhoeddus, ee ymgynghori â thrydydd partiön.

- Unrhyw drefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar berfformiad i'r cyhoedd a/neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Cynlluniau ar gyfer datblygu (ee yn gorff cydfuddiannol) yn y dyfodol.
- Unrhyw drefniadau ar gyfer gweithgarwch olynol, ee sefydlu partneriaethau tebyg mewn mannau eraill.

Gwneud penderfyniadau

- Sut y caiff penderfyniadau strategol ynghylch dyfodol y bartneriaeth eu gwneud, gydag amserlen, telerau ymyrryd, torbwyntiau, gweithdrefnau datrys anghydfod, proses derfynu.
- Sut y dylai'r gadwyn gyfrifoldeb weithio, ee adroddiadau stiwardiaeth, monitro effeithlonrwydd, asesu risg, arfarnu prosiectau, rheoli rhyngddibyniaethau.
- Sut y bydd y bartneriaeth yn nodi, yn rheoli ac yn olrhain cyfleoedd a risgiau.
- Statws y staff; a sut y cânt eu cyflogi, eu rheoli a'u talu.
- Sut y caiff unrhyw fewnbwn proffesiynol (ee meddygol, gwyddonol) ei reoli a sut y sicrhair ansawdd y mewnbwn hwnnw.
- Trefniadau ar gyfer pwysu a mesur perfformiad a dysgu gwersi ohono.
- Trefniadau ar gyfer ymyrryd pan fo angen.

Rheolaeth ariannol

- Y berthynas ariannol rhwng y partneriaid, ee:
 - Unrhyw gyfalaf sefydlu (gan gynnwys asedau, nwyddau, symiau ariannol neu eitemau gwerthfawr eraill).
 - Unrhyw grantiau cyfnodol a'u telerau.
 - Sut y cytunir ar gynllun corfforaethol a tharged(au) blynyddol y bartneriaeth.
 - Sut y penderfynir ar brosesau rheoli asedau a phrosiectau cyfalaf a sut y cânt eu rheoli.
 - Sut y caiff llif arian parod ei reoli a sut y gellir ariannu gwariant cyfredol.
 - Dosbarthiad incwm a llifau elw.
 - Unrhyw dargedau ariannol, ee adenillion ar y cyfalaf a ddefnyddiwyd (ROCE).
 - Sut y caiff unrhyw daliadau a godir ar gwsmeriaid neu ddefnyddwyr eu pennu.
 - Unrhyw gyfyngiadau y cytunwyd arnynt ar fusnes y bartneriaeth.
- Trefniadau ar gyfer monitro, cyflwyno adroddiadau ariannol, cysylltu'n rheolaidd ac unrhyw drefniadau olrhain eraill.
- Trefniadau archwilio mewnol ac allanol, gydag unrhyw gyfarwyddiadau cyfrifon perthnasol.
- Trefniadau ar gyfer cyfuno cyfrifon.

7.3.3 Yn y broses hon y nod yw rhoi Swyddogion Cyfrifyddu'r partïon mewn sefyllfa i lunio barn ar statws y berthynas ar sail gwybodaeth dda, fel bod modd gwneud newidiadau amserol yn ôl yr angen. Efallai y bydd cryn dipyn o adroddiadau a mathau eraill o gyfnewid gwybodaeth ar y dechrau, gyda'r posibilrwydd ar gyfer ymyrryd, yn sail i fenter sy'n fawr, sy'n arbrofol a/neu sy'n dwyn risg; a chwetogi wedyn os bydd profiad yn rhoi hyder am berfformiad. Ar y llaw arall, efallai y bydd partneriaeth sy'n dilyn patrwm a brofwyd mewn maes cyfarwydd yn gofyn am lai o ymyrryd.

7.3.4 Ceir cyngor pellach ar ddogfennau fframwaith yn Atodiad 7.2. Mae'n bwysig bod y fath ddogfennau yn addas i'r busnes y maent yn ymwneud ag ef (yn hytrach na dilyn cynsail neu gopiö model safonol).

7.4 Asiantaethau

7.4.1 Bwriedir i asiantaethau gynbig proffesiynoldeb a ffocws ar gwsmeriaid i'r gwaith o reoli a darparu gwasanaethau Llywodraeth y Deyrnas Unedig neu Lywodraeth Cymru, gan weithredu'n lled annibynnol i ryw raddau oddi wrth y Canghennau sy'n eu noddi. Efallai y bydd rhai hefyd yn gronfeydd masnachu.

7.4.2 Sefydli'r pob asiantaeth â dogfen fframwaith yn unol â'r hyn a amlinellir ym mlwch 7.2. Ar wahân i'r asiantaethau hynny sy'n gronfeydd masnachu (gweler Adran 7.8), maent fel arfer yn cael eu hariannu drwy wariant cyhoeddus.

7.5 Cydweithio

7.5.1 Er mwyn hyrwyddo gwell darpariaeth ac effeithlonrwydd, gallai fod yn fuddiol i swyddogion Llywodraeth Cymru gydweithio â'u cymheiriaid yn Adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Gweinyddiaethau Datganoledig eraill neu gyrff cyhoeddus. Gall hyn fod yn synhwyrol lle mae cyfrifoldebau'n gorgyffwrdd, neu lle mae'r ddwy yn gweithio yn yr un ardal ddaearyddol neu gyda'r un grwpiau o gleientiaid – trefniadau sy'n cael eu categoreiddio'n fras fel "llywodraeth gydgysylltiedig". Gallai model arall olygu rhannu gwasanaethau cyffredin. Mae trefniadau o'r fath yn cynnig cyfleoedd i sefydliadau leihau costau'n gyffredinol tra bod pob partner yn gweithredu yn ôl ei chryfderau.

7.5.2 Gellir llunio perthnasau o'r fath mewn sawl ffordd wahanol. Amlinellir rhai modelau ym mlwch 7.3. Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr.

7.5.3 Yn aml mae angen arian ar gydwasanaethau i sefydlu seilwaith, ee caffael cyfarpar technoleg gwybodaeth. Bydd angen sicrhau arian ar gyfer hyn ac, o gofio'r gwahanol gyfundrefnau a allai fod dan sylw, efallai y bydd hyn yn gofyn am waith cynllunio gofalus. Bydd angen i bob un o'r Swyddogion Cyfrifyddu dan sylw gael sicrwydd bod y prosiect yn cynnig gwerth am arian i'r sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd. Dylai'r darparwr godi taliadau ar gost, gan ddilyn y rheolau ffioedd a thaliadau safonol (gweler Pennod 6).

Blwch 7.3: Enghreifftiau o weithgareddau cydgysylltiedig

- Gall un partner weithredu fel y darparwr arweiniol sy'n gwerthu gwasanaethau (megis technoleg gwybodaeth, adnoddau dynol, swyddogaethau cyllid) i bartner arall/partneriaid eraill fel cwsmeriaid, gan weithredu o dan gytundeb(au) Adran 83 (o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).
- Trefniadau rhannau costau ar gyfer gwasanaethau cyffredin (ee mewn un adeilad), a ddyrennir yn unol â dangosydd megis nifer y staff a gyflogir neu faint o swyddfeydd a feddiennir.
- Caffael ar y cyd gan ddefnyddio protocol cydweithredol.
- Prosiect menter ar y cyd sydd â'i drefniadau llywodraethu ei hun, ee asiantaeth neu gwmni dan berchenogaeth lwyr, yn gwerthu gwasanaethau i nifer o sefydliadau, y gall rhai neu bob un ohonynt fod yn y sector cyhoeddus.
- Gwasanaeth a roddwyd ar gontract allanol sy'n darparu ar gyfer sawl cwsmer yn y sector cyhoeddus.

7.5.4 Mewn unrhyw weithgarwch ar y cyd, dylai fod un Swyddog Cyfrifyddu er mwyn sicrhau bod y llinellau atebolrwydd yn glir. Os bydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn penderfynu cynnal ymchwiliad, dylai Swyddogion Cyfrifyddu pob un o'r cyfranogwyr ddisgwyl cael eu galw fel tystion.

7.6 Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru

7.6.1 Gall Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru gymryd sawl ffurf gyfreithiol, gan gynnwys corfforaethau ac elusennau. Mae gan y rhan fwyaf o gyrff gweithredol a noddir gan Lywodraeth Cymru strwythur pwrpasol a nodir mewn deddfwriaeth neu ddogfen gyfatebol (ee Siarter Frenhinol). Gall dogfen o'r fath fanylu ar yr hyn y bydd y Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn ei wneud, pa bwerau sydd ganddo a sut y dylid ei ariannu. Weithiau, mae deddfwriaeth sylfaenol yn cynnwys pwerau sy'n caniatáu i is-ddeddfwriaeth bennu neu amrywio manylion strwythur y Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

7.6.2 Mae pob Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn gorff diben arbennig sy'n gyfrifol am ran o'r broses lywodraethu. Mae gan bob un ohonynt Gangen noddi yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am oruchwyliaeth gyffredinol ac am gyflwyno adroddiadau ar ei weithgarwch i Weinidogion Cymru. Felly dylai fod gan Ganghennau noddi o fewn eu Grwpiau drefniadau priodol ar gyfer monitro rheolaidd gyda chyfle i lywio perfformiad y Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru fel y bo angen.

7.6.3 Mae gan Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru amrywiaeth eang o strwythurau a dulliau gweithio, gyda chyfle i arloesi ac addasu. Mae rhai Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn gweithio gyda sefydliadau eraill yn ogystal â'u Cangennau noddi. Dylid cofnodi hyn oll yn y ddogfen fframwaith (gweler Atodiad 7.2).

7.6.4 Mae ffynonellau cyllid Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn amrywio yn ôl eu cyfansoddiad a'u swyddogaeth. Dengys blwch 7.4 y prif opsiynau sydd ar gael.

Blwch 7.4: Ffynonellau cyllid ar gyfer Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru

- Grant(iau) amodol penodol gan y Gangen noddi (a/neu Ganghennau eraill).
- Cymorth grant cyffredinol (y mae llai o amodau ynghlwm wrtho) gan y Gangen noddi.
- Incwm o daliadau a godir am nwyddau neu wasanaethau y gall y Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru eu gwerthu.
- Incwm o ffynonellau penodedig eraill, ee arian y loteri.
- Cyfalaf difidend cyhoeddus.

7.6.5 Yn ymarferol mae Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn gweithredu gyda rhywfaint o annibyniaeth ac nid ydynt o dan reolaeth Gweinidogion o ddydd i ddydd. Eto i gyd, Gweinidogion Cymru sy'n atebol yn y pen draw i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, a hynny am fod Gweinidogion Cymru: yn gyfrifol am ddeddfwriaeth sefydlu Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru; yn dylanwadu ar gyfeiriad strategol Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru; (fel arfer) yn penodi eu byrddau; ac yn y pendraw gallant fynd mor bell â dod â'r Cyrff anfoddhaol a Noddir gan Lywodraeth Cymru i ben.

7.7 Corfforaethau Cyhoeddus

7.7.1 Mae Gweinidogion Cymru yn berchen ar fuddiannau rheoli mewn corfforaethau cyhoeddus neu gwmnïau cyfyngedig, efallai (ond nid o reidrwydd) fel cam tuag at eu gwaredu. Fel arfer, mae pwerau corfforaeth gyhoeddus wedi'u diffinio drwy statud; ond, fel arall, mae holl ddisgyblaethau deddfwriaeth gorfforaethol yn gymwys.

7.7.2 Dylai noddwyr ddiffinio unrhyw berthynas gytundebol â chorfforaeth mewn dogfen fframwaith wedi'i haddasu i gyd-fynd â'r cyd-destun corfforaethol tra'n cadw disgyblaethau'r sector cyhoeddus. Dylai'r perfformiad ariannol a ddisgwyli'r roi adenillion teg i Lywodraeth Cymru, fel cyfrandaliwr, ar yr arian cyhoeddus a fuddsoddwyd yn y busnes. Mae blwch 7.5 yn cynnig awgrymiadau.

7.7.3 Gall Gweinidogion Cymru hefyd ddefnyddio cwmni sy'n eiddo iddynt fel contractwr neu gyflenwr nwyddau neu wasanaethau. Mae'n ddisgyblaeth dda gwahanu penderfyniadau ynghylch perfformiad masnachol y cwmni oddi wrth ei ymrwymïadau cytundebol, gan osgoi dryswch ynghylch amcanion. Felly, dylai fod contractau hyd braich clir rhwng y cwmni a'r Grŵp sy'n gwsmer iddo yn Llywodraeth Cymru sy'n diffinio'r berthynas/perthnasoedd rhwng y cwsmer a'r cyflenwr.

Blwch 7.5: Telerau amlinellol ar gyfer perthynas â chorfforaeth gyhoeddus

- Gweledigaeth strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y busnes, gan gynnwys y sail resymegol dros berchenogaeth gyhoeddus a chylch gwaith sector cyhoeddus y busnes.
- Strwythur cyfalaf y busnes a'r gyfundrefn ddifidendau y cytunwyd arni, gyda chymhellion addas o ran perfformiad y busnes.
- Yr amcanion busnes y disgwylir i'r fenter eu cyflawni, gan gydbwysu buddiannau cwsmeriaid a chyfranddalwyr ac unrhyw ofynion o ran polisi a gweithgarwch rheoleiddio.
- Hawliau a dyletswyddau Llywodraeth Cymru fel cyfranddaliwr, gan gynnwys:
 - Llywodraethu'r busnes.
 - Y weithdrefn ar gyfer penodi (a diswyddo) unigolion.
 - Monitro ariannol a monitro perfformiad.
 - Unrhyw brosesau cymeradwyo angenrheidiol.
 - Yr amgylchiadau lle y gall ymyrryd, a'i hawliau os bydd yn gwneud hynny.
- Manylion unrhyw berthynas arall â chyrrff cyhoeddus.

7.8 Cronfeydd Masnachu

7.8.1 Nid yw Cronfeydd Masnachu yn gyffredin yng Nghymru. Mae pob cronfa fasnachu yn gorfforaeth gyhoeddus. Nid yw'r gweithgareddau hyn wedi'u cyfuno â busnes y Gangen sy'n eu noddi.

7.8.2 Sefydli'r pob cronfa fasnachu drwy orchymyn sy'n ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Cyn y gellir gosod gorchymyn gerbron Senedd y Deyrnas Unedig, bydd angen i Drysorlys Ei Mawrhydi fod yn fodlon y gall cronfa fasnachu arfaethedig fodloni'r gofyniad statudol bod ei chynllun busnes yn gynaliadwy heb arian ychwanegol yn y tymor canolig. Gall cyfnod o weithredu cysgodol fel cronfa fasnachu beilot helpu i lywio'r asesiad hwn.

7.8.3 Mae'n rhaid i bob cronfa fasnachu gael ei hariannu o'i hincwm masnachu ei hun. Yn benodol, disgwylir i bob cronfa fasnachu wneud adenillion ariannol sy'n gymesur â risg y busnes y mae'n ei gynnal. Yn ymarferol mae hyn yn golygu na ddylai'r gyfradd adennill darged fod yn is na'i chost cyfalaf. Gall yr adenillion gwirioneddol a geir amrywio o un flwyddyn i'r llall, gan adlewyrchu'r farchnad y mae'r gronfa fasnachu yn gweithredu ynddi.

7.8.4 Dangosir y ffynonellau posibl o gyfalaf ar gyfer cronfeydd masnachu ym mlwch 7.6. Eu nod yw rhyddhau cronfeydd masnachu rhag disgyblaeth ariannu cyllideb flynyddol. Mae'n rhaid cytuno ar y cymysgedd gwirioneddol ar gyfer cronfa fasnachu benodol gyda'r noddwr (os oes un) a chyda Thrysorlys Ei Mawrhydi.

7.8.5 Ceir rhagor o fanylion am gronfeydd masnachu yn Atodiad 7.3, a gellir cael canllawiau hefyd oddi wrth y Gwasanaethau Cyllid a Chyfreithiol. Ceir canllawiau ar bennu'r taliadau a godir am nwyddau a'r gwasanaethau a werthir gan gronfeydd masnachu ym Mhennod 6.

Blwch 7.6: Ffynonellau cyfalaf ar gyfer cronfeydd masnachu

- Cyfalaf difidend cyhoeddus (sy'n cyfateb i ecwiti, sy'n dwyn difidendau).
- Cronfeydd wrth gefn a gronnir o elw masnachu.
- Benthyciad hirdymor neu fyrdymor (a ddyfernir i gronfa fasnachu gan Gangen noddi neu a fenthycir oddi wrth y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol os yw'r gronfa fasnachu yn adran yn ei rhinwedd ei hun).
- Cymhorthdal dros dro gan Gangen noddi, a ddyfernir i'r gronfa fasnachu yng Nghyllideb Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Prydlesau cyllid.

7.9 Adrannau Anweinidogol

7.9.1 Nifer fach iawn o sefydliadau Llywodraeth Ganolog y DU sy'n Adrannau Anweinidogol. Fodd bynnag, gall y cyfrwng hwn ddod yn fwy cyffredin yng Nghymru wrth i bwerau pellach gael eu datganoli. Felly mae'n bwysig bod sail resymegol glir dros y statws hwn yn cael ei defnyddio ym mhob achos.

7.9.2 Nid yw Adrannau Anweinidogol yn uniongyrchol atebol i Weinidogion. Mae ganddynt eu Swyddogion Cyfrifyddu eu hunain, eu cyllideb eu hunain, maent yn cyhoeddi eu hadroddiadau blynyddol eu hunain ac yn cael eu staffio gan weision sifil. Fodd bynnag, mae Gweinidogion yn cadw golwg ar bob Adran Anweinidogol fel y gallent roi cyfrif am fusnes yr Adran Anweinidogol; ac, os oes angen, gymryd camau, ee i addasu'r ddeddfwriaeth y maent yn gweithredu oddi tani. Dylai dogfen fframwaith ddiffinio perthynas o'r fath.

7.9.3 Dylid cyfiawnhau'r atebolrwydd cyfyngedig hwn yn ofalus. Gall fod yn addas i sefydliad yn y sector cyhoeddus sydd â dyletswyddau proffesiynol lle na fyddai mewnbwn Gweinidogol yn briodol neu lle y gallai amharu ar ei uniondeb. Anaml y mae'r angen i fod yn annibynnol yn ddigon i gyfiawnhau statws Adran Anweinidogol. Mae'n bosibl llunio cytundebau ar gyfer Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n rhoi annibyniaeth gadarn iddynt. Lle y bo hyn yn bosibl mae'n sicrhau gwell atebolrwydd seneddol ac felly dyma'r opsiwn a ffeirir.

7.10 Llywodraeth Leol

7.10.1 Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi grantiau sylweddol i awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae rhai o'r rhain yn grantiau penodol (wedi'u neilltuo). Ond nid yw'r rhan fwyaf wedi'u neilltuo, sy'n golygu y gall awdurdodau lleol bennu eu blaenoriaethau eu hunain.

7.10.2 Er hynny, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn disgwyl cael sicrwydd y caiff y fath gronfeydd wedi'u datganoli eu defnyddio'n briodol, h.y. y cânt eu gwario mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol, ac na cânt eu gwastraffu na'u camddefnyddio. Mae ansawdd y sicrwydd sydd ar gael yn wahanol i'r sicrwydd a ddisgwylir gan sefydliadau llywodraeth ganolog am mai i'w hetholwyr y mae awdurdodau lleol yn bennaf atebol.

7.10.3 Ar gyfer y perthnasau hyn, nid mabwysiadu dogfen fframwaith yw'r dull mwyaf buddiol o weithredu. Yn hytrach, dylai Grwpiau Llywodraeth Cymru lunio adroddiad blynyddol ar y ffordd y mae eu swyddogion cyfrifyddu yn sicrhau eu hunain y caiff grantiau i lywodraeth leol eu dosbarthu a'u gwario'n briodol; a'r ffordd y gellir ymdrin â thanberfformiad. Mae'r adroddiad hwn yn rhan o'r datganiad llywodraethu yn adroddiad a chyfrifon pob Grŵp perthnasol yn Llywodraeth Cymru (gweler Atodiad 3.1).

7.10.4 Mae ystyriaethau tebyg yn gymwys i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

7.11 Strwythurau Arloesol

7.11.1 Weithiau mae gan Grwpiau Llywodraeth Cymru amcanion sy'n cyd-fynd yn well â strwythurau pwrpasol sy'n addas i'r busnes dan sylw, neu sydd yn fwy addas ar gyfer cynlluniau tymor hwy ar gyfer dyfodol y busnes. Gallai strwythurau o'r fath gynnwys, e.e, wahanol fathau o gyrff cydfuddiannol neu bartneriaeth.

7.11.2 Mae cynigion o'r math hwn, yn ôl y diffiniad, yn rhai newydd ac felly mae angen cael caniatâd penodol yr Uned Llywodraethu Corfforaethol ar eu cyfer. Ym mhob achos, bernir cynigion yn ôl eu rhinweddau yn erbyn egwyddorion safonol y sector cyhoeddus ar ôl ystyried y dewisiadau amgen ac unrhyw brofiad perthnasol. Bydd angen i'r Uned Llywodraethu Corfforaethol bob amser ddeall pam na fydd un o'r strwythurau presennol yn gwneud y tro: ee mae cryn dipyn o hyblygrwydd yn perthyn i fformat Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Efallai y gall blychau 4.9 a 7.2 helpu gyda'r gwaith dadansoddi hwn.

7.12 Darparu drwy Contract Allanol

7.12.1 Mae sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn achlysurol yn ei chael hi'n ddefnyddiol rhoi rhai gwasanaethau neu swyddogaethau nad ydynt yn rhai craidd ar contract allanol yn hytrach na'u darparu'n fewnol. Mae enghreifftiau nodweddiadol yn cynnwys glanhau, diogelwch, arlwy a chymorth technoleg gwybodaeth. Mae amrywiaeth llawer ehangach o wasanaethau yn addas, o bosibl, i'r driniaeth hon. Dylid ystyried dulliau arloesol mewn modd adeiladol.

7.12.2 Y cam cyntaf wrth lunio unrhyw contract allanol yw pennu'r gwasanaeth/gwasanaethau sydd i'w ddarparu/darparu a hyd y contract a geisir. Ar yr adeg honno, fel arfer mae'n ddymunol llunio cynllun busnes amlinellol er mwyn helpu i werthuso a yw rhoi gwasanaeth ar contract allanol yn gwneud synnwyr o safbwynt ariannol a gweithredol. Dylai unrhyw benderfyniadau i roi gwasanaethau ar contract allanol gael eu gwneud ar sail gwerth am arian.

7.12.3 Mae'n arfer da trefnu math addas o gystadleuaeth ar gyfer pob contract allanol, fel sy'n digwydd ar gyfer prosesau caffael eraill. Fel arfer, o dan y gyfraith, mae'n hanfodol agor y gystadleuaeth i bob cwmni yn yr Undeb Ewropeaidd (gweler Atodiad 4.5). Lle mae'r sefydliad yn rhagweld y bydd angen gwasanaethau ar fyr rybudd, ee gwasanaethau cyfreithiol i roi cyngor ar gyfleoedd, bygythiadau neu bwysau busnes eraill sy'n dod i'r golwg heb fawr ddim rhybudd, mae'n arfer da trefnu cystadleuaeth i sefydlu panel sefydlog o ddarparwyr y gellir galw ar eu haelodau i ymdrin ag anghenion sy'n dod i'r golwg yn gyflym.

7.12.4 Nid yw rhoi gwasanaeth ar contract yn dileu cyfrifoldeb. Dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus sy'n defnyddio contractwr roi systemau ar waith i olrhain a rheoli perfformiad o dan y contract. Gall fod yn briodol cynllunio ar gyfer cosbau am darfu ar y gwasanaeth a/neu fethu â'i ddarparu os na all y contractwr gyflawni'r contract. Efallai y bydd angen rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus fod y trefniadau ar gyfer rhoi gwasanaeth ar contract allanol yn cynnwys atebolrwydd digonol am y defnydd a wneir o arian cyhoeddus.

7.13 Cyllid Preifat

7.13.1 Pan fyddant wedi'u ffurfio'n briodol ac yn cael eu rheoli'n gywir, gall sefydliadau yn y sector cyhoeddus ddefnyddio trefniadau cyllid preifat i greu asedau a/neu ddarparu gwasanaethau sy'n cynnig gwerth da am arian. Gall trefniadau strwythuredig lle y mae'r sector preifat yn mentro ei arian ei hun helpu i gyflawni prosiectau ar amser ac o fewn y gyllideb.

7.13.2 Mae'n bwysig cynnal dadansoddiad gwerth am arian trylwyr er mwyn nodi a yw'r manteision hyn yn debygol o fod yn fwy na chost ychwanegol cyllid preifat. Dylai sefydliadau contractio hefyd sicrhau y gallant fforddio trefniadau o'r fath dros eu hoes weithredol, gan ystyried, hyd y gellir, y risg y ceir amgylcheddau ariannol anodd yn y dyfodol. Nid yw'n arfer da cychwyn ar drefniant cyllid preifat os yw'n ddibynnol ar drafodion ariannol annibynnol eraill sy'n cael eu cynnal yn ystod oes y prosiect.

7.13.3 Mae caffael gan ddefnyddio cyllid preifat yn dechneg hyblyg, amlbwrpas ac, yn aml, effeithiol, felly dylid ei ystyried yn ofalus fel opsiwn caffael. Mae Trysorlys Ei Mawrhydi wedi cyhoeddi telerau safonol ar gyfer contractau o'r fath ond mae'n rhaid i Grwpiau Lywodraeth Cymru gysylltu â'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwerth Cymru cyn cymryd rhan mewn cynlluniau cyllid preifat. Hefyd, gall fod goblygiadau o ran Cymorth Gwladwriaethol y dylid eu trafod gyda'r Uned Cymorth Gwladwriaethol a'r Gwasanaethau Cyfreithiol. Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eraill drafod eu cynlluniau gyda'u noddwyr yn Llywodraeth Cymru.

7.14 Gweithgarwch Masnachol

7.14.1 Pan fydd gan gyrff cyhoeddus asedau nad ydynt wedi'u defnyddio'n llawn ond sydd i'w cadw, mae'n arfer da (ar yr amod bod trosglwyddiadau ariannol yn caniatáu hynny) ystyried defnyddio'r adnoddau dros ben i gael adenillion masnachol er budd y cyhoedd. Mae hyn yn rhan o waith rheoli asedau da yn ei hanfod.

7.14.2 Gellir ystyried unrhyw fath o ased yn y sector cyhoeddus a dylid gwneud hynny. Gall y rhain gynnwys asedau ffisegol ac anniriaethol, ee tir, adeiladau, cyfarpar, meddalwedd ac eiddo deallusol (gweler Atodiad 4.14). Mae amrywiaeth fawr o fodelau busnes yn bosibl.

7.14.3 Mae gwasanaethau masnachol o'r fath bob amser yn mynd y tu hwnt i ddyletswyddau craidd y corff sy'n cyflenwi'r sector cyhoeddus. Gan fod yr asedau hyn wedi'u caffael ag arian cyhoeddus, mae'n bwysig bod gwasanaethau'n cael eu priso'n deg: gweler Pennod 6. Mae'n bwysig parchu'r rheolau ynglŷn â Chymorth Gwladwriaethol hefyd: gweler Atodiad 4.6. Dylai sefydliadau Llywodraeth Cymru ystyried pob un o bwyntiau'r rhestr wirio ym mlwch 7.7.

Blwch 7.7: Cynllunio ar gyfer elwa'n fasnachol ar asedau presennol

- Diffiniwch y gwasanaeth sydd i'w ddarparu.
- Cadarnhewch fod unrhyw drosglwyddiadau ariannol angenrheidiol a darpariaeth Gyllidebol yn bodoli.
- Sicrhewch nad yw'n tarfu ar swyddogaethau statudol y corff ac nad yw'n rhwystro'r gwaith o gyflawni cyfrifoldebau craidd.
- Ystyriwch unrhyw faterion sy'n ymwneud â Chymorth Gwladwriaethol.
- Nodwch unrhyw ddarpar bartneriaid busnes a chynnal proses ddewis.
- Os yw'r gweithgaredd arfaethedig yn un newydd, yn ddadleuol neu'n un sy'n debygol o osod cynsail rywle arall, dylech gael cymeradwyaeth yr Uned Llywodraethu Corfforaethol (ar gyfer Grwpiau Llywodraeth Cymru) neu'r Gangen noddi (ar gyfer cyrff eraill).
- Cydymffurfiwch â'r gofynion arferol o ran priodoldeb, rheoleidd-dra a gwerth am arian.

7.14.4 Er ei bod yn gwneud synnwyr defnyddio asedau sy'n cael eu caffael gydag adnoddau cyhoeddus i'r eithaf, ni ddylai gweithgarwch o'r fath roi pwysau ar brif amcanion a gweithgareddau sefydliad sector cyhoeddus na'u peryglu. Yn yr un modd, nid yw'n dderbyniol caffael asedau at ddibenion bod yn rhan o weithgarwch marchnadoedd ehangach yn unig, neu eu hymestyn. Os bydd gweithgarwch marchnadoedd ehangach cyflenwr yn y sector cyhoeddus yn cyrraedd pwynt lle mae angen buddsoddiad pellach i'w gadw'n hyfyw, mae'n briodol ei ail-werthuso fel arfer. Dylai hyn ystyried dewisiadau amgen fel gwerthu'r busnes, ei drwyddedu (rhaid trafod hyn gyda'r Gwasanaethau Cyfreithiol), cael cyfalaf o'r sector preifat, neu chwilio am ffyrdd eraill o fanteisio ar botensial yr asedau neu'r busnes nas defnyddir i'r eithaf.

7.14.5 Mater o farn ydyw p'un a ddylai Grwpiau hysbysu Cynulliad Cenedlaethol Cymru o fodolaeth neu dwf mentrau marchnadoedd o bwys.

7.15 Gweithio gyda Chyrff y Trydydd Sector

7.15.1 Gallai fod yn ddefnyddiol i Grwpiau Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill feithrin perthynas waith â chyrff yn y trydydd sector er mwyn iddynt gyflawni eu hamcanion yn fwy effeithiol: hynny yw, elusennau, sefydliadau cymdeithasol, gwirfoddol neu gymunedol, mudiadau cydfuddiannol, mentrau cymdeithasol a chyrff eraill nid er elw (gweler Atodiad 7.4 am ragor o fanylion). Gall partneriaeth â chyrff o'r fath gyflawni mwy nag y gall y sector cyhoeddus neu'r trydydd sector ei gyflawni ar ei ben ei hun, ee gall defnyddio corff yn y trydydd sector feithrin dealltwriaeth o'r galw am wasanaethau cyhoeddus a dulliau addas o'u darparu.

7.15.2 Yn y math hwn o berthynas, gall sefydliad yn y sector cyhoeddus ariannu gweithgareddau, rhoi grantiau, benthycu asedau neu drefnu trosglwyddiadau eraill i gorff yn y trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau neu'n hwyluso'r broses o'u darparu. Mae'n hanfodol cynnwys mesurau diogelwch er mwyn sicrhau y caiff adnoddau eu defnyddio fel y bwriadwyd (gweler Atodiad 5.2). Mae hyn yn rhoi hyder i Gynulliad Cenedlaethol Cymru y caiff adnoddau a ddyfarnwyd eu defnyddio at y dibenion a gymeradwywyd ganddo.

7.15.3 Dylid cytuno ar y mesurau diogelwch ar ddechrau'r berthynas. Mae gwaith addasu bron bob amser yn hanfodol. Mae'n aml yn briodol mynnu bod darpariaeth adfachu, h.y. cytuno at delerau lle mae rhoddwyr yn y sector cyhoeddus yn adennill yr elw os caiff asedau a arferai fod yn eiddo i'r cyhoedd eu gwerthu.

7.16 Gweithio gyda Chomisiynwyr

7.16.1 Ers iddi ddod i fodolaeth yn 1999, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu nifer o Gomisiynwyr. Cafodd y rhain i gyd eu creu drwy ddeddfwriaeth. Mae'n bwysig bod Grwpiau Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at y ddeddfwriaeth benodol ar gyfer pob Comisiynydd wrth sefydlu'r trefniadau a fydd yn diffinio sut y byddant yn gweithio gyda'i gilydd, gan fod gwahaniaethau pwysig rhwng pob darn o ddeddfwriaeth.

7.16.2 Mae pob Comisiynydd yn eiriolwr ar ran y bobl neu'r meysydd polisi hynny y maent yn cynrychioli eu buddiannau. Yn hynny o beth, maent yn annibynnol ar y Llywodraeth a rhaid iddynt gael y rhyddid a'r disgresiwn i wneud gwaith ymchwil, trefnu ymweliadau ac ysgrifennu adroddiadau heb ofni y bydd eu gwaith yn effeithio ar eu cyllid. At hynny, mae rhai Comisiynwyr (megis Comisiynydd y Gymraeg) yn Rheoleiddwyr hefyd, a gallant fod yn ymchwilio i Lywodraeth Cymru ac yn gosod cosbau arni. Felly, mae'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiynwyr yn sylfaenol wahanol i'r berthynas sydd gan Lywodraeth Cymru â chategorïau eraill o gyrff, megis Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru neu is-gwmnïau.

7.16.3 Er bod Comisiynwyr yn annibynnol o ran polisi a gweithredu, maent oll yn cael eu cyllido drwy arian cyhoeddus a ddarparir gan Lywodraeth Cymru. Mae pob Comisiynydd yn Swyddog Cyfrifyddu, yn cael llythyrau Swyddogion Cyfrifyddu [gan Drysorlys Ei Mawrhydi] ac yn gorfod mynychu sesiynau hyfforddi priodol. Maent felly'n gyfrifol yn bersonol am reoli'r cyllid a ddyrennir iddynt. Rhaid i gyfrifon a threfniadau llywodraethu pob Comisiynydd fod yn destun archwilio mewnol, ac yn destun archwilio allanol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

7.16.4 Gan amlaf, mae'r ddeddfwriaeth sy'n sefydlu rolau'r Comisiynwyr yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gyflwyno Amcangyfrif o Gyfrifon ac Adroddiadau Blynyddol i Weinidogion Cymru, sydd yn eu tro yn gorfod eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Felly, mae gan Weinidogion a swyddogion rôl o ran sicrhau bod yr arian cyhoeddus a ddyrennir i Gomisiynwyr yn cael ei bennu ar lefel sy'n briodol iddynt allu gwneud eu gwaith, gan ofalu hefyd bod trefniadau addas ar waith i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n briodol. Fodd bynnag, ni fyddai'n briodol i lefel y craffu fod mor fanwl ag ar gyfer categorïau eraill o gyrff.

7.16.5 Dylai Grwpiau sy'n gyfrifol am ariannu Comisiynwyr sefydlu protocol neu Gytundeb Fframwaith a baratoir gyda'r Comisiynydd ac y cytunir arno gan y Comisiynydd. Er hynny, gall y cynnwys amrywio ar gyfer gwahanol Gomisiynwyr, gan ddibynnu ar eu rôl a maint eu cyllideb. Ym mhob achos, dylid ymgynghori ag Uned Llywodraethu Corfforaethol Llywodraeth Cymru wrth baratoi dogfen o'r fath. Dylai pob dogfen o'r fath gael ei hadolygu bob tair blynedd o leiaf, ac o fewn tri mis i benodi Comisiynydd newydd.

7.16.6 Corfforaeth Undyn yw Comisiynwyr, ac nid ydynt felly'n atebol i Fwrdd Cyfarwyddwyr. Fodd bynnag, mae'n syniad da i bob Comisiynydd gael mynediad at gyngor annibynnol ar bolisi, ac i sefydlu Pwyllgorau Archwilio sy'n cynnwys aelodau annibynnol. Er hynny, gall y trefniadau hyn amrywio ar gyfer gwahanol Gomisiynwyr oherwydd gwahaniaethau mewn deddfwriaeth.

Geirfa

Adenillion ar y cyfalaf a ddefnyddir	Y gymhareb o elw i gyfalaf a ddefnyddir gan endid cyfrifyddu yn ystod cyfnod penodol. Gellir defnyddio amryw fesurau o elw a chyfalaf wrth gyfrifo'r gymhareb.
Adfachu	Y cysyniad lle gwerthir ased a ariannwyd gan arian cyhoeddus, dylai holl enillion y gwerthiant neu ran ohonynt gael eu dychwelyd i'r Trysorlys.
Adfer	Cysyniad cyfreithiol sy'n caniatáu i arian ac eiddo gael eu dychwelyd i'w priod berchennog. Fel arfer mae'n gweithredu lle y gellir dweud bod person arall wedi cael ei gyfoethogi'n anghyfiawn drwy gael arian o'r fath.
Adolygiad barnwrol	Gweithdrefn lle y gall y llysoedd adolygu cyfreithlondeb penderfyniadau a gweithredoedd awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys y llywodraeth. Mae adolygiad barnwrol yn edrych ar degwch y broses gwneud penderfyniad yn hytrach na rhinweddau'r penderfyniad ei hun.
Adolygiad o wariant	Mae'n nodi'r gwelliannau allweddol mewn gwasanaethau cyhoeddus y gall y cyhoedd eu disgwyl dros gyfnod penodol. Mae'n cynnwys adolygiad trylwyr o nodau ac amcanion adrannol i ddod o hyd i'r ffordd orau o gyflawni amcanion y llywodraeth, ac mae'n nodi'r cynlluniau gwario ar gyfer y cyfnod dan sylw.
Amcangyfrif	Datganiad am faint o arian y bydd ei angen ar y llywodraeth yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod, ac at ba ddiben(ion), y ceisir awdurdod Seneddol am y lefel arfaethedig o wariant a derbyniadau mewn adran drwyddo. Mae Adran 119 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gwneud darpariaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud datganiad ysgrifenedig ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn dangos cyfanswm y taliadau y mae'n amcangyfrif fydd yn cael eu gwneud dan a.118 o'r Ddeddf honno (taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru) yn ystod y flwyddyn ariannol.
Amcangyfrifon o'r Cyflenwad	Datganiad am yr adnoddau y bydd eu hangen ar y llywodraeth yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod, ac at ba ddiben(ion), y ceisir awdurdod Seneddol am y lefel arfaethedig o wariant ac incwm drwyddo.
Archwilydd Cyffredinol Cymru	Yr archwilydd allanol statudol i Lywodraeth Cymru, Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, cyrff y GIG a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, a sefydlwyd gan ran 145 ac atodlen 8 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.
Ardollau	Proses o godi ffioedd. Ffordd o adennill costau cysylltiedig megis goruchwyliaeth gan reoleiddiwr. Gweler adran 6.3.

Arfer cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn y DU, UK GAAP	Gofynion cyfrifyddu a datgelu Deddfau Cwmnïau a datganiadau'r Bwrdd Safonau Cyfrifyddu (safonau cyfrifyddu'n bennaf a chrynodebau'r Tasglu Materion Brys), a ategir gan farn broffesiynol a gronwyd.
Arian lled barod	Gwariant adnoddau ac iddo oblygiadau arian parod cysylltiedig, er bod amseriad y taliad arian parod ychydig yn wahanol. Er enghraifft, eir i wariant ar gyflenwad nwy neu drydan wrth i'r tanwydd gael ei ddefnyddio, ond gallai'r taliad arian parod fod yn ôl-ddyledus yn chwarterol. Enghreifftiau eraill o wariant arian lled-barod yw: cyflog, rhenti.
Ariannu	Trosglwyddo arian i gyfrif, fel y bydd ar gael pan fydd ei angen am daliadau.
Awdurdod dirprwyedig	Awdurdodiad sefydlog gan y Trysorlys lle y gall corff neilltuo adnoddau neu fynd i wariant o arian a neilltuwyd drwy bleidlais yn Senedd y DU heb gymeradwyaeth benodol gan y Trysorlys ymlaen llaw. Gall awdurdodau dirprwyedig hefyd awdurdodi ymrwymadau i wario (gan gynnwys derbyn rhwymedigaethau wrth gefn) ac ymdrin â thrafodion arbennig (megis symiau a ddilëwyd) heb gymeradwyaeth ymlaen llaw.
Awdurdod Seneddol	Cytundeb ffurfiol Senedd y DU i awdurdodi gweithgarwch neu wariant.
Banciau masnachol	Cyrff heblaw am Wasanaeth Bancio'r Llywodraeth sy'n darparu gwasanaethau bancio, gan gynnwys banciau a chymdeithasau adeiladu yn y sector preifat.
Cais am Adnoddau	Y lefel swyddogaethol ar gyfer rhannu Amcangyfrifon adrannol. Mae Ceisiadau am Adnoddau yn cynnwys nifer o swyddogaethau a gyflawnir gan yr adran wrth geisio cyflawni un neu fwy o amcanion yr adran honno.
Camddatganiad	Datganiad sy'n anwir. Gall y rhai sydd wedi dibynnu ar gamddatganiad ddwyn achos yn erbyn rhywun sy'n gwneud y camddatganiad, ond dim ond os oedd yn rhesymol dibynnu arno o dan yr amgylchiadau.
Camweinyddiaeth	Unrhyw fath o weinyddiaeth sy'n methu neu sy'n arfer gwael. Gall amryw awdurdodau sy'n ymdrin â chwynion ymchwilio i gamweinyddiaeth, gan gynnwys yr Ombwdsmon Seneddol ac Ombwdsmon y Gwasanaeth Iechyd.
Cod y Gwasanaeth Sifil	Datganiad cryno a gyhoeddir gan Swyddfa'r Cabinet sy'n nodi'r fframwaith y mae pob gwas sifil yn gweithio oddi mewn iddo, a'r gwerthoedd craidd a'r safonau y disgwylir iddynt eu cynnal.
Cofnod y Trysorlys	Dogfen weinyddol ffurfiol a lunnir gan y Trysorlys, a all fod at amryw ddibenion gan gynnwys ceisio cymeradwyaeth Seneddol i ddefnyddio derbyniadau fel dyraniadau cymorth, dileu rhan o brifswm benthyciadau a wnaed drwy bleidlais neu'r cyfan, ac ymateb ar ran y llywodraeth i adroddiadau gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

Concordat	Cytundeb hirsefydledig rhwng y Trysorlys a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y dylai swyddogaethau parhaus y llywodraeth gael eu diffinio mewn statud penodol.
Corff cyhoeddus anadrannol	Corff sy'n chwarae rôl ym mhrosesau'r llywodraeth, ond nad yw'n un o adrannau'r llywodraeth neu'n rhan o un o adrannau'r llywodraeth. Yn unol â hynny maent yn gweithredu ar hyd braich oddi wrth Weinidogion y Llywodraeth.
Corfforaeth gyhoeddus	Corff masnachu a reolir gan lywodraeth ganolog, awdurdod lleol neu gorfforaeth gyhoeddus arall sy'n gweithredu o ddydd i ddydd gyda chryn annibyniaeth.
Cost anariannol	Costau lle nad oes trafodyn arian parod ond sy'n cael eu cynnwys yng nghyfrifon corff (neu sy'n cael eu hystyried wrth godi tâl am wasanaeth) i ganfod gwir gost yr holl adnoddau a ddefnyddir.
Cost cyfalaf	Y gost o ariannu buddsoddiad i'r llywodraeth, h.y. y gyfradd y mae'n benthyca arni. Codir hon ar adrannau i fod yn fwy tryloyw o dan gyfrifon adnoddau ac annog defnydd effeithlon o asedau. Mae'n cael ei chynnwys yn y cyfrifiad wrth bennu ffioedd a thaliadau ac mae'n cael ei chyfrifo fel canran o'r gwerth asedau net.
Cost dybiannol yswiriant	Cost sy'n cael ei hystyried wrth bennu ffioedd a thaliadau i wella cymharedd â darparwyr gwasanaethau yn y sector preifat. Mae'r taliad yn ystyried y ffaith nad yw cyrff cyhoeddus fel arfer yn talu premiwm yswiriant i yswiriwr masnachol.
Cost lawn	Cyfanswm cost yr holl adnoddau a ddefnyddir wrth ddarparu nwydd neu wasanaeth mewn unrhyw gyfnod cyfrifyddu (fel arfer blwyddyn). Bydd yn cynnwys holl gostau uniongyrchol ac anuniongyrchol cynhyrchu'r allbwn (costau ariannol ac anariannol), gan gynnwys cyfran lawn o gostau gorbenion ac unrhyw gostau gwerthu a dosbarthu, yswiriant, dibrisiant, a chost cyfalaf, gan gynnwys unrhyw addasiad priodol ar gyfer cynnydd mewn cost a ddisgwyilir.
Cronfa Benthyciadau Cenedlaethol	Y gronfa y mae'r rhan fwyaf o drafodion benthyca'r llywodraeth a rhai trafodion benthyca domestig yn mynd drwyddi.
Cronfa fasnachu	Sefydliad (naill ai o fewn un o adrannau'r llywodraeth neu sy'n ffurfio un o adrannau'r llywodraeth) a gaiff ei ariannu'n gyfan gwbl neu i raddau helaeth gan refferiw masnachol a gynhyrchir gan ei weithgareddau. Mae ei Amcangyfrifon yn dangos ei effaith net, gan ganiatáu i'w incwm o dderbyniadau gael eu neilltuo'n gyfan gwbl i'w fusnes.
Cronfa Gyfunol	Cyfrif cyfredol y llywodraeth, a weithredir gan y Trysorlys, y mae'r rhan fwyaf o daliadau a derbyniadau'r llywodraeth yn mynd drwyddi.
Cronfa Gyfunol Cymru	Lle niwtral i ddal yr arian cyhoeddus a ddyrennir i Gymru gan Lywodraeth y DU, drwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a hefyd arian a dderbynnir o ffynonellau eraill.

Cronfa Hapddigwyddiadau	Cronfa Llywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru, a reolir gan y Trysorlys neu Weindioigion Cymru (dan adran 128 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006), y gellir ei defnyddio, yn amodol ar feini prawf penodol, i ariannu gwariant brys (drwy roi blaensymiau ad-daladwy) cyn i Senedd y DU gymeradwyo Amcangyfrifon, neu ei defnyddio i ariannu gwariant cyn i dderbyniadau ddod i law.
Cronfa Yswiriant Gwladol	Cronfa'r llywodraeth a ddefnyddir i dalu am gost budd-daliadau sy'n seiliedig ar gyfraniadau, a ariennir yn bennaf drwy gyfraniadau a delir gan gyflogwyr ac unigolion.
Cwmpas	Disgrifiadau o'r gwariant sydd wedi'i gynnwys mewn Cynnig Cyllidebol, sydd i'w gymeradwyo gan y Cynulliad yn unol ag Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Rhennir y Cwmpas rhwng y Prif Grwpiau Gwariant at ddibenion gweinyddol. Dyma'r terfyn ariannol, y pleidleisiwyd i'w roi, sy'n gymwys i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru. Gweler hefyd y Prif Grŵp Gwariant.
Cwnsler Cyffredinol	Prif Gyngorydd Cyfreithiol Llywodraeth Cymru.
Cyfalaf Difidend Cyhoeddus	Cyllid a ddarperir gan y llywodraeth i gyrff yn y sector cyhoeddus fel cyfran ecwiti; dewis amgen yn lle cyllid benthycu.
Cyfanswm rheoli	Y mesur a ddefnyddir gan Lywodraeth y DU i gynllunio gwariant cyhoeddus ar gyfer y tymor canolog, a'i fonitro a'i reoli o fewn pob blwyddyn ariannol.
Cyfanswm y Gwariant a Reolir	Un o dermau cyllidebu'r Trysorlys sy'n cwmpasu pob gwariant cyfredol a phob gwariant cyfalaf gan y sector cyhoeddus (h.y. nid gan adrannau canolog yn unig).
Cyflenwad	Adnoddau a neilltuir drwy bleidlais yn Senedd y DU mewn ymateb i Amcangyfrifon, ar gyfer gwariant gan adrannau'r llywodraeth.
Cyfradd adennill	Y gydnabyddiaeth ariannol a geir drwy brosiect neu fenter benodol, wedi'i mynegi fel canran o'r asedau net a ddefnyddir.
Cyfradd adennill darged	Y gyfradd adennill sydd ei hangen mewn prosiect neu fenter dros gyfnod penodol, fel arfer o leiaf blwyddyn.
Cyfraith gyffredin	Un o ffynonellau hanesyddol cyfraith yn y Deyrnas Unedig. Fe'i defnyddir yn aml i wahaniaethu rhwng cyfraith achos a luniwyd gan farnwyr ac egwyddorion cyfreithiol hirsefydledig o ddeddfwriaeth a wnaed gan Senedd y DU neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
Cyfrif adnoddau	Cyfrif ar sail cronladau a baratoir yn unol â'r <i>Llawlyfr Adrodd Ariannol (FRM)</i> .
Cyfrifon Cenedlaethol	Cyfrifon a baratoir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn unol â'r System Cyfrifon Ewropeaidd 1995, sy'n hyrwyddo safoni yn y ffordd y mesurir incwm a gwariant y sector cyhoeddus.

Cyfrifyddu ar sail adnoddau	Y system lle mae cyllidebau, Amcangyfrifon a chyfrifon yn cael eu paratoi mewn ffordd debyg i gyfrifon archwiliedig masnachol, fel y bydd cynlluniau a chofnodion o wariant yn caniatáu'n llawn am y nwyddau a'r gwasanaethau a fydd yn cael eu defnyddio neu sydd wedi cael eu defnyddio – h.y. nid dim ond yr arian parod a wariwyd.
Cyllideb adnoddau	Y ffordd y mae'r llywodraeth yn cynllunio ac yn rheoli sut y defnyddir adnoddau i gyflawni ei hamcanion.
Cymhwysedd Deddfwriaethol	Y term a ddefnyddir i ddisgrifio cwmpas pŵer Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud Deddfau a'u rhoi ar waith. Mae cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol wedi'i nodi dan adran 108 ac atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
Cymorth grant	Taliadau rheolaidd a wneir gan adrannau i gyrff allanol (ee cyrff cyhoeddus anadrannol/Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru) i ariannu eu gwariant gweithredu.
Cymorth gwladwriaethol	Cymorth gwladwriaethol a roddir i ymgymeriadau dethol sy'n ymgymryd â gweithgarwch economaidd a allai ystumio cystadleuaeth a masnach o fewn yr UE. Gweler Atodiad 4.6.
Cynulliad Cenedlaethol Cymru	Y corff deddfwriaethol a sefydlwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n cynnwys 60 Aelod Cynulliad.
Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru	Yr enw yng Nghymru am Gyrrff Cyhoeddus Anadrannol a sefydlir gan Weinidogion Cymru.
Cyrff llywodraeth ganolog	Adrannau ac asiantaethau gweithredol adrannol, gan gynnwys cronfeydd masnachu, cyrff cyhoeddus anadrannol (megis Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru), ac awdurdodau a byrddau iechyd y GIG.
Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus	Yn nodi'r hyn y gall y cyhoedd ei ddisgwyl i'r llywodraeth ei ddarparu gyda'i hadnoddau. Mae gan bob adran fawr o'r llywodraeth Gytundeb(au) Gwasanaeth Cyhoeddus sy'n nodi'r hyn y dylid ei gyflawni ar ffurf targedau neu nodau sy'n gysylltiedig ac amcanion.
Cytundeb lefel gwasanaeth	Cytundeb rhwng partïon, yn nodi'n fanwl lefel y gwasanaeth sydd i'w ddarparu. Lle mae cytundebau rhwng cyrff llywodraeth ganolog, nid ydynt yn gcontract o dan y gyfraith ond mae iddynt swyddogaeth debyg.
Datganiad am Orwariant	Datganiad ffurfiol sy'n manylu ar orwariant adrannau a baratoir gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol o ganlyniad i gynnal archwiliadau blynyddol.
Datganiad Llywodraethu	Datganiad blynyddol y mae gofyn i Swyddogion Cyfrifyddu ei wneud fel rhan o'r cyfrifon ar amrywiol faterion yn ymwneud â risg a rheoli.
Deddf Cyllid	Y ddeddfwriaeth y mae Senedd y DU yn cytuno ar benderfyniadau treth y llywodraeth drwyddi. Fel arfer caiff ei phasio yn yr haf ar ôl cyllideb y gwanwyn.

Deddf Diogelu Data	Deddfwriaeth (1998) sy'n rheoli sut y gall sefydliadau ddefnyddio gwybodaeth bersonol a ddelir ganddynt.
Deddf Neilltuo Arian	Deddf Seneddol, sy'n cymeradwyo'n ffurfiol Amcangyfrifon adrannol o'r Cyflenwad. Mae'r Mesur Cronfa Gyfunol (Neilltuo) o'i ddeddfu yn dod yn Ddeddf Neilltuo.
Deddfwriaeth sylfaenol	Deddfau sydd wedi cael eu pasio gan Senedd San Steffan ac, lle mae ganddynt y pwerau priodol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Maent yn dechrau fel Biliau nes iddynt gael Cydsyniad Brenhinol.
Deilliad	Offeryn ariannol sy'n deillio o un arall, a werthir fel arfer ar ei ben ei hun neu mewn pecynnau i hyrwyddo rhagfantoli, ee opsiynau cyfradd llog a chyfradd gyfnewid.
Dibrisiant	Mesur o draul, defnydd neu fath arall o leihad ym mywyd defnyddiol ased sefydlog oherwydd defnydd, treigl amser neu ddarfodiad drwy newidiadau technolegol neu newidiadau yn y farchnad.
Dogfen fframwaith	Dogfen yn nodi egwyddorion allweddol atebolrwydd i asiantaethau. Gweler Atodiad 7.2.
Ffawdelw	Arian a dderbynnir gan adran nas rhagwelwyd yn yr adolygiad o wariant.
Fformiwla Barnett	Dull a ddefnyddir gan y Trysorlys i addasu'n awtomatig swm y gwariant cyhoeddus a ddyrennir ganddo i'r gweinyddiaethau datganoledig.
Gofyniad arian parod net	Y terfyn uchaf y cytunir arno gan Senedd y DU ar yr arian parod y gall adran ei dynnu o'r Gronfa Gyfunol i ariannu'r gwariant o fewn cwmipas ei Chais am Adnoddau. Mae'n hafal i'r swm o adnoddau net y cytunwyd arno a chyfalaf net llai eitemau anariannol a chyfalaf gweithio.
Gorddrafft	Cyfrif gyda balans negyddol.
Grant	Taliadau a wneir gan adrannau i gyrff allanol i ad-dalu gwariant ar eitemau neu swyddogaethau y cytunwyd arnynt, ac a delir yn aml ar amodau statudol yn unig.
Grant heb ei neilltuo	Pob grant arall nad yw'n dod o dan y diffiniad o gyllid grant sydd wedi'i neilltuo.
Grant wedi'i neilltuo	Grant â thelerau ac amodau. Mae grantiau wedi'u neilltuo yn caniatáu i Lywodraeth Cymru roi mwy o gyfeiriad ynghylch sut mae'r cyllid i gael ei wario i gyflawni amcanion polisi. Mae grantiau sydd wedi'u neilltuo yn cael eu darparu i alluogi gyrff allanol i ymgymryd â phrosiectau penodol neu gyflawni diben penodol yn ôl y diffiniad cychwynnol; gall fod yn benodol i brosiect a/neu ar gyfer cyllid craidd.

Gwariant a awdurdodir drwy bleidlais	Darpariaeth ar gyfer gwariant a awdurdodwyd gan Senedd y DU. Mae Senedd y DU yn pleidleisio i roi awdurdod am wariant cyhoeddus drwy broses yr Amcangyfrifon o'r Cyflenwad. Awdurdodir y rhan fwyaf o wariant gan adrannau llywodraeth ganolog y DU yn y modd hwn.
Gwariant a Reolir yn Flynyddol	Mae Trysorlys Ei Mawrhydi yn cydnabod natur gyfnewidiol rhai rhaglenni sy'n cael eu harwain gan y galw, a'r anhawster sy'n deillio o hyn wrth amcangyfrif costau dros gyfnod o amser. O ganlyniad, mae cyllidebau'r rhaglenni hyn yn cael eu hariannu a'u rheoli'n flynyddol o fewn y Gwariant a Reolir yn Flynyddol. Rhennir cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol Llywodraeth Cymru rhwng y Prif Grwpiau Gwariant drwy'r broses gyllid flynyddol. Gweler hefyd y Prif Grŵp Gwariant.
Gwariant cyfalaf	Gwariant ar brynu asedau, y tu hwnt i drothwy penodol, y disgwylir iddo gael ei ddefnyddio am gyfnod o flwyddyn o leiaf. Mae'n cynnwys prynu adeiladau, cyfarpar a thir. Pennir y trothwy gan bob corff: ni chaiff eitemau o dan y trothwy eu cyfrif fel asedau cyfalaf, hyd yn oed os yw eu bywyd cynhyrchiol yn parhau am fwy na blwyddyn.
Gwariant y tu allan i gwmpas pleidlais	Gwariant y tu allan i gwmpas pleidlais, h.y. adnoddau a werir ar faterion nad oeddent wedi'u cynnwys yn y cwmpas perthnasol yn yr Amcangyfrif adrannol ac felly nad ydynt wedi cael eu cymeradwyo gan Senedd y DU. Gweler adran 5.3.
Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth	Gwasanaeth bancio ar y cyd i Lywodraeth y DU a'r sector cyhoeddus yn ehangach. Mae'n rhan o Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi.
Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol	Fe'i sefydlwyd yn 2013 i alluogi'r sector cyhoeddus yng Nghymru i gydweithredu'n agosach wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau.
Gwasanaethau dewisol	Gwasanaethau nad ydynt yn ofynnol drwy statud ond a ddarperir, yn aml mewn marchnadoedd cystadleuol.
Gwasanaethau sefydlog y Gronfa Gyfunol	Taliadau am wasanaethau y mae Senedd y DU wedi penderfynu drwy statud y dylid eu gwneud o'r Gronfa Gyfunol, yn hytrach na chael eu hariannu'n flynyddol gan arian a neilltuir drwy bleidlais.
Gweinidog Cymru	Aelod Cynulliad a benodir yn dan adran 45 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel Gweinidog Cymru gan Brif Weinidog Cymru gyda chymeradwyaeth Ei Mawrhydi, sy'n rhan o Lywodraeth Cymru.
Gweinidogion Cymru	Prif Weinidog Cymru a Gweinidogion Cymru a benodir gan Brif Weinidog Cymru. Nid ydynt yn cynnwys Dirprwy Weinidogion Cymru na'r Cwnsler Cyffredinol.
Gweinyddiaethau datganoledig	Y gweinyddiaethau a sefydlwyd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, Deddf yr Alban 1998 a Deddf Gogledd Iwerddon 1998.

Gwerth am arian	Y broses lle y caiff caffael, prosiectau a phrosesau sefydliad eu gwerthuso a'u hasesu'n systematig i roi hyder ynglŷn ag addasrwydd, effeithiolrwydd, doethineb, ansawdd, gwerth da ac osgoi gwallau a mathau eraill o wastraff, sy'n cael ei farnu o ran y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd.
Is-bennawd	Elfennau unigol o wariant adrannol y gellir eu nodi mewn Amcangyfrifon fel celloedd unigol, er enghraifft cell A1 yw costau gweinyddol o fewn llinell benodol o wariant adrannol.
Is-ddeddfwriaeth	Cyfreithiau, gan gynnwys gorchmynion a rheoliadau, a wneir drwy ddefnyddio pwerau mewn deddfwriaeth sylfaenol. Fe'i defnyddir fel arfer i amlinellu darpariaeth dechnegol a gweinyddol yn fanylach na deddfwriaeth sylfaenol ac maent yn destun llai o graffu yn Senedd y DU a'r Cynulliad. Fodd bynnag, caiff deddfwriaeth Ewropeaidd ei gweithredu'n aml mewn is-ddeddfwriaeth gan ddefnyddio pwerau yn Neddf Cymunedau Ewropeaidd 1972.
Llawlyfr Adrodd Ariannol, FReM	Canllaw cyfrifo technegol ar gyfer paratoi datganiadau ariannol. Mae Trysorlys Ei Mawrhydi yn cyhoeddi datganiadau ariannol enghreifftiol a chanllawiau eraill i gynorthwyo'r cyfrifon.
Llawlyfr yr Amcangyfrifon	Canllaw cyfeirio ymarferol a gyhoeddir gan y Trysorlys sy'n rhoi gwybodaeth fanwl am broses yr Amcangyfrifon o'r Cyflenwad.
Llyfr gwyrdd	Teitl anffurfiol ar ddogfen a gyhoeddir gan y Trysorlys o'r enw <i>Appraisal and Evaluation in Central Government</i> i roi canllaw i sefydliadau llywodraeth ganolog ar werthuso buddsoddiad.
Llyfr oren	Y teitl anffurfiol ar <i>Management of Risks: Principles and Concepts</i> , a gyhoeddir gan y Trysorlys fel canllaw i gyrff yn y sector cyhoeddus.
Llywodraeth Cymru	Y corff a sefydlwyd o dan adran 45 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel gweithrediaeth i ddatblygu polisiau a gwneud penderfyniadau. Aelodau Llywodraeth Cymru yw'r Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru, Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru, a Dirprwy Weinidogion Cymru.
Llywodraeth gydgyssylltiedig	Trefniadau lle nad yw ffiniau adrannol yn rhwystr i wneud polisiau a darparu gwasanaethau.
Llywodraethu corfforaethol	Y system ar gyfer cyfarwyddo a rheoli sefydliadau.
Memorandwm Amcangyfrifon	Esboniad i'r pwyllgor dethol adrannol perthnasol sy'n nodi'r cysylltiadau â rheolaethau gwario eraill a chynnwys Amcangyfrif adrannol.
Memorandwm Cyfrifon Masnachu	Dogfen waith anffurfiol, a baratoir cyn dechrau'r flwyddyn ariannol ar ffurf rhagolwg i benderfynu ar y lefel briodol o ffioedd a thaliadau am wasanaeth ad-dalu, ac ar ôl diwedd y flwyddyn ar ffurf datganiad alldro i roi cofnod o berfformiad.

Menter Cyllid Preifat, PFI	Trefniadau lle mae sefydliad yn y sector cyhoeddus yn llunio contract ag endid yn y sector preifat i adeiladu cyfleuster a darparu gwasanaethau cysylltiedig o safon benodol dros gyfnod helaeth. Gweler Atodiad 7.3.
Partneriaeth Cyhoeddus-Preifat	Trefniant strwythuredig rhwng sefydliad yn y sector cyhoeddus a sefydliad yn y sector preifat i sicrhau canlyniad sy'n cynnig gwerth da am arian i'r sector cyhoeddus. Fe'i dosberthir i'r sector cyhoeddus neu'r sector preifat yn ôl p'un sydd â'r rheolaeth fwyaf.
Penderfyniad cadarnhaol	Gweithdrefn Seneddol ar gyfer arfer rheolaeth dros is-ddeddfwriaeth (h.y. Offeryn Statudol ar ffurf gorchymyn neu reoliad). Mae angen cymeradwyaeth gadarnhaol Senedd y DU neu'r Cynulliad cyn y gall yr offeryn ddod i rym.
Pleidlais	Y broses o gymeradwyo arian gan Senedd y DU mewn ymateb i Amcangyfrifon o'r Cyflenwad.
Pleidlais gorswm	Cais am adnoddau y canfyddir, ar ôl diwedd y flwyddyn, ei fod wedi ariannu gwariant na chytunwyd arno gan Senedd y DU, naill ai am ei fod yn fwy na'r swm o wariant a ragnodwyd neu am fod rhan ohono y tu allan i'r disgrifiadau a gymeradwywyd gan Senedd y DU. Gweler adran 5.3.
Prif Grŵp Gwariant	Mae cyllideb Llywodraeth Cymru wedi'i rhannu'n Brif Grwpiau Gwariant, sy'n cyd-fynd yn hanesyddol â phortffolios Gweinidogol. Mae pob Prif Grŵp Gwariant yn cynnwys cyfansymiau rheolaeth Trysorlys Ei Mawrhydi (Terfynau Gwariant Adrannol a Gwariant a Reolir yn Flynyddol) a'r Cwmpas.
Prif Weinidog Cymru	Aelod Cynulliad a benodir gan y Frenhines yn Brif Weinidog Cymru, ar ôl iddo gael ei enwebu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Prif Weinidog Cymru yw Pennaeth Llywodraeth Cymru.
Prif weithredwr	Teitl ar bennaeth corff hyd braich, sydd fel arfer wedi'i benodi'n swyddog cyfrifyddu.
Priodoldeb	Yr egwyddor y dylai patrymau defnyddio adnoddau barchu bwriadau, confensiynau a gweithdrefnau rheoli Senedd y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys unrhyw rai a osodwyd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.
Pwerau	Awdurdod cyfreithiol i gorff gymryd unrhyw gam gweithredu penodol, y darperir ar ei gyfer drwy statud neu y cyfyngir arno drwy statud, gan gyfansoddiad y corff neu awdurdod arall.
Pwerau uchelfreiniol	Pwerau arferadwy o dan yr Uchelfraint Frenhinol, h.y. pwerau sy'n unigryw i'r Goron, yn hytrach na phwerau cyfraith gwlad a all fod ar gael i'r Goron ar yr un sail ag i bersonau naturiol.
Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus	Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin sy'n edrych ar gyfrifon, rheoleidd-dra a phriodoldeb gwariant Llywodraeth y DU. Mae hefyd yn edrych ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwariant.

Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cymru	Swyddogaeth y Pwyllgor yw sicrhau bod gwariant Llywodraeth Cymru yn cael ei graffu'n briodol ac yn drwyadl. Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiadau sy'n cael eu paratoi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfrifon Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill, a darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yr adnoddau a ddefnyddir wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus.
Pyramid y Trysorlys	Cyfres o gyfrifon a weithredir gan y Trysorlys y mae symiau dros nos ac arian yn llifo drwyddynt.
Rhagfantoli	Trafodyn (trafodion) gyda'r nod o leihau neu ddileu risg ariannol, ee oherwydd newidiadau mewn cyfraddau llog neu'r gyfradd gyfnewid.
Rheolaethau canfod	Rheolaethau gyda'r nod o ganfod gwall, twyll, afreoleidd-dra neu aneffeithlonrwydd.
Rheoleidd-dra	Yr egwyddor y dylai'r defnydd o adnoddau fod yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, yr awdurdod dirprwyedig perthnasol a'r ddogfen hon.
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol	Pennaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, a benodir gan y Goron, ac un o Swyddogion Tŷ'r Cyffredin. Fel y Rheolwr, ei ddyletswyddau yw awdurdodi'r arian cyhoeddus a ddyrennir gan y Trysorlys o'r Gronfa Gyfunol a'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol i adrannau'r llywodraeth ac eraill (megis Llywodraeth Cymru); fel Archwilydd Cyffredinol, mae'n ardystio cyfrifon pob un o adrannau'r llywodraeth a rhai cyrrff cyhoeddus eraill, ac yn cynnal archwiliadau gwerth am arian.
Rhwymedigaethau wrth gefn	Rhwymedigaethau posibl sy'n ansicr ond sy'n cydnabod y gall gwariant godi yn y dyfodol os cyfyd amodau penodol neu ddigwyddiadau penodol.
Rhyddid Gwybodaeth	Deddfwriaeth (2000) gyda'r nod o hyrwyddo mynediad cyhoeddus at amrywiaeth mawr o ddata a gwybodaeth y sector cyhoeddus (ond nid data personol).
Siarter Frenhinol	Y ddogfen sy'n nodi pwerau a chyfansoddiad corfforaeth a sefydlwyd o dan bŵer uchelfreiniol y brenin neu'r frenhines yn gweithredu ar gyngor y Cyfrin Gyngor.
Swyddfa Archwilio Genedlaethol	Swyddfa'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, sy'n craffu ar wariant cyhoeddus ar ran y Senedd. Gweler Atodiad 2.1.
Swyddfa Archwilio Cymru	Y sefydliad sy'n cynorthwyo Archwilydd Cyffredinol Cymru i gyflawni ei ddyletswyddau, ac sy'n ei ddal i gyfrif. Sefydlwyd fel corff corfforaethol gan Adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.
Swyddfa Ystadegau Gwladol	Y corff annibynnol sy'n gyfrifol am gasglu a chyhoeddi ystadegau swyddogol am gymdeithas ac economi'r DU. Dyma swyddfa weithredol Awdurdod Ystadegau y DU, ac er eu bod ar wahân, mae perthynas agos rhyngddynt.

<p>Swyddog Cyfrifyddu</p>	<p>Rhaid i bob sefydliad Llywodraeth gael Swyddog Cyfrifyddu, i fod yn gyfrifol am weithrediadau adran ac am baratoi ei gyfrifon. Pennaeth adran neu sefydliad arall neu Brif Weithredwr corff cyhoeddus anadrannol neu Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yw'r sawl a benodir fel arfer, yn ôl confensiwn.</p> <p>Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu mae hefyd yn gyfrifol am drefniadaeth gyffredinol, rheoli a staffio Llywodraeth Cymru, a'i gweithdrefnau mewn materion ariannol a materion eraill.</p> <p>Yn unol ag adran 133(2) Deddf Llywodraeth Cymru 2006, gall y Prif Swyddog Cyfrifyddu bennu aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru fel Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol, gyda'u cyfrifoldebau wedi'u gosod mewn Memorandwm ffurfiol.</p> <p>Gweler pennod 3.</p>
<p>Terfyn Gwariant Adrannol</p>	<p>Terfyn Gwariant Adrannol yw'r terfyn adnoddau a chyfalaf a bennir gan Drysorlys Ei Mawrhydi mewn Adolygiadau o Wariant. Nid oes modd i Lywodraeth Cymru fynd y tu hwnt i'r Terfynau Gwariant Adrannol sydd wedi'u pennu. Rhennir Terfyn Gwariant Adrannol Llywodraeth Cymru rhwng y Prif Grwpiau Gwariant drwy'r broses gyllido flynyddol. Gweler hefyd y Prif Grŵp Gwariant.</p>
<p>Trosglwyddo</p>	<p>Y broses o symud arian rhwng is-benawdau fel y bydd gwariant ychwanegol ar un yn cael ei dalu gan arbedion ar un neu fwy o is-benawdau eraill.</p>
<p>Trydydd sector</p>	<p>Cyrff yn y sector preifat nad ydynt yn gweithredu'n fasnachol, gan gynnwys elusennau, mudiadau cymdeithasol a gwirfoddol a chymundodau nid er elw eraill. Gweler Atodiad 7.4.</p>
<p>Trysorlys</p>	<p>Trefniadau ariannu canolog Llywodraeth ganolog y DU, sy'n seiliedig ar y Gronfa Gyfunol a'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol, ac sy'n cael eu rheoli gan y Trysorlys a Banc Lloegr.</p>

Atodiad 2.1

Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru

Gyda chymorth staff Swyddfa Archwilio Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd annibynnol y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Gan ddefnyddio hawliau statudol helaeth i gael mynediad i gofnodion, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn rhoi cyngor uniongyrchol a sicrwydd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

A2.1.1 Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) yw archwilydd y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus Cymru. Mae'n gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff corfforaethol a reolir gan fwrdd.

A2.1.2 Yr Archwilydd Cyffredinol yw Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru. Penodir yr Archwilydd Cyffredinol gan y Frenhines, ar enwebiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol wrth gyflawni ei swyddogaethau. Diogelir yr annibyniaeth hon drwy statud.

A2.1.3 Mae pwerau a chyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys y canlynol:

- Archwilio ac ardystio cyfrifon Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru; Llywodraeth Cymru a'r gyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, gan gynnwys gyrff y GIG yng Nghymru; a phob math o gyrff llywodraeth leol, yn amrywio o awdurdodau unedol i gynghorau cymuned.
- Yn ogystal ag archwilio eu datganiadau ariannol, mae gan yr Archwilydd Cyffredinol gyfrifoldeb statudol i fodloni ei hun bod llywodraeth leol a chyrrff y GIG wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau.
- Archwilio a chyflwyno adroddiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd y mae Llywodraeth Cymru a'r gyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi wedi'i wneud o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.
- Cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn perthynas â chyrrff Llywodraeth Leol.
- Asesu ac arolygu cydymffurfiaeth awdurdodau unedol, Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol â gofynion gwella Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys archwilio perfformiad y gyrff yn erbyn eu Cynlluniau Gwella a hefyd asesu eu gallu corfforaethol i gyflawni gwelliannau yn y dyfodol.
- Awdurdodi taliadau o Gronfa Gyfunol Cymru, gan sicrhau bod taliadau arfaethedig o'r Gronfa yn unol â deddfwriaeth ac awdurdod cyllidebol¹².

¹² Mae goruchwyllo taliadau o Gronfa Gyfunol Cymru yn rhan bwysig o gyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol. Mewn ymateb i geisiadau gan Lywodraeth Cymru, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cadarnhau bod taliadau arfaethedig o'r Gronfa yn unol â deddfwriaeth ac awdurdod cyllidebol. Dim ond ar ôl i'r Archwilydd Cyffredinol eu hawdurdodi y gall Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth wneud taliadau o'r Gronfa.

A2.1.4 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi cod ymarfer sy'n nodi'r ffordd y caiff ei swyddogaethau eu cyflawni. Er mwyn gwneud gwaith archwilio, mae gan yr Archwilydd Cyffredinol hawliau statudol helaeth i weld cofnodion cyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill yng Nghymru. Mae'r hawliau hyn yn cynnwys cofnodion contractwyr a'r sawl sy'n cael grantiau. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol hawl i gael gwybodaeth am unrhyw ran o'r dystiolaeth hon ac esboniadau ohoni.

A2.1.5 Gosodir pob adroddiad a gyhoeddir gan yr Archwilydd Cyffredinol (heblaw am y rhai a gyhoeddir mewn perthynas â chyrff Llywodraeth Leol) gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, a gall y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus alw am dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig gan y Swyddog(ion) Cyfrifyddu/Atebol perthnasol ac eraill i gynorthwyo'r Pwyllgor wrth iddo ystyried adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol.

A2.1.6 Ceir gwybodaeth am y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol, sef y swyddog sy'n cyfateb i'r Archwilydd Cyffredinol ar lefel y Deyrnas Unedig, ac am y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, yn *Managing Public Money*.

Atodiad 3.1

Datganiad Llywodraethu

Mae rheoli'r adnoddau a ddefnyddir yn ei sefydliad yn rhan hanfodol o gyfrifoldebau pob Swyddog Cyfrifyddu. Mae'r datganiad llywodraethu, sy'n un o nodweddion allweddol adroddiad blynyddol a chyfrifon y sefydliad, yn dangos yn glir sut mae'r dyletswyddau hyn wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn. Mae iddo dair elfen, sef: llywodraethu corfforaethol, rheoli risg ac, yn achos rhai sefydliadau, goruchwyllo cyfrifoldebau lleol, penodol.

Diben

A3.1.1 Mae pob Swyddog Cyfrifyddu yn dirprwyo cyfrifoldebau o fewn ei sefydliad er mwyn rheoli ei fusnes a chyrraedd y safonau a nodir ym Pennod 3, blwch 3.1. Dylai'r systemau a ddefnyddir i wneud hyn roi darlun digon clir o fusnes y sefydliad a'i ddefnydd o adnoddau er mwyn galluogi'r Swyddog Cyfrifyddu i wneud penderfyniadau hyddysg ynghylch y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflawni cynlluniau busnes ac, os oes angen, gymryd camau i sicrhau bod perfformiad yn ôl ar y trywydd cywir. Wrth wneud hyn cynorthwyir y Swyddog Cyfrifyddu fel arfer gan fwrdd.

A3.1.2 Mae'r cyfrifoldebau hyn yn ganolog i ddyletswyddau'r Swyddog Cyfrifyddu. Er mwyn eu cyflawni mae angen i'r Swyddog Cyfrifyddu feithrin ymwybyddiaeth fyw o'r risgiau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r sefydliad. Yn sgil asesiad y bwrdd o awydd y sefydliad i fentro, mae angen i'r Swyddog Cyfrifyddu benderfynu sut i ymateb i'r risgiau canfyddedig sy'n datblygu.

A3.1.3 Mae'r datganiad llywodraethu, y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cymryd cyfrifoldeb personol amdano, yn dwyn ynghyd yr holl ddyfarniadau hyn am y defnydd o adnoddau cyhoeddus fel rhan o'r adroddiad blynyddol a'r chyfrifon. Dylai sicrhau bod gan y darllenydd ddealltwriaeth glir o ddynmeg a strwythur rheoli'r busnes. Yn y bôn, mae'n cofnodi stiwardiaeth y sefydliad. Gan ategu'r chyfrifon, dylai roi rhyw syniad o wendidau'r sefydliad a'i allu i wrthsefyll heriau.

Paratoi'r Datganiad Llywodraethu

A3.1.4 Cyhoeddir y datganiad llywodraethu yn adroddiad blynyddol a chyfrifon pob sefydliad. Dylai fod yn seiliedig ar waith a wnaed yn ystod y flwyddyn i gael sicrwydd ynghylch perfformiad a meithrin dealltwriaeth o broffil risg y sefydliad, y ffordd yr ymatebodd i'r risgiau a nodwyd a risgiau newydd a pha mor llwyddiannus ydoedd wrth fynd i'r afael â hwy.

A3.1.5 Nid oes unrhyw dempled penodol ar gyfer y datganiad llywodraethu.

A3.1.6 Mae gan y Swyddog Cyfrifyddu a'r bwrdd nifer o fewnbynnau i'r broses hon:

- Adolygiad blynyddol y bwrdd o'i brosesau a'i arferion ei hun, a gaiff ei lywio gan farn ei bwyllgorau archwilio, ar drefniadau'r sefydliad ar gyfer rhoi sicrwydd.
- Dealltwriaeth o berfformiad y sefydliad o waith archwilio mewnol, gan gynnwys barn archwilio ar ansawdd y systemau llywodraethu, rheoli a rheoli risg.

- Adborth gan y gadwyn/cadwyni (d)dirprwyo o fewn y sefydliad ar y busnes, ei ddefnydd o adnoddau, ei ymateb i risgiau, i ba raddau y mae cyllidebau yn ystod y flwyddyn a thargedau eraill wedi'u cyflawni, ac unrhyw systemau atebolrwydd mewnol eraill; gan gynnwys
 - Perfformiad ac asesiadau o'r gwaelod i fyny er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawn o berfformiad a risgiau fel y'u canfyddir o'r tu mewn i'r sefydliad.
 - Asesiadau o brosesau o'r dechrau i'r diwedd, am ei bod yn bosibl esgeuluso risgiau rhyngddibynnol a chyfunol os mai dim ond yr elfennau unigol a ystyrir.
 - Trosolwg lefel uchel o fusnes y sefydliad fel y gellir ystyried risgiau systematig yn llawn.
 - Unrhyw dystiolaeth o fethiannau mewn systemau rheoli mewnol neu waith rheoli risg gwael.
 - Gwybodaeth gan chwythwyr chwiban, o bosibl.
- Deunydd gan unrhyw gorff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'r sefydliad a all daflu goleuni ar berfformiad y sefydliad neu ei fwrdd.

A3.1.7 Mae'n bwysig bod y datganiad llywodraethu yn cwmpasu pob un o'r ffactorau perthnasol sy'n effeithio ar y sefydliad ac nad yw'n esgeuluso'r risgiau mwy difrifol (hyd yn oed os ydynt yn annhebygol iawn o godi)¹³, technoleg sy'n datblygu a datblygiadau arloesol eraill. Dylai hefyd gyfeirio at unrhyw bryderon ynghylch diogelwch amddiffynnol gan ddefnyddio iaith ddigon gofalus¹⁴, a dylai'r archwiliwr allanol gael ei hysbysu o'r manylion.

Cynnwys y Datganiad Llywodraethu

A3.1.8 Gyda chefnogaeth y bwrdd, mater i'r Swyddog Cyfrifyddu yw penderfynu sut i wneud y canlynol:

- Trefnu'r datganiad llywodraethu.
- Ystyried mewnbwn o'r tu mewn i'r sefydliad a chan y bwrdd a'i bwyllgorau.
- Lle y bo'n berthnasol, integreiddio gwybodaeth am gyrff cyhoeddus y sefydliad, y gall rhywfaint ohoni fod yn berthnasol i'r sefydliad cyfunol.
- Esbonio sut mae'r sefydliad yn sicrhau bod unrhyw adnoddau a roddir i sefydliadau penodol a reolir yn lleol (gan gynnwys y GIG) yn cael eu defnyddio'n foddhaol. Gweler A3.1.12.

¹³ Gan gynnwys y risgiau allanol a nodwyd yn yr Asesiad Risg Cenedlaethol.

¹⁴ Fel y nodir yn y Fframwaith Polisi Diogelwch.

A3.1.9 Mae blwch A3.1A yn crynhoi pynciau y dylid bob amser ymdrin â hwy.

Blwch A3.1A: Nodweddion hanfodol y datganiad llywodraethu

- Fframwaith llywodraethu'r sefydliad, gan gynnwys gwybodaeth am strwythur pwyllgorau'r bwrdd, ei gofnodion presenoldeb a chwmpas ei waith.
- Perfformiad y bwrdd, gan gynnwys ei asesiad o'i effeithiolrwydd ei hun.
- Prif bwyntiau adroddiadau pwyllgorau'r bwrdd, yn enwedig gan y pwyllgor archwilio a'r pwyllgor enwebu.
- Adroddiad ar lywodraethu corfforaethol, gan gynnwys asesiad y bwrdd o'i gydymffurfiaeth â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol, gydag esboniad o unrhyw wro oddi wrth y cod.
- Gwybodaeth am ansawdd y data a ddefnyddir gan y bwrdd a pham mae'r bwrdd yn ystyried ei fod yn dderbyniol.
- Lle y bo'n berthnasol, adroddiad ar y ffordd y caiff adnoddau a ddarperir i sefydliadau a reolir yn lleol eu dosbarthu a'r ffordd y mae'r Grŵp yn cael sicrwydd bod yr adnoddau hynny'n cael eu defnyddio'n foddhaol.
- Asesiad risg (gweler Atodiad 4.2), gan gynnwys proffil risg y sefydliad, a'r ffordd y caiff ei reoli, gan gynnwys, yn amodol ar brawf budd y cyhoedd:
 - Unrhyw risg newydd ei nodi.
 - Cofnod o unrhyw gyfarwyddiadau Gweinidogol a roddwyd.
 - Crynodeb o unrhyw fethiannau difrifol o ran diogelwch amddiffynnol (ee colli data).

A3.1.10 Mae pob eitem yn y blwch hwn yn bwysig. Mae'r asesiad risg yn hollbwysig. Dyma ble y dylai'r Swyddog Cyfrifyddu, gyda chefnogaeth y bwrdd, drafod sut mae system rheoli risg a rheolaeth fewnol y sefydliad yn gweithio a pham y cawsant eu dewis i roi sicrwydd rhesymol ynglŷn â chamau rhwystro, camau atal neu gamau priodol eraill i reoli'r problemau (neu gyfleoedd) gwirioneddol a phosibl sy'n wynebu'r sefydliad. Gan osgoi disgrifiad hir o'r broses, dylai asesu'r dystiolaeth am ba mor effeithiol yw'r prosesau rheoli risg sydd ar waith yn ymarferol. Wrth wneud hyn, dylai ymdrin yn onest ag unrhyw ddiffygion a ddatgelwyd wrth i risgiau gael eu gwireddu.

A3.1.11 Wrth lunio'r datganiad llywodraethu, mae angen i'r Swyddog Cyfrifyddu lunio barn ynghylch i ba raddau y mae eitemau yn ddigon pwysig i les y sefydliad yn gyffredinol i gyfiawnhau eu cofnodi. Nid oes unrhyw reolau pendant am hyn. Awgrymir rhai ffactorau y dylid eu hystyried ym mlwch A3.1B.

Blwch A3.1B: Penderfynu beth i'w gynnwys yn y datganiad llywodraethu

- A allai'r mater amharu ar y gwaith o gyflawni'r cynllun busnes – neu flaenoriaethau eraill?
- A allai'r mater danseilio uniondeb neu enw da'r sefydliad?
- Beth yw barn pwyllgor archwilio'r bwrdd ar y mater?
- Pa gyngor neu farn y mae'r gwasanaeth archwilio mewnol a/neu archwilwyr allanol wedi'u rhoi?
- A oes risg na chyrhaeddir y safonau a ddisgwylir gan y Swyddog Cyfrifyddu (Pennod 3, blwch 3.1)?
- A allai'r mater ei gwneud yn fwy anodd i wrthsefyll twyll neu achosion eraill o gamddefnyddio adnoddau?
- A yw'r mater yn peryglu rhaglen neu brosiect pwysig?
- A allai'r mater ddargyfeirio adnoddau o agwedd bwysig arall ar y busnes?
- A allai'r mater gael effaith sylweddol ar y cyfrifon?
- A allai diogelwch cenedlaethol neu gywirdeb data gael eu peryglu?

Lleoliaeth

A3.1.12 Dylai sefydliadau gynnwys yn eu datganiadau llywodraethu grynodedb o'r modd y maent yn sicrhau atebolrwydd am y grantiau y maent yn eu dosbarthu i Lywodraeth Leol a'r GIG. Dylai nodi:

- Sut y caiff adnoddau eu dosbarthu, ee mewn ymateb i anghenion neu'r newid a ddymunir.
- Sut mae'r swyddog cyfrifyddu yn cael sicrwydd bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio mewn modd priodol.
- Sut mae'r swyddog cyfrifyddu yn sicrhau neu'n hyrwyddo gwerth am arian o ran y defnydd lleol o grantiau, ee drwy drefniadau lleol sy'n rhoi cymhellion er mwyn sicrhau gwerth da am arian.
- Y defnydd y mae'r swyddog cyfrifyddu yn ei wneud o wybodaeth wedi'i dadgyfuno am berfformiad, gan gynnwys ymchwilio i allanolynnau ymddangosiadol a/neu fynnu bod y rhai sy'n gyfrifol yn lleol yn esbonio eu canlyniadau.

Archwiliad Allanol

A3.1.13 Bydd archwilydd allanol y sefydliad yn adolygu'r datganiad llywodraethu er mwyn cadarnhau ei fod yn gyson â'r datganiad ariannol archwiliedig. Gall yr archwilydd allanol gyflwyno adroddiad ar y canlynol:

- Unrhyw anghysondeb rhwng tystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr archwiliad a'r drafodaeth ynghylch y datganiad llywodraethu.
- Unrhyw fethiant i fodloni'r gofyniad i gydymffurfio â'r *Cod Llywodraethu Corfforaethol* neu unrhyw ganllawiau awdurdodol eraill neu esbonio unrhyw wro oddi wrth y Cod neu ganllawiau o'r fath.

Atodiad 3.2

Gwrthdaro Buddiannau

Mae gan y Cyhoedd hawl i gael hyder yn y sefydliadau sy'n gweithio ar eu rhan. Felly mae cyflogwyr y Sector Cyhoeddus wedi'u hymrwymo i sicrhau'r safon uchaf posibl o ymddygiad gan staff. Mae Egwyddorion Nolan yn nodi'r safonau ymddygiad sy'n ddisgwyliedig gan Ddeiliaid Swyddi Cyhoeddus. Mae Cod y Gwasanaeth Sifil yn nodi'r ymddygiad sy'n ddisgwyliedig gan bob gwas sifil. Gall gwrthdaro buddiannau godi wrth i rywun gyflawni ei ddyletswyddau, felly mae'n bwysig gwybod beth i'w wneud os bydd sefyllfa o'r fath yn codi.

A3.2.1 Gwrthdaro buddiannau yw set o amgylchiadau sy'n peryglu gallu unigolyn i ddefnyddio ei grebwyll neu gyflawni dyletswyddau swyddogol/proffesiynol, neu lle gall Swyddog gael ei ddylanwadu gan fuddiannau eilaidd (megis elwa'n bersonol o drafodiad neu ragfarn tuag ato). Gall y canfyddiad bod buddiannau'n cystadlu â'i gilydd, diffyg crebwyll neu ddylanwad gormodol hefyd gyfrif fel gwrthdaro buddiannau.

Blwch A3.2A: Enghreifftiau o wrthdaro buddiannau:

- **Buddiannau ariannol uniongyrchol neu anuniongyrchol** – Gallai swyddogion ddylanwadu ar benderfyniadau gwariant cyhoeddus.
- **Buddiannau anariannol neu bersonol** – contractau gan gwmnïau neu unigolion sydd â rhyw fath o berthynas gyda'r Swyddog.
- **Teyrngarwch cymysg** gyda theyrngarwch i'r prif sefydliad yn cystadlu â theyrngarwch i berson neu endid arall.
- **Derbyn rhoddion neu letygarwch** – mae derbyn rhoddion neu letygarwch yn creu canfyddiad bod penderfyniadau'n rhagfarnllyd, hyd yn oed os nad yw'r rhodd wedi effeithio o gwbl ar grebwyll.

Canlyniadau

A3.2.2 Gall methu â rheoli Gwrthdaro Buddiannau'n briodol arwain at:

- Niwed i enw da.
- Tanseilio hyder y cyhoedd yn uniondeb y Sefydliad.
- Camau cyfreithiol yn codi o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd ac ati.

Rheoli Gwrthdaro

A3.2.3 Mae gwrthdaro buddiannau yn gyffredin ac nid oes modd eu hosgoi. Dylai sefydliadau gydnabod pwysigrwydd cynnal ac adeiladu rhwydweithiau effeithiol er mwyn cefnogi nodau ac amcanion y sefydliad, a chael dealltwriaeth o safbwyntiau'n rhanddeiliaid. Felly nid yw'n rhesymol dileu'r perygl o wrthdaro o'r fath yn llwyr. Dylid gosod mesurau yn eu lle, fodd bynnag, i adnabod a rheoli gwrthdaro buddiannau pan mae'n codi.

A3.2.4 Efallai bod gan swyddogion ddiddordebau allanol sy'n eu gosod mewn sefyllfa lle gellid gweld gwrthdaro buddiannau, er enghraifft aelodaeth o Fwrdd neu Bwyllgor allanol. Dylai'r cyflogwr gael gwybod yn syth am aelodaeth neu gysylltiad o'r fath. Bydd disgwyl i'r swyddogion beidio â chymryd rhan mewn unrhyw ran o gyfarfod lle gellid dod i'r canfyddiad eu bod yn dylanwadu ar y canlyniad. Gall hyn hyd yn oed olygu peidio â bod yn bresennol tra bod y mater yn cael ei drafod. Mae hyn hefyd yn berthnasol i Aelodau Byrddau cyrff allanol sy'n cael eu noddi neu sy'n cael nawdd gan y sefydliad sy'n eu cyflogi. Dylid cofnodi datganiadau o fuddiant yng nghofnodion y cyfarfod dan sylw, ac os oes unrhyw gysylltiad rhwng y person sydd wedi datgan y buddiant gyda'r Swyddog Sector Cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'r prosiect, dylid nodi natur y cysylltiad hwnnw yn ogystal â sut y cafodd y gwrthdaro'i reoli.

A3.2.5 Mae sefydliadau mawr yn aml yn gweld newid staff. Pan fo hynny'n digwydd, dylid gwneud trefniadau trosglwyddo cywir a thrylwyr i sicrhau bod y staff sy'n ymgymryd â phrosiectau yn ymwybodol o unrhyw faterion perthnasol yn ymwneud â'r prosiectau hynny, ac yn gwybod at bwy y dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau.

Atodiad 4.1

Cyfarwyddwyr Cyllid

Mae'n bolisi gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig y dylai fod gan bob adran gyfarwyddwyr cyllid proffesiynol sy'n atebol i'r Ysgrifennydd Parhaol gyda sedd ar y bwrdd adrannol, ar lefel sy'n cyfateb i aelodau eraill y bwrdd. Mae hyn yr un mor gymwys i Weinyddiaethau Datganoledig. Mae'n arfer da i bob sefydliad arall yn y sector cyhoeddus wneud yr un peth, a gweithredu i'r un safonau. Mae'r Atodiad hwn yn nodi prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau cyfarwyddwyr cyllid.

Y Swyddogaeth Gyllid

A4.1.1 Dylai cyfarwyddwr cyllid sefydliad yn y sector cyhoeddus

- feddu ar gymwysterau proffesiynol¹⁵
- cael yr un statws ag aelodau eraill y bwrdd
- bod yn uniongyrchol atebol i bennaeth parhaol y sefydliad
- bod yn aelod o'r uwch dîm arwain, y bwrdd rheoli a'r pwyllgor gweithredol (a/neu gyrff cyfatebol).

A4.1.2 Mae'r rôl arwain ymestynnol hon yn gofyn am gyfathrebwr darbwyllo a hyderus gyda statws a hygredded i ennyn parch a dylanwad ar bob lefel o'r sefydliad. Disgrifir ei phrif nodweddion ym mlwch A4.1.A. Gellir yn ymarferol ddirprwyo llawer o'r cyfrifoldebau o ddydd i ddydd, ond dylai'r cyfarwyddwr cyllid barhau i oruchwyllo a rheoli. I raddau helaeth mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys sicrhau bod yr agweddau ariannol ar gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu yn cael eu cyflawni'n fanwl drwy'r sefydliad a'i gyrff cyhoeddus cysylltiedig.

A4.1.3 Dylai fod gan y swyddogaeth gyllid afael gadarn ar sefyllfa ariannol a pherfformiad y sefydliad drwy'r amser. Gan gefnogi'r Swyddog Cyfrifyddu, dylai'r cyfarwyddwr cyllid sicrhau bod digon o arbenigedd, gyda chefnogaeth systemau effeithiol, i gyflawni'r cyfrifoldeb hwn a herio'r sawl sy'n gyfrifol am weithgareddau'r sefydliad i roi cyfrif am eu perfformiad ariannol. Mae'n bwysig bod rheoli ariannol yn cael ei gymryd o ddifrif drwy bob sefydliad yn y sector cyhoeddus.

Arweiniad Ariannol

A4.1.4 Mae'r cyfarwyddwr cyllid yn gyfrifol am roi arweiniad ar gyfrifoldebau ariannol o fewn y sefydliad a'i gyrff cyhoeddus. Dylai sicrhau bod yr wybodaeth a ddefnyddir i wneud penderfyniadau ynglŷn â'r defnydd o adnoddau yn ddibynadwy. Mae blwch A4.1B yn esbonio rhai o gyfrifoldebau penodol y rôl.

¹⁵ Ystyr y term cyfarwyddwr cyllid proffesiynol yn y cyd-destun hwn yw bod yn aelod cymwysedig o un o'r pum corff sy'n rhan o Bwyllgor Ymgynghorol y Cyrff Cyfrifyddu (CCAB) yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon, h.y. Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr, Sefydliad Siartredig Cyfrifwyr yr Alban, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Iwerddon, Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig, neu feddu ar sgiliau a/neu gymwysterau proffesiynol cyfatebol; ac wedi cael profiad blaenorol perthnasol o reoli ariannol yn y sector preifat neu'r sector cyhoeddus.

Blwch A4.1A: Rôl y cyfarwyddwr cyllid

Llywodraethu

- Rhoi arweiniad ariannol, o fewn y sefydliad ac i'w gyrff cyhoeddus, ar lefel strategol a gweithredol.
- Sicrhau llywodraethu ariannol a rheoli risg cadarn a phriodol.
- Arwain, ysgogi a datblygu'r swyddogaeth gyllid, gan sefydlu ei chyfraniad masnachol llawn i'r busnes.
- Cynllunio a chyflawni'r fframwaith ariannol y cytunwyd arno gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi neu sefydliad noddi arall yn erbyn y meini prawf strategol a gweithredol a ddiffiniwyd.
- Herio a chynorthwyo'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, yn enwedig o ran fforddiadwyedd a gwerth am arian, drwy sicrhau bod cynigion polisi a chynigion gweithredol ac iddynt oblygiad ariannol sylweddol yn cael eu cymeradwyo gan y swyddogaeth gyllid.

Rheolaethau mewnol

- Cydlynu'r prosesau cynllunio a chyllidebu.
- Bod yn ddisgybledig o ran rheoli ariannol, gan gynnwys rheoli bancio, dyled a llif arian parod a gwahanu dyletswyddau'n briodol.
- Paratoi gwybodaeth amserol ac ystyrlon am reoli'n fisol.
- Sicrhau bod awdurdodau ariannol dirprwyedig yn cael eu parchu.
- Dewis, cynllunio a goruchwyllo unrhyw brosiectau cyfalaf.
- Sicrhau effeithlonrwydd a gwerth am arian yng ngweithgareddau'r sefydliad.
- Rhoi gwybodaeth a chynghor i'r pwyllgor archwilio (a elwir yn Bwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol o fewn Llywodraeth Cymru).
- Arwain neu hyrwyddo rhaglenni newid o fewn y sefydliad a'i gyrff cyhoeddus.

Cysylltiadau allanol

- Paratoi cyllidebau drafft a chyfrifon adnoddau a data cyfunol ar gyfer cyfrifon llywodraeth gyfan.
- Cydgysylltu â'r archwilydd allanol.
- Cydgysylltu â Phwyllgorau Cyllid a Chyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgorau perthnasol eraill y Cynulliad, a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd o bosibl.

Blwch A4.1B: Arweiniad rheolaeth ariannol

- Rhoi cyngor proffesiynol a dadansoddiad ariannol ystyrlon sy'n galluogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i wneud penderfyniadau busnes amserol a chytbwys.
- Cynnal strategaeth ariannol hirdymor i ategu hyfywedd ariannol y sefydliad o fewn y fframwaith y cytunwyd arno.
- Datblygu a chynnal model dyrannu adnoddau effeithiol er mwyn sicrhau'r allbwn mwyaf.
- Sicrhau cywirdeb ariannol, rheoleidd-dra a gwerth am arian.
- Datblygu a chynnal strategaethau rheoli asedau a chaffael priodol.
- Cyflwyno gwybodaeth ariannol gywir ac ystyrlon am berfformiad y sefydliad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Senedd y Deyrnas Unedig, Trysorlys Ei Mawrhydi a'r cyhoedd.
- Pennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer unrhyw weithgareddau masnachol.
- Gweithredu fel pennaeth proffesiwn yn y sefydliad.

Disgyblaeth Ariannol Fewnol

A4.1.5 Dylai'r cyfarwyddwr cyllid gynnal polisiâu cryf ac effeithiol i reoli'r defnydd o adnoddau yng ngweithgareddau'r sefydliad. Mae hyn yn cynnwys gwella sgiliau ariannol deiliaid cyllidebau yn y sefydliad. Yn yr un modd, dylai sicrhau bod disgyblaethau tebyg mewn cyrff a noddir gan y sefydliad. Dylai'r rhain ddefnyddio arfer gorau ym maes cyfrifyddu a pharchu gofynion canolog, gan gynnwys, lle y bo'n berthnasol, gyfarwyddiadau cyfrifon. Disgrifir y cyfrifoldebau hyn ym mlwch A4.1C.

Blwch A4.1C: Rheolaeth ariannol

- Gorfodi cydymffurfiaeth ariannol drwy'r sefydliad ond gan warchod rhag twyll a sicrhau gwelliant parhaus mewn rheolaeth ariannol.
- Cymhwysu rheolaethau mewnol cryf ym mhob maes o reoli ariannol, rheoli risg a rheoli asedau.
- Pennu cyllidebau, targedau ariannol a dangosyddion perfformiad i helpu i asesu darpariaeth.
- Cyflwyno adroddiadau ar berfformiad y sefydliad a'i gyrff cyhoeddus i'r bwrdd a phartion eraill yn ôl yr angen.
- Rheoli contractau masnachol hirdymor o ran gwerth.
- Sicrhau bod prosiectau cyfalaf y sefydliad yn cael eu dewis ar ôl dadansoddiad gwerth am arian a gwerthusiad priodol gan ddefnyddio Llyfr Gwyrdd Trysorlys Ei Mawrhydi.

A4.1.6 Bydd gan swyddi cyfarwyddwyr ariannol unigol, wrth gwrs, ddyletswyddau sy'n benodol i'w sefydliadau a'u cyd-destunau yn ogystal â'r rhai a nodir yn yr atodiad hwn. Ond dylai pob swydd cyfarwyddwr cyllid geisio gweithredu i'r safonau hyn o leiaf.

Atodiad 4.2

Risg

Dylai fod gan bob sefydliad yn y sector cyhoeddus systemau ar gyfer nodi a rheoli risg – yn cynnwys cyfleoedd a bygythiadau – sy'n addas i'w fusnes, ei amgylchiadau a'i awydd i fentro. Dylai'r bwrdd arwain y gwaith o asesu a rheoli risg a helpu'r Swyddog Cyfrifyddu i lunio'r datganiad llywodraethu (gweler Atodiad 3.1).

Yr Achos dros Reoli Risg

A4.2.1 Mae pob sefydliad yn y sector cyhoeddus yn wynebu amrywiaeth o ffynonellau ansicrwydd, yn gadarnhaol ac yn negyddol, a all effeithio ar ei allu i gyflawni ei amcanion a'i gyllideb a sicrhau gwerth am arian yn llwyddiannus. Felly, dylai bwrdd pob sefydliad yn y sector cyhoeddus fynd ati i geisio nodi bygythiadau a chyfleoedd a phenderfynu sut i ymateb iddynt, gan gynnwys sut i osod rheolaethau mewnol.

A4.2.2 Dylid integreiddio gwaith rheoli risg yn systemau rheoli arferol pob sefydliad yn y sector cyhoeddus fel y gall gyflawni ei nodau a chynnal yr enw da sydd ganddo o ran hygredd a dibynadwyedd. Mater i bob Swyddog Cyfrifyddu, gyda chymorth y bwrdd, yw penderfynu sut i wneud hynny.

A4.2.3 Dylai'r bwrdd wneud dewis strategol ynghylch y dull o reoli risg a fabwysiedir o fewn pob sefydliad, ei ffurf a'i ansawdd. Mae a wnelo hyn â goddef risg, h.y. y graddau y mae'r sefydliad yn fodlon derbyn colled neu niwed naill ai o ran perfformiad ei wasanaethau arferol neu er mwyn sicrhau canlyniadau gwell. Bydd gwahanol fathau o oddefiad i risg yn gymwys i amgylchiadau gwahanol, ee gallai fod yn anodd iawn i raglenni neu bolisiau sy'n hanfodol i'r genhadaeth oddef methiant i ddarparu gwasanaethau, ond mae'n bosibl y byddai cyrff buddsoddi yn fwy awyddus i sicrhau llwyddiant ariannol hyd yn oed ar draul rhai methiannau. Dylai byrddau fod yn barod i fabwysiadu dull cymesur o weithredu er mwyn sicrhau na fydd risgiau llai pwysig yn gwthio'r rhai hanfodol o'r neilltu.

Rheoli Risg yn Ymarferol

A4.2.4 Dylai canllawiau strategol y bwrdd ar yr awydd i fentro dreiddio i raglenni, polisiau, prosesau a phrosiectau pob sefydliad. Dylent benderfynu sut mae dirprwyaethau a threfniadau adrodd yn gweithio fel y gellir nodi achosion o wyro oddi wrth y cynllun ac ymdrin â hwy yn brydlon.

A4.2.5 Dylai adborth o lefel gwaith hefyd lywio gwaith ailasesu risg pob bwrdd. Felly, dylai gwaith rheoli risg fod yn gylch parhaus o waith asesu ac adborth, sy'n ymateb i wybodaeth a datblygiadau newydd. Crynhoir hanfodion y broses ym mlwch A4.2A.

A4.2.6 Dylai pob sefydliad benderfynu sut y dylai'r cylch hwn weithio, yn unol â'i amgylchiadau, ei flaenoriaethau a'i arferion gwaith. Y Swyddog Cyfrifyddu, gyda chymorth y bwrdd, a ddylai gael y gair olaf bob amser a dylai gymryd golwg eang a chydgyssylltiedig ar draws y sefydliad cyfan.

Blwch A4.2A: Nodi'r cylch rheoli risg

1. Mae'r bwrdd yn diffinio goddefiad risg y sefydliad.
2. Mae'r sefydliad yn nodi ac yn dosbarthu ei risgiau.
3. Mae'r sefydliad yn asesu'r risgiau a nodwyd: pa mor debygol ydyw y gwelir eu heffaith bosibl, gan nodi pa rai na ellir eu goddef a phryd.
4. Mae'r bwrdd yn sganio'r gorwel i nodi unrhyw risgiau bach nas gwelwyd.
5. Mae'r bwrdd yn penderfynu pa risgiau sy'n bwysig a pha gamau y dylid eu cymryd, os o gwbl.
6. Mae dirprwyo gwaith rheoli i swyddogion is, ynghyd â hysbysu swyddogion uwch o risgiau drwy'r sefydliad yn galluogi'r bwrdd i olrhain perfformiad.
7. Gan ddefnyddio'r adborth hwn, mae'r bwrdd yn cael darlun cyffredinol a gall addasu penderfyniadau ee ynghylch goddefiant neu sut i ymateb.
8. Ewch yn ôl i gam 1 ac ailadrodd fel y dymuna'r bwrdd.

Nodi Risgiau

A4.2.7 Mae'n bwysig nodi pob un o'r risgiau sy'n wynebu'r sefydliad fel y gellir eu gwerthuso'n briodol yn eu cyd-destun.

A4.2.8 Mae'n werth gofyn i bob rhan o'r sefydliad ystyried ei risgiau ei hun. Ar lefel gwaith gall risgiau gweithredol edrych yn fawr iawn. Gall fod mai dim ond ar lefel bwrdd y mae'n wirioneddol bosibl sganio'r gorwel i nodi tueddiadau, problemau neu gyfleoedd sy'n dod i'r amlwg a allai newid amgylchedd gwaith y sefydliad. Dangosir rhai o'r risgiau difrifol y mae'n hawdd peidio â'u gweld ym mlwch A4.2B.

Blwch A4.2B: Enghreifftiau o risg y mae'n hawdd peidio â'u gweld

- **Risgiau sy'n gysylltiedig â diogelwch gwybodaeth:** gall gwybodaeth ddigidol heb ei diogelu gael ei chamleoli neu ei chopio.
- **Risgiau effaith uchel, tebygolrwydd isel:** risgiau bach sy'n cael effaith ddifrifol os byddant yn digwydd.
- **Risgiau sy'n gysylltiedig â chyfleoedd:** lle y gall rhai dewisiadau eich atal rhag gwneud dewisiadau eraill.
- **Risgiau o'r dechrau i'r diwedd:** sy'n dod i'r amlwg pan fydd cadwyn weithredol yn methu ar yr un pryd mewn sawl man mewn cyfres gysylltiedig o brosesau.
- **Risgiau rhyngsefydliadol:** a all achosi i fusnes y sefydliad fethu oherwydd cysylltiadau â phartneriaid, cyflenwyr a rhanddeiliaid eraill.
- **Risgiau cronol:** sy'n digwydd os bydd sawl risg yn digwydd ar yr un pryd, ee mewn ymateb i'r un sbardun.

A4.2.9 Yn osgystal â defnyddio gwaith asesu risg o'r tu fewn i'r sefydliad, gall fod yn werthfawr defnyddio ffynhonnell allanol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw beth pwysig wedi'i ddiystyru. Weithiau, gall sefydliadau sector cyhoeddus gwahanol helpu ei gilydd fel hyn, er budd pob un ohonynt. A gall fod yn ddefnyddiol annog staff i gydweithio er mwyn ystyried y pwnc, ee mewn grwpiau wedi'u hwyluso.

A4.2.10 Ar ôl nodi'r risgiau sy'n wynebu'r sefydliad, mae'n bosibl llunio cofrestr risg, sef rhestr o risgiau cydnabyddedig y gellir ei diweddarau ac y gall y bwrdd ei hadolygu'n rheolaidd. Mae angen i bob sefydliad benderfynu sut i flaenoriaethu ei amlygiad risg cyfan fel y gall y bwrdd fabwysiadu dull strategol hyddysg o ymdrin â risg ar gyfer y sefydliad cyfan.

Ymateb i Risg

A4.2.11 Mae angen i bob sefydliad benderfynu a ddylid ymateb i'r risgiau a nodwyd ac, os felly, sut. Rhestrir rhai ymatebion safonol ym mlwch A4.2C.

Blwch A4.2C: Rhai ymatebion safonol i risg

Trin: ymateb cyffredin. Gall triniaeth olygu gosod rheolaethau fel y gall y sefydliad barhau i weithredu; neu sefydlu technegau atal. Gweler blwch A4.2D am driniaethau bosibl.

Trosglwyddo: gallai sefydliad arall gyflawni gweithgaredd y mae ganddo fwy o arbenigedd ynddo. Fel arfer, ni all sefydliadau yn y sector cyhoeddus drefnu yswiriant (gweler Atodiad 4.3) ond mae dulliau eraill o drosglwyddo risg yn bosibl, ee defnyddio biwro cyflogres. Ni ellir trosglwyddo rhai risgiau, yn arbennig y risg i enw da sefydliad. Felly, dylai sefydliadau sy'n dirprwyo barhau i oruchwyllo eu hasiantau, a dylai fod yn bosibl iddynt gymryd camau unioni pan fo angen.

Terfynu: mae'n bosibl y bydd yn well terfynu (neu beidio â dechrau) gweithgareddau y mae risgiau na ellir eu goddef yn gysylltiedig â hwy neu'r rhai lle na all unrhyw ymateb ddod â'r risg weddilliol i lefel y gellir ei goddef, ee prosiectau sy'n methu lle mae'n rhatach dechrau eto. Nid yw'r opsiwn hwn bob amser ar gael yn y sector cyhoeddus, sy'n gorfod ysgwyddo risgiau anodd weithiau – sy'n risgiau bach fel arfer ond a allai fod yn rhai difrifol – y gall y sector preifat ddewis eu hosgoi.

Goddef: ar gyfer risgiau lle mae modd rheoli'r anfanteision gan ddefnyddio cynlluniau wrth gefn priodol; ar gyfer rhai lle na ellir cyfiawnhau'r rheolaethau posibl (ee gan y byddent yn anghymesur); ac ar gyfer risgiau na ellir eu hosgoi, ee terfysgaeth.

Manteisio ar y cyfle: gall byrddau groesawu rhai risgiau, gan dderbyn eu hanfanteision efallai gyda rheolaethau neu gamau ataliol, gan ddisgwyl canlyniadau buddiol. Gall osgoi pob risg fod yr un mor anghyfrifol â diystyru risg.

A4.2.12 Wrth ddewis ymatebion, y prawf asid yw a ellir gwneud y risg weddilliol yn dderbyniol ar ôl cymryd camau. Dylai unrhyw reolaethau fod yn realistig ac yn gymesur â'r lleihad arfaethedig yn y risg a dylent gynnig gwerth da am arian. Rhestrir y mathau mwy cyffredin ym mlwch A4.2D.

Blwch A4.2D: Rheolaethau cyffredin

Camau ataliol: mesurau i ddileu canlyniadau annymunol neu gyfyngu arnynt, ee gwella hyfforddiant neu ymwybyddiaeth o risg; neu atal gwybodaeth ddigidol rhag cael ei throsglwyddo gan ddefnyddio databiniau. Gochelwch rhag gosod costau diangen neu amharu ar arloesedd.

Rheolaethau cywirol: mesurau i ymdrin ag agweddau niweidiol ar risgiau a wireddwyd, ee cymalau i adennill cost contract sydd wedi methu. Mae'n cynnwys cynlluniau wrth gefn.

Rheolaethau cyfarwyddiadol: mesurau a luniwyd i nodi'r ffordd y caiff proses ei chynnal er mwyn dileu rhai ffynonellau amlwg posibl o niwed, ee gofynion hylendid.

Rheolaethau olrheiniol: mesurau i nodi niwed fel y gellir ei unioni yn gyflym. Mae'n arbennig o ddefnyddiol pan na fydd yn briodol cymryd camau ataliol, ond gall fod yn ddull defnyddiol o groeswrio mewn manau eraill, ee rheolaethau stoc.

A4.2.13 Sut bynnag y caiff ei thrin, fel arfer mae'n amhosibl dileu pob risg. Yn aml byddai dileu pob risg, pe bai'n bosibl gwneud hynny, yn cynnig gwerth gwael am arian. Felly, mae'n arfer da cysylltu'r defnydd o reolaethau â chynlluniau wrth gefn er mwyn ymdopi â'r gwaith o unioni niwed pan fydd risgiau yn digwydd. Mae llawer o sefydliadau yn ei chael hi'n ddefnyddiol treialu'r cynlluniau hyn: yn gyntaf er mwyn cadarnhau eu bod yn gweithio, yn ail er mwyn sicrhau eu bod yn gymesur ac yn drydydd er mwyn cael gwared ar unrhyw nodweddion diangen a all fod ganddynt.

Y Bwrdd

A4.2.14 Mae rheoli risg yn dasg lywodraethu allweddol i'r bwrdd. Dylai fabwysiadu dull strategol o ymdrin â risg yn y sefydliad yn gyffredinol, gan ystyried yr holl fewnbwn perthnasol y gall yn rhesymol ei ddefnyddio. Er enghraifft, gall ystyried i ba raddau y mae risgiau yn rhyngweithio, yn cronni neu'n diddymu ei gilydd. Ac, wrth reswm, dylai pob un o benderfyniadau pwysig y bwrdd gynnwys ystyriaeth o risg.

A4.2.15 Mae'n arfer da i'r bwrdd ystyried risg yn rheolaidd fel rhan o'i lif arferol o wybodaeth reoli am weithgareddau'r sefydliad. Mae'n arfer da i bob haen reoli roi sicrwydd i swyddogion uwch ynghylch ei pherfformiad, gan atgyfnerthu cyfrifoldeb drwy'r strwythur.

A4.2.16 Mater i bob bwrdd yw penderfynu pa mor aml y mae am ystyried risg. Mae rhai yn pennu amserlenni rheolaidd i ystyried y gofrestr risg gyfan, tra bod rhai yn dewis edrych ar rannau o'r gofrestr risg mewn trefn reolaidd. Mae gwaith craffu o'r fath yn galluogi'r bwrdd i asesu datblygiadau yn eu cyd-destun a gwneud penderfyniadau hyderus ynghylch eu perthnasedd a'u harwyddocâd.

A4.2.17 Mae'n arfer da i'r bwrdd wneud yr asesiadau hyn ar sail cyngor ei bwyllgor archwilio, er y dylai lunio ei farn ei hun. Gall pwyllgorau archwilio hefyd ychwanegu gwerth drwy fynd ati i sicrhau bod ymatebion y sefydliad i adroddiadau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn cael eu rhoi ar waith. Dylai pob pwyllgor archwilio gael ei gadeirio gan aelod anweithredol o'r bwrdd, sy'n defnyddio mewnbyn o adroddiadau mewnol a swyddogaethau archwilio mewnol y sefydliad.

A4.2.18 Ar ôl pwyso a mesur y risgiau a nodwyd, dylai'r bwrdd bob amser geisio nodi risgiau nas nodwyd, y gall rhai ohonynt fod yn risgiau bach. Mae blwch A4.2B yn cynnig rhai posibiladau er nad yw'r rhestr yn un gynhwysfawr. Efallai y bydd y broses hon yn peri i'r bwrdd ailystyried ei strategaeth ar oddef risg.

A4.2.19 Ffocws defnyddiol i waith y bwrdd ar risg yw helpu'r Swyddog Cyfrifyddu i lunio'r datganiad llywodraethu i'w gyhoeddi yn ei adroddiad blynyddol (gweler Atodiad 3.1). Dylai gynnwys adroddiad ar sut mae'r sefydliad wedi ymateb i risg a'r hyn y mae'n ei wneud i atal a rheoli risg; a hefyd i fanteisio ar gyfleoedd.

A4.2.20 Yn fwy cyffredinol, dylai'r bwrdd sicrhau y caiff gwersi eu dysgu o brofiad y sefydliad. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i fethiannau canfyddedig, ee risg nas rhagwelwyd neu risg wedi'i chrisialu a oedd yn fwy niweidiol na'r disgwyl. Ond mae yr un mor wir am lwyddiannau, yn arbennig y rhai lle y cafodd risg ei rheoli'n dda, er mwyn gweld a fyddai'n werth ailadrodd technegau effeithiol mewn mannau eraill.

A4.2.21 Yn olaf, dylai'r bwrdd ystyried a yw risgiau'r sefydliad yn cael eu trin yn briodol. Os yw niwed wedi'i atal, efallai y bydd modd addasu'r ymateb presennol i risg er mwyn sicrhau canlyniadau sydd yr un mor llwyddiannus drwy ddefnyddio technegau llai costus neu lai ymwthiol, ee defnyddio camerâu diogelwch yn lle rheolaethau ffisegol.

Grwpiau Adrannol

A4.2.22 Mae Llywodraeth Cymru'n noddi nifer o gyrff cyhoeddus "hyd braich" gan gymryd cyfrifoldeb amdanynt yn y pen draw tra'n rhoi rhywfaint (neu weithiau gryn dipyn) o annibyniaeth iddynt (gweler Pennod 7). Gellir cyfuno cyfrifon y gyrff cyhoeddus hyn â chyfrifon Llywodraeth Cymru. Boed hynny'n digwydd neu beidio, mae'r noddwr yn eu cefnogi. Mae'n dilyn y dylai pob Grŵp Llywodraeth Cymru ystyried ei broffil risg gan gynnwys busnes ei gyrff cyhoeddus.

Cyfeiriadau

Y Llyfr Oren Trysorlys Ei Mawrhydi:
www.gov.uk/government/publications/orange-book

Canllawiau eraill ar risg a gyhoeddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi :
www.webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130129110402/
www.hm-treasury.gov.uk/psr_governance_risk_riskguidance.htm

Adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar Reoli risgiau mewn llywodraeth:
www.nao.org.uk/report/managing-risks-in-government/

Canllaw ymarferol Adran Actiwari'r Llywodraeth ar reoli risg strategol:
www.gad.gov.uk/Knowledge_Centre/Strategic_Risk_Management.html

Atodiad 4.3

Yswiriant

Fel arfer ni ddylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus drefnu yswiriant masnachol am ei bod yn cynnig gwell gwerth am arian i'r trethdalwr ddiogelu ei risgiau ei hun. Fodd bynnag, mae rhai amgylchiadau yn codi lle mae yswiriant masnachol yn briodol. Mae'r atodiad hwn yn nodi'r materion sydd i'w hystyried.

A4.3.1 Fel rheol nid yw sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn prynu yswiriant masnachol rhag y risgiau a wynebant ac eithrio pan fydd rhwymedigaeth gyfreithiol i wneud hynny (ee mewn perthynas â cherbydau lle mae Deddfau Traffig Ffyrdd yn ei gwneud yn ofynnol). Fel arfer mae'n rhatach iddynt fod yn gyfrifol am eu risgiau eu hunain (oherwydd byddai costau premiymau yswiriant, dros amser, yn fwy na'r symiau sy'n debygol o gael eu talu am unrhyw golledion).

A4.3.2 Fodd bynnag, o dan rai amgylchiadau, fel rhan o lunio strategaeth rheoli risg, gall Swyddogion Cyfrifyddu ddewis prynu yswiriant masnachol i ddiogelu rhannau penodol o bortffolios eu sefydliad. Dylai penderfyniadau o'r fath bob amser gael eu gwneud ar ôl dadansoddiad cost a budd er mwyn sicrhau gwerth am arian. Nodir rhai rhesymau derbyniol dros ddefnyddio yswiriant ym mlwch A4.3A.

Blwch A4.3A: Lle y gellir cyfiawnhau yswiriant masnachol

- **Yswiriant adeiladu fel amod o'r brydles** a lle na fydd y prydleswr yn derbyn indemniad: gellir trefnu yswiriant masnachol lle mae cost adeiladau, ynghyd â chost yswiriant, yn fwy costeffeithiol nag opsiynau eraill o ran adeiladau.
- **Yswiriant cyffredinol i safle:** fel arfer mae contractwyr a datblygwyr o'r sector preifat yn trefnu un polisi yswiriant i safle am ei bod yn rhatach na phob parti unigol yn yswirio ei hun ar wahân. Felly gall sefydliad cleient ddiogelu ei risgiau heb fawr ddim cost ychwanegol os o gwbl.
- **Yswirio boeleri a lifftiau:** gall fod yn un o amodau trefnu prydles, ac fel arfer mae'n golygu archwiliad arbenigol o bryd i'w gilydd gyda'r nod o leihau'r risg o golled neu niwed.
- **Mentrau masnachol:** gan fod y gweithgareddau hyn y tu allan i gyfrifoldebau craidd Llywodraeth Cymru, gallai colledion ar ei gweithgareddau masnachol dewisol leihau'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer ei gweithgareddau craidd (gweler Pennod 7). Felly fel arfer bydd yn gwneud synnwyr i'w hyswirio.
- **Lle mae yswiriant masnachol yn hanfodol i brosiect:** ee, lle mae contractwyr preifat yn mynnu, gall fod yn briodol prynu yswiriant hyd yn oed os yw'r budd net yn negyddol. Ond gall hyn fod yn arwydd bod angen ailstrwythuro'r prosiect er mwyn osgoi unrhyw ofyniad i brynu yswiriant masnachol, efallai drwy lythyrau cysur neu ddatganiadau cymorth. Dylai costau a buddiannau trefnu yswiriant gael eu cynnwys wrth arfarnu prosiect yn gyffredinol.

Arfarnu'r Opsiynau

A4.3.3 Dylai penderfyniadau ynghylch a ddylid prynu yswiriant fod yn seiliedig ar ddadansoddiad cost a budd gwrthrychol, gan ddefnyddio'r canllawiau yn *Llyfr Gwyrdd Trysorlys Ei Mawrhydi*¹⁶. Mae blwch A4.3B yn amlinellu rhai ffactorau sydd yn aml yn werth eu hystyried mewn asesiadau o'r fath.

Blwch A4.3B: Costau a buddiannau y gellid eu cynnwys mewn asesiadau

Costau

- Y premiwm yswiriant y gellir ei dalu.
- Cost weinyddol rheoli hawliadau gyda'r cwmni yswiriant.

Buddiannau

- Trosglwyddo risg, a brisiwyd ar yr iawndal disgwylidiedig am y colledion yswiriedig.
- Ymdrin â hawliadau, lle y bydd y cwmni yswiriant yn rheoli hawliadau yn erbyn trydydd partion.
- Gwerth cynllun adfer busnes gwarantedig: y lleihad posibl yn yr amser a gymerir i adfer colledion, gan leihau achosion o darfu ar fusnes.

Pennu Ffioedd a Thaliadau

A4.3.4 Os bydd sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn yswirio risgiau sy'n codi wrth ddarparu gwasanaeth y codir ffi neu dâl amdano, dylai'r taliadau premiwm gwirioneddol gael eu cynnwys wrth gyfrifo costau wrth benderfynu ar y ffi neu'r tâl. Yn yr un modd, lle mae hunanyswiro yn gymwys, dylid ystyried cost dybiannol taliadau premiwm. Gweler Pennod 6 am ragor o fanylion.

Gweinyddu Hawliadau

A4.3.5 Gall rheoli hawliadau yn erbyn trydydd partion fynd â llawer o amser a gofyn am sylw arbenigol. Gall cwmnïau yswiriant fod mewn sefyllfa well na sefydliadau yn y sector cyhoeddus i ymdrin â hawliadau yn ddarbodus ac yn effeithlon. Felly gall rhoi gwaith gweinyddu hawliadau ar gontract i gwmni yswiriant fod yn fwy effeithiol o ran cost na chadw'r gwaith yn fewnol.

Ymdrin â Cholledion

Colledion heb eu hyswiro (heblaw am ddamweiniau traffig)

A4.3.6 Pan fydd colled yn digwydd neu pan geir hawliad trydydd parti, dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus ystyried i ddechrau a ddylid gwneud iawn am y golled neu dderbyn yr hawliad. Felly:

- **Colled neu ddifrod i asedau:** dylai'r cwestiwn o atgyweirio neu gaffael asedau newydd gael ei ystyried yn ofalus, gan ystyried yr angen am yr ased a'r polisiâu cyfredol. Mae'r penderfyniad hwn, mewn gwirionedd, yn benderfyniad buddsoddi newydd a dylid ei arfarnu yn unol â hynny.

¹⁶ www.gov.uk/government/publications/the-green-book-appraisal-and-evaluation-in-central-government

- **Hawliadau trydydd parti:** dylai'r cyfiawnhad dros yr hawliad gael ei ystyried yn ofalus gan gymryd cyngor cyfreithiol priodol.

A4.3.7 Os bydd y sefydliad yn penderfynu atgyweirio neu gaffael ased newydd, neu dalu hawliad trydydd parti, dylid talu'r gost fel arfer o adnoddau presennol. Fel arfer, ni chymeradwyir ceisiadau am adnoddau ychwanegol mewn achosion o'r fath. Pe bai cais yn codi byddai Cyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru yn ei ystyried ar ei haeddiant ei hun ac yng ngoleuni'r adnoddau sydd ar gael, yn yr un ffordd â cheisiadau eraill am gynnydd mewn darpariaeth. Yn yr un modd, ni ddylai cyrff cyhoeddus fel arfer ddisgwyl i'w noddwyr dalu hawliadau i ad-dalu colledion.

Colledion yswiriedig

A4.3.8 Dylid ymdrin â hawliadau yswiriant yn unol â thelerau'r polisi.

A4.3.9 Gall cyrff cyhoeddus gadw symiau a dalwyd o dan bolisiau yswiriant masnachol i dalu gwariant sy'n deillio o golledion neu hawliadau trydydd parti. Os penderfynir peidio â chaffael ased newydd yn lle ased yswiriedig neu beidio ag atgyweirio ased yswiriedig, gall yr adran noddi leihau unrhyw gymorth grant sy'n daladwy.

Hawliadau rhwng Sefydliadau Sector Cyhoeddus

A4.3.10 Gallai sefyllfa godi lle y byddai Llywodraeth Cymru ac Adran arall o'r Llywodraeth yn rhan o ddigwyddiad a fyddai'n achosi colled i'r naill neu'r llall a byddai Gweinidogion Cymru wedyn yn gwneud hawliad neu'n cael hawliad yn eu herbyn am gost y difrod. Er mwyn osgoi'r gost sy'n gysylltiedig â pharatoi a setlo hawliadau bach y rheol yw peidio â gwneud hawliad am ddifrod i eiddo sefydlog neu symudol lle mae'r difrod yn fach iawn. Dylai trefniadau ildio tebyg fod yn gymwys i derfynau cytûn rhwng sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus. Ond nid yw trefniadau ildio o'r math hwn yn briodol lle mae hawl i wneud hawliadau yn erbyn trydydd partiön.

A4.3.11 Mae blwch A4.3C yn dangos sut i weithredu pan fydd un o sefydliadau'r Llywodraeth yn gwneud hawliad mwy yn erbyn un neu fwy o rai eraill.

Blwch A4.3C: Ymdrin â hawliadau rhwng sefydliadau sector cyhoeddus

Statws Yswiriant

Pob un wedi ei yswirio

Pob un heb ei yswirio

Sefydliad sydd ar fai heb ei yswirio, sefydliad arall wedi ei yswirio/ sefydliadau eraill wedi eu hyswirio

Sefydliad sydd ar fai wedi ei yswirio, sefydliad arall heb ei yswirio/ sefydliadau eraill heb eu hyswirio

Setlo Hawliadau

Yswirwyr yn setlo hawliadau

Sefydliad(au) sydd ar fai yn negodi a ddylid ad-dalu'r llall/lleill

Sefydliad wedi ei yswirio yn hawlio ar ei bolisi yswiriant. Sefydliad heb ei yswirio/sefydliadau heb eu hyswirio yn ymdrin â hawliadau gan yr yswirwyr ar sail atebolrwydd cyfreithio caeth

Sefydliad heb ei yswirio/sefydliadau heb eu hyswirio yn ceisio boddhad ariannol drwy yswirwyr y sefydliad(au) sydd ar fai

Cerbydau

A4.3.12 Gellir ymdrin â llawer o hawliadau rhwng cyrff cyhoeddus sy'n ymwneud â difrod i gerbydau, neu golled a achosir gan gerbydau, gan ddefnyddio'r trefniadau ym mharagraff A4.3.10.

A4.3.13 Rhaid i gerbydau sy'n teithio yng ngwledydd eraill yr Undeb Ewropeaidd gydymffurfio â Chyfarwyddebau. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i gerbydau aelod-wladwriaeth sy'n gweithredu yn nhiriogaeth un arall feddu ar yswiriant i'r graddau sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth y diriogaeth sy'n rhan o'r daith, oni bai bod trefniadau amgen derbyniol, ee indemniadau.

Benthyciadau

A4.3.14 Pan gaiff asedau'r sector cyhoeddus eu rhoi ar fenthycy i gorff heblaw am sefydliad sector cyhoeddus nad yw'n yswirio, mae'n bwysig bod asedau'r sefydliad sy'n rhoi benthycy yn cael eu diogelu. Felly dylai'r sawl sy'n benthycy drefnu yswiriant yn erbyn difrod neu golli'r asedau o'r adeg y'u derbynnir ac yn erbyn hawliadau gan drydydd partion gan gynnwys ei gyflogeion ei hun. Gall indemniad gan y benthycwyr fod yn ddewis amgen derbyniol, ar yr amod bod Llywodraeth Cymru yn fodlon y gallai, ac y byddai, y benthyciwr yn talu am unrhyw ddifrod neu golled arall. O dan y fath amgylchiadau dylid cael cyngor gan wasanaethau cyfreithiol.

A4.3.15 Fel arfer disgwylir i gyrff cyhoeddus dalu am yswirio eu hasedau (ee offer neu storfeydd) a gedwir gan contractwr fel rhan o brosesau busnes arferol. Y contractwr ddylai dalu am unrhyw yswiriant yn erbyn risgiau sy'n deillio o esgeuluster neu gamymddwyn bwriadol gan gyflogeion y contractwr. Dylai'r trefniadau hyn gael eu nodi'n glir yn y contract perthnasol.

A4.3.16 Os bydd Llywodraeth Cymru neu ei chyrrff cyhoeddus yn benthycy eitemau o werth gan gorff anllywodraethol dylid fel arfer gynnig indemniad yn erbyn difrod neu golled i'r perchennog (cyn gwneud hyn dylid cael cyngor ar indemniad gan Wasanaethau Cyfreithiol). Ni ddylai'r fath indemniadau beri unrhyw ansicrwydd o ran graddau a hyd atebolrwydd y sefydliad sy'n benthycy.

A4.3.17 Dim ond ar gyfer eitemau o werth a fenthycir os yw'r perchennog yn mynnu, neu os oes gan y benthyciwr reswm dros gredu y byddai yswiriant masnachol yn fwy costeffeithiol na rhoi indemniad, y dylai benthycwyr drefnu'r fath yswiriant.

Atebolrwydd Cyflogwyr

A4.3.18 Nid yw'r Goron yn rhwym wrth Ddeddf Atebolrwydd Cyflogwyr (Yswiriant Gorfodol) 1969. Felly nid oes angen i Lywodraeth Cymru yswirio'r risgiau a amlinellir yn y Ddeddf.

A4.3.19 Yn yr un modd, nid oes angen i gorff a ariennir drwy gymorth grant yswirio rhag risgiau atebolrwydd cyflogwyr. Y rheswm dros hyn yw bod Rheoliadau Atebolrwydd Cyflogwyr (Yswiriant Gorfodol) 1998 (OS 1998/2573) yn eithrio unrhyw gorff (neu unigolyn a all fod yn gyflogwr) sydd â thystysgrif a roddwyd gan un o Adrannau'r Llywodraeth.

A4.3 20 Dylai'r dystysgrif ond ymwneud â'r risgiau y mae Deddf Rhwymedigaeth Cyflogwyr (Yswiriant Gorfodol) 1969 yn ymwneud â hwy, ac ni ellir cynnwys unrhyw risgiau eraill. Ceir copi o fformat y dystysgrif gan yr Uned Llywodraethu Corfforaethol. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod yr amgylchiadau y rhoddwyd tystysgrifau ynddynt yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd, er mwyn gallu dirymu tystysgrifau os bydd amgylchiadau yn newid.

Atodiad 4.5

Caffael

Mae'n bwysig sicrhau gwerth am arian drwy drefniadau caffael a chomisiynu cadarn. Dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus gaffael nwyddau a gwasanaethau drwy gystadleuaeth deg ac agored, gan weithredu ar gyngor priodol. Mae'r atodiad hwn yn rhoi trosolwg o'r fframwaith polisi ar gyfer caffael cyhoeddus yng Nghymru.

A4.5.1 Caffael yw'r broses o gael nwyddau a gwasanaethau gan drydydd partion (gan gynnwys yr agweddau logistaidd) ac mae'n cwmpasu unrhyw wariant â thrydydd partion ar nwyddau a gwasanaethau. Mae caffael yn rhychwantu'r cylch oes gyfan o'r cysyniad cychwynnol a diffinio anghenion busnes i ddiwedd oes ddefnyddio ased neu ddiwedd contract gwasanaethau. Cynhwysir prosiectau a ariennir yn gonfensiynol a mathau mwy arloesol o brosiectau a ariennir.

A4.5.2 Gyda'i gilydd, y sector cyhoeddus yng Nghymru yw defnyddiwr mwyaf gwasanaethau a nwyddau o'r sector preifat a'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Sefydlwyd Gwerth Cymru gan Lywodraeth Cymru i weithio gyda chyrff yn y sector cyhoeddus, gan hyrwyddo cydweithredu a pholisi caffael arfer gorau, er mwyn ceisio sicrhau effeithlonrwydd a gwell gwerth o ran y modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus.

A4.5.3 Mae'r Gwasanaeth Caffael Corfforaethol (CPS) yn un o swyddogaethau cyflawni polisi yr Adran Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol. Mae'n rhoi cyngor, cymorth a stiwardiaeth ar gyfer gweithgarwch caffael yn Llywodraeth Cymru.

A4.5.4 CPS sy'n gyfrifol am ddatblygu polisi caffael ledled Cymru a'i roi ar waith ac mae'n gweithredu fel y pwynt cyswllt rhwng Cymru a phartion eraill megis Swyddfa'r Cabinet sy'n ganolog i ddatblygu polisiâu effeithiol.

A4.5.5 Mae arferion caffael da yn gofyn bod sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn prynu'r nwyddau, y gwaith a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt gan ddefnyddio prosesau caffael teg ac agored, gan warchod rhag twyll a cheisio sicrhau gwerth am arian cyhoeddus gan roi sylw dyledus i briodoldeb a rheoleiddra. Mae cytundebau o dan gyfraith yr UE a chytundebau Sefydliad Masnach y Byd wrth wraidd yr egwyddorion hyn. Nodir cyfrifoldebau penodol sefydliadau yn y sector cyhoeddus ym mlwch A4.5A.

A4.5.6 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod effaith systemau caffael effeithiol yn y sector cyhoeddus ar dirwedd gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Cymru. Mae'n hyrwyddo arferion caffael sy'n sensitif i faterion caffael cynaliadwy ehangach ac sy'n ceisio dileu rhwystrau rhwng cyflenwyr a chaffael yn y sector cyhoeddus yn ogystal â bodloni gofynion deddfwriaethol.

Blwch A4.5A: Rhestr wirio o gyfrifoldebau prynu allweddol

Cyffredinol

- Gwerth am arian, fel arfer drwy gystadleuaeth.
- Cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau cyfreithiol o dan reoliadau'r UE a chyfraith y DU a chytundebau rhyngwladol eraill.
- Dilynwch bolisiau a safonau cyhoeddedig ar gaffael cyhoeddus gan gynnwys Datganiad Polisi Caffael Cymru.

Dull rheoli

- Arweinyddiaeth o ran pwysigrwydd caffael i gyflawni amcanion.
- Diffiniwch rolau a chyfrifoldebau aelodau allweddol o staff, gan wahanu dyletswyddau yn briodol.
- Hyrwyddwch ymwybyddiaeth o bwysigrwydd polisi caffael a chanllawiau Swyddfa'r Cabinet.

Cynllunio ac ymgysylltu

- Ymgynghorwch â CPS ynghylch materion sy'n ymwneud â pholisi caffael.
- Eglurwch amcanion caffael o'r dechrau.
- Ystyriwch sut y gallai'r strategaeth gaffael ddenu amrywiaeth eang o gyflenwyr gan gynnwys busnesau bach a chanolig a sefydliadau yn y trydydd sector.
- Ystyriwch drefniadau caffael cydweithredol neu ar y cyd â sefydliadau eraill er mwyn cynyddu pŵer prynu i'r eithaf.
- Lluniwch strategaeth gaffael ac ymgysylltu â'r farchnad yn gynnar ac ymhell cyn i'r gystadleuaeth ddechrau. Hysbysebwch gyfleoedd drwy'r porth caffael cenedlaethol (www.gwerthwchigymru.co.uk).

Sgiliau

- Defnyddiwch weithwyr caffael proffesiynol drwy gydol yr amser.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cysylltu â'r Gwasanaethau Caffael Cenedlaethol cyn dechrau unrhyw ymarfer caffael.
- Sicrhewch fod gennych ddigon o sgiliau i ymgymryd â phrosesau caffael a phrosiect a'u rheoli.

Adolygu

- Defnyddiwch broses adolygiad Gateway.
- Tynnwch sylw Gwerth Cymru at faterion y gall fod goblygiadau ehangach iddynt.

A4.5.7 Bwriedir i'r canllawiau hyn fod yn gwbl gyson â rhwymedigaethau'r DU i'r UE a'i rhwymedigaethau rhyngwladol. Nid yw'n creu unrhyw hawliau na rhwymedigaethau cyfreithiol.

Gwerth am Arian

A4.5.8 Diffinir gwerth am arian fel y cyfuniad gorau posibl o gostau oes gyfan ac ansawdd i fodloni gofyniad y defnyddiwr – mae'r diffiniad hwn yn ei gwneud yn bosibl i faterion cymdeithasol ac amgylcheddol perthnasol gael eu hystyried mewn penderfyniadau caffael (gweler blwch A4.5B).

A4.5.9 Er mwyn i weithgarwch caffael sicrhau'r budd mwyaf posibl mae'n rhaid i sefydliadau nodi'r weledigaeth o lwyddiant a llunio cynllun sy'n nodi sut y caiff ei chyflawni – sef strategath gaffael. Mae CPS wedi llunio templed ar gyfer llunio strategath gaffael sefydliadol sydd ar gael drwy'r Canllaw Cynllunio Caffael (www.prp.gov.wales). Ategir y templed gan becyn cymorth arfer gorau sy'n darparu amrywiaeth o adnoddau er mwyn helpu i gyflawni'r strategath. Wrth lunio strategath gaffael bydd angen i'r sefydliad ystyried y materion canlynol:

1. Datganiad Polisi Caffael Cymru
2. Polisi sefydliadol
3. Strwythur caffael
4. Proffil caffael
5. Prosesau busnes
6. Gwerth am arian ac effeithlonrwydd
7. Cydweithredu
8. Pobl, hyfforddiant a datblygiad
9. Amcanion ehangach – cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol
10. Rheoli perfformiad

Blwch A4.5B: Sicrhau gwerth am arian

Cost: y ffactor allweddol yw cost oes gyfan, nid y pris prynu isaf. Mae cost oes gyfan yn ystyried y gost dros amser, gan gynnwys costau cyfalaf, cynnal a chadw, rheoli, gweithredu a gwaredu. Ar gyfer prosesau caffael cymhleth, gall cost oes gyfan fod yn wahanol iawn i'r pris cychwynnol.

Ansawdd: gall fod cyfiawnhad dros dalu mwy am ansawdd uwch os yw'r gost oes gyfan yn well, er enghraifft, gan ystyried costau cynnal a chadw, oes ddefnyddiol a gwerth gweddilliol. Dylai'r prynwr benderfynu a fydd mwy o fanteision yn cyfiawnhau costau uwch.

Persbectif: dylai strategath pob sefydliad yn y sector cyhoeddus geisio cyflawni'r canlyniad sy'n sicrhau'r gwerth gorau am arian i'r sector cyhoeddus yn gyffredinol, nid dim ond i'r sefydliad ei hun. Dylai hyn gael ei ymgorffori yn y strategath cyn i'r gwahoddiad i dendro gael ei gyhoeddi.

Caffael cydweithredol: yn y mwyafrif helaeth o achosion, bydd safoni a chyfuno gofynion caffael yn sicrhau gwell gwerth am arian. Felly, dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys rhai llai o faint, gydweithredu hyd y gellir o ran caffael yn unol ag arfer gorau a Datganiad Polisi Caffael Cymru.

A4.5.10 Mae gwaith caffael ar y cyd yn adnodd pwysig a all helpu i wella gwasanaethau cyhoeddus drwy sicrhau gwell gwerth am arian a bod adnoddau yn cael eu defnyddio'n fwy effeithlon. Fodd bynnag, cydnabyddir hefyd bod pob sefydliad unigol yn gyfrifol ac yn atebol am ei benderfyniadau ei hun ac mai prif ddyletswydd pob sefydliad yw cyflawni ei gylch gwaith ei hun yn effeithiol a gweithio tuag at gyflawni ei bolisiâu a'i amcanion ei hun er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau i'w sefydliad.

Fframwaith Cyfreithiol

A4.5.11 Mae sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gyfraith ar gaffael (gweler blwch A4.5C). Mae egwyddorion Cytundeb yr UE yn gymwys i bob ymarfer caffael ac mae gan yr UE reolau penodol sy'n gymwys i'r rhan fwyaf o gontractau lle mae'r gwerth amcangyfrifedig yn fwy na throthwy penodol. Daeth Cyfarwyddebau Caffael diweddaraf yr Undeb Ewropeaidd i rym ar lefel yr UE ym mis Ebrill 2014, gyda rheolau, trothwyau a chanllawiau newydd ar gyfer caffael. Rhoddwyd dwy flynedd i'r Aelod-wladwriaethau eu gosod mewn Deddfwriaeth Genedlaethol. Yna pasiodd Llywodraeth y DU Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, a ddaeth i rym ar 26 Chwefror 2015.

A4.5.12 Mae'r prif newidiadau i reoliadau'r UE i'w gweld yma: ec.europa.eu/internal_market/publicprocurement/docs/modernising_rules/reform/fact-sheets/fact-sheet-01-overview_en.pdf

Blwch A4.5C: Y fframwaith cyfreithiol ar gyfer caffael cyhoeddus

- Rheolau'r UE ar gaffael a rhwymedïau (y Cytundeb a chyfarwyddebau caffael).
- Rhwymedigaethau rhyngwladol, yn arbennig cytundebau Sefydliad Masnach y Byd.
- Deddfwriaeth ddomestig, gan gynnwys cyfarwyddebau sy'n gweithredu is-ddeddfwriaeth.
- Cyfraith contract a chyfraith fasnachol yn gyffredinol.
- Cyfraith achosion berthnasol Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd.
- Cyfraith achosion ddomestig.

Y Broses Gaffael a Chyflenwyr

A4.5.13 Mae cystadleuaeth yn hyrwyddo darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran gwariant cyhoeddus. Dylid caffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith drwy gystadleuaeth agored, tryloyw a theg. Dylai'r math o gystadleuaeth a ddewisir fod yn briodol i werth a chymhlethdod y nwyddau, y gwasanaethau neu'r gwaith sydd i'w caffael a dylai gydymffurfio â rheoliadau caffael yr UE a Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 a pholisiâu perthnasol eraill y DU ar gaffael – (mae dolenni wedi'u hatodi yn 'Canllawiau Pellach' isod).

A4.5.14 Mae CPS wedi datblygu'r Canllaw Cynllunio Caffael i ddarparu adnodd ar y we sydd ar gael i helpu'r sector cyhoeddus yng Nghymru i ymgymryd â gweithgarwch caffael. Mae'r Canllaw Cynllunio Caffael yn darparu dull gweithredu cam wrth gam strwythuredig ac yn annog pob rhan o'r sector cyhoeddus i fabwysiadu dull caffael cyson sy'n seiliedig ar arfer gorau – www.prp.gov.wales

A4.5.15 Dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus geisio trin cyflenwyr yn rhesymol (gweler blwch A4.5D) er mwyn cynnal eu henwau da fel prynwyr.

Blwch A4.5D: Cydberthnasau â chyflenwyr

- Ymrwymwch i egwyddorion Datganiad Polisi Caffael Cymru a'u rhoi ar waith.
- Defnyddiwch egwyddorion arfer gorau ym mhob proses gaffael, er enghraifft wrth ddefnyddio Hysbysiadau Gwybodaeth Ymlaen Llaw (PINs) a nodiadau briffio cyflenwyr.
- Safonau proffesiynol uchel wrth ddyfarnu contractau.
- Pwyntiau cyswllt clir ar gyfer caffael.
- Sicrhewch fod gwybodaeth mewn hysbysiadau contractau, dogfennau tendro ac unrhyw wybodaeth gysylltiedig arall yn glir ac yn gywir.
- Gwnewch yn siŵr y cwtogir i'r eithaf ar rwystrau i gyfranogi, yn arbennig ar gyfer busnesau llai o faint, a bod gofynion yn briodol i werth a natur y contract.
- Chwiliwch am gyfleoedd i rannu gofynion mawr yn lotiau er mwyn annog amrywiaeth ehangach o fusnesau i wneud cais.
- Dylid cyhoeddi canlyniadau ceisiadau yn brydlon (yn unol â safonau'r UE).
- Dylid rhoi adborth i'r enillwyr a'r collwyr, os byddant yn gofyn amdano, ar ganlyniad y broses gwneud cais.
- Safonau proffesiynol uchel wrth reoli contractau.
- Ymatebion prydlon, cwrtais ac effeithlon i awgrymiadau, ymholiadau a chwynion.

A4.5.16 Ceir canllawiau llawn ar arfer da wrth gaffael yn y Canllaw Cynllunio Caffael – www.prp.gov.wales.

A4.5.17 Yn ystod y broses werthuso, mae'n bwysig bod sefydliadau sy'n caffael yn gwneud y canlynol:

- Cadarnhau priodoldeb darpar gyflenwyr – gan ystyried y gofyniad i hepgor y rhai a gafwyd yn euog, er enghraifft, o dwyll, lladrata, masnachu twyllodrus neu dwyllo Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.
- Asesu sefyllfa economaidd ac ariannol cyflenwyr er mwyn meithrin hyder y gallant gyflawni'r hyn sydd ei angen ar y prynwr o fewn yr amserlen a bennwyd ymlaen llaw a sicrhau gwerth am arian.
- Sicrhau gwerth am arian (gweler blwch A4.5B), gan ddefnyddio meini prawf perthnasol a chyson ar gyfer gwerthuso'r ffactorau allweddol (cost, maint, cynaliadwyedd, cynllun ac ati).

Caffael Cydweithredol

A4.5.18 Mae cydweithredu yn hanfodol i sicrhau prosesau caffael llwyddiannus ledled Cymru. Wrth geisio sicrhau gwerth am arian dylai sefydliadau adolygu'r opsiynau i gydweithio sydd ar gael cyn cychwyn ymarfer caffael annibynnol. Mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn arwain ar gyfleoedd i gydweithio, yn arbennig ar gyfer nwyddau a gwasanaethau cyffredin a rhai a brynir yn ailadroddus. Cynigir cyfleoedd eraill i gydweithio drwy gyrff prynu sector megis Consortiwm Prynu Cymru, Cyflenwyr Iechyd Cymru, Consortiwm Pwrcasu Addysg Uwch, Cymru (HEPCW) neu Gonsortiwm Pwrcasu Addysg Bellach Cymru (WFEPIC).

A4.5.19 Os bydd prynwyr yn cyflogi asiantau sector preifat i ymgymryd ag ymarferion caffael ar eu rhan dylent wneud y canlynol:

- Mynnu cydymffurfiaeth â rheolau'r UE.
- Mynnu cydymffurfiaeth ag arfer da sefydledig gan gynnwys Datganiad Polisi Caffael Cymru a gweithio gyda'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i nodi cyfleoedd i gydweithio.
- Sicrhau y caiff cyfrifoldebau eu pennu'n glir.
- Lle y bo'n briodol, cael indemnedd yr asiant rhag unrhyw gostau yr eir iddynt o ganlyniad i'w fethiant i gydymffurfio â'r fframwaith cyfreithiol ar eu rhan.

Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol

A4.5.20 Lanswyd Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (GCC) Cymru gan y Gweinidog Cyllid a'r Gweinidog Llywodraeth Leol ym mis Tachwedd 2013. Sefydlwyd y GCC er mwyn galluogi i'r sector cyhoeddus yng Nghymru gydweithio'n fwy effeithiol wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau, yn arbennig ym maes gwariant cyffredin ac ailadroddus. Mae gan y GCC dimau o arbenigwyr sy'n gofalu am y categorïau canlynol:

- Fflyd
- TGCh
- Gwasanaethau a Chyfleustodau Corfforaethol
- Adeiladu a Rheoli Cyfleusterau
- Gwasanaethau Proffesiynol
- Gwasanaethau Pobl a Chyfathrebu.

A4.5.21 Mae'r GCC yn dwyn ynghyd bŵer prynu o £1.8 biliwn yn y sector cyhoeddus, sy'n cyfateb i 42% o wariant trydydd parti blynyddol Llywodraeth Cymru. Mae'r GCC yn targedu arbedion blynyddol gwerth £25 miliwn ar ôl iddo sefydlu'n gadarn drwy drefniadau cydweithredu ac arfer caffael gorau.

A4.5.22 Mae'r GCC yn ymrwymedig i sicrhau bod gweithgarwch caffael yng Nghymru yn gwbl dryloyw a chynhwysol, yn arbennig ar gyfer busnesau lleol, llai o faint, a sicrhau buddiannau cymunedol i Gymru (www.gcc.llyw.cymru).

A4.5.23 Mae'r GCC yn gweithio'n agos gyda'r CPS. CPS yw'r cyswllt cyntaf ar gyfer caffael ar ran Llywodraeth Cymru. Os am drafod caffael ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru, dylid cysylltu â CPS yn uniongyrchol.

Trethi

A4.5.24 Dylai sefydliadau wneud y canlynol:

- Seilio penderfyniadau caffael yn annibynnol ar unrhyw fanteision o ran treth a all ddeillio o gais penodol.
- Osgoi contractwyr sy'n defnyddio awdurdodaethau alltraeth, yn gyson â rhwymedigaethau i'r UE a rhwymedigaethau rhyngwladol eraill ac amcanion datganedig y Llywodraeth i sicrhau tryloywder a bod yn agored o ran materion treth.

- Gwarchod rhag hwyluso trefniadau treth â chyflenwyr neu eu hasiantau sy'n amharu ar y Trysorlys neu sy'n ei roi o dan anfantais. Mae angen i sefydliadau yn y sector cyhoeddus fod yn arbennig o ofalus mewn perthynas â threfniadau treth penodeion cyhoeddus.
- Defnyddio prosesau rheoli mewnol er mwyn sicrhau bod trafodion sy'n codi cwestiynau am briodoldeb trefniadau treth yn cael eu dwyn i sylw'r Swyddog Cyfrifyddu neu, os oes angen, i sylw Gweinidogion.

A4.5.25 Yn aml gall prosiectau caffael cyhoeddus sy'n cynnwys trosglwyddo eiddo tiriog neu asedau sy'n debygol o gynyddu mewn gwerth godi materion penodol sy'n ymwneud â threth, yn arbennig yr angen i dalu treth enillion cyfalaf. Os bydd sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn negodi â chyrff sydd am strwythuro ceisiadau caffael fel hyn, dylent ymgynghori â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn gynnar er mwyn nodi'r golygiadau tebygol o ran treth ac asesu'r cynnig er mwyn cadarnhau ei fod yn briodol yn gyffredinol.

Canllawiau pellach

A4.5.26 Mae ffynonellau canolog canllawiau ar gaffael a materion cysylltiedig yn cynnwys y canlynol:

- Gwerth Cymru www.prp.gov.wales a (vwpolicy@wales.gsi.gov.uk).
- Rheoliadau Contractau Cyhoeddus y DU 2015 (www.legislation.gov.uk/ukxi/2015/102/pdfs/ukxi_20150102_en.pdf).
- Nodiadau polisi caffael Llywodraeth y DU (www.gov.uk/government/collections/procurement-policy-notes).
- Gwasanaeth Masnachol y Goron (www.ccs.cabinetoffice.gov.uk/).
- Llyfr Gwyrdd y Trysorlys ar arfarnu a gwerthuso prosiectau o fewn llywodraeth ganolog (www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/179349/green_book_complete.pdf).
- Uned Cymorth Gwladwriaethol Llywodraeth Cymru (www.gov.wales/funding/state-aid/?skip=1&lang=cy).
- Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau ar reolau cymorth gwladwriaethol (www.gov.uk/state-aid); gweler Atodiad 4.6.
- Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar gartelau a rigio ceisiadau (www.gov.uk/topic/competition/competition-act-cartels).
- Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar faterion sy'n ymwneud ag osgoi treth (www.hmrc.gov.uk/).

A4.5.27 Cyhoeddir canllawiau ar reolau'r UE (sydd ar gael ar Ganllaw Cynllunio Caffael CPS) gan y Comisiwn Ewropeaidd hefyd, ond ni ddylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus geisio cyngor gan y Comisiwn heb ymgynghori â'u hunedau caffael eu hunain ac unedau caffael y corff sy'n eu noddi yn gyntaf, a all, yn eu tro, ymgynghori â CPS.

Atodiad 4.6

Cymorth Gwladwriaethol

Mae angen i unrhyw gymorth cyhoeddus a roddir i sefydliadau (cyhoeddus, preifat neu rai nid er elw) sy'n cyflawni gweithgareddau economaidd masnachol gydymffurfio â rheolau cymorth gwladwriaethol Ewrop. Gallai unrhyw gymorth ariannol a delir yn groes i'r rheolau arwain at y cymorth yn cael ei adennill gan y derbynydd. Felly, dylid ymgorffori ystyriaeth o effaith rheolau cymorth gwladwriaethol yn gynnar yn y broses o ddatblygu polisiau a rhaglenni, er mwyn sicrhau bod unrhyw gymorth gwladwriaethol sydd i'w ddyfarnu wedi cael y gymeradwyaeth angenrheidiol gan y Comisiwn Ewropeaidd.

A4.6.1 Mae Erthygl 107(1) o'r Cytundeb ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd yn gwahardd llywodraethau, mewn egwyddor, rhag rhoi unrhyw fath o gymorth ffafriol – cymorth gwladwriaethol – i fentrau masnachol. Y diben yw atal cystadleuaeth rhag cael ei hystumio o fewn yr Undeb Ewropeaidd.

A4.6.2 Mae'r diffiniad o gymorth gwladwriaethol yn deillio o Erthygl 107 o'r Cytundeb ac mae wrth wraidd y pum prawf a nodir ym mlwch A4.6A. Efallai y bydd angen cymhwyso'r profion hyn at amrywiaeth eang o bolisiau a buddsoddiadau am y gall mentrau masnachol gynnwys sefydliadau cyhoeddus, elusennau, prifysgolion a sefydliadau nid er elw os ydynt yn cyflawni gweithgareddau economaidd neu'n cystadlu â mentrau masnachol.

Blwch A4.6A: Nodweddion cymorth gwladwriaethol

1. Rhoddir cymorth gan aelod-wladwriaeth neu drwy adnoddau gwladwriaethol (gan gynnwys ee dosbarthiadau loteriau a chronfeydd Ewropeaidd).
2. Mae cymorth yn rhoi mantais i'r derbynydd.
3. Mae'n ffafrio mentrau masnachol penodol neu gynhyrchu nwyddau penodol (h.y. mae'n rhaid iddo fod yn ddetholus o ran ei natur).
4. Mae'n ystumio cystadleuaeth neu gallai wneud hynny.
5. Mae'r gweithgaredd yn fasnachadwy rhwng aelod-wladwriaethau a gallai'r cymorth effeithio ar fasnach.

Mae'n rhaid bodloni pob un o'r pum prawf er mwyn i gymorth gwladwriaethol fod yn bresennol.

A4.6.3 Mae'r Comisiwn Ewropeaidd a Llys Cyfiawnder Ewrop yn dehongli cymhwysedd y profion ar gyfer cymorth gwladwriaethol yn eang. Mae meini prawf y potensial i ystumio cystadleuaeth ac effeithio ar fasnach yn arbennig yn eang iawn – gallai hyd yn oed symiau bach o gymorth ariannol ystumio cystadleuaeth ac mae'n ddigon bod masnach mewn cynnyrch neu wasanaeth rhwng aelod-wladwriaethau er mwyn iddo gael effaith ar fasnach hyd yn oed os nad yw'r fenter sy'n cael cymorth ei hun yn masnachu ag aelod-wladwriaethau eraill. Fodd bynnag, gellid dadlau, o dan amgylchiadau penodol, nad yw'r prawf olaf ar weithgaredd masnachadwy yn cael ei fodloni ar gyfer cymorth lleol ar raddfa fach iawn.

A4.6.4 Nid yw mesur sy'n bodloni pob un o'r profion ym mlwch A4.6A yn anghydnaws, yn awtomatig, â'r Cytundeb. Mae Erthygl 107 o'r Cytundeb yn nodi'r amgylchiadau lle y gellir ystyried bod modd caniatáu cymorth gwladwriaethol. Mae'r rhan fwyaf o'r amgylchiadau hyn yn cael eu nodi mewn cyfres o ganllawiau, rheoliadau a fframweithiau a elwir, gyda'i gilydd, yn rheolau cymorth gwladwriaethol. Mae rheolau cymorth gwladwriaethol yn galluogi aelod-wladwriaethau i dargedu methiannau yn y farchnad er mwyn cyflawni canlyniadau polisi dymunol.

A4.6.5 Lle mae'r cymorth wedi'i ddsbarthu fel cymorth gwladwriaethol, bydd angen i'r awdurdod cyhoeddus sy'n gyfrifol sicrhau ei fod yn cael y gymeradwyaeth angenrheidiol gan y Comisiwn Ewropeaidd cyn rhoi'r cymorth. Bydd gan fesurau cymorth y gymeradwyaeth angenrheidiol os ydynt yn cydymffurfio ag amodau'r canlynol:

- **Cymeradwyaeth gan y Comisiwn Ewropeaidd** – Dylai'r sefydliad cyhoeddus sy'n gyfrifol am y cymorth hysbysu'r Comisiwn Ewropeaidd er mwyn cael ei gymeradwyaeth. Gall y broses hon gymryd rhwng chwech a naw mis, weithiau'n hwy.
- **Rheoliad eithriad bloc** – Mae'r Rheoliad Eithriad Bloc Cyffredinol yn eithrio nifer o gategoriâu o gymorth rhag yr angen i hysbysu'r Comisiwn ymlaen llaw. Mae'r Rheoliad Eithriad Bloc Cyffredinol yn cwmpasu cymorth ar gyfer datblygu rhanbarthol, Busnesau Bach a Chanolig, cyfalaf risg, ymchwil, datblygu ac arloesi, diogelu'r amgylchedd, gweithwyr o dan anfantais a hyfforddiant. O 1 Gorffennaf 2014 ehangwyd y rhestr hon i gynnwys cymorth i wneud iawn am y difrod a achoswyd gan drychinebau naturiol penodol, seilweithiau band eang, diwylliant a threftadaeth a chwaraeon a seilweithiau hamdden amlswyddogaethol. Cyhyd â bod y cymorth yn bodloni'r amodau llym a nodir yn y Rheoliad, mae ond yn ofynnol i aelod-wladwriaethau hysbysu'r Comisiwn a chadarnhau cydymffurfiaeth â'r rheoliad o fewn 20 diwrnod i roi'r cymorth, yn hytrach na mynd drwy'r broses hysbysu. Ceir hefyd eithriad bloc ar gyfer iawndal a ddyfernir ar gyfer Gwasanaethau penodol sydd o Fudd Economaidd Cyffredinol.
- **De minimis** – Mae'r rheoliad de minimis yn galluogi aelod-wladwriaethau i roi symiau bach o gymorth ariannol (€200,000 dros gyfnod o dair blynedd ariannol) i unrhyw fenter o unrhyw faint (gyda chyfyngiadau penodol) ar yr amod y cwblheir nifer o weithdrefnau gweinyddol.

A4.6.6 Wrth lunio polisiau, mae'n ddoeth ymgorffori ystyriaeth gynnar o sefyllfa cynlluniau a mesurau o ran cymorth gwladwriaethol er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gymeradwyaeth angenrheidiol gan y Comisiwn Ewropeaidd, naill ai o dan eithriadau neu drwy hysbysu'r Comisiwn.

A4.6.7 Ceir rhagor o wybodaeth am gymorth gwladwriaethol o'r ffynonellau a nodir ym mlwch A4.6B. Gan ddibynnu ar y cyd-destun, gall fod yn ddefnyddiol ymgynghori ag Uned Cymorth Gwladwriaethol Llywodraeth Cymru hefyd.

Blwch A4.6B: Canllawiau pellach

Gwefan Uned Cymorth Gwladwriaethol BIS – www.gov.uk/state-aid

Gwe-dudalennau Uned Cymorth Gwladwriaethol Llywodraeth Cymru – www.gov.wales/funding/state-aid/?lang=cy

Gwefan Cymorth Gwladwriaethol y Comisiwn Ewropeaidd – www.ec.europa.eu/comm/competition/index_en.html

Ymholiadau ynglŷn â chymorth gwladwriaethol drwy e-bost i – stateaid@wales.gsi.gov.uk

Atodiad 4.7

Gwariant a Thaliadau

Fel rhan o'r broses o awdurdodi a rheoli ymrwymadau a'r modd y caiff arian cyhoeddus ei wario, dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus amseru eu gwariant a'u taliadau er mwyn sicrhau gwerth da am arian cyhoeddus.

A4.7.1 Dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus ddefnyddio arfer masnachol da wrth reoli'r llifau gwariant a'r ymrwymadau y maent yn ymdrin â hwy. Mae Blwch 4.3, Pennod 4, yn nodi rhai egwyddorion lefel uchel cadarn. Mae angen dehongli'r rhain yng nghyd-destun busnes y sefydliad, yn unol â deddfwriaeth gyfredol a chan ddefnyddio arfer masnachol modern. Felly, gall y technegau gwirioneddol a ddefnyddir amrywio o bryd i'w gilydd ac o le i le.

A4.7.2 Yn benodol, dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus wneud y canlynol;

- Esbonio gweithdrefnau talu i gyflenwyr.
- Cytuno ar delerau talu ar y dechrau a chadw atynt.
- Talu biliau yn unol â'r telerau y cytunwyd arnynt, neu fel sy'n ofynnol gan y gyfraith.
- Dweud wrth gyflenwyr yn ddi-oed pan gaiff yr anfoneb ei herio.
- Talu'n gyflym pan fydd anfoneb a heriwyd yn cael ymateb boddhaol.

A4.7.3 Mae sefydliadau yn y sector cyhoeddus hefyd yn rhwym wrth ddeddfwriaeth¹⁷ sydd â'r nod o sicrhau, mewn trafodion masnachol, nad yw'r cyfnod talu yn fwy na 30 diwrnod calendr ar ôl i'r dyledwr gael anfoneb. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cydnabod y dylai'r sector cyhoeddus osod esiamp l gref drwy dalu'n brydlon. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i dalu ei holl gyflenwyr cyn gynted â phosibl yn unol â'r Cod Talu'n Brydlon. Yn ymarferol, mae'n ceisio talu ei hanfonebau nad oes anghydfod yn eu cylch o fewn 10 diwrnod¹⁸ i'w derbyn. Mae hefyd yn ymwybodol o bolisi presennol Llywodraeth Ganolog, sef y dylid talu 80% o'r holl anfonebau nad oes anghydfod yn eu cylch o fewn pum diwrnod i'w derbyn. Mae Llywodraeth Cymru yn annog pob corff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru i wneud yr un peth. Mae'n rhaid cymhwyso'r egwyddorion ym mlwch 4.4, Pennod 4, at bob taliad o hyd.

Taliadau y Tu Allan i'r Patrwm Arferol

A4.7.4 Dylai taliadau a wneir ymlaen llaw fod yn rhai eithriadol, a dim ond os gellir rhoi dadl drostynt ar y sail eu bod yn cynnig gwerth da am arian y dylid eu hystyried (h.y. gellir dangos bod "angen"). Hyd yn oed wedyn, gall taliadau ymlaen llaw arwain at gostau ariannu uwch ac ni ddylid byth eu defnyddio er mwyn osgoi rheolaethau gwariant na therfynau cyllidebol. Prin iawn yw'r cyfiawnhad dros daliadau ymlaen llaw ac maent yn debygol o fod yn destun archwiliad allanol a denu beirniadaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

¹⁷ Deddf Hwyr-dalu Dyledion Masnach (Llogau) 1998 (fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Hwyr-dalu Dyledion Masnach 2002 (OS 1674) a Rheoliadau Hwyr-dalu Dyledion Masnach 2013).

¹⁸ Yn yr achos hwn, mae 10 diwrnod yn golygu 10 diwrnod gwaith. Yn yr un modd, mae 5 diwrnod yn golygu 5 diwrnod gwaith.

A4.7.5 Yn benodol, nid yw'n werth da am arian i sefydliadau yn y sector cyhoeddus weithredu fel ffynhonnell cyllid i gontractwyr y mae mathau eraill o gyllid drwy fenthyciadau ar gael iddynt. Felly, dim ond os, er enghraifft, gall gostyngiad pris sy'n cyfateb i werth amser yr arian dan sylw gyfiawnhau gwneud taliadau ymlaen llaw i gontractwyr (h.y. taliadau a wneir cyn y derbynir y gwerth cyfatebol yn gyfnewid amdanynt) ar y sail ei bod yn cynnig gwerth da am arian y dylid ystyried gwneud hynny. Ymhlith yr eithriadau i'r canllawiau hyn mae'r canlynol:

- Contractau gwasanaethu a chynnal a chadw lle mae'n ofynnol talu pan fydd y contract yn dechrau, ar yr amod bod y gwasanaeth ar gael ac y gellir galw arno o'r dyddiad talu.
- Grantiau i gyrrff gwirfoddol neu gymunedol bach lle mae angen cyfalaf gweithio ar y derbynnydd er mwyn cyflawni'r ymrwymiad y talwyd y grant ar ei gyfer a byddai cyllid y sector preifat yn golygu llai o werth am arian.
- Mân wasanaethau megis cyrsiau hyfforddi, archebu lleoedd mewn cynadleddau neu danysgrifio i gylchgronau, lle mae disgresiwn lleol yn dderbyniol.
- Taliadau ymlaen llaw nad ydynt yn rhy fawr, lle mae asesiad gwerth am arian yn dangos bod talu'n gynnar yn sicrhau mantais glir.

A4.7.6 Mae taliadau interim yn cynnwys elfen o daliad ymlaen llaw ac felly dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus eu hystyried yn ofalus cyn cytuno arnynt. Fodd bynnag, os ydynt yn wirioneddol gysylltiedig â gwaith a gwblhawyd neu gynnydd ffisegol a gyflawnwyd yn foddhaol, fel y'i diffinnir o dan gontract os oes modd, gallant gynnig gwerth derbyniol am arian cyhoeddus. Fodd bynnag, gan ddilyn cyngor cyfreithiol, yn ôl yr angen, dylai sefydliadau ystyried:

- A ddylai'r ffaith bod angen llai o gyfalaf gweithio ar y contractwr gael ei hadlewyrchu mewn prisiau is.
- A ddylai'r contractwr ddarparu bond perfformiad ar ffurf gwarant banc er mwyn ymdrin ag achosion posibl o dorri'r contract.

A4.7.7 Fodd bynnag, ni ddylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus ddefnyddio taliadau interim er mwyn osgoi rheolaethau gwariant cyhoeddus. Er enghraifft, nid yw'n dderbyniol gwneud taliadau lle na chafwyd gwerth am arian, dim ond er mwyn osgoi tanwario.

A4.7.8 Nid yw taliadau gohiriedig yn arfer da yn gyffredinol. Fel arfer, maent yn golygu talu mwy er mwyn digolledu'r contractwr am gostau ariannu uwch ac, felly, maent yn cynnig gwerth gwael am arian. Felly, mae'n rhaid i unrhyw gynnig i ganiatáu taliad hwyr bwriadol gan un o Grwpiau Llywodraeth Cymru neu Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru geisio cymeradwyaeth gan Gyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru cyn bwrw ymlaen.

Atodiad 4.8

Twyll

Mae llywodraethu o fewn sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn cynnwys trefniadau i atal ac ymdrin â thwyll. Mae'r atodiad hwn yn rhoi mwy o fanylion.

A4.8.1 Mae Swyddogion Cyfrifyddu yn gyfrifol am reoli risgiau sefydliadau yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys twyll. Mae pob sefydliad yn wynebu amrywiaeth o risgiau o dwyll sy'n benodol i'w fusnes, o ffynonellau mewnol ac allanol. Mae'r risg o dwyll penodol fel arfer yn cael ei mesur yn ôl y tebygolrwydd y bydd yn digwydd a'i heffaith o ran materion ariannol ac enw da os bydd hynny'n digwydd.

A4.8.2 Yn fras, mae rheoli'r risg o dwyll yn cynnwys:

- Asesu pa mor agored i dwyll yw'r sefydliad.
- Nodi'r meysydd sydd fwyaf agored i'r risg o dwyll.
- Gwerthuso maint y risg o dwyll.
- Ymateb i'r risg o dwyll.
- Mesur effeithiolrwydd y strategaeth risg o dwyll.
- Rhoi gwybod am achosion o dwyll.

Y ffordd fwyaf effeithiol o reoli'r risg o dwyll yw ei atal rhag digwydd drwy ddatblygu diwylliant gwrth-dwyll effeithiol.

A4.8.3 Am ganllawiau ar yr holl feysydd hyn, gweler *Tackling Internal Fraud*¹⁹ a *Tackling External Fraud*²⁰.

Asesu Pa Mor Agored i Dwyll yw Sefydliad

A4.8.4 Dylai pob sefydliad nodi, rhestru ac asesu sut y gallai fod yn agored i dwyll, gan ystyried y prif risgiau yn fanwl. Dylid bob amser ystyried bod twyll yn risg posibl ar gyfer cofrestr risg y sefydliad.

Gwerthuso Graddau'r Risg o Dwyll

A4.8.5 Dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus werthuso effaith bosibl a thebygolrwydd risgiau o dwyll penodol a nodwyd ganddynt. Dylid adolygu'r rhain yn rheolaidd. Yn seiliedig ar hyn, dylai pob sefydliad bennu blaenoriaethau o ran rheoli ei risgiau o dwyll a thargedu ei ymyriadau yn unol â hynny. Bydd hyn yn llywio penderfyniadau ynghylch y camau i'w cymryd i reoli'r risg o dwyll yn effeithiol.

¹⁹ www.webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130129110402/http://www.hm-treasury.gov.uk/d/managing_the_risk_fraud_guide_for_managers.pdf.pdf

²⁰ www.nao.org.uk/report/good-practice-in-tackling-external-fraud-2/

Ymateb i'r Risg o Dwyll

A4.8.6 Dylai ymateb y sefydliad i'r risg o dwyll adlewyrchu'r risgiau mae'n eu hwynebu. Yn nodweddiadol bydd yn cynnwys rhai neu bob un o'r canlynol:

- Datblygu Datganiad Polisi Twyll, Strategaeth Risg o Dwyll a Chynllun Ymateb i Dwyll (dogfennau allweddol y dylai pob sefydliad feddu arnynt).
- Datblygu a hyrwyddo diwylliant gwrth-dwyll, efallai drwy ddatganiad clir o ymrwymiad i ymddygiad moesegol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o dwyll. Gall hefyd fod yn bwysig sgrinio wrth recriwtio, hyfforddi a chynnal morâl da ymhlith y staff.
- Dyrannu cyfrifoldebau o ran rheoli'r risg o dwyll yn gyffredinol a rheoli risgiau penodol o dwyll fel bod y prosesau hyn yn cael eu hintegreiddio mewn prosesau rheoli yn gyffredinol.
- Sefydlu rheolaethau mewnol costeffeithiol er mwyn canfod ac atal twyll.
- Datblygu'r sgiliau a'r arbenigedd i reoli'r risg o dwyll yn effeithiol ac ymateb i dwyll yn effeithiol pan fydd yn codi.
- Sefydlu dulliau hysbys o roi gwybod am achosion o dwyll a amheuir i staff a'r cyhoedd.
- Ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i dwyll pan fydd yn codi.
- Sefydlu systemau i ymchwilio i honiadau o dwyll.
- Defnyddio'r gwasanaeth Archwilio Mewnol i roi cyngor ar y risg o dwyll a defnyddio ei brofiad i atgyfnerthu prosesau rheoli.
- Cymryd camau priodol (troseddol, disgyblu) yn erbyn twyllwyr a cheisio adennill colledion.
- Gwerthuso effeithiolrwydd mesurau gwrth-dwyll yn barhaus er mwyn lleihau twyll.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid i ymdrin â thwyll drwy rannu cudd-wybodaeth, cynnal ymchwiliadau ar y cyd ac ati.

A4.8.7 Mae'n arfer da mesur effeithiolrwydd camau a gymerwyd i leihau'r risg o dwyll. Gellir cael sicrwydd ynghylch y mesurau hyn gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol, adroddiadau stiwardiaeth, hunanasesiadau rheoli risg, gwaith monitro neu gan gyrrff adolygu eraill.

Rhoi Gwybod am Achosion o Dwyll

A4.8.8 Dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus gadw cofnodion o achosion mewnol o dwyll a ganfuwyd a'r camau a gymerwyd, gan gynnwys asesiad o werth unrhyw golledion. Efallai y bydd angen iddynt gyfrannu at adroddiadau a gwaith dadansoddi achlysurol sy'n ymwneud ag achosion o dwyll.

A4.8.9 Dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru hefyd roi manylion unrhyw achosion newydd neu anarferol o dwyll (neu ymdrechion i dwyllo) i Bennaeth Gwrth-dwyll Llywodraeth Cymru, fel y gellir rhannu'r wybodaeth hon yn ehangach. Dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru hefyd ystyried rhoi gwybod am achosion o dwyll ac achosion o dwyll a amheuir i Swyddfa Archwilio Cymru.

Atodiad 4.9

Colledion a Symiau a Ddilëwyd

Mae'r Atodiad hwn yn nodi'r prosesau a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru pan mae'n dioddef colledion neu'n dileu gwerth asedau. Fe'i hargymhellir fel arfer da i'w ddilyn gan bob sefydliad yn y sector cyhoeddus yng Nghymru

A4.9.1 Am nad yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno ar ddarpariaeth ymlaen llaw ar gyfer colledion posibl yn y dyfodol wrth gymeradwyo'r gyllideb flynyddol nac yn cymeradwyo'r fath ddarpariaeth, mae trafodion o'r fath yn ddarostyngedig i weithdrefnau rheoli arbennig a threfniadau nodiannu arbennig yn y cyfrifon. Dim ond ar ôl ystyried y ffeithiau'n ofalus (gan gynnwys a gymerwyd pob cam rhesymol i adennill gordaliadau – gweler Atodiad 4.10) y dylai Llywodraeth Cymru ystyried derbyn colledion a dyledion a ddilëwyd, a dylai fod yn fodlon nad oes unrhyw ddewis amgen dichonadwy. Wrth ymdrin ag achosion unigol, mae'n rhaid ystyried cadernid systemau rheoli mewnol, pa mor effeithlon y maent wedi'u gweithredu a pha gamau y gallai fod angen eu cymryd er mwyn unioni methiannau bob amser.

Lefelau o Ddirprwyaeth

A4.9.2 Mae gan y Dirprwy Ysgrifenyddion Parhaol a Chyfarwyddwyr Cyffredinol o fewn Llywodraeth Cymru awdurdod dirpwyedig llawn i ddileu colledion, heblaw am y colledion hynny y tybir eu bod yn rhai newydd a/neu gynhennus neu adleisiol (dylid cyfeirio achosion o'r fath at yr Uned Llywodraethu Corfforaethol er mwyn iddi eu hystyried/penderfynu arnynt). Y swyddogion a nodir uchod a'u Penaethiaid Cyllid sy'n gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer ymdrin ag achosion a'u cyfleu i staff, sy'n cynnwys y lefelau o ddirprwyaeth ariannol sydd i'w cymhwyso ym mhob Grŵp. Dylid nodi terfynau dirprwyo priodol ar gyfer cyrff cyhoeddus yn eu cytundebau ariannu.

A4.9.3 Mae blwch A4.9A yn rhoi enghreifftiau o'r gwahanol gategoriâu o golled.

Blwch A4.9A: Enghreifftiau o golledion

Colledion

- Arian parod a gollwyd: achosion o golli arian parod ffisegol a'r hyn sy'n cyfateb iddo (ee cardiau credyd, trosglwyddiadau electronig).
- Colledion sy'n gysylltiedig â gwaith cadw cyfrifon: taliadau nas gwarantwyd neu daliadau nas gwarantwyd yn llawn, gan gynnwys eitemau sydd ar goll, neu falansau dyledion anesboniadwy neu wallus.
- Amrywiadau mewn cyfraddau cyfnewid: colledion o ganlyniad i amrywiadau mewn cyfraddau cyfnewid neu ailwerthuso arian treigl tramor.
- Colledion o gyflog, lwfansau neu fuddiannau pensiwn i weision sifil a chyflogeion cyrff cyhoeddus: gan gynnwys gordaliadau o ganlyniad i gamgyfrifo, camddehongli neu wybodaeth sydd ar goll; eitemau nas awdurdodwyd; ac achosion eraill.

- Colledion sy'n deillio o ordaliadau: o fudd-daliadau nawdd cymdeithasol, grantiau, cymorthdaliadau ac ati.
- Colledion sy'n deillio o fethiant i godi taliadau digonol: ee am ddefnyddio eiddo cyhoeddus.

Colledion storfeydd atebol

- Colledion o ganlyniad i dwyll, lladrad, tanau bwriadol neu unrhyw weithred fwriadol arall.
- Colledion sy'n deillio o achosion eraill.

Taliadau ofer a cholledion adeiladol

Hawliadau a ildwyd neu y rhoddwyd y gorau iddynt

Ffactorau i'w Hystyried

A4.9.4 Pan fydd achos yn codi yr ymddengys ei fod yn debygol o arwain at ddileu dyledion, dylid cwblhau ymchwiliad llawn cyn gynted â phosibl gan ystyried y ffactorau canlynol:

- Natur yr achos, y swm dan sylw a'r amgylchiadau lle y digwyddodd.
- Y camau a gymerwyd i geisio adennill y swm dyledus.
- Y rhesymau dros y cynnig i ddileu'r ddyled, gan gynnwys unrhyw gyngor cyfreithiol.
- A oes twyll (a amheuir neu a brofwyd) yn gysylltiedig â'r achos.
- A oedd yr achos yn deillio o esgeuluso dyletswydd.
- A oes methiant i oruchwylio yn gysylltiedig â'r achos.
- A gymerwyd camau cyfreithiol a/neu ddisgyblu priodol yn erbyn y rhai sy'n gysylltiedig â'r achos gan gynnwys goruchwylwyr ac, os na chymerwyd unrhyw gamau, pam hynny.
- A fydd angen i'r rhai a chwaraeodd y brif ran yn yr achos dalu unrhyw ran o'r golled.
- A yw'r ymchwiliad wedi dangos unrhyw ddiffygion yn y systemau rheoli presennol.
- Os felly, pa gamau a gymerir.

A4.9.5 Os ymddengys fod i'r achos oblygiadau ehangach tebyg o fewn Llywodraeth Cymru neu mewn cyfarwyddiaethau eraill, dylid dwyn yr achos i sylw'r Uned Llywodraethu Corfforaethol ar unwaith.

Hysbysu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

A4.9.6 Dylid dwyn colledion i sylw Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn gynted â phosibl, fel arfer drwy eu nodi yng nghyfrifon blynyddol Gweinidogion Cymru, p'un a gânt eu lleihau gan symiau a adenillir ar ôl hynny ai peidio. Ar gyfer colledion difrifol, dylai adrannau hefyd ystyried yr achos dros gyflwyno datganiad ysgrifenedig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cofnodion o Golledion a Hawliadau

A4.9.7 Dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus gynnal cofnod o golledion. Dylai'r cofnod ddangos y canlynol:

- Natur, swm gros (neu amcangyfrif os nad oes gwerth cywir ar gael) ac achos pob colled.
- Y camau a gymerwyd, y cyfanswm a adenillwyd a dyddiad dileu dyledion lle y bo'n briodol.

A4.9.8 Mae angen cynnwys datganiad o golledion mewn cyfrifon blynyddol yn unol â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys Ei Mawrhydi. Dylid adrodd ar golledion ar sail croniadau.

A4.9.9 Pan fo ymdrechion yn dal i gael eu gwneud i adennill colledion arian parod a ddilëwyd yn ffurfiol, a godwyd ar y cyfrifon ac a nodwyd, dylai Llywodraeth Cymru a'i chyrff cyhoeddus ystyried eu cynnwys mewn cofnod o hawliadau er mwyn sicrhau na chaiff y posibilrwydd o'u hadennill ei ddiystyru.

Cyfrif am Golledion Arian Parod

A4.9.10 Gellir cyfrif am golledion arian parod i ddechrau fel dyledwyr mewn cyfrifon blynyddol tra'n aros i'r symiau dyledus gael eu hadennill neu eu dileu.

A4.9.11 Ar ôl nodi colled arian parod dylid ei chodi ar isbenawdau'r cwmpasau priodol ac, ar gyfer cyfrifon, cydnabod y gost yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys Ei Mawrhydi.

A4.9.12 Pan gaiff colled arian parod ei lleihau yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy leihau'r symiau o gyflog neu bensiwn²¹ a fyddai fel arall yn ddyledus, neu o dan bwerau statudol neu bwerau penodol eraill, dim ond y swm sy'n dal i fod yn ddyledus ar ôl hynny a gaiff ei drin fel colled i'w dileu. Codir y swm(symiau) ar y cwmpas perthnasol fel pe bai'r arian wedi'i dalu i'r unigolyn dan sylw a'i defnyddiodd wedyn i dalu'r hawliad.

A4.9.13 Yn yr un modd, pan gaiff y golled ei chlirio'n gyfan gwbl neu yn rhannol gan daliadau gwirfoddol gan yr unigolyn sy'n gyfrifol neu gan daliad gan gwmni yswiriant neu ffynhonnell arall nad yw'n un gyhoeddus, dim ond y golled net a gaiff ei dileu. Fodd bynnag, os nad oes unrhyw bwerau i ddefnyddio'r symiau a gadwyd yn ôl drwy beidio â thalu cyflog ac ati, caiff swm gros y golled ei ddileu.

A4.9.14 Yn gyffredinol, nid oes angen unrhyw nodyn os yw'r golled net yn cyfateb i ddim erbyn i'r cyfrifon blynyddol gael eu cwblhau. Fodd bynnag, gall fod eithriadau (ee colledion sy'n deillio o achosion lle mae rhywun ar fai) lle mae amgylchiadau'r golled yn golygu ei bod yn briodol eu dwyn i sylw Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy eu cynnwys yn y Datganiad o Golledion.

²¹ Mae'n rhaid didynnu treth o gyflog neu bensiwn sy'n agored i Talu Wrth Ennill a gadwyd yn ôl er mwyn setlo colled, er mwyn cyrraedd y swm a briodolir i ad-dalu dyledion.

Colledion Storfeydd

A4.9.15 Arian a wariwyd heb awdurdod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw colledion storfeydd, i bob pwrpas. Wrth nodi'r swm a gollwyd ac, felly, a ddylid gwneud nodyn yn y cyfrifon blynyddol, gwerth net y golled ar ôl credydu unrhyw symiau a adenillwyd fydd y ffactor pwysicaf.

A4.9.16 Dylid nodi colledion storfeydd sy'n deillio o achosion lle mae rhywun ar fai yng nghofnodion y sefydliad, yn y ffordd arferol. Dylid nodi colledion o'r fath yn y cyfrif adnoddau hefyd, er mwyn sicrhau y caiff colledion o'r fath eu dwyn i sylw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y modd priodol a helpu rheolwyr adrannau i reoli stofeydd a chyfrif amdanynt.

A4.9.17 Lle y ceir hawliad adnabyddadwy yn erbyn unigolyn, nid oes angen nodi'r golled ar unwaith. Fodd bynnag, os bydd y sefydliad yn penderfynu ildio'r hawliad ar ôl hynny, neu os bydd yn canfod na ellir ei gyflwyno na'i orfodi, dylid trin y golled fel hawliad y rhoddwyd y gorau iddo (gweler paragraff A4.9.24) a'i nodi yn unol â hynny.

A4.9.18 Dylai unrhyw golled y gellir ei hadennill gan drydydd parti, lle y penderfynir hepgor yr hawl i'w hadennill oherwydd cytundeb cnoc am gnoc, gael ei nodi fel colled storfeydd.

A4.9.19 Pan fwriedir dileu storfeydd, eu rhoi yn rhodd neu eu trosglwyddo i sefydliadau eraill, dylid eu prasio yn unol â *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys Ei Mawrhydi*, oni fydd yr amgylchiadau yn cyfiawnhau triniaeth eithriadol, neu oni fydd trefniadau eraill wedi'u cytuno.

Taliadau Ofer

A4.9.20 Mae taliad ofer yn daliad na ellir ei osgoi am fod gan y derbynnydd hawl i'w gael er na fydd yr adran yn cael unrhyw beth defnyddiol yn gyfnewid am y taliad hwnnw. Ceir rhai enghreifftiau ym mlwch A4.9B.

A4.9.21 Gan y bydd taliadau ofer yn gyfreithiol ddyledus i'r derbynnydd, nid ystyrir eu bod yn daliadau arbennig. Fodd bynnag, gan nad oes budd dyledus wedi'i dderbyn yn gyfnewid am y taliadau, dylid eu trin fel colledion a'u dwyn i sylw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn yr un ffordd â cholledion eraill.

Blwch A4.9B: Enghreifftiau o daliadau ofer

Mae **taliad ofer** yn daliad na ddylid bod wedi mynd yn atebol drosto, neu lle y gellid bod wedi canslo'r galw am y nwyddau a'r gwasanaethau dan sylw mewn pryd i osgoi atebolrwydd, er enghraifft:

- Fforffediadau o dan contractau o ganlyniad i ryw wall neu esgeuluster ar ran y sefydliad.
- Taliad am docynnau teithio neu lety mewn gwesty a archebwyd yn anghywir neu nad oes eu hangen mwyach, neu am nwyddau a archebwyd neu a dderbyniwyd yn anghywir.
- Cost unioni diffygion dylunio a achoswyd gan ddiffyg diwydrwydd neu arferion proffesiynol diffygiol.
- Costau ychwanegol sy'n deillio o fethiant i ddarparu ar gyfer newidiadau mewn amgylchiadau y gellir eu rhagweld.

Colledion Adeiladol

A4.9.22 Mae colled adeiladol yn daliad tebyg i golledion storfeydd a thaliadau ofer, ond yn un lle yr achosodd camau caffael eu hunain y golled. Er enghraifft, gellid archebu, danfon neu ddarparu nwyddau neu wasanaethau yn gywir ac yna dalu amdanynt fel pe baent yn gywir; ond yn ddiweddarach, efallai am fod y polisi wedi newid, mae'n bosibl na fyddai eu hangen neu y byddent yn llai defnyddiol na phan gawsant eu harchebu.

A4.9.23 Nid oes angen nodi'r colledion adeiladol yn y Datganiad o Golledion yn y cyfrifon blynyddol oni bai eu bod yn rhai sylweddol.

Hawliadau a Ildiwyd neu y Rhoddwyd y Gorau Iddynt

A4.9.24 Gall colledion godi os caiff hawliadau eu hildio neu os rhoddir y gorau iddynt oherwydd penderfynir peidio â'u cyflwyno na mynd ar eu hôl, er iddynt gael eu gwneud yn gywir. Ceir rhai enghreifftiau ym mlwch A4.9C.

Blwch A4.9C: Enghreifftiau o hawliadau a ildwyd neu y rhoddwyd y gorau iddynt

- Os penderfynir lleihau'r gyfradd llog ar fenthyciad ac, felly, ildio'r hawl i dderbyn swm y gostyngiad.
- Hawliadau a wnaed mewn gwirionedd ac a leihawyd wedyn yn ystod trafodaethau neu am resymau polisi.
- Hawliadau yr oedd sefydliad yn bwriadu eu gwneud, ond na ellid eu gorfodi neu na chawsant eu cyflwyno erioed.
- Methiant i wneud hawliadau neu fwrw ymlaen â hwy hyd y diwedd, ee oherwydd oedi a achoswyd gan drefniadau gweithdrefnol a ganiataodd i'r Deddfau Cyfyngiadau (gweler Atodiad 4.10.11) ddod yn gymwys.
- Hawliadau sy'n deillio o rwymedigaethau cytundebol gwirioneddol neu dybiedig neu rwymedigaethau cyfreithiol gwirioneddol neu dybiedig eraill nas cyflawnir (p'un a fwrwyd ymlaen â hwy ai peidio) ee o dan gymalau diffyg talu neu gymalau iawndal penodedig mewn contractau.
- Y symiau a gaiff eu didynnu o hawliadau gan gyfaddawdau mewn achosion sy'n ymwneud ag ansolfedd, neu setliadau y tu allan i'r llys, heblaw am ostyngiadau sy'n deillio o gywiro ffeithiau.
- Hawliadau y rhoddwyd y gorau iddynt ar ôl cael cyngor cyfreithiol neu am na ellid pennu'r symiau a oedd yn ddyledus.
- Dileu llog ar fenthyciadau.

A4.9.25 Ni ddylid trin y canlynol fel hawliadau a ildwyd neu y rhoddwyd y gorau iddynt:

- Unrhyw hawliadau a nodwyd neu a gyflwynwyd yn anghywir, p'un a wnaed hynny drwy gamgymeriad neu fel arall. Fodd bynnag, ni ddylid ystyried bod hawliad wedi'i dynnu'n ôl os oes amheuaeth ynghylch a fyddai'n llwyddo pe câi'r achos ei glywed mewn llys barn neu os nad aseswyd atebolrwydd y dyledwr yn gywir neu os na ellir ei asesu yn gywir.

- Hepgor neu ddileu treth. Mae gan Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi reolau arbennig ynghylch dileu treth. Dylai Grwpiau Llywodraeth Cymru ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Cyllid ynghylch sut i ymdrin ag achos os bydd yn codi, a bydd angen, o bosibl, ymgynghori â Thrysorlys Ei Mawrhydi.
- Cais i ad-dalu gordaliad sy'n methu neu a gaiff ei hepgor. Dylid ystyried ei bod yn golled arian parod.

A4.9.26 Dylid nodi hepgoriadau mewn cyfrifon blynyddol yn unol â *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol* Trysorlys Ei Mawrhydi. At hynny:

- Fel arfer dylid nodi ffigur gwreiddiol hawliad nas cyflwynwyd.
- Pan fo Llywodraeth Cymru ac un o adrannau eraill y llywodraeth yn gysylltiedig, dylai pob un wneud nodyn yn ei chyfrifon i raddau ei buddiant, heb geisio cywirdeb ffug.

Atodiad 4.10

Gordaliadau

Mae'r atodiad hwn yn trafod sut, ac i ba raddau, y dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus geisio adennill gordaliadau. Os oes ansicrwydd neu mewn achosion anodd, mae'n bwysig gweithredu yn ôl cyngor cyfreithiol.

A4.10.1 Mae hyd yn oed systemau talu da yn mynd o chwith weithiau. Bydd y rhan fwyaf o sefydliadau sy'n gyfrifol am wneud taliadau yn canfod weithiau eu bod wedi gwneud gordaliadau drwy gamgymeriad.

A4.10.2 Mewn egwyddor, dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus bob amser geisio adennill gordaliadau, waeth sut y cawsant eu gwneud. Fodd bynnag, yn ymarferol, bydd terfynau ymarferol a chyfreithiol i'r ffordd y dylid ymdrin ag achosion. Felly, dylid ymdrin â phob achos yn ôl ei deilyngdod. Nodir rhai senarios gordalu ym mlwch A4.10A. Os nad eir ati i adennill gordaliadau, dylid dilyn y canllawiau yn Atodiad 4.9.

Blwch A4.10A: Rhesymau posibl dros ordaliadau

Contractwyr a chyflenwyr

Dylid ceisio adennill gordaliadau mewn trafodion busnes bob amser, waeth beth fo'r rheswm drostynt. Mae'n dderbyniol adennill symiau a ordalwyd drwy leihau taliadau yn y dyfodol os yw'r dull gweithredu hwn yn cynnig gwerth am arian ac yn helpu i gynnal ewyllys da. Os bydd y contractwr yn gwrthod talu, dylai'r sefydliad a wnaeth y gordaliad ystyried cymryd camau cyfreithiol, gan ystyried cryfder yr achos a chynghor cyfreithiol.

Grantiau a chymorthdaliadau

Dylid trin gordaliadau i unigolion neu gyrff corfforaethol fel trafodion busnes a dylid ceisio ad-daliad llawn. Dylai'r sefydliad a wnaeth y gordaliad ofyn i'r derbynwyr gydnabod y swm sy'n ddyledus yn ysgrifenedig.

Cyflog, lwfansau, pensiynau

Dylid ceisio adennill gordaliadau i'r canlynol:

- gweision sifil
- cyflogeion Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru
- athrawon a chyflogeion y GIG sydd wedi ymddeol
- dibynyddion unrhyw un o'r rhain

gan roi sylw priodol i'r graddau y mae derbynwyr wedi gweithredu'n ddidwyll. Dylid trin achosion tebyg yn gyson. Ar ôl rhybuddio derbynwyr, mae'n aml yn gyfleus adennill symiau a ordalwyd drwy eu didynnu o gyflogau neu bensiynau yn y dyfodol. Mae'n aml yn ddoeth ceisio cyngor cyfreithiol er mwyn sicrhau bod sylw priodol wedi'i roi i unrhyw amddiffyniad dilys a all fod gan dderbynwyr rhag adennill symiau a ordalwyd.

A4.10.3 Wrth benderfynu ar gamau gweithredu priodol, gan dderbyn cyngor cyfreithiol, dylai sefydliadau ystyried:

- Y math o ordaliad.
- A dderbyniodd y derbynnydd yr arian yn ddidwyll neu'n annidwyll.
- Costeffeithiolrwydd camau i adennill yr arian a ordalwyd (naill ai'n fewnol neu gan ddefnyddio cwmnïau allanol). Efallai na fydd cyngor bod gweithredu mewn ffordd benodol fel petai'n cynnig gwerth da am arian yn derfynol am ei bod yn bosibl nad yw'n ystyried budd y cyhoedd yn fwy cyffredinol.
- Unrhyw fanylion personol perthnasol am y talai, gan gynnwys amddiffyniadau rhag adennill yr arian a ordalwyd.
- Faint o amser sydd wedi mynd heibio ers i'r taliad dan sylw gael ei wneud.
- Yr angen i ymdrin yn deg â gordaliadau i grŵp o bobl mewn amgylchiadau tebyg.

A4.10.4 Mae'n arfer da ystyried fel mater o drefn a yw achosion penodol yn datgelu pryderon ynghylch cadernid y systemau rheoli a'r modd y'u gweithredir. Mae'n bwysig cywiro methiannau.

Taliadau a Wneir Gyda Chaniatâd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

A4.10.5 Weithiau gwneir gordaliadau gan ddefnyddio pwerau cyfreithiol ond gan wneud camgymeriadau yn y ffeithiau neu o ran y gyfraith. Mae modd adennill y rhain yn gyfreithiol, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Deddfau Cyfyngiadau ac amddiffyniadau eraill rhag adennill arian a ordalwyd (gweler isod). Dylid rhagdybio bob amser y dylid ceisio adennill gordaliadau, waeth sut y cawsant eu gwneud.

Didwylledd

A4.10.6 Bydd p'un a yw'r derbynnydd wedi gweithredu'n ddidwyll neu'n annidwyll yn dylanwadu ar y penderfyniadau ynghylch i ba raddau y dylid ceisio adennill gordaliad:

- Lle mae derbynwyr gordaliadau wedi gweithredu'n ddidwyll, ee gan gredu'n ddiffuant bod y taliad yn gywir, efallai y byddant yn gallu defnyddio hyn fel amddiffyniad (er nad yw didwylledd ar ei ben ei hun yn amddiffyniad digonol).
- Lle mae derbynwyr gordaliadau wedi gweithredu'n annidwyll, dylid ceisio adennill y swm llawn a ordalwyd bob amser.

A4.10.7 Gellir casglu bod derbynwyr wedi gweithredu'n annidwyll os ydynt wedi celu ffeithiau perthnasol neu wedi methu â rhoi gwybodaeth amserol, cywir a chyflawn sy'n effeithio ar y swm sy'n daladwy, a hynny'n fwriadol. Efallai y bydd achosion eraill, ee y rhai sy'n cynnwys diofalwch derbynwyr yn gofyn am lunio barn. A gall rhai achosion gynnwys gwall mor amlwg, ee lle mae'r swm a nodwyd yn wahanol iawn i'r swm a dalwyd, fel na allai'r derbynnydd honni'n rhesymol ei fod wedi gweithredu'n ddidwyll.

A4.10.8 Wrth lunio barn ynghylch a dderbyniwyd taliadau yn ddidwyll, dylid bob amser ddarparu'n briodol ar gyfer y canlynol:

- Cymhlethdod rhai hawliau, ee i gyflog neu fudd-daliadau.
- I ba raddau roedd y taliad yn dibynnu ar newidiadau yn amgylchiadau'r derbynnydd yr oedd yn rhaid iddo hysbysu'r talwr amdanynt.

- Y graddau roedd gwybodaeth gyffredinol ar gael i helpu derbynwyr i ddeall faint o arian a oedd yn debygol o fod yn ddyledus.

Twyll

A4.10.9 Os yw sefydliad yn y sector cyhoeddus yn fodlon bod amgylchiadau gordaliad yn cynnwys annidwylledd ar ran y derbynydd, dylai ystyried yn awtomatig y posibilrwydd o dwyll yn ogystal â champau i adennill y swm a ordalwyd. Er enghraifft, mae'n bosibl bod y derbynydd wedi rhoi gwybodaeth anwir yn anonest neu fethu â datgelu gwybodaeth yn fwriadol. Os oes tystiolaeth o fwriad i dwyllo, dylid erlyn yr unigolyn neu gymryd camau disgyblu lle y bo'n briodol ac yn ymarferol. Ni fydd collfarn droseddol yn y fath achos yn dileu'r ddyled gyhoeddus sydd wedi deillio o'r gordaliad ac, felly, dylid bob amser geisio adennill y ddyled gan ddefnyddio unrhyw ddull sydd ar gael.

Costeffeithiolrwydd

A4.10.10 Dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus wneud penderfyniadau ynghylch eu tactegau wrth geisio adennill gordaliadau mewn achosion penodol ar sail dadansoddiad cost a budd a chan ddilyn cyngor cyfreithiol. Dylai penderfyniadau i beidio ag ennill symiau a ordalwyd fod yn rhai eithriadol a dim ond ar ôl arfarnu'r ffeithiau perthnasol, gan ystyried y sefyllfa gyfreithiol, y dylid eu gwneud. Dylid ystyried yr opsiwn i leihau taliadau i'r derbynydd yn y dyfodol bob amser.

Amddiffyniadau Rhag Adennill Symiau a Ordalwyd

A4.10.11 Mae amddiffyniadau y gellir eu hawlio rhag adennill symiau a ordalwyd yn cynnwys:

- Yr amser sydd wedi mynd heibio ers i'r gordaliad gael ei wneud.
- Newid yn y sefyllfa.
- Estopel.
- Cydnabyddiaeth dda.
- Caledi.

Treigl Amser

A4.10.12 Gall fod cyfyngiadau amser ar adennill gordaliadau. Yng Nghymru a Lloegr, gallai derbynydd bledio bod hawliad yn amser-waharddedig o dan ddarpariaethau'r Deddfau Cyfyngiadau. Fel arfer, mae'n rhaid cychwyn achos i adennill gordaliadau o fewn chwe blynedd (12 mlynedd os yw'r hawliad yn erbyn ystâd bersonol unigolyn ymadawedig) i ganfod y camgymeriad neu'r adeg pan allai'r hawlydd, gyda diwydrwydd rhesymol, fod wedi'i ganfod.

A4.10.13 Pan fydd sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn hawlio yn erbyn sefydliad yn y sector preifat neu bobl sy'n anwybyddu neu'n herio'r hawliad, dylid ceisio cyngor cyfreithiol ar fwrw ymlaen â'r hawliad mewn da bryd er mwyn sicrhau na fydd yn cael ei wahardd gan amser.

A4.10.14 Os bydd rhywun yn honni iddo ordalu sefydliad yn y sector cyhoeddus, dylid ei hysbysu'n brydlon os yw'r hawliad wedi'i wahardd gan amser. Ond os penderfynir, yn ôl ei

deilyngdod, fod achos dros daliad ex gratia, dylai'r taliad hwn gael ei gymeradwyo gan y Swyddog Cyfrifyddu priodol neu'r unigolyn a ddirprwywyd i roi caniatâd. Yn yr un modd, gall fod achos dros daliadau ex gratia er mwyn gwneud iawn am dandaliadau i gyflogeion oni bai eu bod yn hwyr yn gwneud eu hawliadau.

Newid yn y Sefyllfa

A4.10.15 Efallai y bydd derbynnydd gordaliad yn ceisio dibynnu ar newid yn y sefyllfa os ymatebodd yn ddiwyll i'r gordaliad drwy ddibynnu arno i newid ei ffordd o fyw. Wedyn, gallai fod yn annheg ceisio adennill y swm llawn a ordalwyd. Dylai ymateb y sefydliad sy'n talu ddibynnu ar ffeithiau'r achos. Y derbynnydd sy'n gyfrifol am ddangos y byddai'n annheg ad-dalu'r arian. Mae'n anodd dangos yr amddiffyniad hwn.

Estopel

A4.10.16 Mae'n bosibl y bydd derbynnydd sydd wedi newid ei sefyllfa hefyd yn gallu dibynnu ar reol estopel tystiolaeth os gwnaeth y sefydliad sy'n talu gamarwain y derbynnydd ynghylch ei hawl, hyd yn oed os cafodd y gordaliad ei achosi gan ddiffyg ar ran y derbynnydd. Fodd bynnag, fel arfer ni fydd taliad anghywir ohono'i hun yn gyfystyr â chynrychioliad y gall y talai ei gadw. Fel arfer dylai fod rhyw arwydd pellach o deitl tybiedig y derbynnydd heblaw am y ffaith syml i'r taliad gael ei wneud.

A4.10.17 Gellir atal y sefydliad sy'n talu rhag adennill y gordaliad hyd yn oed lle nad yw wedi gwneud unrhyw ddatganiad cadarnhaol i'r talai bod gan yr olaf hawl i'r arian a dderbyniwyd. Os gall y derbynnydd, yn dilyn cais am ad-daliad, roi rhesymau pam na ddylid ad-dalu'r arian, mae bron yn sicr y byddai distawrwydd ar ran y sefydliad sy'n talu yn caniatáu i'r derbynnydd ddod i'r casgliad bod yr ymateb yn foddhaol ac y gallai gadw'r arian.

A4.10.18 Mae'n hanfodol bod sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn ceisio cyngor cyfreithiol pan gynigir newid yn y sefyllfa neu estopel fel amddiffyniad rhag adennill gordaliadau.

Cydnabyddiaeth Dda

A4.10.19 Amddiffyniad posibl arall rhag adennill arian a ordalwyd yw pan fydd rhywun yn gwneud taliad er cydnabyddiaeth dda, h.y. pan fydd y derbynnydd yn rhoi rhywbeth yn gyfnewid am y taliad. Er enghraifft, gellid gwneud taliad er mwyn clirio dyled; neu lle mae'r taliad yn rhan o gyfaddawd i ymdrin â hawliad gonest. Os canfyddir yn ddiweddarach bod y fath daliadau yn fwy na'r swm a oedd yn ddyledus mewn gwirionedd, dylid ystyried y graddau roedd y sefydliad sy'n talu yn gweithredu'n ddiwyll.

Caledi

A4.10.20 Gall sefydliadau yn y sector cyhoeddus hepgor yr hawl i adennill gordaliadau lle y dangosir y byddai adennill gordaliadau yn achosi caledi. Ond ni ddylid cymysgu caledi ag anghyfleustra. Os nad oes gan y derbynnydd unrhyw hawl i'r arian, nid yw ad-dalu ynddo'i hun yn gyfystyr â chaledi, yn arbennig os cafodd y gordaliad ei ganfod yn gyflym. Dylai pleon derbyniol ar sail caledi gael eu hategu gan dystiolaeth resymol y byddai'r camau y mae'r sefydliad sy'n talu yn bwriadu eu cymryd i adennill yr arian a ordalwyd yn amharu ar les y dyledwr neu deulu'r dyledwr.

A4.10.21 Nid yw caledi wedi'i gyfyngu o reidrwydd i galedi ariannol; gall sefydliadau yn y sector cyhoeddus hepgor yr hawl i adennill gordaliadau pan fyddai adennill yr arian a ordalwyd yn amharu ar les meddyliol y dyledwr neu deulu'r dyledwr. Unwaith eto, mae'n rhaid cyflwyno tystiolaeth i ddangos y fath galedi.

Gordaliadau Cyfunol

A4.10.22 Os bydd grŵp o bobl wedi'i ordalu o ganlyniad i'r un camgymeriad, dylid trin pob un o'r derbynwyr yn yr un ffordd. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu y dylid diystyru'n awtomatig adennill unrhyw ordaliadau o'r fath. Er enghraifft, efallai y bydd yn briodol parhau i adennill arian a ordalwyd gan y rhai sydd wedi cynnig ei ad-dalu, neu efallai na fydd rhai yn wynebu'r un lefel o galedi.

A4.10.23 Dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus benderfynu ar y ffordd orau o ymdrin â gordaliadau cyfunol fel na fyddant yn rhwystro'r gwaith o adennill cymaint o arian â phosibl. Os tybir ei bod yn anymarferol ceisio adennill arian gan rai aelodau o grŵp cyfatebol, ni ddylai fod unrhyw waharddiad ar fynd ar drywydd aelodau eraill y mae'n bosibl y byddant yn gallu talu. Nid oes rhaid hysbysu'r grŵp yn gyffredinol o'r camau sy'n cael eu cymryd yn erbyn aelodau penodol am fod gan bob un ohonynt yr un rhwymedigaeth gyfreithiol. Dylai unrhyw driniaeth wahaniaethol fod yn seiliedig ar gyngor.

A4.10.24 Os bydd sefydliad yn y sector cyhoeddus yn ystyried hepgor yr hawl i adennill gordaliad cyfunol cyfan neu unrhyw ran ohono, dylai ymgynghori â chydweithwyr yn yr adran gyllid cyn hysbysu'r derbynwyr o'r gordaliadau. Bydd angen i gydweithwyr yn yr adran gyllid fod yn fodlon bod modd amddiffyn hepgoriad cyfunol ar y sail ei fod er budd y cyhoedd neu'n cynnig gwerth am arian. Dylai unrhyw hepgoriadau o'r fath fod yn eithriadol.

Atodiad 4.11

Rhoddion

Mae'r Atodiad hwn yn esbonio sut y dylai Llywodraeth Cymru drin rhoddion, a roddir neu a dderbynnir. Mae'n bwysig sicrhau bod priodoldeb wedi'i barchu drwy brosesau adrodd tryloyw. Dylid mabwysiadu'r un dull gweithredu mewn sefydliadau yn y sector cyhoeddus.

A4.11.1 Rhywbeth a roddir yn wirfoddol yw rhodd, heb unrhyw ragamodau a heb ddisgwyl unrhyw beth yn gyfnewid amdano: gweler blwch A4.11A.

Blwch A4.11A: Diffiniad o roddion

Mae rhoddion yn cynnwys unrhyw drafodion sy'n cyfateb yn ddarvoudus i eitemau a drosglwyddir am ddim ac yn ddi-dâl, megis:

- Rhoi benthyg ased am ei oes ddefnyddiol ddisgwylidig.
- Gwerthu neu brydlesu asedau am lai na'u gwerth ar y farchnad (y gwahaniaeth rhwng y swm a gafwyd a'i werth ar y farchnad yw gwerth y rhodd).
- Rhoddion.
- Tir ac adeiladau sy'n cael eu trosglwyddo, neu brydlesau sy'n cael eu haseinio, i gyrff yn y sector preifat am lai na'u pris ar y farchnad (gwerth y rhodd yw'r gwahaniaeth rhwng y pris y cytunwyd arno a'r pris ar y farchnad).

A4.11.2 Mae'n bwysig bod yn glir ynghylch trafodion nad ydynt yn cael eu hystyried yn rhoddion. Er enghraifft:

- Fel arfer dylai asedau gael eu trosglwyddo rhwng Adrannau'r Llywodraeth a Gweinyddiaethau Datganoledig ar werth llawn cyfredol yr asedau ar y farchnad; fel arfer ni chodir tâl am drosglwyddo asedau o dan orchymyn trosglwyddo swyddogaethau i weithredu newid yn y peirianwaith llywodraethu. Nid ystyrir bod y fath drosglwyddiadau yn rhoddion yn y naill achos na'r llall.
- Nid yw grantiau na chymorth grant yn rhoddion am eu bod yn cael eu gwneud o dan ddeddfwriaeth, yn ddarostyngedig i amodau, gyda rhyw ddisgwyl y bydd y llywodraeth yn cael gwerth am arian drwy hyrwyddo ei hamcanion polisi.

Rhoi Rhoddion

A4.11.3 Darperir yr awdurdod i gymeradwyo gwariant ar roddion o dan drefniadau dirprwyo penodol a wneir gan Dirprwy Ysgrifenyddion Parhaol, Cyfarwyddwyr Cyffredinol neu Gyfarwyddwyr. Ar gyfer Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, nodir unrhyw awdurdod i fynd i wariant ar roddion yn eu Cytundeb Fframwaith. Mae'n rhaid datgelu rhoddion sylweddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Rhoddion a Dderbyniwyd

A4.11.4 Dylai Grwpiau Llywodraeth Cymru gynnal cofrestr sy'n nodi rhoddion a dderbyniwyd ganddynt, eu gwerth amcangyfrifedig a beth a ddigwyddodd iddynt (a gawsant eu cadw neu eu gwaredu). Nid oes angen nodi rhoddion a dderbyniwyd yn y cyfrifon blynyddol onid ystyrir bod achos arbennig dros eu dwyn i sylw Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

4.11.5 Dylid trin rhoddion, nawdd neu gyfraniadau (ee gan ddatblygwyr) fel rhoddion hefyd.

4.11.6 Ceir canllawiau ar roddion i weision sifil unigol yng Nghod Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru.

Atodiad 4.12

Taliadau Arbennig

Mae'r atodiad hwn yn nodi'r prosesau a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i ymdrin â thrafodion y tu allan i'r ystod arferol a gynlluniwyd. Fe'i hargymhellir fel arfer da i'w ddilyn gan bob sefydliad yn y sector cyhoeddus.

A4.12.1 Nid yw taliadau arbennig wedi'u cynllunio sy'n golygu nad ydynt yn ddarostyngedig i'r gweithdrefnau craffu arferol ac, o ganlyniad, maent yn cael eu rheoli'n fwy na thaliadau eraill.

A4.12.2 Dim ond ar ôl arfarnu'r ffeithiau'n ofalus y dylid awdurdodi taliadau arbennig. Mae'n arfer da ystyried fel mater o drefn a yw achosion penodol yn datgelu pryderon ynghylch cadernid y systemau rheoli; ac a ydynt yn cael eu parchu yn ôl y disgwyl. Mae hefyd yn bwysig cymryd unrhyw gamau angenrheidiol i unioni methiannau.

A4.12.3 Dylai cyrff cyhoeddus Llywodraeth Cymru weithredu i'r un safonau hyn oni bai bod rhesymau da dros beidio â gwneud hynny (gofynion hollbwysig sy'n gymwys o dan y Ddeddf Cwmniâu, er enghraifft). Mae'n rhaid i Ganghennau noddi sicrhau bod eu trefniadau goruchwyllo (gweler Pennod 7) yn eu galluogi i fod yn fodlon bod eu cyrff cyhoeddus yn cydymffurfio â'r safonau.

Ymdrin â Thaliadau Arbennig

A4.12.4 Mae Blwch A4.12A yn rhannu taliadau arbennig i gategoriâu er mwyn helpu i benderfynu sut y dylid ymdrin ag achosion unigol. Mae gan Ddirprwy Ysgrifenyddion Parhaol a Chyfarwyddwyr Cyffredinol o fewn Llywodraeth Cymru awdurdod dirprwyedig i wneud taliadau diswyddo a thaliadau setlo, heblaw am y taliadau hynny y tybir eu bod yn rhai newydd a/neu gynhennus neu adleisiol (dylid cyfeirio'r fath achosion at yr Uned Llywodraethu Corfforaethol er mwyn iddi eu hystyried/penderfynu arnynt). Y Dirprwy Ysgrifenyddion Parhaol, Cyfarwyddwyr Cyffredinol a'u Penaethiaid Cyllid sy'n gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer ymdrin ag achosion sy'n cynnwys y lefelau o ddirprwyaeth ariannol sydd i'w cymhwyso ym mhob Grŵp ac am gyfleu'r trefniadau hynny i staff. Dylid nodi trefniadau dirprwyo priodol ar gyfer cyrff cyhoeddus yn eu cytundebau fframwaith.

A4.12.5 Yn benodol, mae'n bwysig ymgynghori â'r Uned Llywodraethu Corfforaethol ynghylch unrhyw achosion:

- Sy'n cynnwys materion pwysig sy'n ymwneud ag egwyddor.
- Sy'n codi amheuan ynghylch effeithiolrwydd systemau presennol.
- Sy'n cynnwys gwersi a allai fod o ddiddordeb mwy cyffredinol.
- A allai greu cysail i adrannau eraill.
- Sy'n codi oherwydd cyfarwyddiadau aneglur neu amwys a gyhoeddwyd yn ganolog.

Blwch A4.12A: Taliadau arbennig

- **Taliadau allgytundebol:** taliadau yr ymddengys eu bod yn rhoi rhwymedigaeth ar Lywodraeth Cymru neu ei chyrrff cyhoeddus y gallai'r llysoedd ei chadarnhau, er nad yw'r taliadau hynny yn gyfreithiol ddyledus o dan gontract. Fel arfer, maent yn codi o ganlyniad i weithredu neu ddiffyg gweithredu mewn perthynas â chontract. Gall taliadau fod yn rhai allgytundebol hyd yn oed pan fo rhywfaint o amheuaeth ynghylch yr atebolrwydd i dalu, ee lle mae'r contract yn darparu ar gyfer cymrodeddu ond deuir i gytundeb hebddo. (Mae taliad a wneir o ganlyniad i ddyfarniad cymrodeddu yn un cytundebol.)
- Cwmpesir **taliadau allstatudol ac allreoliadaol** gan fwriad cyffredinol y statud neu'r rheoliad, yn y drefn honno, ond maent yn mynd y tu hwnt i ddehongliad caeth o'i delerau.
- Telir **iawndal** er mwyn gwneud iawn am anafiadau personol (heblaw am daliadau o dan Gynllun Budd-daliadau Anafiadau'r Gwasanaeth Sifil), damweiniau traffig, difrod i eiddo ac ati a ddiodefir gan weision sifil neu bobl eraill. Maent yn cynnwys taliadau eraill i'r bobl hynny yn y gwasanaeth cyhoeddus y tu allan i gynlluniau statudol (dylid ceisio cyngor cyfreithiol ym mhob achos) neu y tu allan i gontractau.
- Gwneir **taliadau diswyddo arbennig** i gyflogeion, contractwyr ac eraill y tu allan i ofynion statudol neu gytundebol arferol (fel arfer rheolau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil i'r rhan fwyaf o staff Llywodraeth Cymru) pan fyddant yn gadael cyflogaeth yn y gwasanaeth cyhoeddus p'un a ydynt yn ymddiswyddo, yn cael eu diswyddo neu'n cytuno i ddod â chontract i ben (dylid ceisio cyngor cyfreithiol ym mhob achos). Mae angen cymeradwyaeth y Prif Weinidog (gweler isod).
- Mae **taliadau ex gratia** yn mynd y tu hwnt i gwmpas statudol (mae angen pwerau ar Lywodraeth Cymru – dylid ceisio cyngor cyfreithiol), atebolrwydd cyfreithiol neu reolau gweinyddol, gan gynnwys:
 - taliadau a wneir i ddelio â chaledi a achoswyd gan fethiant neu oedi swyddogol
 - setliadau a wneir y tu allan i'r llys er mwyn osgoi camau cyfreithiol ar sail annigonolrwydd swyddogol
 - taliadau i gontractwyr y tu allan i gontract rhwymol, ee ar sail caledi.

A4.12.6 Mae angen cyfiawnhau taliadau arbennig yn briodol er budd y cyhoedd yn erbyn egwyddorion allweddol y sector cyhoeddus a nodir ym Mhennod 1, blwch 1.1, gyda phwyslais arbennig ar werth am arian gan nad oes unrhyw atebolrwydd cyfreithiol. Mae angen cyfiawnhau unrhyw gynnig i gadw taliad arbennig yn gyfrinachol yn arbennig o ofalus gan y gallai ymddangos bod cyfrinachedd yn celu twyll. Hefyd, dylid cydymffurfio â gofynion adroddiadau ariannol a deddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Mae'n hanfodol sicrhau y byddai'r Swyddog Cyfrifyddu cyfrifol yn teimlo ei fod yn gallu cyfiawnhau'r taliad arfaethedig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru pe bai'n cael ei herio.

A4.12.7 Wrth ystyried unrhyw gynigion ar gyfer taliadau arbennig, dylid ystyried y ffactorau canlynol.

- Natur ac amgylchiadau'r achos.
- Y swm dan sylw.
- Y cyngor cyfreithiol, lle y bo'n briodol.

- Y gweithdrefnau rheoli a ddilynwyd.
- Asesiad o'r gwerth am arian y mae'r achos yn ei gynnig.
- Unrhyw agweddau anariannol.
- A allai'r achos dan sylw gael effaith ehangach.

Taliadau Diswyddo Arbennig

A4.12.8 Dylai taliadau diswyddo arbennig pan fydd staff yn gadael cyflogaeth yn y gwasanaeth cyhoeddus fod yn rhai eithriadol. Mae angen i daliadau o'r fath gael eu cymeradwyo²² bob amser am eu bod yn rhai newydd, cynhennus ac, o bosibl, adleisiol fel arfer. Mae'n rhaid ymgynghori â'r Uned Llywodraethu Corfforaethol ymlaen llaw pan fydd taliadau diswyddo arbennig yn cael eu hystyried (bydd ymgynghori yn digwydd drwy'r Gangen noddi yn achos cyrff cyhoeddus Llywodraeth Cymru). Efallai na fydd cyngor cyfreithiol bod taliad diswyddo penodol fel petai'n cynnig gwerth da am arian i'r cyflogwr yn derfynol am ei bod yn bosibl na fydd y fath gyngor yn ystyried budd y cyhoedd yn fwy cyffredinol.

A4.12.9 Mae'r Uned Llywodraethu Corfforaethol yn mabwysiadu ymagwedd bwyllog tuag at gynigion ar gyfer setliadau diswyddo arbennig. Efallai na fydd cynseiliau o rannau eraill o'r sector cyhoeddus yn ganllaw dibynadwy mewn unrhyw achos penodol. A hyd yn oed os bydd cost trechu apêl yr ymddengys ei bod yn wamal neu'n flinderus yn fwy na chost debygol y setliad penodol hwnnw i'r cyflogwr, efallai y bydd yn fuddiol dwyn achos cyfreithiol ffurfiol o hyd. Mae ennill y fath achosion yn dangos nad yw Llywodraeth Cymru na'i chyrff cyhoeddus yn gwobrwyo methiant ac, felly, dylai hyrwyddo ein henw da am ddefnyddio arian cyhoeddus yn ddarbodus.

A4.12.10 Ni ddylai adrannau drin taliadau diswyddo arbennig fel opsiwn hawdd, ee er mwyn osgoi gweithredu gan reolwyr, prosesau disgyblu, cyhoedduswydd annerbyniol neu niwed i'w henw da. Mae Blwch A4.12B yn nodi'r ffactorau y mae angen i'r Uned Llywodraethu Corfforaethol eu gwerthuso wrth ymdrin ag achosion sy'n cynnwys taliadau diswyddo arbennig. Mae'n bwysig sicrhau y ceir cymeradwyaeth yr Uned Llywodraethu Corfforaethol cyn gwneud unrhyw gynigion – yn llafar neu'n ysgrifenedig.

²² Mae'r Gwasanaeth Sifil yn fater sydd wedi'i neilltuo i Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, rhoddwyd awdurdod dirprwyedig i Brif Weinidog Cymru arfer y disgresiwn, mewn perthynas â iawndal i gyflogeion cyrff a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a roddir i'r Gweinidog ar gyfer y Gwasanaeth Sifil o dan y cynllun ar:

- a ddylai gwasanaeth cyfrifadwy gynnwys gwasanaeth ar wahân i'r hyn sydd wedi'i gynnwys mewn cyflogaeth sy'n dod o dan y cynllun hwn (rheol 12.1.4(3)); a
- chynnig tariff gwell (ond sy'n dal i fod o fewn y terfyn 21 mis cyffredinol) mewn cynllun ymadael gwirfoddol (rheol 12.3.9)

Yn ychwanegol at hyn, nid yw'n ofynnol bellach cael cymeradwyaeth gan Swyddfa'r Cabinet cyn cychwyn unrhyw gynlluniau iawndal, cyn belled â bod ganddynt y gymeradwyaeth berthnasol gan Brif Weinidog Cymru. Mae hyn yn cynnwys yn benodol gymeradwyo achosion gwerth uchel (dros £95,000).

Blwch A4.12B: Ffactorau i'w hystyried mewn achosion sy'n cynnwys taliadau diswyddo arbennig

Mae'n rhaid i unrhyw achos dros daliad diswyddo arbennig a gyflwynir i'r Uned Llywodraethu Corfforaethol nodi'r canlynol:

- Amgylchiadau'r achos.
- Unrhyw bosibilrwydd o gyfeirio'r achos at dribiwnlys, ynghyd â'i ganlyniadau posibl, gan gynnwys asesiad cyfreithiol o'r tebygolrwydd y bydd y sefydliad yn ennill neu'n colli'r achos a maint tebygol unrhyw swm a ddyfernir.
- Y gweithdrefnau rheoli a ddilynwyd.
- Y gwerth am arian y mae'r setliad posibl yn ei gynnig.
- Unrhyw ystyriaethau anariannol, ee lle mae'n ddymunol terfynu cyflogaeth rhywun heb ei ddiswyddo, oherwydd proses ailstrwythuro o bosibl.
- A allai'r achos gael effaith ehangach, ee ar grŵp o achosion tribiwnlys posibl.

A4.12.11 Dylid cymryd gofal arbennig i:

- Osgoi unrhyw oedi diangen a allai arwain at daliadau diswyddo sy'n uwch na'r symiau y gallai staff fel arall haeddu eu cael.
- Osgoi cynnig gwaith ymgynghorol i'r cyflogai dan sylw ar ôl ei ddiswyddo oni ellir dangos bod hynny'n cynnig y gwerth gorau am arian.
- Sicrhau bod unrhyw ymrwymadau ynghylch cyfrinachedd yn gadael trafodion diswyddo yn agored i graffu digonol gan y cyhoedd, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.
- Sicrhau bod taliadau diswyddo arbennig i uwch aelodau o staff yn dryloyw ac wedi'u negodi gan osgoi gwrthdaro buddiannau.

A4.12.12 Lle y ceisir cymeradwyaeth ôl-weithredol gan yr Uned Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer taliadau diswyddo arbennig ni ddylid cymryd yn ganiataol y rhoddir cymeradwyaeth, gan yr ymddengys, fel arfer, fod y fath daliadau yn gwobrwyo methiant ac yn gosod esiamp wael ar gyfer y sector cyhoeddus yn gyffredinol. Caiff ceisiadau am gymeradwyaeth ôl-weithredol eu hystyried fel pe bai'r cais wedi'i wneud ar yr adeg gywir a dylent gynnwys yr un lefel o fanylion â phe bai'r achos wedi'i gyflwyno i'r Uned Llywodraethu Corfforaethol ymlaen llaw.

Taliadau Cadw

A4.12.13 Mae taliadau cadw, y bwriedir iddynt annog staff i ohirio gadael eu swyddi, yn arbennig pan fydd cynlluniau i drawsnewid sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn cael eu negodi, hefyd yn cael eu dosbarthu'n daliadau newydd a chynhennus. Mae angen i'r fath daliadau gael eu cymeradwyo gan yr Uned Llywodraethu Corfforaethol bob amser, p'un a gânt eu cynnig mewn achosion unigol neu mewn grwpiau. Mae'n rhaid cael cymeradwyaeth yr Uned Llywodraethu Corfforaethol cyn gwneud unrhyw ymrwymiad, yn llafar neu'n ysgrifenedig.

A4.12.14 Dylai sefydliadau sy'n ystyried cynigion ar gyfer taliadau cadw eu hasesu'n ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn cynnig gwerth am arian. Dylai Canghennau noddi gyflwyno achos busnes i'r Uned Llywodraethu Corfforaethol wedi'i ategu dan dystiolaeth o'r farchnad, ynghyd â gwerthusiad o'r risgiau a'r costau sy'n gysylltiedig ag opsiynau amgen. Bydd yr Uned Llywodraethu Corfforaethol bob amser yn cymryd gofal i sicrhau bod angen taliadau o'r fath.

Cofnodi

A4.12.15 Gan nad yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu ar gyfer taliadau arbennig wrth gymeradwyo'r Gyllideb flynyddol, dylid dwyn taliadau arbennig i'w sylw, fel arfer drwy nodyn yn y cyfrifon blynyddol. Sut bynnag, bydd unrhyw daliadau diswyddo arbennig i uwch aelodau o staff yn cael eu heitemeiddio mewn cyfrifon blynyddol.

A4.12.16 Mae hysbysu ar wahân i driniaeth gyfrifyddu, a fydd yn dibynnu ar natur y taliad arbennig. Dylid nodi taliadau arbennig yn y cyfrifon hyd yn oed os yw'n bosibl y cânt eu lleihau gan symiau a adenillir ar ôl hynny.

A4.12.17 Dylid nodi taliadau arbennig yn y cyfrifon blynyddol yn unol â gofynion Llawlyfr Adroddiad Ariannol Trysorlys Ei Mawrhydi.

Atodiad 4.13

Rhwymedi

Mae ymdrin â chwynion yn brydlon ac yn effeithlon yn ffordd bwysig o sicrhau bod cwsmeriaid yn cael y gwasanaeth y mae ganddynt hawl i'w gael a gall arbed amser ac arian i sefydliadau yn y sector cyhoeddus drwy atal cwyn rhag dwysáu yn ddiangen.

Os canfuwyd bod eu gwasanaethau yn ddiffygiol, dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus ystyried a ddylid darparu rhwymedïau i bobl neu gwmnïau sy'n cwyno. Mae hyn ar wahân i weinyddu hawliau statudol neu rwymedigaethau cyfreithiol eraill, ee er mwyn talu iawndal. Gellir darparu rhwymedïau mewn nifer o ffyrdd gwahanol a dylent fod yn gymesur ac yn briodol.

Ymdrin â Chwynion

A4.13.1 Dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus weithredu gweithdrefnau cwyno clir a hawdd eu deall. Maent yn ffynhonnell werthfawr o adborth a all helpu i daflu goleuni ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir ac, yn benodol, pa mor dda y mae'n cyd-fynd â bwriadau polisi. Dylid ymchwilio i bob cwyn.

A4.13.2 Dylai systemau ar gyfer ymdrin â chwynion weithredu'n brydlon ac yn gyson. Dylid dweud wrth y rhai sy'n gwneud cwynion pa mor gyflym y gellir prosesu eu cwynion. Pan fydd grwpiau o gwynion yn codi materion cyffredin, dylai'r rhwymedïau a gynigir fod yn deg, yn gyson ac yn gymesur.

A4.13.3 Yng Nghymru, os yw'r rhai sy'n gwneud cwynion yn anfodlon gyda'r ymateb i'w cwyn, gallant fynd â'r gwyn at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

A4.13.4 Dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus geisio dysgu o'u cwynion. Os bydd adolygiad mewnol neu allanol, neu ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn dangos bod diffygion systemig, dylai systemau neu weithdrefnau diffygiol gael eu harchwilio a'u cywiro.

Rhwymedïau

A4.13.5 Fel yr esbonia adran 4.11 ym Mhennod 4, pan fydd sefydliadau yn y sector cyhoeddus wedi achosi anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i gamweinyddu neu fethiant i ddarparu gwasanaeth, dylent ystyried y canlynol:

- Darparu rhwymedïau fel y gallant adfer y parti a gafodd gam, i'r graddau y bo'n rhesymol bosibl, i'r sefyllfa y byddai wedi bod ynddi pe bai pethau wedi cael eu gwneud yn gywir.
- A oes angen newid polisiau a gweithdrefnau er mwyn atal y methiant rhag digwydd eto.

Y Rhwymedïau Sydd ar Gael

A4.13.6 Ceir gwahanol fathau o rwymedïau, gan gynnwys (yn unigol neu mewn cyfuniad):

- Ymddiheuriad.
- Esboniad.
- Cywiro'r gwall neu gamau unioni eraill.
- Ymrwymiad i wella gweithdrefnau neu systemau.
- Taliadau ariannol, ee taliad untro neu fel rhan o setliad strwythuredig.

A4.13.7 Fel arfer, mae rhwymedïau ariannol ar gyfer achosion unigol yn daliadau ex gratia. Os bydd patrwm yn datblygu, a bod angen ymdrin â nifer o achosion sy'n codi pwyntiau tebyg, gall wneud synnwyr i ddatblygu cynllun (gweler atodiad 4.9). Dylid ceisio cyngor cyfreithiol wrth ddatblygu unrhyw gynllun o'r fath.

Llunio Rhwymedïau

A4.13.8 Y dull arferol o ymdrin â chwynion lle nad oes angen gwneud taliad ariannol yw cynnig ymddiheuriad ac esboniad. Mae'n bosibl y bydd hyn yn ymateb digonol a phriodol ynddo'i hun. Efallai y bydd pobl sy'n cwyno hefyd am gael sicrwydd na chaiff camgymeriadau eu hailadrodd.

A4.13.9 Efallai y bydd yn fwy anodd barnu a oes angen talu iawndal ac, os felly, faint, yn arbennig os nad oes unrhyw golled ariannol y gellir ei mesur. Dylid bod yn ofalus iawn wrth lunio cynlluniau iawndal ariannol am ei bod yn bosibl y byddant yn gosod cynseiliau drud.

A4.13.10 Lle y nodir mai rhwymedïau ariannol yw'r dull cywir o ymdrin â methiant i ddarparu gwasanaeth, dylent fod yn deg, yn rhesymol ac yn gymesur â'r niwed a gafodd y rhai sy'n cwyno. Fodd bynnag, ni ddylai rhwymedïau ariannol alluogi derbynwyr i gael mantais ariannol o gymharu â'r hyn a fyddai wedi digwydd pe na bai'r gwasanaeth wedi methu.

A4.13.11 Dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus sy'n penderfynu ar rwymedïau ariannol ystyried yr holl ffactorau perthnasol. Nodir rhai y gellid eu hystyried ym mlwch A4.13A. Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr.

Blwch A4.13A: Ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu a yw iawndal ariannol yn briodol

- A achoswyd colled gan fethiant i dalu hawliad, ee i grant neu fudd-dal.
- A yw rhywun wedi wynebu unrhyw gostau ychwanegol o ganlyniad i weithredu neu ddiffyg gweithredu gan sefydliad yn y sector cyhoeddus, ee oherwydd oedi.
- A yw'r broses o wneud y gŵyn wedi gosod costau ar yr unigolyn sy'n cwyno, ee enillion a gollwyd neu'r costau sy'n gysylltiedig â gwneud y gŵyn.
- Amgylchiadau'r unigolyn sy'n cwyno, ee a yw gweithredu neu ddiffyg gweithredu gan y sefydliad yn y sector cyhoeddus wedi achosi sgil-ffeithiau neu galedi.
- A yw'r niwed yn debygol o barhau am beth amser.
- A fyddai unrhyw rwymedi ariannol yn drethadwy pan gâi ei dalu i'r unigolyn sy'n cwyno.

A4.13.12 Os bydd iawndal yn cynnwys elfen am fod yr unigolyn sy'n cwyno wedi gorfod aros am ei ddyfarniad, dylid ei chyfrifo fel llog syml. Dylai'r gyfradd llog a ddefnyddir fod yn briodol i'r amgylchiadau a dylai fod modd ei hamddiffyn yn erbyn y ffeithiau. Cyfraddau sy'n werth eu hystyried yw'r gyfradd y mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn ei thalu ar ad-daliadau treth a'r gyfradd a ddefnyddir mewn setliadau llys.

A4.13.13 Pan fydd sefydliad yn y sector cyhoeddus yn cydnabod bod angen cynllun arno ar gyfer cyfres o hawliadau tebyg neu gysylltiedig yn dilyn achos o gamweinyddu neu fethiant i ddarparu gwasanaeth, dylai sicrhau bod y trefniadau a ddewisir yn ymdrin â phob un o'r darpar hawlwrwyr mewn ffordd deg. Mae'n bwysig bod y fath gynlluniau yn ystyried Egwyddorion Gweinyddu²³ ac Egwyddorion Unioni Cam²⁴ Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Dylent fod wedi'u cynllunio'n dda gan fod costau yn gallu cynyddu os gwelir bod problem yn fwy sylweddol nag a ddisgwyliwyd ar y dechrau.

A4.13.14 Os bydd y rhai sy'n ceisio iawndal wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi mewn ffordd sy'n debygol o barhau, efallai na fydd yn briodol talu iawndal fel cyfandaliad. Yn lle hynny, gall wneud synnwyr i ddyfarnu setliad strwythuredig â thaliadau cyfnodol (ee misol neu flynyddol). Dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus sy'n ystyried y fath setliadau geisio cyngor cyfreithiol ac actiwaraid wrth eu llunio.

A4.13.15 Yn y bôn, nid yw llunio cynllun iawndal yn wahanol i gynllunio gwasanaethau eraill. Mae rheolaeth dda, effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a gwerth am arian yn nodau allweddol (gweler Pennod 4). Nodir rhai materion penodol y mae'n bosibl y bydd angen rhoi sylw arbennig iddynt wrth lunio cynlluniau iawndal ym mlwch A4.13B.

Blwch A4.13B: Materion i'w hystyried wrth lunio cynlluniau iawndal

- Eglurwch gwmpas y cynllun.
- Pennwch reolau clir ar gyfer y cynllun, gyda chanllawiau ategol, er mwyn gweithredu'r bwriad polisi.
- Sicrhewch fod y rhwymedïau yn deg ac yn gymesur, gan osgoi gogwydd, gwahaniaethu neu ragfarn.
- Sicrhewch fod systemau'r cynllun yn gweithio, ee drwy eu treialu.
- Sicrhewch fod cynlluniau yn ddigon hyblyg i ymdopi â nodweddion y boblogaeth o hawlwrwyr.
- Cadarnhewch nad yw'r gost weinyddu yn ormodol – neu symleiddiwch y cynllun.
- Os yw'r cynllun yn gosod cysail, sicrhewch ei fod yn dderbyniol yn gyffredinol.
- Hysbyswch Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn modd priodol ee drwy ddatganiad ysgrifenedig a/neu yn y cyfrifon adnoddau.
- Cynlluniwch i werthuso'r cynllun ar adeg(au) addas.
- Darparwch ar gyfer terfynu'r cynllun, oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny.

²³ www.ombudsman-wales.org.uk/~media/Files/Documents_en/Principles_of_Good_Administration.ashx

²⁴ www.ombudsman-wales.org.uk/~media/Files/Documents_en/Principles_for_Remedies.ashx

Ymgynghoriad

A4.13.16 Wrth ystyried gwneud taliadau rhwymedi unigol, mae angen i sefydliadau yn y sector cyhoeddus geisio cymeradwyaeth gyfreithiol ac ariannol briodol ar gyfer achosion:

- sydd y tu allan i gwmpas eu hawdurdodau dirprwyedig
- sy'n codi materion newydd neu gynhennus
- a allai osod cynsail a allai fod yn ddrud neu gael sgil-ffeithiau ar gyfer sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus.

A4.13.17 Ar ôl cytuno ar gynllun, dim ond ceisio cymeradwyaeth ariannol bellach ynghylch achosion y tu allan i'r ffiniau y cytunwyd arnynt ar gyfer y cynllun, neu'r awdurdod dirprwyedig sy'n gymwys iddo, sydd angen ei wneud.

Cofnodi Taliadau Ex Gratia

A4.13.18 Dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus sicrhau bod taliadau ex gratia wedi'u cwmpasu'n briodol gan y gyllideb. Caiff taliadau o'r fath eu cyfrif yn daliadau arbennig yng nghyfrifon adnoddau sefydliadau. Dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus gynnwys gwybodaeth gryno am iawndal a dalwyd o ganlyniad i gamweinyddu yn eu hadroddiadau blynyddol.

Atodiad 4.14

Rheoli Asedau

Disgwylir i bob sefydliad yn y sector cyhoeddus ddatblygu a gweithredu strategaeth rheoli asedau wedi'i hategu gan gofrestr asedau ddibynadwy a chyfredol. Dylid adolygu'r strategaeth yn flynyddol.

A4.14.1 Mae Swyddogion Cyfrifyddu sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn gyfrifol am reoli eu hasedau. Mae'r agwedd hon ar reolaeth ariannol yn cynnwys caffael, defnyddio, cynnal a gwaredu asedau er budd y sefydliad yn gyffredinol.

A4.14.2 Mae angen i bob sefydliad feddu ar ddealltwriaeth glir o'r canlynol:

- Cyd-destun ei sail asedau gyfredol.
- Yr asedau sydd eu hangen arno er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon a chosteffeithiol.
- Beth mae hyn yn ei olygu o ran caffael, defnyddio, cynnal, adnewyddu, gwella a gwaredu asedau.
- A ellid sicrhau unrhyw fanteision drwy weithio gyda sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus.

A4.14.3 Fel arfer, bydd y cyfrifoldebau hyn wedi'u rhannu mewn sefydliad drwy system o ddirprwyaethau gyda threfniadau adrodd priodol.

Cofrestr o Asedau

A4.14.4 Mae'n arfer da i bob sefydliad lunio, a diweddarau, cofrestr o'r holl asedau y mae'n berchen arnynt ac a ddefnyddir ganddo. Fel arfer, bydd angen y gofrestr hon i baratoi ei gyfrifon. Mae hefyd yn hanfodol er mwyn cymryd stoc o sail asedau gyfredol y sefydliad ac, felly, gynllunio newid.

A4.14.5 Dylai'r asedau ar gofrestr sefydliad gynnwys asedau diriaethol ac anniriaethol, gan gwmpasu asedau sy'n eiddo i'r sefydliad ac asedau o dan ei reolaeth gyfreithiol megis asedau a brydlesir. Mae blwch A4.15A yn rhestru'r prif grwpiau ond nid yw'n gynhwysfawr. Dylai pob sefydliad benderfynu ar drothwy prasio ystyrlon yn unol ag arfer gorau.

Blwch A4.14A: Prif gategoriâu o asedau sector cyhoeddus

Asedau diriaethol

- tir ac adeiladau dan berchenogaeth lwyr
- asedau sefydlog a brydlesir
- deunyddiau crai
- stociau a storau
- peiriannau, peirianwaith, cyfarpar, offer
- dodrefn a ffitiadau
- asedau sy'n cael eu hadeiladu
- asedau ffisegol a roddwyd i'r sefydliad
- asedau treftadaeth
- hen bethau a gweithiau celf
- asedau seilwaith economaidd (gan gynnwys priffyrdd, rheilffyrdd, meysydd awyr, rhwydweithiau cyfathrebu cyfleustodau a chynhyrchu a thrawsyrro trydan)

Asedau anniriaethol

- hawlfreintiau, gan gynnwys hawlfraint y Goron
- nodau masnach
- masnachfreintiau
- patentau a hawliau eiddo deallusol eraill, gan gynnwys meddalwedd mewnol
- ewyllys da
- data a gwybodaeth
- gwybodaeth a gwybodaeth ymarferol
- trwyddedau meddalwedd
- cyfalaf difidend cyhoeddus
- benthyciadau ac adneuron
- buddsoddiadau gan gynnwys cyfranddaliadau a debenturon mewn cwmnïau

A4.14.6 Wrth lunio'r gofrestr o asedau, dylid bod yn arbennig o ofalus wrth ymdrin â dau fath o ased:

- Eitemau deniadol, megis gweithiau celf ac eitemau sy'n debygol o gael eu dwyn. Gellid cynnwys yr eitemau hyn hyd yn oed os ydynt o dan y trothwy cyfalafu, yn unol â chanllawiau a ddarparwyd gan Gasgliad Celf y Llywodraeth.
- Buddsoddiadau ar ffurf debenturon a chyfranddaliadau mewn cwmnïau masnachol. Dylid gwirio'r rhain o leiaf unwaith y flwyddyn.

Strategaethau Rheoli Asedau

A4.14.7 Dylid ymgorffori strategaeth rheoli asedau sefydliad yn y sector cyhoeddus yn ei gynlluniau busnes. Felly, dylai fod yn bosibl helpu i gynllunio newid yn y defnydd a wneir o asedau lle y bo angen. Mae blwch A4.14B yn awgrymu rhai camau allweddol. Dylai Bwrdd y sefydliad ystyried y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflawni ei strategaeth rheoli asedau o bryd i'w gilydd, ac o leiaf unwaith y flwyddyn.

Blwch A4.14B: Camau i ddatblygu cynlluniau rheoli asedau

- Adolygwch y gofrestr o asedau er mwyn asesu pa mor ddigonol ydyw i gyflawni amcanion a swyddogaethau'r sefydliad.
- Cynlluniwch sut y caiff asedau a gadwyd eu defnyddio'n effeithlon i gyflawni swyddogaethau craidd y sefydliad.
- Cynlluniwch ar gyfer caffael asedau, ee er mwyn ymestyn, addasu neu adnewyddu'r sail asedau bresennol (ystyriwch gyfleoedd cydleoli yn y sector cyhoeddus).
- Nodwch asedau i'w gwaredu a chynlluniwch i ddefnyddio'r elw. Ar ôl penderfynu gwaredu asedau, dylid gwneud hynny mor gyflym ag y bydd y farchnad yn caniatáu gan sicrhau gwerth rhesymol am arian.
- Cynlluniwch ar gyfer rhoi benthyg asedau, gan bennu taliadau ac amodau ar gyfer eu dychwelyd, atebolrwydd, difrod.
- Ystyriwch a allai unrhyw asedau a gadwyd gynhyrchu refeniw drwy wasanaethau masnachol.

A4.14.8 Dylid rheoli asedau fel unrhyw rannau eraill o fusnes sefydliad, gyda systemau gwybodaeth cyfredol a dibynadwy i roi adborth ar berfformiad, effeithlonrwydd a gwerth am arian. Disgwylir i'r sefydliad wneud y canlynol:

- Ystyried gwerth am arian o'r ased o safbwynt ehangach, gan ystyried cyfleoedd i weithio gyda sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus er mwyn lleihau'r sail asedau gyffredinol sydd ei hangen arnynt.
- Rheoli'r asedau mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau eu bod mor gynaliadwy â phosibl o ran cost drwy gydol eu hoes effeithiol.
- Defnyddio telerau masnachol ar gyfer darparu a chynnal asedau.
- Ymgorffori digon o hyblygrwydd er mwyn ymdopi â rhaglen newid y sefydliad yn y dyfodol.

Gwelliannau Effeithlonrwydd

A4.14.9 Efallai y bydd effeithlonrwydd o ran y defnydd a wneir o le gwaith yn ei gwneud yn bosibl i sefydliad yn y sector cyhoeddus gymryd llai o le. Mae'n arfer da gwaredu eiddo dros ben neu rannu adeiladau ar ystad Llywodraeth Cymru â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus lle y bo hynny'n ymarferol. Efallai y bydd angen ystyried trosglwyddo cyllideb rhwng sefydliadau er mwyn helpu i dalu costau adleoli cychwynnol. At hynny, dylid ystyried cyfleoedd i fabwysiadu trefniadau gwaith hyblyg neu ystwyth er mwyn gwneud y defnydd gorau o le. Hefyd, i'r sector cyhoeddus ehangach, mae'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol wedi'i sefydlu, yn atebol i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, er mwyn annog a chefnogi mwy o gydweithredu a thrwy roi adnoddau ar waith er mwyn helpu i sicrhau arbedion effeithlonrwydd a gwella lefelau gwasanaeth cyhoeddus. Ceir rhagor o wybodaeth yn www.assetscymru.org.uk.

Trosglwyddo Eiddo

A4.14.10 Gall sefydliadau yn y sector cyhoeddus drosglwyddo asedau ymhlith ei gilydd heb roi'r asedau ar y farchnad agored, fel arfer am eu pris ar y farchnad ac o dan amgylchiadau priodol. Dylent ddilyn y canllawiau cyffredinol ym mlwch A4.14C.

Blwch A4.14C: Protocol ar gyfer trosglwyddo asedau

- Nodwch brisiau asedau ar y farchnad gan ddefnyddio Llyfr Coch Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (www.rics.org).
- Dylai'r perchenogion gwreiddiol a'r darpar berchenogion gydweithio i gytuno ar bris. Mae'n arfer da comisiynu un prisiad annibynnol er mwyn cytuno ar y pris sydd i'w dalu.
- Dylai'r sefydliadau geisio cyngor cyfreithiol, yn arbennig lle mae sefydliadau a noddir yn rhan o'r broses gan y gallai fod gan y rhain ofynion cyfreithiol penodol.
- Fel arfer, ni ddylai telerau'r trosglwyddiad gynnwys adfachu (hawliau i rannu'r elw o waredu asedau) na gorswm (hawliau i rannu elw o waredu asedau yn y dyfodol) ond gweler A4.14.12 isod.
- Ceir canllawiau manylach yn nogfen y Protocol Cydlynu Ystadau a Throsglwyddo Tir. (www.wales.gov.uk/topics/improvingervices/pslg/nwp/assetprocure/landtransfer/?lang=cy)

A4.14.11 Weithiau mae trosglwyddiadau asedau yn deillio o beirianwaith newidiadau'r llywodraeth. Dylai'r ddeddfwriaeth berthnasol (ee gorchymyn trosglwyddo swyddogaethau) ragnodi telerau trosglwyddiadau o'r fath.

A4.14.12 O dan amgylchiadau penodol gellir ystyried darpariaethau gorswm. Nodir isod yr amgylchiadau lle mae gorswm yn dderbyniol:

- Lle y caiff yr eiddo ei werthu i ddatblygwr preifat at ddibenion datblygu tai.
- Mae gobaith realistig y bydd gwerthu'r ased yn gwella'r canlyniad ar gyfer polisi tai, ee drwy greu safle cyfansawdd, cyfunol.
- Mae swyddogion cyfrifyddu'r sefydliadau sector cyhoeddus perthnasol yn argyhoeddedig, yn y trafodyn hwn, fod gorswm yn cynnig gwerth am arian i'r sector cyhoeddus yn gyffredinol.
- Mae'r manteision datblygu wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng y perchenogion gwreiddiol a'r darpar berchenogion.

Gwaredu Asedau Eiddo a Thir

A4.14.13 Dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus geisio cyngor proffesiynol wrth waredu asedau tir ac eiddo. Ceir rhai canllawiau allweddol ym mlwch A4.14D.

A4.14.14 Fel arfer, dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus sy'n rhoi grantiau i drydydd partïon gaffael asedau gynnwys amod adfachu i'w galluogi i adennill yr elw os bydd derbynnydd y grant yn gwerthu'r ased yn ddiweddarach. Caniateir rhywfaint o hyblygrwydd yn y ddisgyblaeth hon (gweler Atodiad 5.2).

Blwch A4.14D: Protocol ar gyfer gwaredu tir, eiddo ac asedau eraill

- Nodwch brisiau asedau ar y farchnad gan ddefnyddio Llyfr Coch Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (www.rics.org).
- Ystyriwch gyfleoedd i gydweithredu mewn perthynas ag asedau yn y sector cyhoeddus yn fwy cyffredinol.
- Dylid gwaredu eiddo tir dros ben o fewn tair blynedd.
- Dylid gwaredu eiddo preswyl dros ben o fewn chwe mis.
- Gwerthwch beiriannau, peirianwaith, cyfarpar swyddfa, dodrefn a nwyddau traul drwy arwerthiant cyhoeddus fel y'u gwelir; neu drwy dendr agored. Sicrhewch eich bod yn cael eich talu cyn rhyddhau'r nwyddau.
- Os caiff ased ei werthu neu ei brydlesu am golled, dylid trin yr elw a ildwyd (o'i gymharu â gwerth yr ased ar y farchnad) fel rhodd (gweler Atodiad 4.11).

A4.14.15 Mae angen bod yn arbennig o ofalus wrth waredu asedau i elusennau. Weithiau, mae eu gweithredoedd ymddiried yn cyfyngu ar y ffordd y gallant ddefnyddio eu hasedau. Mae'n arfer da ystyried y posibilrwydd y caiff asedau eu gwaredu gan dderbynwyr o'r fath cyn eu rhoi iddynt.

Atodiad 5.1

Grantiau

Mae'r atodiad hwn yn nodi sut y dylai Llywodraeth Cymru drefnu a rheoli grantiau i gyrff allanol, gan gynnwys i gyrff cyhoeddus megis Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Dylai sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus ystyried ei fod yn arfer da argymelledig.

Cymorth Ariannol i Gyrff Allanol

A5.1.1 Fel arfer, mae Gweinidogion Cymru yn cynnig dau fath o gymorth ariannol i gyrff allanol, gan ddefnyddio eu pwerau statudol. O ran Llywodraeth Cymru cyfeirir at y rhain fel arian grant. O ran cyfrifyddu ariannol cânt eu categorio fel a ganlyn.

- Arian grant (wedi'i neilltuo): a roddir at ddibenion penodol, o dan statud, ac sy'n bodloni amodau penodol, ee ynghylch gweithgareddau a ariennir, neu gyda rheolaethau perthnasol eraill.
- Cymorth grant (heb ei neilltuo): rhoi cymorth mwy cyffredinol, fel arfer i Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, gyda llai o reolaethau penodol ond mwy o reolaethau cyffredinol ar y corff a llai o oruchwyliaeth gan Lywodraeth Cymru.

A5.1.2 Ni ddylid cymysgu arian grant â chontractau a gaiff eu llunio drwy ymarfer caffael; defnyddir arian grant er mwyn helpu i gyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru tra mai contractau yw'r cytundeb a ddefnyddir i ategu'r broses o brynu nwyddau a/neu wasanaethau sydd o fudd uniongyrchol i'r Llywodraeth.

Talu

A5.1.3 Mae'n rhaid talu arian grant yn unol â gofynion rhaglenni ariannu gwahanol a'r gofynion monitro a hawlio taliadau a nodir yn y cytundeb ariannu. Er enghraifft:

- Mae'n aml yn ofynnol i gyrff a ariennir gyflwyno hawliadau wedi'u cwblhau'n foddhaol ynghyd â thystiolaeth ategol yn ôl yr angen.
- Efallai y bydd angen i'r derbynnydd ddangos ei fod wedi bodloni amodau'r cynllun, ee efallai y bydd angen i ffermwr ddatgelu manylion am ei fusnes.
- Mae taliadau yn aml yn cael eu gwneud yn erbyn amserlen (ee yn chwarterol mewn ôl-daliadau).
- Mae'n rhaid i sefydliadau yn y trydydd sector ddangos bod angen talu arian grant cyn ymgymryd â gweithgareddau y mae'r arian yn cael ei roi ar eu cyfer.

A5.1.4 Dylai taliadau cymorth grant hefyd gyd-fynd ag anghenion y derbynnydd. Dylai symiau sylweddol gael eu talu mewn rhandaliadau priodol yn ystod y flwyddyn y bwriedir iddynt adlewyrchu patrwm gwariant y derbynnydd. Fel hyn nid oes angen i'r sefydliad sy'n derbyn cymorth grant ddal balansau arian parod sylweddol, a fyddai'n ddefnydd aneffeithlon o arian cyhoeddus.

Rheolaeth

A5.1.5 Mae dyrannu arian cyhoeddus ar ffurf arian grant a chymorth grant yn gofyn am ddeddfwriaeth rymuso benodol yn ogystal â chyllideb i dalu amdano.

A5.1.6 Y Swyddog Cyfrifyddu priodol o fewn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau bod y rhai sy'n derbyn grantiau yn gymwys i wneud hynny a'u bod yn defnyddio'r grant yn y ffordd a fwriadwyd o dan y cytundeb ariannu. Ar gyfer cymorth grant, mae'n arferol trefnu hyn drwy nodi amodau a thelerau mewn dogfen fframwaith a anfonir i dderbynwyr er mwyn esbonio eu cyfrifoldebau (gweler Atodiad 7.2). Dylai'r fath ddogfennau fframwaith daro cydbwysedd priodol er mwyn:

- Sicrhau y caiff arian cymorth grant ei reoli'n ddarbodus.
- Sicrhau gwerth am arian.
- Sicrhau Gweinidogion Cymru bod grantiau yn cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd.
- Rhoi lefel resymol o ryddid i dderbynwyr wneud eu penderfyniadau eu hunain.

Fodd bynnag, rhaid bod yn ofalus gan fod amodau cyffredinol ac eang eu cwmpas a osodir ar gymorth grant yn gallu trosglwyddo rheolaeth ar gorff i ariannwr a all fod â goblygiadau i gyfundrefnau cyfrifyddu a chyfundrefnau cyllidebol.

A5.1.7 Dylai fod gan Lywodraeth Cymru ddealltwriaeth dda o ffynonellau incwm eraill derbynnydd grant er mwyn osgoi dyblygu cyllid. Fel arfer, mae'n hanfodol gwahanu ffrydiau incwm gan y bwriedir iddynt gael eu defnyddio at ddibenion gwahanol fel arfer.

A5.1.8 Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod derbynwyr grantiau yn deall bod gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd hawliau mynediad statudol i bawb sy'n derbyn grantiau. Mae'n rhaid i gytundebau ariannu adlewyrchu'r hawliau hyn a hawliau mynediad Llywodraeth Cymru hefyd.

Diogelu Asedau Cyhoeddus

A5.1.9 Pan gaiff grantiau eu rhoi i sefydliadau yn y sector cyhoeddus i gaffael neu ddatblygu asedau, dylid cymryd camau addas a chymesur i ddiogelu buddiannau ariannol y corff a ariennir a buddiannau Gweinidogion Cymru. O dan y fath amgylchiadau, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ddefnyddio amodau y bwriedir iddynt sicrhau na chaiff ei buddiannau ariannol eu diystyru os na chaiff yr ased ei ddefnyddio fel y cytunwyd (gweler Atodiad 5.2).

Gwaddolion

A5.1.10 Fel arfer, telir grantiau a chymorth grant er mwyn galluogi cyrff allanol i helpu i gyflawni amcanion polisi a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru tra'n diwallu anghenion y derbynwyr. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall fod achos dros roi arian drwy waddol, h.y. grant untro bach i alluogi'r derbynnydd i sefydlu cronfa y gall dynnu arian ohoni dros nifer o flynyddoedd. Wedyn, efallai y bydd y derbynnydd yn gallu ymryddhau o'r angen i gael cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru.

A5.1.11 Dylai Grwpiau o fewn Llywodraeth Cymru sy'n ystyried y fath drefniadau ariannu ymgynghori â Chyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru (ac yn eu tro dylai cyrff cyhoeddus ymgynghori â'r Canghennau sy'n eu noddi). Bydd angen i Grwpiau ddangos bod y math hwn o drefniant ariannu yn cynnig gwerth am arian, gan gynnwys:

- Tystiolaeth glir o'r angen am y trefniant ariannu hwn.
- Cost cyfle o gloi arian cyhoeddus mewn gwaddol penodol, gan ddefnyddio technegau arfarnu buddsoddi.
- Gwerth y rhaglen neu'r prosiect penodol o gymharu ag eraill. Bydd angen i adran gyllid ganolog Llywodraeth Cymru fod yn fodlon na fyddai'r fath arian yn diogelu unrhyw raglenni na phrosiectau gwerth isel rhag craffu priodol ar wariant.
- Cynaliadwyedd y corff a ariennir ac a fydd y fath arian yn dileu dibyniaeth ar arian cyhoeddus yn y dyfodol.
- A oes amcanion, allbynnau a chanlyniadau clir yn gysylltiedig â'r arian.
- Y risg y bydd y corff yn gofyn am ragor o arian cyhoeddus.

A5.1.12 Dylai unrhyw waddol o'r fath:

- Adlewyrchu angen gwirioneddol am arian cyfalaf na ellid ei godi drwy ddulliau eraill.
- Cael ei roi i dderbynwyr a all reoli'r gwaddol dros amser yn unig.
- Osgoi dargyfeirio arian i ffwrdd o brosiectau eraill y mae gwir angen arian parod arnynt.

A5.1.13 Dylai telerau'r gwaddol:

- Nodi'n glir na ddylai'r corff a ariennir ofyn i Lywodraeth Cymru ei ariannu'n flynyddol ar ôl hynny.
- Cynnal ffiniau clir rhwng Llywodraeth Cymru a'r derbynnydd.

A5.1.14 Ni ddylid byth defnyddio gwaddolion fel ffordd o gario gwariant drosodd er mwyn osgoi tanwariant. Bwriedir i waddolion gael eu defnyddio mewn sefyllfaoedd lle y byddai toriad ariannol clir yn fanteisiol i'r derbynnydd a'r rhoddwr. Fel arfer, bydd y derbynnydd yn sefydliad trydydd sector.

Atodiad 5.2

Diogelu Buddsoddiadau Cyhoeddus

Mae'r atodiad hwn yn trafod sut y dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus sy'n rhoi grantiau i'r sector preifat ac eraill ddiogelu eu buddsoddiadau pan ddefnyddir grantiau i brynu neu wella asedau.

Adfachu

A5.2.1 Dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus sy'n rhoi arian i gyrff eraill gaffael neu ddatblygu asedau gymryd camau i sicrhau y caiff arian sector cyhoeddus ei ddefnyddio at y dibenion bwriadedig y rhoddir y grant ar eu cyfer. Mae'n arferol ystyried gosod amodau ar y fath grantiau, gan ystyried gwerth y grant, y defnydd a wneir o'r ased sydd i'w ariannu a'i werth yn y dyfodol.

A5.2.2 Adfachu yw'r amod safonol a osodir ar grant. Gwneir hyn drwy osod amod ar y grant sy'n rhoi arwystl i'r corff ariannu dros yr ased fel bod yn rhaid i'r derbynnydd, os yw'n bwriadu gwerthu'r ased a gaffaelwyd â'r grant neu newid y defnydd a wneir ohono, wneud y canlynol:

- Ymgynghori â'r ariannwr.
- Dychwelyd y grant i'r ariannwr.
- Ildio'r elw o werthu'r ased (neu gyfran benodol ohono) i'r ariannwr.

A5.2.3 Fodd bynnag, nid yw arwystl dros yr ased bob amser yn hanfodol. Awgrymir rhai rheolau sylfaenol ym mlwch A5.2A.

Blwch A5.2A: Pryd i ystyried adfachu

Adfachu yn ddymunol

- Asedau diriaethol neu anniriaethol, gan gynnwys hawliau eiddo deallusol, hawlfraint y goron, patentau, hawliau dylunio a hawliau cronfeydd data, a ariannwyd yn uniongyrchol, neu'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan grantiau neu gymorth grant.
- Asedau diriaethol neu anniriaethol a ddatblygwyd gan y corff a ariennir ei hun, a ariannwyd yn anuniongyrchol gan grant at ddiben cysylltiedig neu gan gymorth grant.

Adfachu ddim wastad yn angenrheidiol

- Caffael nwyddau a gwasanaethau, lle y caiff unrhyw rwymedigaeth ei chyflawni'n briodol ar ôl i'r nwyddau a'r gwasanaethau gael eu darparu.
- Pan fydd grant wedi'i roi ar gyfer gwaith ymchwil ac nid yn benodol er mwyn creu ased ffisegol, gallai cwblhau'r gwaith ymchwil hwn yn llwyddiannus fod yn fantais ddigonol.

A5.2.4 Gan fod arianwyr, derbynwyr ac amgylchiadau yn gallu amrywio cymaint, nid oes unrhyw un model ar gyfer adfachu. Mae telerau pwrpasol yn aml yn ddymunol; dylid ceisio cyngor cyfreithiol priodol. Dylent roi cymaint o hyblygrwydd ag yr ymddengys ei fod yn synhwyrol. Dylid anelu at helpu derbynwyr i ddatblygu a darparu gwasanaethau dros y tymor hwy tra'n sicrhau gwerth am arian cyhoeddus. Gan ddefnyddio'r syniadau ym mlwch 7.2, dylai arianwyr bob amser gytuno ar delerau pob grant â'r sawl sy'n ei dderbyn ar ddechrau'r gydberthynas, yn unol â'i amcanion.

Llunio Amodau Adfachu

A5.2.5 Dylai'r broses o lunio amodau adfachu ar gyfer grant ystyried ei amgylchiadau, yr amcan(ion) polisi sylfaenol a dull yr ariannwr o ymdrin â risg. Ceir rhestr wirio o rai ffactorau cyffredin i'w hystyried ym mlwch A5.2B. Gall defnyddio'r dull gweithredu hwn sydd wedi'i deilwra olygu y gall sefydliadau gwahanol fabwysiadu ymagweddu gwahanol iawn ar yr un risgiau.

Blwch A5.2B: Ffactorau i'w hystyried wrth lunio telerau adfachu

- Natur a diben y grant.
- Sut y bydd yr ased yn helpu i gyflawni'r amcanion polisi sy'n sail i'r grant.
- Oes ddisgwyliedig yr ased.
- Faint o arian cyhoeddus y bydd y derbynnydd yn ei gael.
- Sut y caiff yr ased ei ddefnyddio gan y derbynnydd, ee y posibilrwydd y bydd yr ased yn codi mewn gwerth neu'n cynhyrchu elw.
- Am faint o amser y dylai'r ariannwr gadw buddiant yn yr ased.
- A ellir gwerthu'r ased, gydag unrhyw gyfyngiadau ar ei waredu, ee o ran y pris neu'r prynwr.
- A fyddai'n synhwyrol ailasesu'r sefyllfa ar ôl cyfnod penodol neu'n dilyn sbardun penodol.
- A ddylai'r telerau adfachu amrywio yn ôl ffactor megis gwerth yr ased (os felly, efallai y bydd angen i'r telerau ddarparu ar gyfer prisiadau cyfnodol).
- Pryd y dylid cyflawni'r amcanion polisi.
- Pwerau cyfreithiol yr ariannwr a sefyllfa gyfreithiol y derbynnydd (ee fel cwmni neu elusen).
- Unrhyw ffactorau cyfreithiol perthnasol eraill, ee Rheolau'r Undeb Ewropeaidd ar gymorth gwladwriaethol.

A5.2.6 Wrth bennu telerau ac amodau ar gyfer grantiau, dylai arianwyr ystyried yr hyn a allai ddigwydd os na fydd pethau yn mynd rhagddynt fel y bwriadwyd, yn arbennig yr hyn a ddylai ddigwydd o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Nid yw'r derbynnydd yn ymddwyn yn ôl y disgwyl.
- Mae'r amodau allanol yn wahanol iawn i'r cynlluniau.
- Mae'r derbynnydd yn mynd yn fethdalwr (ee a ddylai'r ariannwr gael blaenoriaeth dros gredydwy'r ansicredig).

Hyd Arwystl

A5.2.7 Mae'n gwneud synnwyr cysylltu hawl yr ariannwr i adfachu ag amcanion polisi rhoi'r grant yn hytrach na chaniatáu iddi barhau am gyfnod amhenodol heb ei newid. Nodir rhai opsiynau polisi ym mlwch A5.2C. Os yw'r hawl i adfachu yn gysylltiedig â gwerth ased sy'n debygol o gynyddu, mae risg y gallai'r derbynnydd wynebu anghymhelliad i gyfranogi. Felly, mae angen bod yn ofalus ac yn sensitif.

Blwch A5.2C: Opsiynau ar gyfer hyd hawl adfachu neu asedau fel sicrwydd cyfochrog

- Ei gysylltu ag amcanion y grant.
- Ei gysylltu â'r cyfnod y bwriedir i'r manteision arfaethedig gael eu sicrhau.
- Pennu hawliau adfachu ar raddfa ostyngol, ee yn gostwng i sero erbyn diwedd cyfnod y cytunwyd arno, neu oes ddefnyddiol yr ased, neu erbyn yr adeg y tybir bod yr amcanion polisi wedi'u cyflawni.
- Caniatáu i'r derbynnydd ddefnyddio fel sicrwydd cyfochrog y gwahaniaeth rhwng gwerth yr ased ar y farchnad a'r grant gwreiddiol.

A5.2.8 Fodd bynnag, gall hefyd wneud synnwyr i gymedroli amodau grantiau drwy ddefnyddio telerau megis y canlynol:

- Cymal terfynu sy'n galluogi'r ariannwr a'r derbynnydd i ystyried a gyflawnwyd amcanion yr arian, sy'n sbarduno diwedd buddiant yr ariannwr yn yr ased neu leihad yn ei fuddiant.
- Cymal adolygu sy'n ei gwneud yn bosibl i gadw'r arwystl ac adolygu'r cyfnod adfachu os nad yw'r prosiect wedi cyflawni'r amcanion y cytunwyd arnynt.
- Rhyddhau buddiant yr ariannwr yn yr ased (gan ei gwneud yn bosibl i'w waredu neu ei ddefnyddio fel sicrwydd cyfochrog) ar ddiwedd y cyfnod arwystlo neu adfachu y cytunwyd arno.

A5.2.9 Mae'n arferol gwahardd derbynwyr rhag defnyddio'r asedau y maent yn eu caffael neu'n eu gwella gan ddefnyddio grantiau fel sicrwydd cyfochrog mewn trafodion benthycu. Y rheswm dros hyn yw y gallai'r ariannwr sector cyhoeddus gael ei orfodi i gymryd atebolrwydd cyfreithiol y derbynnydd dros dalu dyledion pe bai'n methu. Fodd bynnag, os bydd ariannwr yn cytuno y gall derbynnydd ddefnyddio asedau a gaffaelwyd neu a ddatblygwyd, gan ddefnyddio grantiau fel sicrwydd cyfochrog, dylai ystyried yn ofalus pa amodau y dylai eu defnyddio. Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o ryddid o'r math hwn yn helpu'r derbynnydd i gyrraedd y sefyllfa lle mae'n ddichonadwy neu'n annibynnol. Er enghraifft, gallai ariannwr ganiatáu derbynnydd i gadw incwm a gynhyrchwyd gan ddefnyddio capasiti dros ben yn yr ased a ariannwyd.

A5.2.10 Ond, fel arfer, mae'n bwysig bod yr ariannwr yn cadw rhywfaint o reolaeth dros unrhyw ddefnydd o'r ased a ariannwyd y tu allan i amodau'r grant. Fel arfer, bydd yr ariannwr yn mynnu bod y derbynnydd yn cael caniatâd yr ariannwr cyn codi arian ar unrhyw ran o'r ased a ariannwyd cyhyd ag y bydd y cyfnod adfachu yn parhau. Dylai unrhyw amodau eraill fod yn rhai cymesur, gan daro cydbwysedd priodol rhwng annog y derbynnydd i fod yn hunangynhaliol a chaniatáu i'r derbynnydd ddefnyddio arian cyhoeddus at ei ddibenion ei hun.

Gorfodi Hawliad ar Ased a Ariannwyd

A5.2.11 Lle y bo'n briodol, dylai arianwyr sicrhau arwystl cyfreithiol ffurfiol ar asedau a ariennir. Gallai hyn fod yn arbennig o bwysig yn achos prosiectau risg uchel neu er mwyn atal yr ariannwr rhag gorfod ysgwyddo dyledion y derbynnydd. Mae'n arferol cymryd arwystl cofrestredig ar dir o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 a'i Rheolau. Os yw'r derbynnydd yn gwmni sy'n dod o dan y Ddeddf Cwmnïau, gall wneud synnwyr i sicrhau arwystl cofrestredig ar ddyledion llyfrau'r cwmni.

A5.2.12 Dylid cofnodi'r math o arwystl a pha mor hir y bwriedir iddo barhau yn y dogfennau sefydlu sy'n nodi'r gydberthynas rhwng yr ariannwr a'r derbynnydd. Bydd angen cyngor cyfreithiol ar y ddau barti, ee yn ymdrin â'r cefndir statudol, unrhyw reolau perthnasol o dan gyfraith yr Undeb Ewropeaidd (ee ar gymorth gwladwriaethol) ac ar sut y gellid gorfodi'r arwystl. Hefyd, dylai'r ddau barti gadw llygad ar arwystlon sy'n parhau mewn grym. Mae'n arfer da cofrestru arwystl tir, fel y caiff ei ystyried yn awtomatig yn ystod unrhyw broses werthu.

A5.2.13 Weithiau, gall ariannwr benderfynu peidio â gorfodi hawliau adfachu pan gaiff ased a ariannwyd ei werthu, er bod y cyfnod adfachu y cytunwyd arno yn dal mewn grym. Dylai arianwyr fod yn ymwybodol o wneud unrhyw benderfyniad o'r fath yn ôl ei deilyngdod, heb ganiatáu i hynny ddigwydd yn awtomatig. Mae rhesymau pam y gallai ariannwr wneud hyn yn cynnwys:

- Mae'n bosibl bod amcanion y grant wedi'u cyflawni.
- Mae'n bosibl bod y derbynnydd yn bwriadu defnyddio'r ased a ariannwyd mewn ffordd dderbyniol sy'n wahanol i'r diben gwreiddiol.
- Mae'n bosibl bod y derbynnydd yn bwriadu ariannu ased neu brosiect amgen o fewn amcanion y cynllun grant allan o'r elw o werthu'r ased.
- Gallai'r ariannwr gytuno i leihau grantiau i'r derbynnydd yn y dyfodol yn lle cymryd yr elw o werthu'r ased.

A5.2.14 Os bydd yr ariannwr yn penderfynu hepgor amod adfachu, dylai ystyried a oes angen iddo gofnodi'r hepgoriad hwnnw fel rhodd. Os felly, dylai fodloni'r gofynion o ran cofnodi rhoddion yn Atodiad 4.11.

A5.2.15 Os bwriedir trosglwyddo perchenogaeth sefydliad sydd wedi defnyddio grant ar gyfer ased sydd wedyn yn destun arwystl cyfreithiol, dylai'r ariannwr geisio cyngor cyfreithiol ar b'un a all orfodi'r arwystl ar yr elw o werthu'r ased. Dylai'r ariannwr ystyried sefyllfa gyfreithiol darpar brynwr derbynnydd y grant ac, yn benodol, a yw ei amcanion (ee elusenol neu fel menter gymdeithasol) yn cyd-fynd ag amodau gwreiddiol y grant. Os daw'r ariannwr yn ymwybodol bod y fath werthiant yn bosibl pan roddir y grant, fel arfer byddai'n briodol mynnu bod y derbynnydd yn cael ei ganiatâd cyn bwrw ymlaen. A dylai unrhyw gais i gymeradwyo gwerthiant gael ei werthuso'n wrthrychol.

Atodiad 6.1

Sut i Gyfrifo Taliadau

Mae'r atodiad hwn yn trafod sut i gyfrifo cost gwasanaethau cyhoeddus lle codir tâl amdanynt.

Cyflwyno Gwasanaeth Newydd neu Wasanaeth Wedi'i Ddiweddarau Lle Codir Tâl Amdano

A6.1.1 Dylai sefydliadau'r sector cyhoeddus sy'n bwriadu sefydlu neu ddiweddarau gwasanaeth lle gellir codi tâl amdano sicrhau eu bod yn ymgysylltu â'u cydweithwyr cyllid yn gynnar. Dylid ceisio cyngor cyn gynted â phosibl os gwneir unrhyw newidiadau i'r model safonol. Gellir cytuno ar amrywiadau arfaethedig mewn rhai achosion, gan ystyried pob un ar sail teilyngdod. Bydd angen i bob un gael ei gyfiawnhau er budd y cyhoedd ac ar sail gwerth am arian.

A6.1.2 Ymhlith y materion ymarferol y bydd angen i sefydliadau eu hystyried wrth sefydlu neu adnewyddu gwasanaeth lle codir tâl amdano mae'r canlynol: y diffiniad o'r gwasanaeth a'i resymeg, yr amcan ariannol arfaethedig (er enghraifft, adennill costau llawn; 70% o'r gost lawn a 30% o gymhorthdal cyhoeddus); sut y caiff y gwasanaeth ei ddarparu a pha sefydliad fydd yn ei ddarparu; a ddylai'r darparwr gadw unrhyw incwm o daliadau; y strwythur codi tâl arfaethedig (er enghraifft, gwasanaeth unigol neu sawl is-wasanaeth). Bydd hefyd angen i sefydliadau gyfeirio at y rhestr wirio ym mlwch 4.8 ym Mhennod 4 o ffactorau i'w hystyried wrth gynllunio polisïau a phrosiectau.

Mesur Cost Lawn Gwasanaeth

A6.1.3 Gydag eithriadau cytûn, dylai ffioedd am wasanaethau fel arfer fod yn gyfystyr â'r gost, weithiau gydag elfen ychwanegol benodol er mwyn cyfateb i adenillion cystadleuwyr masnachol. Felly, er mwyn pennu llawer o ffioedd am wasanaethau cyhoeddus mae'n hanfodol cyfrifo cost eu darparu'n gywir.

A6.1.4 Nodir y prif nodweddion i'w hystyried wrth fesur cost flynyddol gwasanaeth ym mlwch A6.1A. Ni fydd popeth yn y rhestr yn gymwys i bob gwasanaeth ac efallai na fydd y rhestr yn gynhwysfawr. Mae'n bwysig sicrhau bod y cyfrifiad yn gynhwysfawr, gan gynnwys yr holl orbenion perthnasol ac eitemau perthnasol nad ydynt yn rhai arian parod.

A6.1.5 Cyhyd â phosibl, dylai'r cyfrifiad ddefnyddio costau gwirioneddol, lle maent yn hysbys. Yn achos gwasanaethau sydd newydd ddechrau, efallai na fydd dewis arall ond defnyddio amcangyfrifon gorau, sy'n unol â phatrymau defnydd amcangyfrifedig.

Blwch A6.1A: Elfennau cost wrth fesur ffioedd

- Adeiladau, gan gynnwys taliadau cyfalaf am eiddo rhydd-ddaliad.
- Gosodiadau a ffitiadau.
- Cynnal a chadw, gan gynnwys glanhau.
- Cyfleustodau.
- Cyfarpar swyddfa, gan gynnwys systemau Technoleg Gwybodaeth.
- Postio, argraffu, telathrebu.
- Cyfanswm costau cyflogaeth y sawl sy'n darparu'r gwasanaeth, gan gynnwys hyfforddiant.
- Gorbenion, ee (cyfranddaliadau) cyflogres, archwiliad(au), costau uwch reolwyr, gwasanaethau cyfreithiol, ac ati.
- Deunyddiau crai a stociau.
- Ymchwil a datblygu.
- Dibrisiant eitemau cyfalaf cychwynnol ac untro.
- Trethi: Treth ar Werth, treth gyngor, treth stamp, ac ati.
- Taliadau cyfalaf.
- Premiymau yswiriant tybiannol neu wirioneddol.
- Ffioedd i isgontractwyr.
- Costau dosbarthu, gan gynnwys cludiant.
- Hysbysebu.
- Dyledion gwael.
- Costau cydymffurfiaeth a chostau monitro²⁵.
- Darpariaethau.

Ond nid yn cynnwys

- Allanoldebau a osodir ar gymdeithas (megis costau llygredd a chostau trosedd).
- Costau gwaith polisi (heblaw am bolisi ar ddarparu'r gwasanaeth yn weithredol).
- Costau gorfodi.
- Costau disodli eitemau a yswiriwyd yn dybiannol.
- Costau cychwynnol (costau cyfalaf yn y cyfrifon) ac eitemau cyfalaf untro.

A6.1.6 Caiff costau cychwynnol sy'n cael eu cyfalafu yn y cyfrifon a chost eitemau cyfalaf sefydlog eu sgorio'n llawn yn y cyfrifon. Dylai'r costau hyn gael eu priodoli i gost y gwasanaeth yn unol â'r gwerth wedi'i ddibrisio bob blwyddyn.

²⁵ Gweler cyhoeddiad Dosbarth (2010)2 Trysorlys Ei Mawrhydi
www.webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130129110402/http://www.hm-treasury.gov.uk/d/classification_receipts.pdf

A6.1.7 Caiff costau cychwynnol nad ydynt yn gallu cael eu cyfalafu yn y cyfrifon eu sgorio wrth fynd iddynt. Gall costau o'r fath gael eu hadennill drwy ffioedd a thaliadau drwy eu taenu dros ychydig flynyddoedd cyntaf darparu gwasanaeth. Mae hefyd yn arfer da pennu ffioedd er mwyn adennill costau nad ydynt yn gallu cael eu cyfalafu yn y cyfrifon ac yr aed iddynt er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd fel bod taliadau'n is neu'n cynnig gwell gwerth am arian. Dylid cytuno ar hyn gyda Llywodraeth Cymru ac efallai y bydd angen cefnogaeth statudol.

A6.1.8 Yn achos gwasanaethau lle codir cyfraddau gwahanol amdanynt, dylai'r un weithdrefn gael ei defnyddio er mwyn pennu'r cyfraddau gwahanol. Hynny yw, dylai fod modd cyfiawnhau cost unrhyw wasanaeth premiwm yn wrthrychol drwy ei gost ychwanegol (ee lle cynigir cludiant cyflymach); neu, i'r gwrthwyneb, dylai fod modd cyfiawnhau unrhyw ostyngiad drwy'r arbediad i'r cyflenwr (ee defnyddio'r we yn hytrach na thros y cownter). Fodd bynnag, dylid nodi bod deddfwriaeth weithiau'n caniatáu prisio gwahaniaethol nad yw'n gysylltiedig â'r costau sylfaenol perthynol – er, hyd yn oed wedyn, dylai fod rheswm polisi da dros y gwahaniaeth.

Amcanion Ariannol

A6.1.9 Y dull safonol o bennu taliadau am wasanaethau cyhoeddus (gan gynnwys gwasanaethau a gaiff eu darparu gan un sefydliad sector cyhoeddus i un arall) yw adennill costau llawn. Fel arfer, mae'n golygu adennill cost safonol cyfalaf, sef 3.5% ar hyn o bryd. Nodir rhai eithriadau yn adran 6.4.

A6.1.10 Un eithriad arall yw gwasanaethau masnachol, h.y. y gwasanaethau hynny sy'n cystadlu neu a all gystadlu â darparwyr gwasanaethau tebyg yn y sector preifat. Dylai'r rhain anelu at adennill costau llawn gan gynnwys cyfradd adennill wirioneddol yn unol â'r cyfraddau a gafwyd gan fusnesau cymaradwy sy'n wynebu lefel debyg o risg. Fel arfer, bydd y cyfraddau rhwng 5 a 10% ond gall cyfraddau mor uchel â 15% fod yn briodol ar gyfer y busnesau hynny sy'n wynebu'r risg fwyaf.

A6.1.11 Dylid bod yn ofalus iawn wrth brisio gwasanaethau cystadleuol lle mae cyflenwyr sector cyhoeddus mewn sefyllfa ddominyddol naturiol. Bydd prisiau marchnad cystadleuwyr yn aml yn ganllaw da i'r gyfradd adennill briodol os ceir cystadleuaeth wirioneddol yn y farchnad. Lle ceir nifer gyfyngedig o brynwyr a gwerthwyr mewn marchnad, gall fod yn well ystyried ffactorau eraill hefyd. Gall y rhain gynnwys perfformiad blaenorol, graddau'r risg yn y gweithgaredd sylfaenol a materion sy'n effeithio ar berfformiad yn y dyfodol.

Gwargedau a Diffygion Damweiniol

A6.1.12 Er gwaethaf pob ymdrech i fesur a rhagamcanu costau, mae gwargedau a diffygion yn siŵr o godi o bryd i'w gilydd. Gall yr achosion gynnwys galw amrywiol, newidiadau mewn cost yn ystod y flwyddyn ac ati. Mae'n arfer da ystyried addasiad canol blwyddyn i lefelau ffioedd os yw'n ymarferol.

A6.1.13 Mae hefyd yn arfer da pennu ffioedd er mwyn adennill diffygion blaenorol a gronnwyd. Efallai y bydd angen cefnogaeth statudol ar hyn ac mae angen ei drafod gyda Llywodraeth Cymru.

Atodiad 6.2

Codi Tâl am Wybodaeth

Mae'r Atodiad hwn yn trafod sut mae Llywodraeth Cymru yn codi tâl am ei gwybodaeth. Ceir eithriadau i'r polisi cyffredinol o godi cost lawn. Dylai sefydliadau sector cyhoeddus Cymru, a all fod â rheoliadau neu ganllawiau penodol eu hunain, ystyried yr Atodiad hwn fel arfer gorau.

A6.2.1 Y polisi ar waith yw y dylai cryn dipyn o wybodaeth am wasanaethau cyhoeddus fod ar gael naill ai am ddim neu am gost isel, er budd y cyhoedd. Mae unrhyw beth sy'n deillio o gyrff y Goron, gan gynnwys llawer o sefydliadau sector cyhoeddus, wedi'i ddiogelu gan hawlfraint y Goron. Felly, efallai y bydd angen i bobl dalu os ydynt am ddyblygu neu brosesu (ailddefnyddio) deunydd o'r fath er elw.

A6.2.2 Mae cynhyrchion gwybodaeth yn cynnwys cyfuniad anarferol o nodweddion: fel rheol, cost cynhyrchu uchel ynghyd â chost atgynhyrchu isel. Felly, caiff cynhyrchion gwybodaeth eu trwyddedu'n aml at ddefnydd llawer o gwsmeriaid ar yr un pryd yn hytrach na'u gwerthu neu'u trosglwyddo fel arall. Gall hyn arwain at drefniadau codi tâl cymhleth er mwyn adennill costau'n gywir.

Hawliau Mynediad

A6.2.3 Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau cyhoeddus yn rhoi gwybodaeth am eu gweithgareddau a'u gwasanaethau ar y we heb unrhyw gyfyngiadau. Mae'n arfer da darparu deddfwriaeth gyfredol, cyhoeddiadau polisi cyhoeddus, dogfennau ymgynghori a deunydd ategol i raddau digonol er mwyn deall busnes pob sefydliad sector cyhoeddus. Hefyd, gall rhywfaint o'r wybodaeth hon fod ar gael mewn taflenni am ddim.

A6.2.4 Efallai y codir tâl am fersiynau papur mwy cynhwysfawr o wybodaeth neu fersiynau Technoleg Gwybodaeth (ee CD rom) o wybodaeth sydd ar gael ar y rhyngwrwd er mwyn talu'r gost cynhyrchu. Dylai hyn hefyd fod yn gymwys i fersiynau print o ddeunydd y gellir edrych arno am ddim mewn swyddfeydd cyhoeddus. Ni ddylai fod unrhyw dâl ychwanegol am ddeunydd a ddarperir er mwyn diwallu anghenion grwpiau penodol o bobl ee mewn Braille neu ieithoedd eraill.

A6.2.5 Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau yn y sector cyhoeddus, fel mater o bolisi, yn dewis darparu ar y rhyngwrwd gopiau o wybodaeth a ddatgelir mewn ymateb i geisiadau a wneir o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

Gwybodaeth y Codir Tâl Amdani

A6.2.6 Mae nifer o sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn darparu gwybodaeth y codir tâl amdani, gan gynnwys:

- Gwasanaethau a gomisiynir mewn ymateb i geisiadau penodol.
- Gwasanaethau lle mae pwerau statudol i godi tâl.
- Gwybodaeth a werthir neu a drwyddedir.

- Cyhoeddiadau sy'n prosesu data a gasglwyd yn gyhoeddus er hwylustod y cyhoedd, drwy eu golygu, eu hailddosbarthu neu eu dadansoddi mewn ffordd arall.
- Meddalwedd adfer ee meddalwedd a gyhoeddir at ddibenion defnyddio data a gasglwyd.

A6.2.7 Dylid egluro o dan ba delerau y darperir yr wybodaeth hon pan gaiff ei gwerthu neu ei thrwyddedu. Mae'n amlwg bod sicrhau bod llawer o ddeunydd sector cyhoeddus ar gael i gymaint o bobl â phosibl er budd y cyhoedd a dylid cofio hyn wrth benderfynu pa daliadau y dylid eu codi. Am y rheswm hwn gall llawer o gyhoeddiadau gael eu hailddefnyddio gan eraill am ddim. Fodd bynnag, dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus gymryd agwedd bolisi ofalus ar faterion hawlfraint, gan ddefnyddio cyngor cyfreithiol yn ôl yr angen.

A6.2.8 Fodd bynnag, gall sefydliadau sector cyhoeddus godi tâl am ddarparu rhywfaint o wybodaeth y mae derbynwyr yn bwriadu ei phrosesu ee i'w chyhoeddi mewn fformat arall. Y norm yw:

- Data crai – trwyddedu a chodi ffi i dalu'r gost ymylol.
- Data â gwerth ychwanegol – codi tâl am gost lawn gan gynnwys cyfradd adennill briodol.

Gall trwyddedau a ddarperir fel hyn gymryd nifer o ffurfiau gan gynnwys breindaliadau am bob copi ychwanegol a werthir yn achos y cymwysiadau mwyaf masnachol.

A6.2.9 Dylai sefydliadau sector cyhoeddus gynnal cofrestrau o asedau gwybodaeth fel rhan o'u strategaeth rheoli asedau. Am ragor o wybodaeth, ewch i www.nationalarchives.gov.uk. Gall swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus (OPSI – sy'n rhan o'r Archifau Gwladol) roi cyngor ar gydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus.

Atodiad 6.3

Cyfraith Cystadleuaeth

Mae angen i sefydliadau sector cyhoeddus fod yn ofalus os ydynt yn darparu gwasanaethau sy'n cystadlu â darparwyr gwasanaethau tebyg yn y sector preifat, neu a allai wneud hynny. Mae'n bwysig eu bod yn parchu gofynion cyfraith cystadleuaeth.

A6.3.1 Sefydlir cyfraith cystadleuaeth y Deyrnas Unedig yn Erthyglau 81 ac 82 o Gytundeb yr Undeb Ewropeaidd, a roddir ar waith drwy Ddeddf Cystadleuaeth 1998. Gyda'i gilydd mae'r rhain yn gwahardd cytundebau busnes sy'n atal, yn cyfyngu ar neu'n gwyrddroi cystadleuaeth fasnachol yn y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd. Maent hefyd yn gwahardd camddefnydd yn y farchnad gan unrhyw fusnes sydd mewn sefyllfa ddominyddol²⁶ mewn marchnad.

A6.3.2 Yn arbennig, ni chaniateir y mathau canlynol o gystadleuaeth annheg:

- Prisiau uchel iawn a all arwain at gamddefnyddio grym yn y farchnad.
- Prisiau isel iawn a all eithrio cystadleuwyr.
- Prisiau gwahaniaethol (neu delerau ac amodau gwasanaeth eraill) ar gyfer yr un cynnyrch i wahanol gwsmeriaid (oni wneir hynny am resymau gwrthrychol fel gwahaniaeth ansawdd neu wahanol symiau) sy'n gwyrddroi cystadleuaeth.
- Gwrthod cyflenwi cystadleuwyr heb gyfiawnhad gwrthrychol fel teilyngdod credyd cwsmeriaid gwael.

Prisio mewn Marchnadoedd Cystadleuol

A6.3.3 Dylai gwasanaethau gael eu costio'n unol â rheolau arferol adennill costau llawn. Dylid pennu taliadau er mwyn cyflawni'r amcan ariannol priodol, sef adennill costau llawn o leiaf fel arfer.

A6.3.4 Mae rhai sefydliadau sector cyhoeddus yn cyflenwi data i'w defnyddio wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ac yn gwerthu gwasanaethau gan ddefnyddio eu data mewn cystadleuaeth â chwmnïau masnachol. Mae angen i sefydliadau o'r fath ochel rhag camddefnyddio eu sefyllfa gystadleuol yn y farchnad, yn enwedig os yw'n ddominyddol. Gallai hyn ddigwydd petai sefydliad cyflenwi dominyddol yn dyrannu ei gostau mewn ffordd lle na allai cystadleuwr effeithlon wneud elw.

A6.3.5 Gall fod amgylchiadau lle mae'n briodol peidio â dilyn egwyddor arferol adennill costau llawn. Fel arfer, y cyfiawnhad dros hyn yw cyflawni mwy o effeithlonrwydd a sensitifrwydd wrth ymateb i batrymau galw neu gost, ee.

- Os na ellir ehangu'r gwasanaeth, ond bod cwsmeriaid yn fodlon talu mwy, gall fod achos dros gynyddu'r pris.

²⁶ Ystyrir bod busnes mewn sefyllfa ddominyddol os yw'n gallu ymddwyn yn annibynnol ar bwysau cystadleuol yn ei faes yn gyffredinol.

- Os oes capasiti gormodol, ac nad yw cwsmeriaid yn fodlon talu'r gost gyfredol, gall fod achos dros leihau'r tâl neu'r allbwn.
- Codi tâl ar sail cymhelliant, h.y. codi llai na'r gost i sbarduno galw, neu godi mwy i'w atal.

A6.3.6 Os bydd sefydliad sector cyhoeddus yn penderfynu peidio ag adennill costau llawn am ychydig, dylai sicrhau'r canlynol:

- Na chaiff ei brisiau eu lleihau mewn ffordd sy'n rhwystro'r gystadleuaeth (gallai cwtdogi prisiau'n sydyn fod yn annheg i gystadluewyr yn y sector preifat).
- Na chodir tâl am ei gynhyrchion a'i wasanaethau ar lefel sy'n llai na'u costau amrywiol cyfartalog neu gostau ymylol byrdymor (er nad yw hyn yn golygu na ellir codi tâl ar lefel islaw mantoli'r gyllideb am gyfnod byr, ee er mwyn cyfateb i'r gystadleuaeth).
- Bod y strategaeth codi tâl yn gydnaws ag adennill costau llawn yn y tymor canolig. Gall hyn olygu rhoi'r gorau i gynnig gwasanaeth nad yw'n ymarferol mwyach yn erbyn y gystadleuaeth.
- Na ddylai unrhyw groes-gymhorthdal rhwng gwasanaethau yrru prisiau islaw'r gost amrywiol gyfartalog neu gost ymylol byrdymor.
- Os bydd cyflenwr, mewn amgylchiadau eithriadol, yn codi llai na'r gost lawn am fod ganddo gapasiti dros ben, rhaid bod buddiannau ehangach ac ni ddylai prisiau fod islaw'r gost amrywiol gyfartalog neu'r gost ymylol byrdymor.

Cyflawni Amcanion Ariannol

A6.3.7 Fel arfer, dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus gynllunio i gyflawni eu hamcanion ariannol. Os oes angen, gall hyn olygu addasu prisiau neu reoli strwythur cost yr hyn a gyflenwir er mwyn sicrhau digon o effeithlonrwydd. Yn arbennig, os bydd cyflenwr sector cyhoeddus yn rhagweld diffyg, dylai gymryd camau adferol ar unwaith.

A6.3.8 Os bydd cyflenwr sector cyhoeddus yn rhoi'r gorau i godi costau llawn, gall fod achos dros adolygu ei amcan ariannol. Fel rheol, mae angen i unrhyw newid o'r fath gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru ar y cyd â'r Awdurdod Perthnasol.

Cymryd Pethau Ymhellach

A6.3.9 I gael canllawiau pellach ewch i wefan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, sydd â nifer o ddogfennau canllaw defnyddiol www.gov.uk/government/organisations/competition-and-markets-authority

Blwch A6.3A: Canllawiau Pellach

Ymhlith y cyfeiriadau hyn efallai y bydd y canlynol yn arbennig o ddefnyddiol:

- Y Ddeddf Cystadleuaeth a chartelau yn www.gov.uk/topic/competition/competition-act-cartels
- Camddefnyddio sefyllfa ddominyddol yn www.gov.uk/topic/competition/consumer-protection

A6.3.10 Yn fwy cyffredinol, mae'n arfer da i gyrff sy'n darparu nwyddau neu wasanaethau i farchnadoedd cystadleuol geisio cyngor cyfreithiol ar sut y dylid rhoi cyfraith cystadleuaeth ar waith ar gam cynnar.

Atodiad 7.1

Ffurio a Diwygio Cyrff Cyhoeddus

Mae'r Atodiad hwn yn cwmpasu'r broses o sefydlu cyrff cyhoeddus newydd ac ailffurfio rhai sy'n bodoli eisoes, naill ai drwy eu huno, eu diddymu neu eu trawsnewid mewn ffordd arall. Er bod y prosesau'n hyblyg, ceir rhai themâu cyffredin sy'n canolbwyntio ar atebolrwydd a symleiddio prosesau llywodraethol. Dim ond amlinelliad yw'r Atodiad – os ydych yn ymwneud â sefydlu cyrff newydd, rhaid ichi gael cyngor gan Uned Llywodraethu Corfforaethol, cyngor cyfreithiol a chyllid canolog.

Rhesymeg Cyrff Cyhoeddus

A7.1.1 Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio drwy gyrff cyhoeddus pan fo rheswm da dros wneud hynny, fel arfer pan fo'n ddefnyddiol i gorff arbenigol gyflawni swyddogaeth lle mae annibyniaeth yn bwysig. Mae gan bob corff cyhoeddus ei reswm penodol ei hun dros fodoli ac mae llawer wedi'u sefydlu o dan ddeddfwriaeth benodol sy'n pennu eu ffurf, swyddogaethau a phwerau.

A7.1.2 Y pedwar prif fath o gyrff cyhoeddus yw Asiantaethau, Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, Adrannau Anweinidogol a Chomisiynwyr (Unig Gorfforaeth). Mae gan bob un ei gryfderau ei hun ac mae'n briodol ar gyfer amrywiaeth o swyddogaethau.

A7.1.3 Caiff y tri phrif fath o gorff cyhoeddus ar gyfer cyflawni polisiau Llywodraeth Cymru eu cymharu ym mlwch A7.1A. Mae nifer o gwmnïau sy'n eiddo i'r Llywodraeth wedi cael eu sefydlu hefyd. Mae'r trefniadau ar gyfer gwneud hynny a'u llywodraethu yn debyg i'r rhai sy'n gymwys i Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

Sefydlu Corff Cyhoeddus Newydd

A7.1.4 Mae'n arfer da penderfynu'n gynnar pa fath o gorff sydd fwyaf priodol wrth sefydlu corff cyhoeddus newydd. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awyddus i sicrhau na ddylai'r ffaith y trosglwyddir swyddogaethau i gorff cyhoeddus olygu nad oes unrhyw atebolrwydd. Am y rheswm hwnnw, prin mai adrannau anweinidogol yw'r ateb cywir.

A7.1.5 Mae'n bwysig cofio nad yw annibyniaeth swyddogaethol effeithiol o reidrwydd yn golygu bod angen strwythur penodol. Gall Gweinidogion Cymru ddewis camu'n ôl o'r penderfyniadau a wneir neu'r safbwyntiau a gyhoeddir gan unrhyw gorff cyhoeddus tra'n parhau i fod â rheolaeth ariannol drosto a'i oruchwyllo.

A7.1.6 Y cam nesaf yw datblygu dogfen fframwaith sy'n pennu'r gydberthynas rhwng y corff cyhoeddus newydd a'i adran nawdd. Rhoddir cyngor ar hyn yn Atodiad 7.2. Dylai'r rhain gael eu hadolygu o bryd i'w gilydd er mwyn parhau'n ymwybodol o brofiadau a'r cyd-destun newidiol.

Blwch A7.1A: Cymhariaeth o'r tri phrif fath o gyrff cyhoeddus mewn llywodraeth ganolog

Nodwedd	Asiantaeth	Adrannau anweinidogol	Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru
Statws	Rhan o Lywodraeth Cymru	Adran yn ei rhinwedd ei hun	Sefydliad annibynnol Gall fod yn elusen
Corff y Goron	Ydy	Ydy	Ddim fel arfer
Sefydlwyd gan	Cam gweinyddol (yn gyflym ac yn hawdd fel arfer)	Cam gweinyddol, a ategir yn aml gan ddeddfwriaeth sylfaenol (os oes angen, gall gymryd amser)	Deddfwriaeth sylfaenol bwrpasol fel arfer (gall gymryd amser)
Llywodraethu	Prif Swyddog Gweithredol a gefnogir gan fwrdd	Ysgrifennydd Parhaol neu swyddog cyfatebol a gefnogir gan fwrdd	Bwrdd annibynnol a arweindir gan Gadeirydd anweithredol
Atebolrwydd gweinidogol	Gweinidogion Cymru sy'n gwneud penderfyniadau allweddol ynghylch yr asiantaeth	Prin y mae angen hyn, ond os oes, Gweinidog Cymru fydd yn penderfynu	Gweinidog Cymru sy'n penderfynu ar faterion allweddol ee p'un a ddylid addasu swyddogaethau, dirwyn i ben neu ddisodli
Llywodraeth Cymru	Mae ganddi reolaeth uniongyrchol	O bell	Yn amodol ar ddogfen fframwaith y cytunwyd arni'n ffurfiol, gall fod yn gyffyrddiad ysgafn
Ariannu	Cyllideb a/neu incwm ffioedd	Fel arfer hunan Gais am Adnoddau a/neu incwm ffioedd	Grant(iau) neu gymorth grant gan adran nawdd a/neu incwm o ffioedd neu ardollau
Cyflogeion	Gweision sifil	Gweision sifil	Dim gweision sifil fel arfer
Cyfrifon ac ati	Cyhoeddi cynlluniau a chyfrifon adnoddau fel rhan o gyfrifon blynyddol Llywodraeth Cymru	Cyhoeddi cynlluniau a chyfrifon ei hun	Cyhoeddi cynlluniau a chyfrifon ei hun

Yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru	Y Prif Swyddog Gweithredol yw swyddog cyfrifyddu'r asiantaeth, ac fe'i goruchwylir gan Swyddog Cyfrifyddu Cyhoeddus	Ei Ysgrifennydd Parhaol yw'r swyddog cyfrifyddu	Y Prif Swyddog Gweithredol yw'r swyddog cyfrifyddu fel arfer, ac fe'i goruchwylir gan Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol Llywodraeth Cymru
--	---	---	---

A7.1.7 Mater i Weinidogion Cymru yn y pen draw yw penderfynu ar ffurf unrhyw gorff cyhoeddus penodol. Bydd hyn yn dibynnu'n rhannol ar ganfyddiadau o'r swyddogaeth dan sylw, a'r graddau y mae Gweinidogion Cymru yn meddwl ei bod yn iawn ymddiddori yn ei faterion o ddydd i ddydd. Yn gyffredinol, po agosaf yw swyddogaethau'r corff cyhoeddus i ganol Llywodraeth, y mwyaf tebygol y bydd o fod yn asiantaeth; bydd statws adrannau anweinidogol yn briodol i sefydliadau cymharol fawr sy'n cyflawni swyddogaethau proffesiynol. Mae ffurf a strwythur y Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn hyblyg iawn ac yn gweddu i swyddogaethau penodol a thechnegol.

A7.1.8 Pan fydd corff cyhoeddus wedi'i gynllunio, mae'n hanfodol ymgynghori â'r Uned Llywodraethu Corfforaethol, cyllid canolog a Gwasanaethau Cyfreithiol am ei bwerau, statws a chyllid.

A7.1.9 Mae'n werth cofio mai dim ond y tri math o gorff cyhoeddus mwyaf cyffredin a geir ym mlwch A7.1A. Mae eraill yn bosibl. Yn eu plith mae corfforaethau cyhoeddus a mathau amrywiol o drefniadau cydweithredol â'r sector preifat neu'r sector gwirfoddol, y mae rhai ohonynt yn weddol llac. Mae'r Uned Llywodraethu Corfforaethol yn cadw rhestr o ddosbarthiadau cyrff cyhoeddus Llywodraeth Cymru ac mae hefyd yn cadw cofrestr o sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Gofrestr yn cael ei chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

A7.1.10 Beth bynnag fo statws cyfreithiol corff cyhoeddus, dylai ei Gangen nawdd gael system ar waith sy'n rhoi lefel briodol o reolaeth drosto iddi, yn enwedig o ran materion ariannol a materion moesegol yn ymwneud â defnyddio arian cyhoeddus. Yn gyffredinol, po fwyaf yr arian cyhoeddus, y mwyaf o reolaeth sydd ei hangen.

A7.1.11 Sut bynnag y sefydlir y corff newydd, mae'n aml yn ddymunol gweithredu cyfnod rhedeg cysgodol cyn iddo ddechrau mewn gwirionedd. Hefyd, gall y broses baratoi gymryd amser – ee ychydig flynyddoedd neu fwy yn aml ar gyfer Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

Diwygio Cyrff Cyhoeddus

A7.1.12 Er mor werthfawr y gallant fod, nid yw twf mewn cyrff cyhoeddus yn arfer da. Mae'n ychwanegu at gostau gweinyddol yn gyffredinol a gall olygu bod atebolrwydd yn ddarniog. Felly, gall fod yn angenrheidiol neu'n ddymunol ddiddymu neu uno cyrff cyhoeddus yn sgil profiad.

A7.1.13 Mae'r broses gwneud penderfyniadau yn debyg i'r hyn a geir ar gyfer sefydlu corff cyhoeddus newydd os ceir sefydliad olynol. Mae'n arfer da penderfynu ar ffurf addas ar gyfer y sefydliad newydd ac yna gynllunio deddfwriaeth, os oes angen, i'w gyflawni.

A7.1.14 Rhaid i'r sefydliad(au) blaenorol gael ei ddirwyn neu eu dirwyn i ben mewn modd priodol, gyda chyfrifon terfynol i gau'r busnes (gan gynnwys rhestr gynhwysfawr o asedau a rhwymedigaethau). Os na fydd gan sefydliad sy'n cau unrhyw staff erbyn i'r cyfrifon terfynol gael eu llunio, mae'n arferol i'r Swyddog Cyfrifyddu o'r sefydliad olynol, os oes un, fod yn gyfrifol am eu cymeradwyo. Os nad yw hyn yn bosibl, er enghraifft os nad oes olynnydd, dylai Swyddog Cyfrifyddu Cyhoeddus neu Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol y Gangen nawdd eu cymeradwyo.

A7.1.15 Pan fydd staff yn trosglwyddo i sefydliad newydd, mae'n bwysig parchu eu hawliau cyflogaeth statudol. Dylai'r broses o gynllunio hyn fod yn rhan allweddol o'r trefniadau pontio. Gall camgymeriadau fod yn gostus.

Atodiad 7.2

Llunio Dogfennau Fframwaith

Mae angen i Ganghennau nawdd wneud trefniadau i fonitro a deall strategaeth, perfformiad a chyflawniad eu cyrff cyhoeddus, sydd fel arfer yn seiliedig ar ddogfen fframwaith. Rhydd yr Atodiad hwn amlinellid o sut y gellir ei llunio. Os na ddymunir dilyn y model hwn rhaid i Uned Llywodraethu Corfforaethol Llywodraeth Cymru ei gymeradwyo.

A7.2.1 Mae'r Atodiad hwn yn cynnwys rhestr amlinellol o dermau sy'n addas i'w cynnwys yn nogfen fframwaith asiantaethau, Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill a reolir gan Ganghennau nawdd. Bydd angen i bob corff feddu ar fanyleb bwrsasol sy'n gweddu i'w strwythur a'i gyfrifoldebau penodol. Dylai'r ddogfen ganolbwyntio'n glir ar ei gydberthynas â'r Gangen nawdd, ac unrhyw Ganghennau eraill sydd â budd(iannau) ym musnes y corff cyhoeddus.

A7.2.2 Gall yr amlinellid isod gael ei addasu neu ei ddefnyddio fel sail i ddogfennau fframwaith unrhyw gorff cyhoeddus. Rhaid i rai agweddau gael eu teilwra'n briodol, yn arbennig llywodraethu corfforaethol ac mae rolau'r cadeirydd, y bwrdd a'r prif swyddog gweithredol yn debygol o fod yn wahanol i asiantaethau gweithredol a Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Nid oes rhaid i'r sawl sy'n paratoi dogfennau fframwaith ar gyfer cyrff ddilyn y model, ond rhaid iddynt drafod a chytuno ar unrhyw amrywiadau gyda'r Uned Llywodraethu Corfforaethol.

Blwch A7.2A: Manylebau Fframwaith

Dogfen Fframwaith Corff Cyhoeddus

Diben y Corff Cyhoeddus

1. Datganiad ar:

- Unrhyw ddyletswyddau statudol (a/neu rai eraill).
- Nodau strategol.
- Unrhyw ddatganiad cenhadaeth neu rywbeth tebyg.

Llywodraethu ac Atebolrwydd

2. Datganiad ar darddiad(au) cyfreithiol ei bwerau a'i ddyletswyddau.
3. Datganiad ar y nodau a bennwyd gan Weinidogion Cymru.
4. Datganiad ar ba rai o Weinidogion Cymru fydd yn rhoi cyfrif am fusnes y corff cyhoeddus i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Blwch A7.2A: Manylebau Fframwaith

Dogfen Fframwaith Corff Cyhoeddus

Llywodraethu ac Atebolrwydd (parhad)

5. Datganiad ar gyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru dros y Gangen nawdd, yn enwedig:
 - Monitro rheolaidd a goruchwyliaeth gyffredinol o fusnes y corff cyhoeddus.
 - Rhoi cyfrif am unrhyw alldaliadau cymorth grant i'r corff cyhoeddus.
 - Cydberthynas ag unrhyw sefydliad sector cyhoeddus arall sydd â budd ym musnes y corff cyhoeddus.
6. Datganiad ar gyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu'r sefydliad (y prif weithredwr fel arfer) i roi cyfrif i'r canlynol:
 - Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
 - Y Gangen nawdd.
 - Bwrdd y corff.
 - Rhanddeiliaid eraill.
7. Datganiad ar gyfrifoldebau'r canlynol:
 - Bwrdd y corff.
 - Cadeirydd y corff.
 - Aelodau bwrdd unigol.
8. Manyleb sy'n nodi cyhoeddiadau hanfodol y corff, gan gynnwys:
 - Adroddiad blynyddol a chyfrifon, gan gynnwys ei ddatganiad llywodraethu.
 - Unrhyw adroddiadau statudol.
 - Unrhyw ofynion penodol ee yn ymwneud â'i sector busnes.
9. Datganiad ar drefniadau archwilio mewnol, gan gynnwys mynediad gan Wasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru.
10. Datganiad ar drefniadau archwilio allanol, gan gynnwys:
 - Yr archwilydd (fel arfer Archwilydd Cyffredinol Cymru).
 - Cyfarwyddyd cyfrifon (a gyhoeddir gan gyllid canolog Llywodraeth Cymru).
 - Archwiliadau gwerth am arian gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Blwch A7.2A: Manylebau Fframwaith

Dogfen Fframwaith Corff Cyhoeddus

Rheolwyr a Chyfrifoldebau Ariannol

11. Datganiad yn nodi y dylai'r corff ddilyn y safonau, y rheolau, y canllawiau a'r cyngor a geir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, gan gyfeirio unrhyw anawsterau neu geisiadau posibl am eithriadau i'w Gangen nawdd yn y lle cyntaf. Manyleb yn nodi unrhyw eithriadau safonol i'r gofyniad cyffredinol hwn neu unrhyw achos o ymhelaethu arno.
12. Manylion trefniadau llywodraethu corfforaethol.
13. Manylion gweithdrefnau a gofynion rheoli risg.
14. Gofynion o ran datblygu a diwygio'r cynllun busnes, yn ôl yr amserlen ddisgwyliedig, a threfniadau clirio gyda'r Gangen nawdd.
15. Manylion gweithdrefnau cyllidebu.
16. Manylion telerau ac amodau talu cymorth grant ac unrhyw grantiau a neilltuwyd a wnaed gan y Gangen nawdd neu Grwpiau eraill Llywodraeth Cymru.
17. Manylion adrodd i'r Gangen nawdd, yn unol â'r amserlen ddisgwyliedig, gan gynnwys:
 - Prif weithgareddau'r corff.
 - Ei berfformiad ariannol.
 - Ei wariant yn erbyn ei gyllideb flynyddol.
 - Gwybodaeth fonitro arall.
 - Trefniadau cyswllt lefel weithredol.
18. Manyleb yn nodi gweithgareddau'r corff, a newidiadau y tu mewn iddo, lle mae angen i'r Gangen nawdd eu cymeradwyo, gan gynnwys terfynau awdurdod dirprwyedig ar gyfer cymeradwyo gweithgareddau a phrosiectau cyfalaf newydd.
19. Trefniadau staffio.
20. Trefniadau ar gyfer cynnal adolygiadau cyfnodol o rôl a statws y corff.

A7.2.3 Gellir cael enghraifft o'r ddogfen fframwaith a baratowyd gan yr Uned Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn:
www.intranet/English/Services/CGU/PublicBodies/Pages/WGSBs.aspx

Atodiad 7.3

Cronfeydd Masnachu

Mae'r Atodiad hwn yn trafod sut y dylai Canghennau nawdd o fewn Llywodraeth Cymru asesu cynigion ar gyfer statws cronfa fasnachu, rheoli a monitro eu cronfeydd masnachu, a delio â chyfalaf difidend cyhoeddus.

Cynigion am Statws Cronfa Fasnachu

A7.3.1 Fel rheol, bydd angen tua dwy flynedd ar gyrrff sy'n ceisio statws cronfa fasnachu i gael cytundeb ynghylch eu cynigion. Bydd angen iddynt ddangos y gall eu hincwm gynnal eu gweithrediadau fwy neu lai a bod ganddynt y capasiti i reoli eu busnes yn effeithiol. Mae'n arferol sefydlu cronfa fasnachu²⁷ i ddechrau ar 1 Ebrill gyda blwyddyn fasnachu yn cydfynd â blwyddyn ariannol y Llywodraeth gan orffen ar ddiwedd mis Mawrth. Nodir y camau allweddol ym mhlwch A7.3A.

A7.3.2 Gellir cael rhagor o ganllawiau yn nogfen y Trysorlys Ei Mawrhydi *Guide to the Establishment and Operation of Trading Funds*²⁸.

Cyfalaf Difidend Dyhoeddus

A7.3.3 Fel rheol, caiff cronfeydd masnachu eu sefydlu gyda chyfalaf tybiedig ar ffurf cyfalaf difidend cyhoeddus er, yn aml, nid oes unrhyw drafodion ariannol. Gall cyfalaf difidend cyhoeddus gynnwys lwfans ar gyfer cyfalaf gweithredol. Unwaith y'i sefydlir, dylai'r gronfa fasnachu dalu difidend i Lywodraeth Cymru ar y cyfalaf difidend cyhoeddus.

A7.3.4 O dan drefniadau cyllidebu adnoddau, mae adrannau yn sgorio cyfalaf difidend cyhoeddus eu cronfeydd masnachu fel ased. Maent hefyd yn mynd i gost tâl cyfalaf ar werth asedau net cyrrff y maent wedi buddsoddi ynddynt, gan gynnwys cronfeydd masnachu. Caiff y tâl hwn ei wrthbwyso gan dderbyn difidendau ar y cyfalaf difidend cyhoeddus a llog ar unrhyw gyfalaf benthyg. Felly, os na all y gronfa fasnachu dalu difidend, efallai y bydd angen i'r adran nawdd ddod o hyd i arbedion gwrthbwyso.

Monitro a Rheoli

A7.3.5 Dylai adrannau nawdd fonitro perfformiad eu cronfeydd masnachu, fel unrhyw ran arall o'u hadrannau. Dylent chwarae rhan weithredol yn y gwaith o asesu'r cynlluniau corfforaethol a baratowyd gan eu cronfeydd masnachu.

A7.3.6 Dylai cynllun corfforaethol y gronfa fasnachu gael ei ategu gan gynllun busnes blynyddol manylach a dylai'r adran nawdd fesur perfformiad yn ei erbyn yn fisol.

²⁷ O dan Ddeddf Cronfa Fasnachu'r Llywodraeth 1973.

²⁸ www.webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130129110402/http://www.hm-treasury.gov.uk/psr_reporting_centralgovernment.htm

A7.3.7 Mae Llywodraeth Cymru, yr Adran Gyllid a'r Uned Llywodraethu Corfforaethol yn chwarae rôl strategol. Mae angen iddynt fod yn hyderus bod gan yr adran nawdd ddigon o weithdrefnau ar waith ar gyfer monitro a rheoli ei chronfeydd masnachu. Gall chwarae rôl fwy uniongyrchol os bydd cwestiynau neu broblemau penodol yn codi.

Blwch A7.3A: Y prif gamau wrth brosesu ceisiadau ar gyfer statws cronfa fasnachu

Dylai Canghennau Nawdd:

- Ystyried a wnaiff y corff gael y rhan fwyaf o'i incwm o fasnachu mewn gwirionedd.
- Asesu a fydd statws cronfa fasnachu yn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y corff wrth reoli ei weithgareddau.
- Cael Gweinidog y portffolio i gytuno ar achos busnes amlinellol y corff.
- Paratoi achos busnes manwl, gan gynnwys rhagamcanion ariannol, trefniadau ariannu (ee benthyciadau neu gyfalaf difidend cyhoeddus), prisio asedau arbenigol, a phennu targedau ariannol.
- Trefnu asesiad annibynnol o'r achos busnes (gan ymgynghorwyr sector preifat efallai), gan gynnwys adolygiad addas i fasnachu lle na chodir tâl am nwyddau neu wasanaethau ar hyn o bryd. Bydd angen i'r adolygiad gadarnhau bod y systemau yn ddigonol i nodi costau nwyddau neu wasanaethau a ddarperir, codi taliadau angenrheidiol ar gwsmeriaid, rheoli dyledwyr, rheoli arian parod sy'n dod i mewn, a chynnal systemau cyfrifyddu ac adrodd digonol.
- Gweithio gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi a Swyddfa Cymru er mwyn sicrhau yr aed i'r afael ag unrhyw bryderon a phrosesau (gweler isod).
- Ymgynghori â chwsmeriaid, staff a rhanddeiliaid eraill a'u cynghori ynghylch y cynnig i sefydlu cronfa fasnachu (yn y pen draw caiff canlyniadau'r ymgynghoriad eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru).
- Ymgynghori â'r Adran Gyllid a'r Uned Llywodraethu Corfforaethol ynghylch:
 - Cyfalafu'r gronfa fasnachu, ee swm o arian parod, benthyciadau'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol neu gyfalaf difidend cyhoeddus.
 - Trefniadau ar gyfer monitro perfformiad ariannol y gronfa fasnachu.
 - Targedau ariannol.
 - Penodi'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y gronfa fasnachu.
 - Y Ddogfen Fframwaith.
 - Y gorchymyn drafft ar gyfer y Gronfa Fasnachu.

Adran Gyllid Llywodraeth Cymru

- Mae'n pennu cyfeiriad y gronfa fasnachu a gaiff ei llywio gan y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol a chan gyfarwyddyd safonol ar ei adroddiad a'i gyfrifon.

Trysorlys Ei Mawrhydi

- Mae'n cytuno ar yr achos busnes sylfaenol a chyfalafu'r gronfa fasnachu.
- Mae'n cyhoeddi cyfarwyddyd o dan Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 sy'n pennu sut y caiff yr asedau a'r rhwymedigaethau i'w priodoli i'r gronfa fasnachu eu prisio.

Atodiad 7.4

Gweithio Gyda'r Trydydd Sector

Mae'r atodiad hwn yn trafod y cydberthnasau gwaith rhwng Llywodraeth Cymru a chyrrff Trydydd Sector, gan gyfeirio at ganllawiau pellach. Dylai sefydliadau eraill y sector cyhoeddus ystyried hyn fel arfer gorau.

A7.4.1 Mae'r Trydydd Sector yn cwmpasu amrywiaeth o sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, elusennau, mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol a chwmmnïau cydfuddiannol.

A7.4.2 Mae Adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio cynllun yn nodi sut y maent yn bwriadu ystyried buddiannau sefydliadau gwirfoddol perthnasol wrth gyflawni eu swyddogaethau.

A7.4.3 Mae'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi wedi cyhoeddi Cynllun Trydydd Sector²⁹ newydd sy'n parhau i ategu cydberthynas waith hirdymor Llywodraeth Cymru â'r Trydydd Sector yma yng Nghymru.

A7.4.4 Mae'r Cynllun yn unigryw i Gymru – nid oes gan unrhyw ran arall o'r DU rwymedigaeth i baratoi dogfen o'r fath – ac ar ddechrau datganoli yn 1999 hon oedd yr unig ddogfen o'i bath yn Ewrop.

Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector

A7.4.5 O dan y Cynllun mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector. Mae hyn yn golygu bod y Trydydd Sector yn gyfartal â llywodraeth leol a byd busnes o ran ei drefniadau partneriaeth â Llywodraeth Cymru.

A7.4.6 Mae'n ofynnol i Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector wneud y canlynol:

- Ystyried materion sy'n ymwneud ag amcanion strategol a swyddogaethau Llywodraeth Cymru ac sy'n cynnwys buddiannau'r Trydydd Sector, a gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru.
- Cytuno ar y Fframwaith Ymgysylltu, ei fonitro a'i adolygu.
- Darparu cyngor ar weithredu, monitro ac adolygu Cynllun y Trydydd Sector gan gynnwys pennu dangosyddion ar gyfer gwerthuso'r Cynllun.
- Hwyluso ymgynghoriad â sefydliadau perthnasol y Trydydd Sector a chyrrff perthnasol y Sector Cyhoeddus ynghylch gweithredu ac adolygu'r Cynllun.

A7.4.7 Caiff Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ei gadeirio gan Weinidog Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y Trydydd Sector (y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ar hyn o bryd). Cytunir ar amserlen y cyfarfodydd (o leiaf ddwywaith y flwyddyn). Ar hyn o bryd mae aelodaeth y Trydydd Sector yn cynnwys 25 o gynrychiolwyr is-sectoraidd (ee y celfyddydau; menter gymdeithasol; gweithredu amgylcheddol; iechyd ac ati) sy'n gyfrifol am fwydo'n ôl i'w priod rwydweithiau. Caiff cyfansoddiad a gweithrediadau'r Cyngor eu hadolygu ar hyn o bryd.

²⁹ www.wales.gov.uk/topics/people-and-communities/voluntarysector/publications/third-sector-scheme/?lang=cy

Cod Ymarfer ar gyfer Cyllid

A7.4.8 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod yn rhaid i'w fframwaith polisi ar gyfer y Trydydd Sector gynnwys mesurau i gynorthwyo'r sector fel y nodwyd yn is-adran (4) (a) o Adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

A7.4.9 Bydd lefel yr adnoddau ariannol sydd ar gael yn pennu graddau'r fath gymorth a ddarperir ar ffurf grantiau ac ati, a bydd angen i arian gael ei dargedu yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod ei rôl yn y gwaith o sicrhau bod y Trydydd Sector yn cael mynediad teg a rhesymol i gronfeydd cyhoeddus.

A7.4.10 Ar draws ei holl swyddogaethau, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sefydlu a chynnal gweithdrefnau er mwyn sicrhau arfer gorau a dderbynnir mewn perthynas â gweinyddu ei chynlluniau grant a rhai asiantaethau sy'n gweinyddu cronfeydd ar ei rhan.

A7.4.11 Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal, yn defnyddio ac yn hyrwyddo Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector sydd bellach yn rhan o Gynllun y Trydydd Sector yn Atodiad A (Gweler y ddolen uchod sy'n nodi'r egwyddorion allweddol a fydd yn sail i gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y Trydydd Sector yn ogystal â'r hyn y mae'r Llywodraeth yn ei ddisgwyl gan y Trydydd Sector yn gyfnewid am hyn).

Mae'r egwyddorion allweddol fel a ganlyn:

- i. Cyflawni amcanion polisi strategol.
- ii. Parchu annibyniaeth y sector.
- iii. Deialog cynnar ac adeiladol.
- iv. Penderfyniadau amserol.
- v. Sicrwydd cyllid.
- vi. Lefelau ariannu teg.
- vii. Gwerth am arian.
- viii. Adennill costau llawn.
- ix. Egwyddorion comisiynu.
- x. Taliadau.
- xi. Triniaeth deg a rhesymol.
- xii. Dull ar y cyd o fonitro, gwerthuso ac archwilio.
- xiii. Nodi arbenigedd a datblygu'r gallu i gyflawni.
- xiv. Amrywiaeth.
- xv. Arloesedd.
- xvi. Llywodraethu Da a Diwydrwydd Dyladwy.
- xvii. Monitro'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector.

A7.4.12 Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector a'r telerau ac amodau a gyhoeddir adeg rhoi grant yn galluogi Llywodraeth Cymru i fonitro'r defnydd a wneir o unrhyw gymorth a ddarperir ganddi i sefydliadau perthnasol.

A7.4.13 Caiff y Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector ei fonitro gan Is-bwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector.

A7.4.14 Rhaid i holl Adrannau Llywodraeth Cymru gydymffurfio â'r Cod hwn. Bydd yn ofynnol i Gyrrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru gydymffurfio drwy eu cytundebau ariannu. Rhaid i bob corff cyhoeddus arall (gan gynnwys cyrrff y GIG ac awdurdodau lleol) gydymffurfio â'r Cod hwn mewn achosion lle mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid a neilltuwyd iddynt. Hefyd, disgwylir i gydymffurfiaeth awdurdodau lleol Cymru a, lle y bo'n berthnasol, fyrdau iechyd lleol perthnasol â'r egwyddorion hyn (fel y nodir uchod) gael ei hadlewyrchu mewn Compactau Trydydd Sector lleol.